



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 24 Chwefror 2010
Wednesday, 24 February 2010**

Cynnwys
Contents

3	Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer
3	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb Questions to the Minister for Business and Budget
23	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage
41	Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog i Ganiatáu'r Cynulliad i Draffod a Chymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010 Motion to Suspend Standing Orders to Allow the Assembly to Debate and Approve the Draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010
43	Dadl a Chymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010 Debate and Approval of the Draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010
64	Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission
65	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Twristiaeth Welsh Conservatives Debate: Tourism
94	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ombwdsmon Archfarchnadoedd Welsh Conservatives Debate: Supermarket Ombudsman
122	Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Yr Economi Werdd The Welsh Liberal Democrats Debate: The Green Economy
150	Cyfnod Pleidleisio Voting Time
161	Cynnig Trefniadol Procedural Motion

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn yn y Cynulliad.

The Presiding Officer: Order in the Assembly.

Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer

Y Llywydd: Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw. Gwahoddaf enwebiadau.

The Presiding Officer: In the absence of the Deputy Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for today's Plenary. I invite nominations.

Peter Black: I nominate William Graham.

Peter Black: Yr wyf yn enwebu William Graham.

The Presiding Officer: Thank you. There being no other nominations within my hearing, I therefore declare that William Graham is elected as temporary Deputy Presiding Officer, and I thank him, as I thanked Peter Black yesterday, for his sterling support in this essential role for our proceedings.

Y Llywydd: Diolch. Gan na chlywaf yr un enwebiad arall, yr wyf yn datgan, felly, bod William Graham wedi'i ethol yn Ddirprwy Lywydd Dros Dro, a diolchaf iddo ef, fel y diolchais i Peter Black ddoe, am ei gymorth gwych yn y rôl hon sy'n hanfodol i'n trafodion.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb Questions to the Minister for Business and Budget

Portfolio Priorities

Q1 Andrew R.T. Davies: Will the Minister make a statement on her portfolio priorities for South Wales Central for the next 12 months? OAQ(3)0972(BB)

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): In South Wales Central, we are committed to delivering better outcomes for the people of Wales. We will achieve that by continuing to progress our 'One Wales' agenda to provide public services that meet the needs of Welsh citizens.

Andrew R.T. Davies: One of your portfolio responsibilities is to provide funding for various departments that provide key public services within South Wales Central. A key tenet of that funding is the Barnett formula and the consequences that flow from it. On occasion, you have referred in the Chamber to your meeting with Liam Byrne, Chief Secretary to the Treasury, and your 'united

Blaenoriaethau Portffolio

C1 Andrew R.T. Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau portffolio ar gyfer Canol De Cymru am y 12 mis nesaf? OAQ(3)0972(BB)

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Yng Nghanol De Cymru, yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru. Byddwn yn cyflawni hynny trwy barhau i wneud cynnydd gyda'n hagenda 'Cymru'n Un' i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu anghenion dinasyddion Cymru.

Andrew R.T. Davies: Un o'r cyfrifoldebau yn eich portffolio yw rhoi cyllid i wahanol adrannau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghanol De Cymru. Un o elfennau allweddol y cyllid hwnnw yw fformiwla Barnett, a'r canlyniadau o hynny. Yn achlysurol, yr ydych wedi cyfeirio yn y Siambr at eich cyfarfod â Liam Byrne, Prif Ysgrifennydd y

approach', as I believe you said, to the need to look at the Barnett formula to take account of Wales's special circumstances, especially the social consequences of it. Yet, in a letter to an MP in the House of Commons, Liam Byrne clearly states that there is no need to change the Barnett formula and that the Government has no plans to do so. Will you inform Plenary today whose recollection of the meeting between you and Liam Byrne is correct? Is it his, as set out in writing in a letter to an MP, or yours, when reporting on it to Plenary?

Jane Hutt: The agreement that was forged between the Chief Secretary to the Treasury and me in January is the one that I report on here in the Assembly. As you recall, I met with the Chief Secretary to the Treasury and raised with him the problems and issues surrounding convergence funding. I also talked to him about the proposed Barnett floor, which I am sure you are fully aware of, as a mechanism to take us forward to address the difficulties that we face with convergence. Work with the Treasury to review convergence has already begun, and he assured me on that day that work would start immediately. He also said—and I do not need to quote him because he said it in the television studios here—that he would take a long, hard look at the Barnett formula, so that is what I will hold him to. Work with the Treasury to review convergence has begun. The assessment of spending per head will take place at the next comprehensive spending review, as was agreed and as was also included in the Secretary of State for Wales's statement in November. The preliminary work on that assessment is under way.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, Minister, but it is clear in correspondence with Members of the House of Commons that the Chief Secretary to the Treasury believes—and these are his words, not mine—that there is no need to change the Barnett formula for Wales. Those are his words in the letter. He has obviously taken a

Trysorlys, a'r hyn yr wyf y credaf ichi ei alw'n agwedd unedig at yr angen i edrych ar fformiwla Barnett er mwyn ystyried amgylchiadau arbennig Cymru, yn enwedig canlyniadau cymdeithasol hynny. Eto i gyd, mewn llythyr at Aelod Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin, mae Liam Byrne yn dweud yn glir nad oes angen newid fformiwla Barnett, ac nad oes gan y Llywodraeth ddim bwriad i wneud hynny. A ddywedwch chi wrth y Cyfarfod Llawn heddiw atgof pwy o'r cyfarfod rhyngoch chi a Liam Byrne sy'n gywir? Ai ei atgof ef, a nodwyd yn ysgrifenedig mewn llythyr at Aelod Seneddol, ynteu eich atgof chi, wrth adrodd amdano yn y Cyfarfod Llawn?

Jane Hutt: Y cytundeb a luniwyd rhwng Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a minnau ym mis Ionawr yw'r cytundeb yr adroddaf amdano yma yn y Cynulliad. Fel y cofiwch, cwrddais â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, a soniais wrtho am y problemau a'r materion sy'n gysylltiedig â chyllid cydgyfeirio. Siaradais ag ef hefyd am y terfyn isaf arfaethedig ar gyfer Barnett, yr wyf yn siŵr eich bod yn hollol ymwybodol ohono, fel system i'n symud ymlaen i fynd i'r afael â'r trafferthion sy'n ein hwynebu o ran cydgyfeirio. Mae gwaith eisoes wedi dechrau gyda'r Trysorlys i adolygu'r rhaglen gydgyfeirio, a chefais sicrwydd ganddo'r diwrnod hwnnw y byddai'r gwaith yn dechrau ar unwaith. Dywedodd hefyd—ac nid oes angen imi ei ddyfynnu oherwydd fe'i dywedodd yn y stiwdios teledu yma—y byddai'n astudio fformiwla Barnett yn fanwl iawn, a dyna'r addewid y byddaf yn ei ddal ato, felly. Mae gwaith wedi dechrau gyda'r Trysorlys i adolygu'r rhaglen gydgyfeirio. Bydd asesiad o wariant y pen yn digwydd yn ystod yr adolygiad cynhwysfawr nesaf o wariant, fel y cytunwyd ac fel y nodwyd hefyd yn natganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Tachwedd. Mae'r gwaith rhagarweiniol ar yr asesiad hwnnw'n mynd rhagddo.

Andrew R.T. Davies: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, ond mae'n amlwg mewn gohebiaeth ag Aelodau Tŷ'r Cyffredin fod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn credu—a'i eiriau ef yw'r rhain, nid fy ngeiriau i—nad oes angen newid fformiwla Barnett i Gymru. Dyna'i eiriau yn y llythyr. Mae'n amlwg ei fod wedi astudio'r fformiwla'n fanwl iawn,

long, hard look at it and decided that the Government will not change it. Do you accept that position? Do you also accept that you, as a Government, now face a serious uphill battle to convince your colleagues at Westminster?

Jane Hutt: Treasury officials—even as we speak, I am sure—along with Wales Office officials and my officials, are now doing the work that was promised by Liam Byrne, the Chief Secretary to the Treasury, to assess the impact of convergence. That was the commitment made in November by Peter Hain, the Secretary of State for Wales. I secured that commitment to start the work, and it is under way. We look to ensure that our main priority as an Assembly Government is to secure outcomes based on the Holtham commission's first report. We had a robust debate here in the autumn, and the detailed work to take that forward is well in hand.

Chris Franks: I am sure that we all welcome the very late conversion of the Conservatives to achieve fair funding, but they are just the lapdogs of their masters in London. One day, perhaps we will have confirmation that Osborne—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I want to hear what Mr Franks says, just to ascertain that it is in order.

Chris Franks: We look forward to information from elsewhere. Minister, what meetings do you intend to have with your Treasury colleagues in London to move forward with the Holtham commission report? For every day there is a delay, Wales loses £1 million. That is more than £300 million a year, which could make a huge contribution to addressing the needs of our country.

Jane Hutt: I will not repeat my assurances about the work that is being undertaken between Treasury officials, my officials, and Wales Office officials as a result of the commitment secured not only from the Secretary of State in November, but also from the Chief Secretary to the Treasury in

a'i fod wedi penderfynu na fydd y Llywodraeth yn ei newid. A ydych yn derbyn y safbwynt hwnnw? A ydych yn derbyn hefyd eich bod chi, fel Llywodraeth, yn awr yn wynebu brwydr anodd a difrifol i ddarbwylllo'ch cydweithwyr yn San Steffan?

Jane Hutt: Mae swyddogion y Trysorlys ynghyd â swyddogion Swyddfa Cymru a'm swyddogion i—y funud hon, mae'n siŵr—yn gwneud y gwaith a addawyd gan Liam Byrne, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, i asesu effaith y rhaglen gydgyfeirio. Dyna'r ymrwymiad a wnaed ym mis Tachwedd gan Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Sicrhais ein bod yn cael yr ymrwymiad hwnnw i ddechrau ar y gwaith, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Gobeithiwn wneud yn siŵr mai ein prif flaenoriaeth fel Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau canlyniadau'n seiliedig ar adroddiad cyntaf comisiwn Holtham. Cawsom ddadl gref yma yn yr hydref, ac mae'r gwaith manwl i symud y mater yn ei flaen yn mynd rhagddo'n dda.

Chris Franks: Yr wyf yn siŵr ein bod bob un yn croesawu'r ffaith fod y Ceidwadwyr wedi newid eu meddwl yn hwyr iawn yn y dydd i sicrhau cyllid teg, ond cŵn anwes yn unig ydynt i'w meistri yn Llundain. Ryw diwrnod hwyrach y cawn gadarnhad bod Osborne—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf am glywed yr hyn y mae Mr Franks yn ei ddweud, i gadarnhau ei fod mewn trefn.

Chris Franks: Edrychwn ymlaen at gael gwybodaeth o le arall. Weinidog, pa gyfarfodydd y bwriadwch eu cael â'ch cydweithwyr yn y Trysorlys yn Llundain i symud ymlaen gydag adroddiad comisiwn Holtham? Bob dydd tra bydd oedi mae Cymru'n colli £1 filiwn. Mae hynny dros £300 miliwn y flwyddyn, a allai gyfrannu'n aruthrol at fynd i'r afael ag anghenion ein gwlad.

Jane Hutt: Nid wyf am ailadrodd y sicrwydd yr wyf wedi'i roi ynghylch y gwaith y mae swyddogion y Trysorlys, fy swyddogion i a swyddogion Swyddfa Cymru yn ei wneud rhyngddynt o ganlyniad i'r ymrwymiad a gafwyd, nid yn unig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Tachwedd, ond gan Brif

January. It is not only the Holtham commission that has recognised the need to look carefully at the Barnett formula, as the House of Lords Select Committee has also determined that it should no longer be used, urging the introduction of a new needs-based system. We secured a commitment to review convergence and its impact, which demonstrates that the long, hard look at Barnett is under way.

We also need to look at the practical proposal that we debated in the Chamber of securing a Barnett floor from the UK Government and implementing it. That would mean that any positive increments for Wales would be multiplied by 140 per cent, reflecting the level of funding that Wales would get if it were funded by the methods used by the UK Government to allocate resources in England. That would place a floor under the Barnett squeeze. I ask Members across the Chamber whether they back me in calling for a Barnett floor.

The Wales Spatial Plan

Q2 Joyce Watson: Will the Minister provide an update on the Wales spatial plan? OAQ(3)0986(BB)

Jane Hutt: The Wales spatial plan provides the overarching framework for the long-term sustainable development of the regions of Wales. Focusing on the distinctiveness of the different areas ensures that all partners work together so that policies and investment are shaped to respond to local need.

Joyce Watson: Thank you for that answer, Minister. As you said, since the plan was adopted in 2004, there have been many examples of collaborative working, and the spatial-plan-led Ministers have worked successfully alongside the local service boards to improve service delivery. However, the economic landscape has changed since the plan was updated in 2008. Therefore, do you think that the plan might be reviewed to take account of the economic outlook in 2010 to ensure that money targeted at regional

Ysgrifennydd y Trysorlys hefyd ym mis Ionawr. Nid comisiwn Holtham yn unig sydd wedi cydnabod bod angen astudio fformiwla Barnett yn ofalus, gan fod Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi hefyd wedi penderfynu na ddylid ei defnyddio mwyach, ac wedi pwysu am gyflwyno system newydd yn seiliedig ar anghenion. Cawsom ymrwymiad i adolygu'r rhaglen gydgyfeirio a'r effaith a gaiff, sy'n dangos bod gwaith ar y gweill i astudio fformiwla Barnett yn fanwl iawn.

Mae angen hefyd inni ystyried y cynnig ymarferol y cawsom ddafl arno yn y Siambr, sef y cynnig i sicrhau terfyn isaf ar gyfer Barnett gan Lywodraeth y DU, a'i weithredu. Golygai hynny y byddai unrhyw ychwanegiadau cadarnhaol i Gymru yn cael eu lluosogi 140 y cant, sy'n adlewyrchu lefel y cyllid a gâi Cymru pe bai'n cael ei hariannu drwy'r dulliau a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i ddyrannu adnoddau yn Lloegr. Byddai hynny'n pennu terfyn isaf dan wasgfa Barnett. Gofynnaf i'r Aelodau ar draws y Siambr a ydynt yn fy nghefnogi wrth imi alw am derfyn isaf ar gyfer Barnett.

Cynllun Gofodol Cymru

C2 Joyce Watson: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gofodol Cymru? OAQ(3)0986(BB)

Jane Hutt: Mae cynllun gofodol Cymru yn darparu'r fframwaith cyffredin ar gyfer datblygu rhanbarthau Cymru yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae canolbwyntio ar hynodrwydd y gwahanol ardaloedd yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod polisiau a gwaith buddsoddi'n cael eu haddasu i ymateb i'r angen yn lleol.

Joyce Watson: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel yr oeddech yn ei ddweud, ers mabwysiadu'r cynllun yn 2004, cafwyd llawer enghraifft o gydweithio, ac mae'r Gweinidogion sy'n cael eu harwain gan y cynllun gofodol wedi gweithio'n llwyddiannus ochr yn ochr â byrddau gwasanaethau lleol i wella'r modd y darperir gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r dirwedd economaidd wedi newid ers diweddarau'r cynllun yn 2008. Felly, a ydych yn credu y gellid adolygu'r cynllun i ystyried y

development is spent as efficiently as possible?

Jane Hutt: You are aware that the Wales spatial plan was formally updated in 2008, and it sets out those long-term visions that allow partners to be flexible. Your reference to local service boards is important, because spatial plan Ministers meet regularly with the local service boards to share good practice and to make links to facilitate local and regional collaborative delivery. On the economic situation, officials with the Department for the Economy and Transport are now working on the development of the economical renewal programme to help us to ensure that the Wales spatial plan contributes to the implementation of an effective response to current economic challenges.

Angela Burns: Thank you for your answer to Joyce Watson, Minister. Can you also look at how the areas of strategic regeneration fit into the Wales spatial plan? When you look at whether the funding follows the spatial plan, you see that it simply does not. Most of the funding, especially the European convergence funding, goes into these areas of strategic regeneration, which do not tie in with the six key areas of the Wales spatial plan. Some of those that are not within designated strategic regeneration areas are missing out, and the economy in those areas—Pembrokeshire Haven being one of them—is suffering as a result.

The Wales spatial plan is also supposed to have an adviser in every portfolio to help to promote it, and so will you look at that? I ask you to bring this to the attention of your colleague, Carl Sargeant. Looking at small businesses is the key to developing the tourism industry, including those in Pembrokeshire and Carmarthenshire. The current issue with the council tax and business taxes is not helping at all and does not tie in with the aims of the spatial plan.

1.40 p.m.

Jane Hutt: You have raised a number of important points about the role of the spatial plan area groups, which are strategic. They

rhagolygon economaidd yn 2010, i sicrhau bod arian ar gyfer datblygu rhanbarthol yn cael ei wario mor effeithlon ag sy'n bosibl?

Jane Hutt: Gwyddoch fod cynllun gofodol Cymru wedi'i ddiweddarau'n ffurfiol yn 2008, ac mae'n egluro'r gweledigaethau hirdymor sy'n galluogi partneriaid i fod yn hyblyg. Mae eich cyfeiriad at fyrddau gwasanaethau lleol yn bwysig, oherwydd bydd Gweinidogion y cynllun gofodol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r byrddau gwasanaethau lleol i rannu arfer da a chreu cysylltiadau er mwyn hwyluso darpariaeth gydweithredol leol a rhanbarthol. O ran y sefyllfa economaidd, mae swyddogion yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wrthi'n gweithio ar ddatblygu'r rhaglen i adnewyddu'r economi i'n helpu i sicrhau bod cynllun gofodol Cymru yn cyfrannu at weithredu ymateb effeithiol i'r heriau economaidd presennol.

Angela Burns: Diolch am eich ateb i Joyce Watson, Weinidog. A allwch edrych hefyd ar y modd y mae'r ardaloedd adfywio strategol yn cyd-fynd â chynllun gofodol Cymru? Wrth edrych a yw'r cyllid yn dilyn y cynllun gofodol, fe welwch nad ydyw, yn syml iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid, yn enwedig y cyllid cydgyfeirio Ewropeaidd, yn mynd i'r ardaloedd adfywio strategol, nad ydynt yn cyd-fynd â'r chwe phrif ardal yng nghynllun gofodol Cymru. Mae rhai o'r manau hynny nad ydynt mewn ardaloedd adfywio strategol dynodedig dan anfantais, ac mae'r economi yn y manau hynny—mae Hafan Sir Benfro yn un ohonynt—yn dioddef o ganlyniad.

Mae cynllun gofodol Cymru hefyd i gael ymgynghorydd ym mhob portffolio, mae'n debyg, i helpu hyrwyddo'r cynllun. A wnewch chi ystyried hynny, felly? Gofynnaf ichi ddod â'r mater i sylw eich cydweithiwr, Carl Sargeant. Edrych ar fusnesau bach yw'r allwedd i ddatblygu'r diwydiant twristiaeth, gan gynnwys y rheini yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Nid yw'r broblem bresennol gyda'r dreth gyngor ac ardrethi busnes yn helpu o gwbl, ac nid yw'n cyd-fynd â nodau'r cynllun gofodol.

Jane Hutt: Yr ydych wedi codi nifer o bwyntiau pwysig ynghylch rôl grwpiau ardal y cynllun gofodol, sy'n strategol. Mae'r

are there to set the context and the vision, and to facilitate collaboration. The strategic regeneration areas are more operational, but they do help to deliver the Wales spatial plan's objectives. Close interaction with the strategic regeneration areas is a matter that cuts across Cabinet responsibilities, and the areas help to co-ordinate the investment of many agencies on the ground. However, it is important that we look to the spatial plan to fulfil that overarching strategic role for collaboration, and look to the strategic regeneration areas for delivery at an operational local level.

Leanne Wood: Wales has excellent natural resources and, in the context of climate change we should all be doing as much as we can to produce renewable energy and promote local food production. Do you agree that expanding the availability of land for growing food and for renewable energy projects is desirable? If so, can you tell us what provision there will be in the budget to enable the expansion of the land available for those uses?

Jane Hutt: You may be aware that the Minister for Rural Affairs has set up a working group to help with the preparation of an action plan on this matter, which includes supporting and developing aspects of community-grown food, and covering the issue of land availability. On the availability of land for the development of renewable energy projects, there are opportunities for initiatives such as the Forestry Commission's windfarm development programme and the new feed-in tariff scheme, or FIT, which will incentivise small-scale renewable energy developments. However, the key point about food-growing projects is that we have a wide range of external expertise, and key Assembly officials will be issuing their recommendations to the Minister in April. We can then see what strategic or budgetary opportunities that will present.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(3)0989(BB), yn ôl.

grwpiau'n bodoli er mwyn gosod y cyd-destun a'r weledigaeth, ac i hwyluso cydweithredu. Mae'r ardaloedd adfywio strategol yn fwy gweithredol, ond maent yn helpu cyflawni amcanion cynllun gofodol Cymru. Mae rhyngweithio'n agos â'r ardaloedd adfywio strategol yn fater sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Cabinet cyfan, ac mae'r ardaloedd yn helpu cydgysylltu'r buddsoddi gan nifer o asiantaethau ar lawr gwlad. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni droi at y cynllun gofodol i gyflawni'r rôl strategol eang honno ar gyfer cydweithredu, ac throï at yr ardaloedd adfywio strategol i gyflawni ar lefel leol weithredol.

Leanne Wood: Mae gan Gymru adnoddau naturiol ardderchog, ac yng nghyd-destun y newid yn yr hinsawdd dylem i gyd fod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a hybu gwaith cynhyrchu bwyd yn lleol. A ydych yn cytuno bod ehangu'r tir sydd ar gael i dyfu bwyd a chynnal prosiectau ynni adnewyddadwy yn ddymunol? Os felly, a allwch ddweud wrthym pa ddarpariaeth a fydd yn y gyllideb i sicrhau bod modd ehangu'r tir sydd ar gael at y dibenion hynny?

Jane Hutt: Efallai eich bod yn gwybod bod y Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi sefydlu gweithgor i helpu paratoi cynllun gweithredu ar y mater hwn, sy'n cynnwys cefnogi a datblygu agweddau ar dyfu bwyd yn y gymuned, a chynnwys y broblem o allu cael tir. O safbwynt tir sydd ar gael i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, mae yna gyfleoedd i fentrau megis rhaglen datblygu ffermydd gwynt y Comisiwn Coedwigaeth, a chynllun y tariff newydd ar gyfer bwydo i mewn a fydd yn gymhelliad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Fodd bynnag, y pwynt allweddol ynghylch prosiectau tyfu bwyd yw fod gennym ystod eang o arbenigedd allanol, a bydd prif swyddogion y Cynulliad yn cyhoeddi eu hargymhellion i'r Gweinidog ym mis Ebrill. Yna, gallwn weld pa gyfleoedd strategol neu gyllidebol y bydd hynny'n eu cynnig.

The Presiding Officer: Question 3, OAQ(3)0989(BB), has been withdrawn.

The Future Funding of the Welsh Budget**Ariannu Cyllideb Cymru yn y Dyfodol**

Q4 Lorraine Barrett: Will the Minister provide an update on discussions with the UK Government on the future funding of the Welsh budget? OAQ(3)0965(BB)

C4 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU am ariannu cyllideb Cymru yn y dyfodol? OAQ(3)0965(BB)

Jane Hutt: I have regular discussions with my counterparts in the UK Government. I recently hosted the financial quadrilateral for all the Ministers for finance in the UK, at which we touched on a range of issues.

Jane Hutt: Byddaf yn cael trafodaethau gyda'm cymheiriaid yn Llywodraeth y DU yn rheolaidd. Yn ddiweddar trefnais y cyfarfod ariannol pedrochrog ar gyfer pob un o'r Gweinidogion cyllid yn y DU, lle buom yn trafod amrywiaeth o faterion.

Lorraine Barrett: Thanks for that response, Minister. I am particularly interested in the success of the ProAct and ReAct initiatives. In Cardiff alone, nearly 300 jobs have been saved, thanks to the ProAct scheme, which is to be welcomed in this challenging financial climate. I know that discussions with the UK Government are ongoing—and you have already talked about the Barnett formula this afternoon—but I would be interested in having an update on, and a reiteration of, your commitment to work with the UK Government to look at the Barnett formula and how it might impact on our ability to create and continue with schemes such as ProAct.

Lorraine Barrett: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weiniidog. Mae gennyf ddi-ddordeb arbennig yn llwyddiant y mentrau ProAct a ReAct. Mae bron i 300 o swyddi wedi eu harbed yng Nghaerdydd yn unig, diolch i'r cynllun ProAct, ac mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu yn yr hinsawdd ariannol heriol hon. Gwn fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU—ac yr ydych eisoed wedi sôn am fformiwla Barnett y prynhawn yma—ond hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am eich ymrwymiad, a'ch clywed yn ailddatgan eich ymrwymiad, i weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn edrych ar fformiwla Barnett ac ystyried sut y gallai'r fformiwla effeithio ar ein gallu i greu cynlluniau megis ProAct a pharhau i'w gweithredu.

Jane Hutt: As you said, we have already touched on this subject in questions this afternoon. It is important to link the Barnett formula with our ability not only to innovate, as we have done with ProAct, but also to take these schemes forward as we lead Wales out of recession and into recovery. I take the opportunity today to tell the Assembly that ProAct has received 392 applications, and that 195 companies have received support from the scheme, assisting more than 9,245 workers. It is that kind of delivery and innovation that we want to take forward. At the recent economic summit, Lesley Griffiths announced the next stage of ProAct, which was warmly welcomed by business partners around the table. The next stage includes a £15 million-worth allocation to extend ProAct and to introduce its successor programme for skills growth. It is important to recognise that the Holtham report

Jane Hutt: Fel yr oeddech yn ei ddweud, yr ydym eisoed wedi cyffwrdd â'r pwnc hwn mewn cwestiynau y prynhawn yma. Mae'n bwysig cysylltu fformiwla Barnett â'n gallu nid yn unig i arloesi, fel yr ydym wedi gwneud gyda ProAct, ond hefyd i fwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn wrth inni arwain Cymru allan o'r dirwasgiad a thuag at adferiad. Hoffwn gymryd y cyfle heddiw i ddweud wrth y Cynulliad bod 392 cais wedi dod i law yng nghyswllt ProAct, a bod 195 o gwmnïau wedi cael cymorth gan y cynllun, gan gynorthwyo dros 9,245 o weithwyr. Dyna'r math o ddarpariaeth ac arloesedd yr ydym yn dymuno bwrw ymlaen ag ef. Yn yr uwchgynhadledd economaidd yn ddiweddar, cyhoeddodd Lesley Griffiths gam nesaf ProAct, a gafodd groeso cynnes gan bartneriaid busnes o gwmpas y bwrdd. Mae'r cam nesaf yn cynnwys dyrannu gwerth £15 miliwn i ehangu cynllun ProAct a

concluded that Wales is underfunded, and that is why we are completing the work with the Treasury to assess the impact of convergence and to take forward the commitments that have been made, with our partners in the UK Government, to assess the impact of convergence on the Barnett formula.

Nick Ramsay: Minister, may I ask you a bit more about your view on the Barnett formula? You gave an answer earlier to my colleague, Andrew R.T. Davies, but I am still not entirely clear about your commitment to a fairer funding formula for Wales. I attended one of the excellent Gerry Holtham seminars with some other Assembly Members only a couple of days ago. I left with my head spinning because of the very complex issues related to the devolution of fiscal power. For the future, in the absence of any immediate obvious solution to us having fiscal powers here, it seems that we will continue to be reliant on the Barnett formula. There is now widespread acceptance that that formula is short-changing Wales. Aside from any floor to the Barnett formula, does your Government give categorical support to a revision of the formula that would see Wales far better funded in future, and particularly in economically difficult times?

Jane Hutt: I am tempted to go back to Chris Franks's point about the sudden conversion to the reform of the Barnett formula on that side of the Chamber. However, I am glad that you are coming around to supporting what has been achieved by the Welsh Assembly Government, which commissioned Gerry Holtham to undertake this review of the Barnett formula and undertook to consider his recommendations and report. I hope that Members on the Conservative side will join me in ensuring that the priority is to deliver on the first report. With regard to the second stage of the Holtham commission, there are consultations and seminars going on at the moment. However, it is quite clear that there are valid questions to be asked about how the Barnett formula has operated in Wales. That is why we asked Gerry Holtham to come in.

chyflwyno'r rhaglen a fydd yn ei olynu i gynyddu sgiliau. Mae'n bwysig cydnabod bod adroddiad Holtham wedi dod i'r casgliad nad yw Cymru'n cael digon o gyllid, a dyna pam yr ydym yn cwblhau'r gwaith gyda'r Trysorlys i asesu effaith y rhaglen gydgyfeirio, a bwrw ymlaen â'r ymrwymadau a wnaed, gyda'n partneriaid yn Llywodraeth y DU, i asesu effaith y rhaglen gydgyfeirio ar fformiwla Barnett.

Nick Ramsay: Weinidog, a gaf fi eich holi ychydig ymhellach am eich barn am fformiwla Barnett? Rhoesoch ateb i'm cydweithiwr, Andrew R.T. Davies, yn gynharach, ond nid wyf yn hollol glir o hyd ynglŷn â'ch ymrwymiad i fformiwla ariannu decach i Gymru. Bûm yn un o seminarau gwych Gerry Holtham gydag ambell Aelod Cynulliad arall rai dyddiau'n unig yn ôl. Gadewais a'm pen yn troi oherwydd y materion cymhleth iawn yn ymwneud â datganoli grym ariannol. Gan nad oes ateb amlwg sydyn i sicrhau ein bod yn cael grymoedd ariannol yma, ymddengys y byddwn yn parhau i ddibynnu ar fformiwla Barnett yn y dyfodol. Derbynnir yn gyffredinol erbyn hyn nad yw'r fformiwla honno'n rhoi'r hyn sy'n ddyledus i Gymru. Ar wahân i osod terfyn isaf ar gyfer fformiwla Barnett, a yw eich Llywodraeth yn bendant o blaid adolygu'r fformiwla i weld Cymru'n cael ei hariannu lawer yn well yn y dyfodol, ac yn enwedig mewn amseroedd anodd yn economaidd?

Jane Hutt: Caf fy nhemtio i ddychwelyd at bwynt Chris Franks am y newid meddwl sydyn yr ochr draw i'r Siambr ynglŷn â diwygio fformiwla Barnett. Fodd bynnag, yr wyf yn falch eich bod yn dechrau cefnogi'r hyn a gyflawnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, a gomisiynodd Gerry Holtham i gynnal yr adolygiad hwn o fformiwla Barnett gan addo ystyried ei argymhellion a'i adroddiad. Gobeithio y bydd Aelodau ar ochr y Ceidwadwyr yn ymuno â mi i wneud yn sicr mai'r flaenoriaeth yw sicrhau canlyniadau ar sail yr adroddiad cyntaf. O safbwynt ail gam comisiwn Holtham, mae ymgynghoriadau a seminarau'n mynd ymlaen ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n eithaf clir fod yna gwestiynau dilys i'w gofyn am y modd y mae fformiwla Barnett wedi gweithredu yng Nghymru. Dyna oedd ein

That is why we had a debate. That is why we agreed with the recommendations. As a result of the commitment made to us, the Treasury is now working on looking at the impact of convergence on the Barnett formula. However, go back to look at the issue of the Barnett floor, Nick. Technicalities are what we need to look at now and how we can move on in practice to protect Wales and get a fairer funding formula.

Gareth Jones: Weinidog, a ydych yn barod i ddatgan pa gyllidebau adrannol o Lywodraeth y Cynulliad a fydd yn cael eu diogelu rhag y toriadau llym tebygol yn y grant bloc i Gymru, pa bynnag Lywodraeth fydd yn cael ei hethol nesaf yn Llundain?

Jane Hutt: This goes back to the fact that we need to look at our level of funding and the way it is determined and allocated through the formula. As I have said, after almost 10 years of devolution, the time is right for that review. As regards the way forward, we are now preparing for our next budgetary round. We await the comprehensive spending review. We must ensure that we are clear about the report that comes back on the work that is being done at the moment by the Treasury, with our officials, on the impact of convergence. That will form part of my discussions with the Chief Secretary to the Treasury.

Nick Ramsay: I was waiting to hear what Gareth Jones's contribution would be before I asked my second question to the Minister.

The Presiding Officer: I am sure that you were.

Nick Ramsay: I listened closely to what you just said, Minister, and I am still not entirely clear about your support. I understand what you say about the Barnett floor, but at the same time there is the issue of the Barnett squeeze over time and our being worse off. With regard to a late conversion, it seems that we are actually ahead of the game with regard to making suggestions; it is you, as the Government, that seems to be reticent to come on board. As for your achievements,

rheswm dros ofyn i Gerry Holtham ein cynorthwyo. Dyna oedd ein rheswm dros gael dadl. Dyna oedd ein rheswm dros gytuno â'r argymhellion. O ganlyniad i'r ymrwymiad a wnaed inni, mae'r Trysorlys wrthi erbyn hyn yn ystyried effaith y rhaglen gydgyfeirio ar fformiwla Barnett. Fodd bynnag, ewch yn ôl i edrych ar fater gosod terfyn isaf ar gyfer Barnett, Nick. Mae angen inni edrych ar fanylion technegol yn awr, a sut y gallwn symud ymlaen yn ymarferol i amddiffyn Cymru a chael fformiwla ariannu decach.

Gareth Jones: Minister, are you ready to declare which departmental budgets of the Assembly Government will be protected from the likely swingeing cuts to the Welsh block grant, whichever Government is next elected in London?

Jane Hutt: Mae hyn yn cyfeirio'n ôl at y ffaith bod angen inni edrych ar lefel y cyllid a gawn, a'r modd y caiff y cyllid hwnnw ei bennu a'i ddyrannu drwy'r fformiwla. Fel yr wyf wedi'i ddweud, mae'n amserol cynnal yr adolygiad hwnnw ar ôl bron i 10 mlynedd o ddatganoli. O ran y ffordd ymlaen, yr ydym wrthi'n paratoi ar gyfer ein cylch cyllidebol nesaf. Yr ydym yn disgwyl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Rhaid inni sicrhau ein bod yn glir ynghylch yr adroddiad a ddaw'n ôl ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Trysorlys, gyda'n swyddogion ni, ar effaith y rhaglen gydgyfeirio. Bydd hynny'n rhan o'm trafodaethau gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Nick Ramsay: Yr oeddwn yn aros i glywed beth fyddai cyfraniad Gareth Jones cyn imi ofyn fy ail gwestiwn i'r Gweinidog.

Y Llywydd: Yr wyf yn siŵr eich bod.

Nick Ramsay: Gwrandewais yn astud ar yr hyn yr ydych newydd ei ddweud, Weinidog, ac nid wyf yn hollol glir o hyd ynglŷn â'ch cefnogaeth. Deallaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud am y terfyn isaf ar gyfer Barnett, ond ar yr un pryd mae yna fater gwasgfa Barnett dros gyfnod o amser, a'r ffaith ein bod ar ein colled. O ran newid ein meddwl yn llwyr, ymddengys ein bod ar y blaen o ran gwneud awgrymiadau; ymddengys mai chi, fel Llywodraeth, sy'n gyndyn o roi cefnogaeth.

Minister, is the funding gap between England and Wales of £500 per pupil one of your Government's achievements? Is the increase in band D council tax in Wales this year, which is twice the increase in England, one of your achievements? Are these the achievements of which you are proud?

1.50 p.m.

I mentioned those examples because they are all clearly a direct consequence of the failure to get a fairer funding deal for Wales. Until you give a solid commitment—not just words—to that fairer funding formula, in which we on this side of the Chamber would be willing to join you, do you not accept that Wales will be far worse off?

Jane Hutt: That was more of a contribution than a question, Nick. However, from that, I take it that you do endorse the work that I have done and my achievement in securing the work that is now taking place between the Treasury and my officials to look at the impact of convergence on the Barnett formula. This demonstrates not only our commitment, but the clout and credibility that we have, as the Welsh Assembly Government. We were the ones who commissioned Gerry Holtham to undertake the commission in order to give us the recommendations. I hope that you have seen his December report on a fairer funding formula because it gives you an indication of where we could go if we got the Barnett floor that I am seeking.

You made reference to the council tax assumptions. They are assumptions at present because the information that was given today was only taken from a sample of councils that have set their budgets for 2010-11. If the increase is to be 3.6 per cent in Wales, as is assumed, that will be the lowest increase in Wales since the introduction of council tax. You mentioned band D. The council tax bill for properties in band D in Wales will continue to be significantly lower than for properties in band D in England. Currently, the average bill for a band D property in Wales is £1,086, compared with £1,414 in

O ran eich cyflawniadau chi, Weinidog, a yw'r bwlch ariannu rhwng Cymru a Lloegr o £500 y disgybl yn un o gyflawniadau eich Llywodraeth? A yw'r cynnydd yn y dreth gyngor band D yng Nghymru eleni, sydd ddwywaith cymaint â'r cynnydd yn Lloegr, yn un o'ch cyflawniadau? Ai dyma'r cyflawniadau yr ydych yn falch ohonynt?

Soniais am yr enghreifftiau hynny oherwydd eu bod bob un yn amlwg yn ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith ichi fetu â sicrhau bargaen ariannu decach i Gymru. Nes byddwch yn ymrwymo'n bendant—ac nid mewn geiriau'n unig—i'r fformiwla ariannu decach honno, y byddem ni yr ochr hon i'r Siambr yn barod i ymrwymo iddi gyda chi, onid ydych yn derbyn y bydd Cymru ar ei cholled o gryn dipyn?

Jane Hutt: Yr oedd hynny'n fwy o gyfraniad nag o gwestiwn, Nick. Fodd bynnag, o hynny cymeraf eich bod yn cymeradwyo'r gwaith yr wyf wedi'i wneud, a'm llwyddiant yn sicrhau'r gwaith sydd cael ei wneud rhwng y Trysorlys a'm swyddogion i edrych ar effaith y rhaglen gydgyfeirio ar fformiwla Barnett. Mae hynny nid yn unig yn dangos ein hymrwymiad, ond mae hefyd yn dangos y dylanwad a'r hygredded sydd gennym fel Llywodraeth y Cynulliad. Ni a gomisiynodd Gerry Holtham i ymgymryd â'r comisiwn er mwyn rhoi'r argymhellion inni. Gobeithio ichi weld ei adroddiad ym mis Rhagfyr ar fformiwla ariannu decach, oherwydd mae'n rhoi syniad ichi i ba gyfeiriad y gallem fynd pe baem yn cael y terfyn isaf yr wyf yn ei geisio ar gyfer Barnett.

Yr oeddech yn cyfeirio at y rhagdybiaethau am y dreth gyngor. Rhagdybiaethau ydynt ar hyn o bryd, oherwydd cafodd y wybodaeth a gyflwynwyd heddiw ei chymryd o sampl yn unig o gynghorau sydd wedi gosod eu cyllidebau ar gyfer 2010-11. Os 3.6 y cant yw'r cynnydd i fod yng Nghymru, fel y tybir, dyna a fydd y cynnydd isaf yng Nghymru ers cyflwyno'r dreth gyngor. Soniech am fand D. Bydd bil y dreth gyngor ar gyfer eiddo band D yng Nghymru yn dal lawer yn is nag ar gyfer eiddo band D yn Lloegr. Ar hyn o bryd, cyfartaledd y bil ar gyfer eiddo band D yng Nghymru yw £1,086, o'i gymharu â £1,414

England.

yn Lloegr.

Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Children, Education and Lifelong Learning

C5 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes? OAQ(3)0992(BB)

Q5 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on the funding allocation for the children, education and lifelong learning portfolio? OAQ(3)0992(BB)

Jane Hutt: Ac eithrio dyraniad a throsglwyddiadau cyllideb atodol 2009-10, canlyniad cyllideb 2010-11 ar gyfer y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes yw bod y dyraniad refeniw 2.5 y cant yn fwy o'i gymharu â 2009-10.

Jane Hutt: The 2010-11 budget outcome for the children, education and lifelong learning portfolio is that, excluding the 2009-10 supplementary budget allocation and transfers, the revenue allocation has increased by 2.5 per cent compared to 2009-10.

Nerys Evans: Mae llawer o bryderon wedi'u crybwyll yn ddiweddar ynghylch y gyllideb addysg, felly, yr ydym yn croesawu'n fawr gyhoeddiad diweddar y Gweinidog, Leighton Andrews, ynglŷn â'r adolygiad annibynnol o gyllido addysg i geisio darganfod faint o arian a ddynodir ar gyfer addysg sy'n cael ei wario ar ddarparu addysg yn nosbarthiadau Cymru. Mae aelodau'r Undeb Prifysgol a Choleg wedi bod y tu allan i adeilad y Cynulliad heddiw yn lobiio ynghylch cyllideb addysg uwch yn benodol. A fedrwyh gadarnhau bod yr adolygiad hwn hefyd yn cynnwys ariannu addysg bellach ac addysg uwch gyda'r bwriad i ailffocysu buddsoddiad addysgiadol i sicrhau bod mwy o gyllid yn cyrraedd y rheng flaen?

Nerys Evans: A great many concerns have been raised recently about the education budget, therefore, we very much welcome the recent announcement by the Minister, Leighton Andrews, on the independent review of education funding to try to discover how much of the money earmarked for education is spent on education in classrooms in Wales. Members of the University and College Union have been lobbying outside the Assembly building today on the higher education budget in particular. Can you confirm that this review will also include the funding of further and higher education with the aim of refocusing education expenditure to ensure that more money reaches the front line?

Jane Hutt: In my answer to your question, I think that you will have heard that the allocation has increased for 2010-11 by 0.9 per cent. Overall, there has been an increase of £15 million in the revenue budget for children, education, lifelong learning and skills for 2010-11. As you know, we have targeted additional resources at some areas, such as £20 million for the flagship foundation phase and £20 million to support skills-based responses to tackling youth unemployment. You will be aware that the terms of reference of the review of the cost of administering the education system in Wales were published yesterday by the Minister. If you look at the terms of reference for stage one, you will see that it includes all of the organisations within the scope of schools, further education and higher education.

Jane Hutt: Yn fy ateb i'ch cwestiwn, credaf y byddwch wedi clywed i'r dyraniad gynyddu 0.9 y cant ar gyfer 2010-11. At ei gilydd, cafwyd cynnydd o £15 miliwn ar gyfer 2010-11 yn y gyllideb refeniw ar gyfer plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Fel y gwyddoch, yr ydym wedi targedu adnoddau ychwanegol at rai meysydd, megis £20 miliwn ar gyfer y cyfnod sylfaen, sy'n rhaglen flaenllaw, ac £20 miliwn i gefnogi ymatebion yn seiliedig ar sgiliau er mwyn mynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuencid. Byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog ddod wedi cyhoeddi cylch gwaith yr adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg yng Nghymru. O edrych ar y cylch gwaith ar gyfer cam un, fe welwch ei fod yn cynnwys yr holl sefydliadau ym maes ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch.

Alun Cairns: Nick Ramsay rightly highlighted the difference between education funding in England and Wales, with £527 less per pupil being spent in Wales. Is there any wonder that the Estyn report was so damning? I could quote widely from the report in terms of what it stated about the impact of funding on the quality of our education. However, it does not even stop there, Minister. Over the last four years of the Labour-Liberal administration in Scotland, leading up to the last elections, 200 schools were newly built or substantially rebuilt. That is what was achieved in Scotland, and much of that was done through the use of private money. Therefore, there is no use in pointing only at the Barnett formula, as much of that work was done with private money. As you are not prepared to use private funding in Wales, is it any wonder that, over that same four-year period since the elections, we have been struggling to get into double figures for the number of new schools that have been opened here? Is it any wonder that Estyn has produced such a damning report? How much of an impact is the lack of priority given to education spend having on that, leading to lower and fewer qualifications in Wales?

Jane Hutt: Going back to the important points that I made about the DCELLS budget, it is vital—and you will recognise this, Alun—that you look at the revenue support grant as well, which included an additional £34 million for 2010-11, thus ensuring a 2.1 per cent increase on the budget for 2010-11 when compared on a like-for-like basis. The Minister for Children, Education and Lifelong Learning has established two new budget lines totalling nearly £20 million for 2010-11. That is about extending SkillBuild and Pathways to Apprenticeships, extending the life of the skills offers, such as the young person's guarantee, and allocating funding to help Careers Wales to cope with an increased demand for its services.

On your point about capital, the twenty-first century schools strategic capital programme is embraced by the Welsh Local Government Association. When I was the Minister for

Alun Cairns: Yr oedd Nick Ramsay yn iawn i dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng cyllid ar gyfer addysg yng Nghymru a Lloegr, a'r ffaith bod £527 yn llai yn cael ei wario ar bob disgybl yng Nghymru. Nid yw'n syndod bod adroddiad Estyn mor ddamniol. Gallwn ddyfynnu'r adroddiad yn helaeth o ran yr hyn a nodai am effaith cyllid ar ansawdd ein haddysg. Fodd bynnag, mae'n mynd ymhellach na hynny, Weinidog. Dros y pedair blynedd diwethaf o weinyddiaeth Lafur-Rhyddfrydol yn yr Alban, cyn yr etholiadau diwethaf, cafodd 200 o ysgolion eu hadeiladu o'r newydd neu eu hailadeiladu'n sylweddol. Dyna a gyflawnwyd yn yr Alban, a gwnaed llawer o'r gwaith hwnnw drwy ddefnyddio arian preifat. Felly, nid oes diben beio fformiwla Barnett yn unig, gan fod llawer o'r gwaith yn yr Alban wedi'i wneud ag arian preifat. Gan nad ydych yn barod i ddefnyddio cyllid preifat yng Nghymru, pa ryfedd ein bod, yn ystod yr un pedair blynedd ers yr etholiadau, wedi ei chael yn anodd cyrraedd ffigurau dwbl ar gyfer nifer yr ysgolion newydd sydd wedi'u hagor yma? Pa ryfedd bod Estyn wedi cynhyrchu adroddiad mor ddamniol? Faint o effaith y mae'r diffyg blaenoriaeth a roddir i wario ar addysg yn ei chael ar hynny, gan arwain at gymwysterau is, a llai o gymwysterau, yng Nghymru?

Jane Hutt: I ddychwelyd at y pwyntiau pwysig a wneuthum am gyllideb APADGOS, mae'n hollbwysig—a byddwch yn cydnabod hyn, Alun—ichi ystyried y grant cynnal refeniw hefyd, a oedd yn cynnwys £34 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2010-11, ac felly'n sicrhau cynnydd o 2.1 y cant yn y gyllideb ar gyfer 2010-11 o gymharu tebyg â thebyg. Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi sefydlu dwy linell newydd yn y gyllideb, sy'n gwneud cyfanswm o bron i £20 miliwn ar gyfer 2010-11. Maent yn ymwneud ag ehangu Adeiladu Sgiliau a Llwybrau at Brentisiaethau, gan ehangu oes y sgiliau a gynigir, megis y warant pobl ifanc, a dyrannu cyllid i helpu Gyrfa Cymru i ymdopi â'r galw sydd wedi cynyddu am ei wasanaethau.

Ynglŷn â'ch pwynt am gyfalaf, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi croesawu'r rhaglen gyfalaf strategol i ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Pan

education, I worked closely with Councillor Peter Fox, who is the WLGA's lead spokesperson on lifelong education and skills, and the new Minister for education is doing so as well. That enabled us, in 2009, to approve 32 capital projects to support the £161.3 million of local government investment with £78.7 million of our own investment. There were 12 new schools and 10 schemes to refurbish schools during 2009-10, and there was much more in the second tranche that was announced in July. That is about delivering and providing new schools, such as those that you see in your constituency.

Alun Davies: Minister, do you not agree that when the Conservatives bandy figures about, they do so to mislead and not to inform? I was pleased to read that the Welsh Assembly Government spends £830 per head of population on education, whereas the UK Government spends £816 per head of population on education in England. That demonstrates the Government's real commitment to education, and also demonstrates that we need to ensure that that additional funding reaches the classrooms, where it is needed most.

Jane Hutt: That is why it is so important that we have this review of education spending. The importance of that review is that it is clearly about refocusing investment in education to ensure that more money reaches the front line.

Peter Black: Minister, you have reeled off a list of statistics about numbers of schools and the amount of money that is being spent on capital, and I do not want to revisit where we have been. However, there is a huge backlog in respect of the maintenance and repair of school buildings around Wales, amounting to billions of pounds. How much money will be available in the next financial year for local authorities to bid for under the twenty-first century schools programme, and how will that money be rolled out over that year?

Jane Hutt: That is an important question.

oeddwn i'n Weinidog dros addysg, cydweithiwn yn agos â'r Cynghorydd Peter Fox, prif lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar addysg gydol oes a sgiliau, ac mae'r Gweinidog newydd dros addysg yn gwneud hynny hefyd. Galluogodd hynny ni, yn 2009, i gymeradwyo 32 o brosiectau cyfalaf i ategu'r buddsoddiad o £161.3 miliwn gan lywodraeth leol â buddsoddiad o £78.7 miliwn gennym ni. Cafwyd 12 o ysgolion newydd a 10 cynllun i adnewyddu ysgolion yn ystod 2009-10, ac yr oedd llawer mwy yn yr ail gyfran a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Mae hynny'n golygu darparu ysgolion newydd, megis yr ysgolion hynny yr ydych yn eu gweld yn eich etholaeth.

Alun Davies: Weinidog, a ydych yn cytuno bod y Ceidwadwyr, pan fyddant yn taflu ffigurau'n ôl ac ymlaen, yn gwneud hynny er mwyn camarwain pobl yn hytrach nag er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt? Yr oeddwn yn falch darllen bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwario £830 y pen o'r boblogaeth r addysg, tra mae Llywodraeth y DU yn gwario £816 y pen o'r boblogaeth ar addysg yn Lloegr. Mae hynny'n dangos ymrwymiad gwirioneddol y Llywodraeth i addysg, ac mae hefyd yn dangos bod angen inni sicrhau bod yr arian ychwanegol hwnnw'n cyrraedd yr ystafelloedd dosbarth, lle mae ei angen fwyaf.

Jane Hutt: Dyna pam mae mor bwysig inni gynnal yr adolygiad hwn o wariant ar addysg. Mae'r adolygiad hwnnw'n bwysig am ei fod yn amlwg yn ymwneud ag ailbennu ffocws buddsoddi mewn addysg er mwyn sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd y rheng flaen.

Peter Black: Weinidog, yr ydych wedi rhestru ystadegau am niferoedd ysgolion a'r arian sy'n cael ei wario ar gyfalaf, ac nid wyf am ailadroedio tir cyfarwydd. Fodd bynnag, mae yna ôl-groniad difrifol o waith cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau ysgolion o gwmpas Cymru, sy'n werth biliynau o bunnoedd. Faint o arian a fydd ar gael yn y flwyddyn ariannol nesaf i awdurdodau lleol ymgeisio amdano dan raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a sut y caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio dros y flwyddyn dan sylw?

Jane Hutt: Mae hwn yn gwestiwn pwysig.

We are working in partnership with our colleagues in local government, and we are seeing this as a strategic approach. You will know that we are linking the approval of bids for capital with local authorities' preparedness to consider the difficult issue of school reorganisation and planning of school places in order to tackle the issue of surplus places. Local government has bought into that and recognises that it has to deliver its side of the policy agenda to tackle the issue of surplus places and to deliver better education. Delivering better education is not all about money; it is about how we deliver it and the standards and the professionalism of our teaching staff. As a reward for doing that, capital funding is available through the twenty-first century schools programme.

Yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol, ac ystyriwn fod hynny'n ddull gweithredu strategol. Gwyddoch ein bod yn cysylltu gwaith cymeradwyo ceisiadau am gyfalaf â pharodrwydd awdurdodau lleol i ystyried y mater anodd o ad-drefnu a chynllunio lleoedd mewn ysgolion i fynd i'r afael â phroblem lleoedd gwag. Mae llywodraeth leol wedi cydsynio i hynny ac yn cydnabod ei bod yn rhaid iddi gyflawni ei hochr hi o'r agenda bolisi i fynd i'r afael â lleoedd gwag ac i ddarparu gwell addysg. Nid yw darparu gwell addysg yn fater o arian yn unig; mae'n golygu sut yr ydym yn ei darparu, ynghyd â safonau a phroffesiynoldeb ein staff addysgu. Fel gwobr am gyflawni hynny, mae cyllid cyfalaf ar gael trwy raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hunain.

Economy and Transport

Q6 David Melding: What representations has the Minister received regarding budgetary pressures in the economy and transport portfolio? OAQ(3)0964(BB)

Jane Hutt: During the preparation of the Assembly Government's 2010-11 budget, discussions took place with Ministers about priorities within their portfolios. The outcome for the economy and transport portfolio is that the revenue allocation has increased by 0.9 per cent in the budget for 2009-10.

2.00 p.m.

David Melding: Are you surprised that, at the end of October 2009, only 22 per cent of the business support programme had been spent? We are going through a difficult recession and I wonder whether you have had any conversations with the Deputy First Minister on the performance of this portfolio in supporting businesses. Is there any evidence that we will get anything like 100 per cent take-up of that allocation in terms of giving much-needed support to businesses at this difficult time?

Jane Hutt: You are aware of the discussions on and the development of the economic renewal programmes—I know that you have been engaged in those. In recognising the strategic budgets that we are developing for

Economi a Thrafnidiaeth

C6 David Melding: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am y pwysau cyllidebol yn y portffolio economi a thrafnidiaeth? OAQ(3)0964(BB)

Jane Hutt: Wrth baratoi ar gyfer cyllideb 2010-11 Llywodraeth y Cynulliad, cafwyd trafodaethau gyda Gweinidogion am flaenoriaethau yn eu portffolios. Y canlyniad i'r portffolio economi a thrafnidiaeth yw bod y dyraniad refeniw wedi cynyddu 0.9 y cant yn y gyllideb ar gyfer 2009-10.

David Melding: A ydych yn synnu mai 22 y cant yn unig o'r arian yn y rhaglen cymorth i fusnesau a oedd wedi'i wario erbyn diwedd mis Hydref 2009? Yr ydym yn mynd trwy ddirwasgiad anodd, a thybed a ydych wedi cael unrhyw sgysiau â'r Dirprwy Brif Weinidog am berfformiad y portffolio hwn o ran cefnogi busnesau? A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y caiff bron yr holl arian a ddyrennir ei wario ar roi cymorth y mae ei angen yn fawr ar fusnesau yn ystod yr adeg anodd hon?

Jane Hutt: Byddwch yn ymwybodol o'r trafodaethau ar raglen adnewyddu'r economi a'r broses o'i datblygu—gwn ichi fod yn gysylltiedig â'r trafodaethau hynny. Wrth gydnabod y cyllidebau strategol yr ydym yn

2010-11, we have to ensure that a key priority, given our current economic situation, is to continue to stimulate and drive forward the Welsh economy. We have to do that by ensuring that we have the right approach to supporting business. I will not repeat the statistics on the impact of ProAct. However, yesterday, I gave feedback on business reaction to Flexible Support for Business and you will also know that we have to ensure that the new business champions for Wales that the Deputy First Minister has announced—for example, the co-founder of Next and the former chief executive of HSBC—are all engaged in the economic renewal programme and in ensuring that we can deliver for business with this approach.

David Melding: You mentioned Flexible Support for Business, but there has only been a 22 per cent take-up of that in the first seven months of the current financial year. Are we going to make up the rest of that, or a fair proportion of it, or is the business support programme so flawed that people and businesses simply do not want to take part in it?

Jane Hutt: Flexible Support for Business includes a whole range of opportunities for businesses, including start-up services, taster sessions, workshops and advice surgeries. If you look back, since April 2009 a total of 1,857 taster sessions and workshops have been held across Wales and 8,500 individuals have accessed the service. Furthermore, the Deputy First Minister met the manufacturing forum and agreed to provide funding of £50,000 per year for two years to enable the forum to finalise and implement the manufacturing strategy for Wales. A six-month offer was launched in April 2009 with the Department for Work and Pensions, which delivers through Flexible Support for Business and provides additional support for those who are unemployed for six months and longer. Also, over 500 businesses have accessed the Weathering the Storm seminars. That is an indication of the impact of Flexible Support for Business and of how we are ensuring that we have the economic renewal programme to guide us as we take this

eu datblygu ar gyfer 2010-11, rhaid inni sicrhau mai un o'r blaenoriaethau allweddol, o gofio ein sefyllfa economaidd bresennol, yw parhau i ysgogi economi Cymru a'i gyrru yn ei blaen. Rhaid inni wneud hynny trwy sicrhau fod gennym y dull cywir o gefnogi busnesau. Nid wyf am ailadrodd yr ystadegau am effaith ProAct. Fodd bynnag, rhoddais adborth ddoe ar ymateb busnesau i Gymorth Hyblyg i Fusnes, a byddwch hefyd yn gwybod ei bod yn rhaid inni sicrhau bod pob un o'r hyrwyddwyr busnes newydd ar gyfer Cymru, y mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi'u cyhoeddi—er enghraifft, cydsedydlydd Next a chyn-brif weithredwr HSBC—yn ymwneud â'r rhaglen adnewyddu'r economi ac yn ymwneud â sicrhau ein bod yn gallu gweithredu er budd byd busnes drwy fabwysiadu'r dull hwn.

David Melding: Yr oeddech yn sôn am Gymorth Hyblyg i Fusnes, ond 22 y cant yn unig o arian y rhaglen honno sydd wedi'i wario yn ystod saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol bresennol. A ydym yn bwriadu codi'r gweddil i 100 y cant, neu gyfran weddol ohono, ynteu a yw'r rhaglen cymorth i fusnesau mor ddiffygiol fel nad yw pobl a busnesau, yn syml iawn, am gymryd rhan ynddi?

Jane Hutt: Mae Cymorth Hyblyg i Fusnes yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd i fusnesau, gan gynnwys gwasanaethau dechrau busnes, sesiynau blasu, gweithdai a sesiynau cynghori. O edrych yn ôl, mae cyfanswm o 1,857 o sesiynau blasu a gweithdai wedi'u cynnal ar draws Cymru ers mis Ebrill 2009, ac mae 8,500 o unigolion wedi defnyddio'r gwasanaeth. At hynny, cyfarfu'r Dirprwy Brif Weinidog â'r fforwm gweithgynhyrchu, a chytunodd i ddarparu £50,000 o gyllid y flwyddyn am ddwy flynedd i alluogi'r fforwm i orffen a gweithredu'r strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru. Ym mis Ebril 2009 lanswyd cynnig chwe mis gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, sydd ar waith drwy gyfrwng Cymorth Hyblyg i Fusnes ac yn darparu cymorth ychwanegol i'r rheini sy'n ddi-waith ers chwe mis neu ragor. Yn ogystal, mae dros 500 o fusnesau wedi mynychu'r seminarau Dod Drwyddi. Mae hynny'n dangos effaith Cymorth Hyblyg i Fusnes, a sut yr ydym yn sicrhau bod gennym y rhaglen iawn i

forward to be better able to meet the needs of business.

Janet Ryder: Since the budget was agreed and settled and since draft budgets have been announced, we have experienced severe winter weather conditions that have taken their toll on the condition not only of major roads, but of county-council-controlled roads. County councils have also had to buy in extra resources in grit. What flexibility, if any, is there in the budget to allow councils to make further requests for road maintenance and for the Deputy First Minister to carry out further road maintenance to ensure that the road network is kept in a fit state?

Jane Hutt: The Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport was able to announce an additional allocation to local authorities as a result of the exceptional weather conditions of £2.5 million to focus in particular on the impact of the snow. Local authorities have a responsibility to undertake surveys of road conditions. That will all feed into the consideration of budget needs and opportunities.

The Budget

Q7 Jenny Randerson: When drawing up the budget, what consideration did the Minister give to its effect on Welsh Assembly Government policy? OAQ(3)0968(BB)

Jane Hutt: Strategic budgets for 2010-11 were set initially in 2007 to reflect the 'One Wales' agenda. Our final budget for 2010-11 makes further strategic allocations to priority areas, helping to protect and improve the public services that make a real difference to people's lives.

Jenny Randerson: The new Minister for Children, Education and Lifelong Learning has been advertising the funding settlement for further education as a 5.8 per cent increase in core funding. However, I think that he is having some trouble with his sums, because if you compare like with like, the increase is only 2.6 per cent. He has included

adnewyddu'r economi i'n harwain wrth inni fwrw ymlaen â hyn er mwyn gallu diwallu anghenion busnes yn well.

Janet Ryder: Ers cytuno'r gyllideb a'i phennu, ac ers cyhoeddi cyllidebau drafft, yr ydym wedi gweld tywydd gaeafol difrifol sydd wedi difrodi nid yn unig y prif ffyrdd, ond y ffyrdd sy'n cael eu rheoli gan gynghorau sir hefyd. Yn ogystal, mae cynghorau sir wedi gorfod prynu graean ychwanegol. Pa hyblygrwydd, os o gwbl, sydd yn y gyllideb i ganiatáu i gynghorau wneud ceisiadau pellach am waith cynnal a chadw ffyrdd, ac i'r Dirprwy Brif Weinidog wneud rhagor o waith cynnal a chadw ffyrdd i sicrhau cadw'r rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr addas?

Jane Hutt: Medrodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gyhoeddi dyraniad ychwanegol o £2.5 miliwn i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r tywydd eithriadol, i ganolbwyntio'n benodol ar effaith yr eira. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i wneud arolygon o gyflwr ffyrdd. Bydd hynny i gyd yn cyfrannu at y broses o ystyried anghenion a chyfluoedd y gyllideb.

Y Gyllideb

C7 Jenny Randerson: Wrth lunio'r gyllideb, pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i'w heffaith ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0968(BB)

Jane Hutt: Cafodd cyllidebau strategol ar gyfer 2010-11 eu pennu yn 2007 yn wreiddiol i adlewyrchu agenda 'Cymru'n Un'. Mae ein cyllideb derfynol ar gyfer 2010-11 yn gwneud dyraniadau strategol pellach i feysydd blaenoriaeth, gan helpu gwarchod a gwella'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Jenny Randerson: Mae'r Gweinidog newydd dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi bod yn hyrwyddo'r setliad cyllido ar gyfer addysg bellach drwy ddweud ei fod yn gynydd o 5.8 y cant mewn cyllid craidd. Fodd bynnag, credaf ei fod yn cael trafferthion gyda'i symiau, oherwydd o gymharu tebyg â thebyg, 2.6 y cant yn unig

in core funding this year the pathways to apprenticeships money, which, as you well know, Minister, was not included last year. In addition, he has reduced the value of the funding unit and expects further education colleges to do a great deal more with their core funding than they did last year. Can you explain to us why the value of the funding unit has been reduced, and why it is believed that FE colleges should be doing very much more for a considerably lower sum of money this year? Why are they more able to do this than other aspects of the public sector and, indeed, more able to do this than central Government? Why is the Government no longer comparing figures that are like for like?

Jane Hutt: Once again, it is important to put the record straight about the learner provision budget line, which funds further education, work-based learning and sixth forms, because that is crucial in understanding the budget for further education for 2010-11. The figures are £545 million for 2009-10 and £552 million for 2010-11. I have already mentioned, as you will have heard, Jenny, that we have opened two new budget lines of some £20 million to fund additional training and employability support during the economic downturn. There are no cuts here; quite the opposite. We are increasing resources for post-16 learning. You have often attempted to undermine the good settlement that we have for further education next year.

When we met in Coleg Sir Gâr only a fortnight ago—we had an economic summit there, which was chaired by our First Minister—we were welcomed by the students, who were fully engaged and enthusiastic about the educational opportunities that they are receiving in that outstanding college. The principal was also there to welcome us and to welcome the funding announcement that the Minister for education made on that day—that was the important funding announcement of £48 million.

Helen Mary Jones: Minister, looking to

yw'r cynnydd. Mae wedi cynnwys arian llwybrau at brentisiaethau yn y cyllid craidd eleni, sy'n arian na chafodd ei gynnwys y llynedd, fel y gwyddoch yn iawn, Weinidog. Yn ogystal, mae wedi lleihau gwerth yr uned gyllido, ac mae'n disgwyl i golegau addysg bellach wneud llawer iawn yn fwy â'u cyllid craidd nag a wnaethant y llynedd. A allwch esbonio inni pam y mae gwerth yr uned gyllido wedi'i lleihau, a pham y credir y dylai colegau addysg bellach fod yn gwneud llawer iawn mwy am lawer iawn llai o arian eleni? Pam mae gallu colegau i wneud hynny'n fwy na gallu agweddau eraill ar y sector cyhoeddus, a gallu'r Llywodraeth ganolog, yn wir? Pam nad yw'r Llywodraeth, bellach, yn cymharu ffigurau â ffigurau tebyg?

Jane Hutt: Unwaith eto, mae'n bwysig sicrhau bod pawb yn gwybod y gwir am y llinell yn y gyllideb ar gyfer y ddarpariaeth i ddysgwyr, sy'n ariannu addysg bellach, dysgu'n seiliedig ar waith a sefydliadau chweched dosbarth, oherwydd mae hynny'n hollbwysig i ddeall y gyllideb addysg bellach ar gyfer 2010-11. Mae'r ffigurau'n £545 miliwn ar gyfer 2009-10 ac yn £552 miliwn ar gyfer 2010-11. Fel y byddwch wedi clywed, Jenny, yr wyf eisoes wedi sôn inni agor dwy linell newydd yn y gyllideb, sy'n cyfateb i oddeutu £20 miliwn i ariannu hyfforddiant ychwanegol a chymorth gyda chyflogadwyedd yn ystod y dirywiad economaidd. Nid oes dim toriadau yn y maes hwn; i'r gwrthwyneb, a dweud y gwir. Yr ydym yn cynyddu'r adnoddau ar gyfer dysgu ôl-16. Yr ydych yn aml wedi ceisio tanseilio'r setliad da sydd gennym ar gyfer addysg bellach y flwyddyn nesaf.

Adeg ein cyfarfod yng Ngholeg Sir Gâr bythefnos yn unig yn ôl—cawsom uwchgynhadledd economaidd yno, dan gadeiryddiaeth ein Prif Weinidog—cawsom ein croesawu gan y myfyrwyr, a oedd yn ymwneud yn llawn â'r cyfleoedd addysgol a gânt yn y coleg rhagorol hwnnw, ac yn frwdfrydig yn eu cylch. Yr oedd y Prifathro yno hefyd i'n croesawu, ac i groesawu'r cyhoeddiad a wnaeth y Gweinidog addysg y diwrnod hwnnw—y cyhoeddiad pwysig am £48 miliwn o gyllid.

Helen Mary Jones: Weinidog, gan edrych ar

future budgets, we all know that the block grant to the Assembly is likely to be less generous in the future than it has been in the past. In looking to ensure that the 'One Wales' commitments are delivered, can you undertake to have further discussions with the Minister for Health and Social Services to ensure that the core health budgets are protected?

Jane Hutt: With regard to future budgets, we do not know what the allocations for 2011-12 onwards will be yet, because we do not know what the comprehensive spending review will be. We know that the settlement will be challenging. However, the One Wales Government is clear about its priorities. Our priorities are public services, first and foremost, and health and education are at the forefront of those.

Jonathan Morgan: I am sure that the Minister will agree that it is vital for Government departments and Assembly Government-sponsored public bodies delivering services in Wales to ensure value for money in how expenditure plans are followed through. In recent weeks, I have made a number of concerns known to the Government about the use of management consultants by the NHS and by the Assembly Government. Last April, the House of Commons Health Committee published a report on the use of management consultants in the NHS and the Department of Health. Its recommendations have been accepted by the UK Government.

2.10 p.m.

In particular, it recommended that the UK Government employ a central list of management consultants and maintains that list, which will indicate the project on which those management consultants are engaged. It also recommended that it sets out the top 10 daily rates in each category that those organisations have paid to management consultants. Most importantly, and this is where the Government could add a significant amount of value, is that a sample of contracts with management consultants, agreed by all categories of NHS organisation

gyllidebau'r dyfodol, gwyddom i gyd ei bod yn debygol y bydd y grant bloc i'r Cynulliad yn llai hael yn y dyfodol nag a fu yn y gorffennol. Wrth geisio sicrhau gwireddu ymrwymadau 'Cymru'n Un', a allwch addo trafod ymhellach gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y cyllidebau iechyd craidd yn cael eu diogelu?

Jane Hutt: O ran cyllidebau'r dyfodol, ni wyddom hyd yn hyn beth fydd y dyraniadau ar gyfer 2011-12 ac ar ôl hynny, oherwydd ni wyddom beth fydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Gwyddom y bydd y setliad yn heriol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth 'Cymru'n Un' yn glir ynglŷn â'i blaenoriaethau. Ein blaenoriaethau yw gwasanaethau cyhoeddus yn gyntaf oll, ac mae iechyd ac addysg ar frig y blaenoriaethau hynny.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno'i bod yn hanfodol i adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru sicrhau gwerth am yr arian yn y modd y caiff cynlluniau gwariant eu gweithredu. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, yr wyf wedi mynegi nifer o bryderon wrth y Llywodraeth am y modd y mae'r GIG a Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio ymgynghorwyr rheoli. Fis Ebrill diwethaf, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin adroddiad ar y modd y mae'r GIG a'r Adran Iechyd yn defnyddio ymgynghorwyr rheoli. Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn ei argymhellion.

Argymhellodd yn benodol y dylai Llywodraeth y DU ddefnyddio rhestr ganolog o ymgynghorwyr rheoli, a chynnal a chadw'r rhestr honno, a fydd yn dangos pa brosiect y mae'r ymgynghorwyr rheoli dan sylw yn ymwneud ag ef. Argymhellodd hefyd y dylai osod allan y 10 prif gyfradd ddyddiol ym mhob categori y mae'r sefydliadau hynny wedi'u talu i ymgynghorwyr rheoli. Yn bwysicaf oll, a dyma ble y gallai'r Llywodraeth ychwanegu gwerth sylweddol, dylai sampl o gontractau ag ymgynghorwyr rheoli, y cytunwyd arnynt gan bob math o

and the health department, should be subject to an external peer review. The UK Government has accepted those recommendations as a way of ensuring greater transparency in how management consultants are used by the NHS and the UK Government's Department of Health. Would the Government commit to examining those recommendations to see whether we could follow something here to give greater clarity and transparency in the use of management consultants by the NHS and by all Government departments?

Jane Hutt: As your Minister for finance, not only am I seeking greater clarity and transparency, I aim to deliver it, and that is in relation to not only the development of the budget and scrutiny of it, which will of course come, but also the delivery of our finances. I have already said that the financial settlement for all in the public sector will be challenging, and we have to ensure that the Welsh Assembly Government is at the forefront as a role model for delivering clarity and transparency.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Prior to the current year, the Welsh Assembly Government has funded, on an estimated cost basis, with an in-year adjustment, 100 per cent of post 16 places in special schools and out-of-county placements. LEAs have this week been told that only 95 per cent of the cost of those placements will be funded for this year, and that next year only 69 per cent will be funded. Are you not ashamed that, as a Government, you have made available for our most vulnerable and disabled students only part of the cost of their education? Will you not look again to ensure that those children who have special educational needs attending special schools or out-of-county placements will have the full cost of their education paid for by your Government?

Jane Hutt: You will know, Kirsty, because we discussed this when I was the Minister for education, the importance of recognising that this is an allocation that is made at this time of the year on the basis of predicting costs and expenditure. Of course, there will be opportunities to look at that as the year

sefydliad yn y GIG ynghyd â'r adran iechyd, fod yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid. Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn yr argymhellion hynny fel modd i sicrhau mwy o dryloywder am y modd y caiff ymgynghorwyr rheoli eu defnyddio gan y GIG ac Adran Iechyd Llywodraeth y DU. A fyddai'r Llywodraeth yn fodlon ymrwymo i archwilio'r argymhellion hynny, i weld a allem ddilyn rhywbeth yma i sicrhau mwy o eglurder a thryloywder yn y modd y mae'r GIG a phob un o adrannau'r Llywodraeth yn defnyddio ymgynghorwyr rheoli?

Jane Hutt: Fel eich Gweinidog dros gyllid, yn ogystal â cheisio sicrhau mwy o eglurder a thryloywder, yr wyf hefyd yn ceisio gweithredu hynny, nid yn unig yng nghyswllt datblygu'r gyllideb a chraffu arni, a ddaw maes o law, wrth gwrs, ond yng nghyswllt darparu ein harian hefyd. Yr wyf eisoes wedi dweud y bydd y setliad ariannol ar gyfer pawb yn y sector cyhoeddus yn heriol, a rhaid inni sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn y blaen fel esiampl i'w dilyn wrth sicrhau eglurder a thryloywder.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Cyn y flwyddyn bresennol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu pob lle ôl-16 mewn ysgolion arbennig a lleoliadau y tu allan i siroedd, ar sail amcan o'r gost, gydag addasiad yn ystod y flwyddyn. Mae Awdurdodau Addysg Lleol wedi cael gwybod yr wythnos hon mai 95 y cant yn unig o gost y lleoliadau hynny a gaiff ei ariannu eleni, ac mai 69 y cant yn unig a gaiff ei ariannu y flwyddyn nesaf. Onid ydych yn cywilyddio, fel Llywodraeth, mai ar gyfer rhan yn unig o gost addysg ein myfyrwyr mwyaf agored i niwed ac anabl yr ydych wedi darparu? A wnewch chi edrych ar hyn unwaith eto i sicrhau y bydd eich Llywodraeth yn talu cost lawn addysg y plant hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig, ac sy'n mynychu ysgolion arbennig neu leoliadau y tu allan i'r sir?

Jane Hutt: Kirsty, gwyddoch am bwysigrwydd cydnabod bod hwn yn ddyraniad a wneir yr adeg hon o'r flwyddyn drwy ragweld costau a gwariant, gan inni drafod hyn pan oeddwn yn Weinidog dros addysg. Wrth gwrs, bydd cyfleoedd yn codi i edrych ar hynny wrth i'r flwyddyn fynd

proceeds and as the need is assessed. That gives us the opportunity to come back to consider these issues again. Clearly, the needs of the most vulnerable learners are at the forefront of our agenda.

Kirsty Williams: How can you say that they are the forefront of your agenda when your Government has written this week to LEAs to say that those students at special schools who stay on for post-16 education will have only 95 per cent of their placements paid for and that, next year, for 2010-11, only 69 per cent? How can you stand there and say that those students with the profoundest disabilities are uppermost in your mind when you will not fund their educational placements?

Jane Hutt: It is important to look at this as a whole, in terms of local authority budgets and the priorities that this Government has set. We have discussed that this afternoon. We have delivered a reasonable local government settlement. Taking Powys, for example, we not only put money—and you know how much it was welcomed—into its twenty-first century schools transition programme, but are funding, through the invest-to-save fund, the Powys integrated services development programme. Also, we are looking at the ways in which Powys can drive, as I mentioned in answer to Peter's question, the all-important agenda of dealing with surplus places so that it can release funding to meet its priorities. Local authorities also have a responsibility to meet the needs of their most vulnerable pupils, and we seek a partnership approach.

The Presiding Officer: Order. I do not welcome the fact that the distinguished leader of the Welsh Liberal Democrats, who might well be a Minister herself one day, chooses—*[Interruption.]* Order. I am just trying to ingratiate myself before I scold her. I do not appreciate her trying to intervene on the Minister. I have heard this practice from other parts of the Chamber. I do not approve of it wherever it comes from, and I expect high standards of the Leader of the Welsh Liberal Democrats.

rhagddi ac wrth i'r angen gael ei asesu. Mae hynny'n rhoi cyfle inni ddod yn ôl i ystyried y materion hyn eto. Yn amlwg, mae anghenion y dysgwyr mwyaf agored i niwed ar frig ein hagenda.

Kirsty Williams: Sut y gallwch ddweud eu bod ar frig eich agenda, a'ch Llywodraeth wedi ysgrifennu at Awdurdodau Addysg Lleol yr wythnos hon i ddweud mai 95 y cant yn unig o gost lleoliadau myfyrwyr mewn ysgolion arbennig sy'n aros ymlaen i gael addysg ôl-16 y bydd yn ei thalu, ac mai 69 y cant yn unig o'r gost y bydd yn ei thalu y flwyddyn nesaf, ar gyfer 2010-11? Sut gallwch ddweud mai'r myfyrwyr hynny â'r sydd anabledau dwysaf sydd ar flaen eich meddwl, os nad ydych yn fodlon ariannu eu lleoliadau addysgol?

Jane Hutt: Mae'n bwysig ystyried y mater hwn yn ei gyfanrwydd, o safbwynt cyllidebau awdurdodau lleol a'r blaenoriaethau y mae'r Llywodraeth hon wedi'u pennu. Yr ydym wedi trafod hynny y prynhawn yma. Yr ydym wedi cyflwyno setliad rhesymol i lywodraeth leol. O edrych ar Bowys, er enghraifft, yn ogystal â rhoi arian i raglen bontio'r sir ar gyfer ysgolion yr unfed ganrif ar hugain—a gwyddoch cymaint o groeso a gafodd hwnnw—yr ydym hefyd yn ariannu rhaglen datblygu gwasanaethau integredig Powys, trwy'r gronfa buddsoddi i arbed. Yn ogystal, fel y soniais yn fy ateb i gwestiwn Peter, yr ydym yn edrych ar y ffyrdd y gall Powys hybu'r agenda hollbwysig ar gyfer ymdrin â lleoedd gwag, fel y gall y sir ryddhau cyllid i ddiwallu ei blaenoriaethau. Mae gan awdurdodau lleol hefyd gyfrifoldeb i ddiwallu anghenion eu disgyblion sydd fwyaf agored i niwed, ac yr ydym yn ceisio sicrhau dull o weithio mewn partneriaeth.

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn croesawu'r ffaith fod arweinydd anrhydeddus Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a allai fod yn Weinidog ei hun ryw ddiwrnod, yn dewis—*[Torri ar draws.]* Trefn. Nid wyf ond yn ceisio ei seboni cyn imi ddweud y drefn wrthi. Nid wyf yn gwerthfawrogi ei bod yn ceisio ymyrryd pan fydd y Gweinidog yn siarad. Yr wyf wedi clywed yr arfer hwn o rannau eraill o'r Siambr. Nid wyf yn ei gymeradwyo, ni waeth o ba gyfeiriad y daw, a disgwyliaf safonau uchel gan Arweinydd

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

Visit Wales

Q1 Peter Black: Will the Minister make a statement on the work of Visit Wales? OAQ(3)1066(HER)

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): Visit Wales is responsible for the promotion and development of tourism in Wales. It is doing this primarily through its work to implement the national tourism strategy for Wales, 'Achieving Our Potential 2006-13' which identifies five strategic challenges for tourism: branding, quality, accessibility, skills, and partnership.

Peter Black: What particular work is Visit Wales doing to help small tourism businesses to cope with the impact of the recession on their business? What work are you and your colleagues doing to reduce the business rate burden that those small tourism businesses face?

Alun Ffred Jones: We are in close contact with the Wales Tourism Alliance, which represents many small tourism businesses. I have met the alliance on a number of occasions during the year to hear about its grievances, hopes and aspirations. We think that Visit Wales is in a position to respond adequately to its problems. Our marketing strategies are aimed at bringing more people to Wales, which will have a positive impact on those small tourism businesses. This has been proved by the surveys on the 2009 tourism season, where provisional figures indicate that tourism holiday trips to Wales from the UK market are up by 5 per cent for the first 10 months, compared with the same period in 2008.

Helen Mary Jones: What specific steps is Visit Wales taking to promote tourism in west Wales?

Alun Ffred Jones: We have allocated

Croeso Cymru

C1 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Croeso Cymru? OAQ(3)1066(HER)

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Croeso Cymru sy'n gyfrifol am hyrwyddo a datblygu twristiaeth yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny'n bennaf drwy ei waith i weithredu'r strategaeth dwristiaeth genedlaethol ar gyfer Cymru, 'Cyflawni Ein Potensial 2006-13' sy'n gosod allan bum her strategol ar gyfer twristiaeth: brandio, ansawdd, hygrychedd, sgiliau a phartneriaeth.

Peter Black: Pa waith penodol y mae Croeso Cymru'n ei wneud i helpu busnesau twristiaeth bach i ymdopi ag effaith y dirwasgiad ar eu busnes? Pa waith yr ydych chi a'ch cyd-Aelodau yn ei wneud i leihau'r baich ardrethi busnes sy'n wynebu'r busnesau twristiaeth bach hynny?

Alun Ffred Jones: Yr ydym mewn cysylltiad agos â Chynghrair Twristiaeth Cymru, sy'n cynrychioli nifer o fusnesau twristiaeth bach. Yr wyf wedi cyfarfod â'r gynghrair droeon yn ystod y flwyddyn i gael clywed am ei chwynion, ei gobeithion a'i huchelgeisiau. Credwn fod Croeso Cymru mewn sefyllfa i ymateb yn ddigonol i'w phroblemau. Nod ein strategaethau marchnata yw denu mwy o bobl i Gymru, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y busnesau twristiaeth bach hynny. Profwyd hynny gan yr arolygon o dymor twristiaeth 2009, lle mae'r ffigurau dros dro yn dangos bod nifer y teithiau gwyliau i Gymru gan dwristiaid o farchnad y DU wedi cynyddu 5 y cant am y 10 mis cyntaf, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2008.

Helen Mary Jones: Pa gamau penodol y mae Croeso Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng ngorllewin Cymru?

Alun Ffred Jones: Yr ydym wedi dyrannu

£670,000 to the south west Wales tourism partnership this year for the promotion and development of its regional tourism priorities, which are aligned to our national priorities. Since its inception, 17 offers of funding from the single investment fund, worth around £1.5 million, have been made in respect of tourism projects in west Wales.

Alun Cairns: What is the spend profile on tourism over recent years? The 2010-11 core budget for tourism is £13 million, so how does that compare with recent years?

Alun Ffred Jones: The core budget for Visit Wales in 2007-08 was £12.6 million, and as you rightly point out, the core spend is £13 million in the next financial year. The total budget for tourism, mainly for additional spend on marketing, has fluctuated according to European funds. However, we will undoubtedly be rehearsing some of these arguments in the debate later.

Alun Cairns: This demonstrates the priority that the Welsh Assembly Government gives to tourism. As the Minister rightly said, the increase from 2007-08 was from £12.6 million to £13.06 million in 2010-11. Far be it for me to say that the more money you spend, the better the service, but when it comes down to marketing, the more money you spend on advertising and promotion, the more the impact. Back in 1999, the Welsh Assembly Government spent £15 million of its core budget on tourism. Does this not show the priority that you and your Government have placed on tourism, and is it any wonder that the trend in the numbers of visitors coming to Wales, irrespective of the quality of the weather over the summer, is falling?

Alun Ffred Jones: I pointed out to you that the figures for 2009 were encouraging compared with the figures for 2008, and our market campaigns during 2009 were successful. We will no doubt return to these issues later. However, to concentrate merely on the core funding for Visit Wales is to take a one-eyed view of the industry, and we will be able to demonstrate that in the debate later

£670,000 i bartneriaeth twristiaeth y de-orllewin eleni i hyrwyddo a datblygu ei blaenoriaethau twristiaeth rhanbarthol, sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau cenedlaethol. Ers ei sefydlu, mae'r gronfa fuddsoddi sengl wedi cynnig cyllid gwerth tuag £1.5 miliwn i 17 o brosiectau twristiaeth yn y gorllewin.

Alun Cairns: Beth yw'r proffil gwariant ar dwristiaeth dros y blynyddoedd diwethaf? Yn 2010-11 mae'r gyllideb graidd ar gyfer twristiaeth yn £13 miliwn, felly, sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd diweddar?

Alun Ffred Jones: Yr oedd y gyllideb graidd ar gyfer Croeso Cymru yn 2007-08 yn £12.6 miliwn, ac fel y'r oeddech yn ei ddweud, yn gywir iawn, mae'r gwariant craidd yn £13 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer twristiaeth, yn bennaf ar gyfer gwariant ychwanegol ar farchnata, wedi amrywio yn ôl cronfeydd Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'n sicr y byddwn yn ailadrodd rhai o'r dadleuon hyn yn ddiweddarach yn y ddadl.

Alun Cairns: Mae hyn yn dangos y flaenoriaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei rhoi i dwristiaeth. Fel y dywedodd y Gweinidog yn hollol iawn, gwelwyd cynnydd o £12.6 miliwn yn 2007-08 i £13.06 miliwn yn 2010-11. Nid fy lle i yw dweud po fwyaf y byddwch yn ei wario, gorau oll fydd y gwasanaeth. Ond wrth sôn am farchnata, po fwyaf y byddwch yn ei wario ar hysbysebu a hyrwyddo, mwyaf oll fydd yr effaith. Yn ôl yn 1999, gwariodd Llywodraeth y Cynulliad £15 miliwn o'i chyllideb graidd ar dwristiaeth. Onid yw hynny'n dangos y flaenoriaeth yr ydych chi a'ch Llywodraeth wedi'i rhoi i dwristiaeth, ac a oes rhyfedd fod y duedd yn nifer yr ymwelwyr sy'n dod i Gymru, waeth beth fydd y tywydd yn ystod yr haf, yn mynd am lawr?

Alun Ffred Jones: Dywedais wrthy'ch fod y ffigurau ar gyfer 2009 yn galonogol o'u cymharu â'r ffigurau ar gyfer 2008, ac yr oedd ein hymgyrchoedd marchnata yn ystod 2009 yn llwyddiannus. Mae'n siŵr y byddwn yn dychwelyd at y materion hyn yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mae canolbwyntio ar y cyllid craidd yn unig ar gyfer Croeso Cymru yn golygu eich bod

this afternoon.

ystyried y diwydiant o un safbwynt yn unig, a byddwn yn gallu dangos hynny yn y ddatl yn ddiweddarach y prynhawn yma.

Built Heritage in Wales

Q2 Nick Ramsay: Will the Minister make a statement on conservation of built heritage in Wales? OAQ(3)1070(HER)

Alun Ffred Jones: The conservation of Wales's historic environment is one of the key priorities in my strategic statement and it is supported through a range of policies and programmes. Some 34,000 historic assets are protected by statutory designation. Grant assistance to owners has helped to repair and refurbish many important properties.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, Minister. I am sure that you will agree with me about the importance of Welsh pubs in the life of Wales and in attracting tourists. We have many historic pubs in our urban and rural areas. Will you join me in supporting the Campaigns for Real Ale's call for far more of these buildings to be listed to protect them from demolition and, in some ways, from change of use? In our rural communities, the pub, along with the post office, is often the only community resource that is left for many of the people living in those areas. Therefore, will you join me in calling on Cadw to take action to protect this important aspect of Welsh life?

Alun Ffred Jones: Listing a building does not ensure its future and it certainly does not ensure the future of the core business that operates from that building, therefore, I am not sure whether Cadw's intervention in this area would be helpful. However, if the building has historic links or is important for architectural reasons, Cadw can and should step in. The main threat to public houses comes from the change in drinking habits, the sale of cheap alcohol in our supermarkets and the attitude of some of the large chains that own many of these pubs. All those factors conspire together to make life very difficult for many rural pubs. On the other hand, there are many examples of successful pubs, and I

Treftadaeth Adeiledig Cymru

C2 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod treftadaeth adeiledig yng Nghymru? OAQ(3)1070(HER)

Alun Ffred Jones: Mae gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru yn un o'r blaenoriaethau allweddol yn fy natganiad strategol, a chaiff y gwaith hwnnw ei ategu gan ystod o bolisiau a rhaglenni. Caiff tua 34,000 o asedau hanesyddol eu diogelu gan ddynodiadau statudol. Mae cymorth grant i berchnogion wedi helpu atgyweirio ac adnewyddu llawer eiddo pwysig.

Nick Ramsay: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn siŵr y cytunwch â mi fod tafarnau'n bwysig ym mywyd Cymru ac o ran denu twristiaid. Mae gennym nifer o dafarnau hanesyddol yn ein hardaloedd trefol a gwledig. A wnewch chi ymuno â mi i gefnogi cais yr Ymgyrch Dros Gwrw Go Iawn am i lawer mwy o'r adeiladau hyn gael eu rhestru er mwyn eu diogelu rhag cael eu dymchwel ac, mewn rhai ffyrdd, rhag newid eu defnydd? Yn ein cymunedau gwledig, y dafarn, ynghyd â'r swyddfa bost, yn aml yw'r unig adnodd cymunedol sydd ar ôl i lawer o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Felly, a wnewch chi ymuno â mi i alw ar Cadw i weithredu i ddiogelu'r agwedd bwysig hon ar fywyd Cymru?

Alun Ffred Jones: Nid yw rhestru adeilad yn sicrhau ei ddyfodol, ac yn sicr nid yw'n sicrhau dyfodol y busnes craidd sy'n gweithredu o'r adeilad. Felly, nid wyf yn siŵr a fyddai'n ddefnyddiol i Cadw ymyrryd yn y maes hwn. Fodd bynnag, os oes gan yr adeilad gysylltiadau hanesyddol neu os yw'n bwysig am resymau pensaernïol, gall Cadw weithredu, a dylai weithredu. Y prif fygythiad i dafarnau yw'r newid mewn arferion yfed, y ffaith bod alcohol yn cael ei werthu'n rhad yn ein harchfarchnadoedd, ac agwedd rhai o'r cadwyni mawr sy'n berchen ar nifer o'r tafarnau hyn. Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn gwneud bywyd yn anodd iawn i lawer o dafarnau gwledig. Ar y llaw

have occasionally visited one or two in passing. However, some of them are undoubtedly a great asset, not only to their communities, but also to the tourist trade.

Jeff Cuthbert: I welcome this question as I am the chair of the all-party group on the built environment—you thought that I was going to say something else, did you not? I can also identify with the previous question. My constituency has a proud built heritage, including two of Wales's most beautiful castles. We all know of Caerphilly castle, but the other one, Ruperra castle, is falling into disrepair and we are continuing to fight for its preservation and to protect the surrounding grounds from built development. I urge you to look into the situation of Ruperra castle, Minister, as a matter of urgency. However, much of the built environment in my constituency dates from the industrial revolution onwards, when the area was transformed beyond recognition. The old Penallta colliery near Hengoed, for example, has a listed pithead building that is now part of a redevelopment proposal, and the old Bedwas navigation colliery site has been mooted as a site for housing, light industry and a school, much against the wishes of local residents, who, knowing the contamination of the land, would rather see the remaining waste tips properly stabilised and preserved as part of the local industrial heritage. Therefore, do you agree that, in conserving the built heritage, Cadw must give due weight to the industrial history of all parts of Wales, as it is equally as important as our cultural and mediaeval history?

Alun Ffred Jones: In response to your reference to Ruperra castle, I have had a great deal of correspondence on this issue and I am in the process of setting up a meeting with interested parties to see what can be done. However, it is a difficult situation, as you well know. I share your view of the importance of our industrial history and that is already recognised by Cadw through the

arall, ceir llawer o enghreifftiau o dafarnau llwyddiannus, ac yr wyf wedi galw mewn un neu ddwy'n achlysurol wrth fynd heibio. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth nad yw rhai ohonynt yn gaffaeliad mawr, nid yn unig i'w cymunedau, ond i'r fasnach dwristiaeth hefyd.

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn croesawu'r cwestiwn hwn gan fy mod yn gadeirydd y grŵp hollbleidiol ar yr amgylchedd adeiledig—yr oeddech yn meddwl fy mod ar fin dweud rhywbeth arall, onid oeddech? Gallaf fi hefyd uniaethu â'r cwestiwn blaenorol. Mae gan fy etholaeth dreftadaeth adeiledig y mae'n ymfalchïo ynddi, gan gynnwys dau o'r cestyll harddaf yng Nghymru. Gwyddom i gyd am gastell Caerffili, ond beth am y llall, sef castell Rhiw'r Perrai, sy'n mynd â'i ben iddo a ninnau'n dal i frwydro i'w warchod a diogelu'r tir o gwmpas rhag datblygiadau adeiladu. Pwysaf arnoch, Weinidog, i edrych ar sefyllfa castell Rhiw'r Perrai fel mater o frys. Fodd bynnag, mae llawer o'r amgylchedd adeiledig yn fy etholaeth yn dyddio o gyfnod y chwyldro diwydiannol ac wedi hynny, pan gafodd yr ardal ei thrawsnewid yn llwyr. Mae gan hen lofa Penallta ger yr Hengoed, er enghraifft, adeilad pen pwll rhestredig sydd bellach yn rhan o gynnig ailddatblygu, ac mae hen safle gwaith glo ager Bedwas wedi'i grybwyll fel safle ar gyfer tai, diwydiant ysgafn ac ysgol, sy'n gwbl groes i ddymuniadau'r trigolion lleol, a fyddai, o wybod bod y tir wedi'i halogi, yn dymuno gweld yr hen domenni gwastraff sy'n weddill yn cael eu sefydlogi a'u cadw'n briodol fel rhan o'r dreftadaeth ddiwydiannol leol. Felly, a ydych yn cytuno, wrth warchod y dreftadaeth adeiledig, ei bod yn rhaid i Cadw roi ystyriaeth briodol i hanes diwydiannol pob rhan o Gymru, gan ei fod yr un mor bwysig â'n hanes diwylliannol a chanoloesol?

Alun Ffred Jones: I ymateb i'ch cyfeiriad at gastell Rhiw'r Perrai, yr wyf wedi cael llawer iawn o ohebiaeth am y mater hwn ac yr wyf wrthi'n trefnu cyfarfod â'r bobl sy'n ymwneud â'r castell i weld beth y gellir ei wneud. Fodd bynnag, mae'n sefyllfa anodd, fel y gwyddoch yn dda. Yr wyf fi, fel chithau, o'r farn bod ein hanes diwydiannol yn bwysig, ac mae Cadw eisoes yn cydnabod

number of industrial historical assets in Wales, which is approaching 1,000. I would also point out that, in many recent publications, our industrial history is given great prominence, for example, in books such as *The Making of Wales* by John Davies, which proves that Cadw recognises the point that you made about the importance of our recent industrial history.

Jonathan Morgan: As the Assembly Member for Cardiff North, I was delighted when you agreed with Cadw that the Llanishen reservoir in my constituency should be listed for its incredible contribution to the architectural and engineering history of Wales. Today, however, that site remains at risk because its owners intend to drain the water from the reservoir. They claim that this is required for engineering works, but it is clear from independent evidence that that drain-down is not required. I am deeply concerned that, not only would it take years to refill the reservoir, but a drain-down would cause significant damage to what is now a listed site. I urge you as Minister to consult with the lawyers in your department and with Cadw to see whether the Assembly Government can pursue an injunction against Western Power Distribution to prevent it from draining the site. Will you look into this as the earliest opportunity because time is of the essence? They are already on site, and are threatening to drain the water from the reservoir. It is extremely important that the Government takes this matter seriously.

Alun Ffred Jones: To begin with, I was pleased that the decision to list the reservoir dam was upheld in the High Court following the company's application for a judicial review. The draining of the reservoir is a matter for the county council and the Environment Agency, and I understand that draining the reservoir to carry out a survey is not required by the inspection report commissioned, and that the Environment Agency has asked the company to correct this erroneous perception, which was given in press reports. I will certainly ask my officials to look into what can be done to address this issue. As I understand it, the owners have

hyn drwy'r asedau hanesyddol diwydiannol niferus yng Nghymru, sy'n agos at 1,000. Hoffwn ddweud hefyd fod ein hanes diwydiannol yn cael llawer o sylw mewn nifer o gyhoeddiadau'n ddiweddar, er enghraifft, mewn llyfrau megis *The Making of Wales* gan John Davies, sy'n profi bod Cadw'n cydnabod eich pwynt ynglŷn â phwysigrwydd ein hanes diwydiannol diweddar.

Jonathan Morgan: Fel yr Aelod Cynulliad dros Ogledd Caerdydd, yr oeddwn yn falch iawn pan gytunwyd rhyngoch chi a Cadw y dylid rhestru cronfa ddŵr Llanisien yn fy etholaeth am ei chyfraniad aruthrol i hanes pensaernïol a pheirianyddol Cymru. Heddiw, fodd bynnag, mae'r safle mewn perygl o hyd oherwydd bod ei berchenogion yn bwriadu draenio'r dŵr o'r gronfa. Maent yn honni bod angen gwneud hyn ar gyfer gwaith peirianyddol, ond mae tystiolaeth annibynnol yn dweud yn glir nad oes angen draenio'r gronfa. Yr wyf yn bryderus iawn, nid yn unig oherwydd y byddai'n cymryd blynyddoedd i ail-lenwi'r gronfa ddŵr, ond byddai ei draenio'n achosi difrod sylweddol i'r hyn sydd bellach yn safle rhestredig. Pwysaf arnoch fel Gweinidog i ymgynghori â'r cyfreithwyr yn eich adran a chyda Cadw i weld a all Llywodraeth y Cynulliad geisio cael gorchymyn llys yn erbyn Western Power Distribution i'w atal rhag draenio'r safle. A wnewch chi edrych ar y mater hwn cyn gynted ag sy'n bosibl oherwydd mae'r amser yn brin? Maent eisoes ar y safle, ac maent yn bygwth draenio'r dŵr o'r gronfa. Mae'n hollbwysig i'r Llywodraeth gymryd y mater hwn o ddifrif.

Alun Ffred Jones: Yn gyntaf, yr oeddwn yn falch bod y penderfyniad i restru argae'r gronfa ddŵr wedi'i gynnal yn yr Uchel Lys yn dilyn cais y cwmni am adolygiad barnwrol. Mater i'r cyngor sir ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw draenio'r gronfa ddŵr, a deallaf nad yw'r adroddiad arolygu a gomisiynwyd yn dweud bod angen draenio'r gronfa ddŵr er mwyn gwneud arolwg, a bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gofyn i'r cwmni gywiro'r camargraff hwn, a roddwyd mewn adroddiadau i'r wasg. Byddaf yn sicr yn gofyn i'm swyddogion weld beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn. Deallaf fod y perchenogion wedi dechrau

commenced draining the top three metres of the reservoir, which does not require discharge consent from the Environment Agency, but if they go further, then I believe that they will require that consent.

Celebrating Wales's Social History

Q3 Ann Jones: What plans does the Welsh Assembly Government have to celebrate Wales's social history? OAQ(3)1076(HER)

Alun Ffred Jones: We celebrate our social history through the work of Cadw and our national museums. In addition, we are investing some £2 million in the People's Collection, an innovative on-line resource that will gather and display our heritage. This is an opportunity for everyone to become involved in developing our shared history.

Ann Jones: For a small country we have a remarkably diverse history, and I do not believe that our potential has yet been fulfilled. In fact, very little social history is recorded. As bored baby boomers continue with their new-found passion of genealogy, Wales could capitalise with a social history museum that links ordinary people with extraordinary histories. For example, our industrial past shows the reaction of the Welsh working class to exploitation—and their reaction was one of co-operation. It was against great odds that previous working-class generations did incredible things to bring our communities to where they are today. The innovative nature of co-operation was built into our Welsh working-class communities, and the trade union movement has been stronger throughout the decades in Wales because of the values of a caring but fiercely resilient population. Do you agree with me and with the Associated Society of Locomotive Engineers and Firemen's campaign message, that it is high time that ordinary people's unique and powerful contribution to the economic, social, cultural and political development of Wales be properly recognised? If so, what are you going to do about it?

draenio tri metr uchaf y gronfa ddŵr, ac nad oes angen caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i wneud hyn, ond os byddant yn draenio mwy na hynny, yna credaf y bydd arnynt angen y caniatâd hwnnw.

Dathlu Hanes Cymdeithasol Cymru

C3 Ann Jones: Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatlu hanes cymdeithasol Cymru? OAQ(3)1076(HER)

Alun Ffred Jones: Yr ydym yn dathlu ein hanes cymdeithasol drwy waith Cadw a'n hamgueddfeydd cenedlaethol. Yn ogystal, yr ydym yn buddsoddi tua £2 filiwn yng Nghasgliad y Bobl, adnodd ar-lein dyfeisgar a fydd yn casglu ac yn arddangos ein treftadaeth. Mae hwn yn gyfle i bawb gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ein hanes a rennir.

Ann Jones: Mae gennym hanes amrywiol iawn o ystyried ein bod yn wlad fach, ac ni chredaf ein bod wedi cyflawni ein potensial eto. Yn wir, ychydig iawn o hanes cymdeithasol sy'n cael ei gofnodi. Wrth i'r bobl a anwyd yn y cyfnod wedi'r rhyfel, sydd â digon o amser rhydd, barhau eu diddordeb newydd mewn hel achau, gallai Cymru elwa ar hynny drwy gael amgueddfa hanes cymdeithasol sy'n cysylltu pobl gyffredin â hanesion anghyffredin. Er enghraifft, mae ein gorffennol diwydiannol yn dangos ymateb dosbarth gweithiol Cymru i'r modd y câi pobl eu hecsbloetio—a'u hymateb oedd cydweithredu. Llwyddodd cenedlaethau dosbarth gweithiol y gorffennol i wneud pethau rhyfeddol i ddatblygu ein cymunedau i'r hyn ydynt heddiw, yn wyneb anfanteision mawr. Cafodd natur ddyfeisgar cydweithredu ei hymgorffori yng nghymunedau dosbarth gweithiol Cymru, a bu mudiad yr undebau llafur yn gryfach ar hyd y degawdau yng Nghymru oherwydd gwerthoedd poblogaeth sy'n ofalgar ond yn hynod wydn. A ydych yn cytuno â mi a neges ymgyrch Cymdeithas Gysylltiedig y Peirianwyr Locomotifau a Diffoddwyr Tân ei bod yn hen bryd i gyfraniad unigryw a phwerus pobl gyffredin i ddatblygiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol Cymru gael ei gydnabod yn briodol? Os felly, beth yr ydych yn mynd i wneud am hyn?

Alun Ffred Jones: Yes, I agree wholeheartedly. I submit that much of the work at St Fagans already reflects that. National Museum Wales has also adopted a more progressive attitude in this context. I referred to the People's Collection, which has great potential to fulfil your aspirations and those of the union. When it is launched, hopefully at the National Eisteddfod in August, people will be able to search for and view resources linked to their own locality. In addition, individuals and local history groups will be able to contribute material to the collection. This will pull together and develop many resources relating to the social history of Wales, and will promote interest in the history of Wales via the global internet. This has exciting potential to fulfil the aspirations that you alluded to in your question.

2.30 p.m.

Mark Isherwood: History teaches us that, when the Romans landed on our island, they described the natives as 'the blue-painted ones of Bretayne', or Britons. History teaches us that, when the Saxons arrived on our island, they described the Britons as 'Waelisc'—or Welsh—meaning foreigner. What consideration could you give to promoting tourism and heritage in Wales as the crucible of British social history?

Alun Ffred Jones: That question would require a long seminar to address it, and I am not quite sure whether we know much about the coming of the Saxons because there is a great deal of confusion over when and where they arrived and exactly what they were doing here. However, I repeat that much of the work that has been done over the past 10, 15 and 20 years in the national museum and other institutions in Wales has begun to address these questions in a much more fundamental way. I have referred already to the way in which history is written these days, and I make reference to the great work by Rees Davies on Owain Glyndŵr. The first chapter is about the people of Wales and the way they lived at that time, rather than starting with the campaigns or whatever. That approach to history has much to commend it,

Alun Ffred Jones: Ydw, yr wyf yn cytuno'n llwyr. Awgrymaf fod llawer o'r gwaith yn Sain Ffagan eisoes yn adlewyrchu hynny. Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru hefyd wedi mabwysiadu agwedd fwy blaengar yn y cyd-destun hwn. Cyfeiriais at Gasgliad y Bobl, sydd â'r potensial i wireddu eich dyheadau chi a rhai'r undeb. Pan gaiff ei lansio—gobeithio y bydd hynny'n digwydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst—bydd pobl yn gallu chwilio am adnoddau ac edrych ar adnoddau sy'n gysylltiedig â'u hardal leol. Yn ogystal, gall unigolion a grwpiau hanes lleol gyfrannu deunydd i'r casgliad. Bydd hyn yn crynhoi ac yn datblygu llawer o adnoddau sy'n gysylltiedig â hanes cymdeithasol Cymru, a bydd yn hybu diddordeb yn hanes Cymru drwy'r rhyngwrwd fyd-eang. Mae i hyn bosibiliadau cyffrous i wireddu'r dyheadau y cyfeirich atynt yn eich cwestiwn.

Mark Isherwood: Mae hanes yn ein dysgu, pan ddaeth y Rhufeiniaid i'n hynys, eu bod wedi disgrifio'r brodorion fel 'pobl wedi'u paentio'n las o Bretayne', neu'r Brythoniaid. Mae hanes yn ein dysgu, pan ddaeth y Sacsoniaid i'n hynys, eu bod wedi disgrifio'r Brythoniaid fel 'Waelisc'—neu 'Welsh'—sy'n golygu estroniaid. Sut y gallech ystyried hyrwyddo twristiaeth a threftadaeth yng Nghymru fel pair hanes cymdeithasol Prydain?

Alun Ffred Jones: Byddai angen seminar hir i ateb y cwestiwn hwn, ac nid wyf yn siŵr a ydym yn gwybod cymaint â hynny am ddyfodiad y Sacsoniaid, oherwydd mae cryn ddryswch ynglŷn â phryd a ble y cyrhaeddodd y Sacsoniaid a beth yn union yr oeddent yn ei wneud yma. Fodd bynnag, dywedaf eto fod llawer o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y 10, 15 ac 20 mlynedd diwethaf yn yr amgueddfa genedlaethol ac mewn sefydliadau eraill yng Nghymru wedi dechrau mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn mewn ffordd lawer mwy sylfaenol. Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at y modd y caiff hanes ei ysgrifennu erbyn heddiw, a chyfeiriais at y gwaith gwych gan Rees Davies ar Owain Glyndŵr. Mae'r bennod gyntaf yn sôn am bobl Cymru a'r ffordd yr oeddent yn byw yn y cyfnod, yn hytrach na dechrau gyda'r

although I am unsure whether that is being carried through in our education system. However, that is not an issue for me today.

Janet Ryder: Minister, I want to take you back to what you said about the People's Collection and to Ann's point about social history. I declare an interest as chair of the Wireless Wales group in Denbigh, which is a small group formed to protect the incredible collection of wireless sets collected by David Jones. It forms the basis of a collection for a new museum in Denbigh. Currently, there is a small exhibition in Canolfan Iaith Clwyd in Denbigh, and we have now attracted funds to catalogue the pieces, which we hope will feed into and connect with the People's Collection. We have also received funding to record people's experiences of wireless technology, how they have grown up with it, and the impact that it has had on their lives in the Denbigh area. Are you aware of this group? If so, what help can you give to small community groups such as that, which have the potential to feed so much into a local area's history?

Alun Ffred Jones: I was not aware of that group or of the interesting contribution that David Jones has made in the area. However, local groups have an important part to play in recording and promoting the history of their locality. The idea of recording people's recollections is wonderful, and I am sure that there is room for that sort of activity in the People's Collection. There is practical support to be had, and I will write to you concerning that when I have spoken to my officials.

Sporting Talent in Wales

Q4 Joyce Watson: What is the Welsh Assembly Government doing to encourage and support sporting talent in Wales? OAQ(3)1065(HER)

Alun Ffred Jones: The Welsh Assembly Government is committed to making sure that Wales is a fitter nation. Our investment in sport aims to make our communities more physically active and people more physically

ymgyrchoedd, neu beth bynnag. Mae llawer i'w ganmol yn y dull hwn o ymdrin â hanes. Er hynny, nid wyf yn siŵr a yw hynny'n cael ei gynnal yn ein system addysg. Fodd bynnag, nid yw hynny'n fater i mi heddiw.

Janet Ryder: Weinidog, hoffwn gyfeirio'n ôl at yr hyn a ddywedasoch am Gasgliad y Bobl ac at bwynt Ann am hanes cymdeithasol. Yr wyf yn datgan budd fel cadeirydd grŵp *Wireless Wales* yn Ninbych, grŵp bach a sefydlwyd i ddiogelu'r casgliad rhyfeddol o setiau radio a gasglwyd gan David Jones. Mae'n rhan o gasgliad ar gyfer amgueddfa newydd yn Ninbych. Ar hyn o bryd, mae yna arddangosfa fach yng Nghanolfan Iaith Clwyd yn Ninbych, ac yr ydym wedi llwyddo i sicrhau arian i restru'r darnau mewn catalog a fydd, gobeithio, yn gyfraniad i Gasgliad y Bobl ac yn cysylltu ag ef. Yr ydym hefyd wedi cael arian i gofnodi profiadau pobl o dechnoleg ddiwifr, sut yr oedd y dechnoleg yn rhan o'u bywyd, a'r effaith y mae wedi'i chael ar eu bywydau yn ardal Dinbych. A ydych yn ymwybodol o'r grŵp hwn? Os felly, pa gymorth y gallwch ei roi i grwpiau cymunedol bach o'r fath, sydd â'r potensial i gyfrannu cymaint at hanes ardal leol?

Alun Ffred Jones: Ni wyddwn am y grŵp hwn nac am gyfraniad diddorol David Jones yn yr ardal. Fodd bynnag, mae gan grwpiau lleol rôl bwysig yn y gwaith o gofnodi a hyrwyddo hanes eu hardal leol. Mae'r syniad o gofnodi atgofion pobl yn wych, ac yr wyf yn siŵr bod lle i'r math hwn o weithgaredd yng Nghasgliad y Bobl. Mae cymorth ymarferol ar gael, ac ysgrifennaf atoch am hyn ar ôl imi siarad â'm swyddogion.

Talent Chwaraeon yng Nghymru

C4 Joyce Watson: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog a chefnogi talent chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)1065(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru'n wlad fwy heini. Mae ein buddsoddiad mewn chwaraeon yn ceisio gwneud ein cymunedau'n fwy egnïol a phob

literate, as well as helping to nurture our more talented sportsmen and women.

Joyce Watson: Thank you for that answer, Minister. I look forward to the launch of the elite sports strategy shortly. That strategy will, I am sure, highlight what needs to be done in preparation for the 2014 Commonwealth Games in Glasgow, including the development of facilities. There is always a balance to be struck between investment in elite and grass-roots sports, but when it comes to investing in facilities that accommodate elite training and also benefit the local community, it need not be a question of either/or. Therefore, does the Minister agree that the forthcoming strategy should help to deliver excellent facilities that are accessible to people in all parts of Wales? As a sporting nation, if Wales is to punch above its weight, it is vital that we tap into and develop talent, wherever we might find it, whether in Cardiff or Crymymch.

Alun Ffred Jones: I agree, and we certainly want to ensure that talented sportspeople are given the right support wherever they live. The performance and excellence sport review provided recommendations for a system that provides our young sporting talent with the best level of support to help them to achieve success at the highest level. I am in discussions, and will be further, with local authorities and the Sports Council for Wales about our sporting facilities. There is undoubtedly pressure on local authorities in this respect, and we must ensure that there is a consistent standard of facilities throughout Wales to achieve what we want to achieve for our talented sportspeople and to ensure physical participation at a community level.

Darren Millar: Minister, will you congratulate Conwy County Borough Council on the establishment some years ago of its excellence fund, which has supported 160 sportspeople who are competing in their

yn fwy deallus ynglŷn â gweithgarwch corfforol, yn ogystal â helpu meithrin ein dynion a'n merched sy'n fwy dawnus mewn chwaraeon.

Joyce Watson: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Edrychaf ymlaen at lansio'r strategaeth chwaraeon elít cyn hir. Yr wyf yn siŵr y bydd y strategaeth honno'n tynnu sylw at yr hyn y mae angen ei wneud i baratoi ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014, gan gynnwys datblygu cyfleusterau. Mae angen sicrhau cydbwysedd bob amser rhwng buddsoddi mewn chwaraeon elít a chwaraeon llawr gwlad, ond wrth fuddsoddi mewn cyfleusterau sy'n darparu ar gyfer hyfforddiant elít ac sydd hefyd o fudd i'r gymuned leol, ni ddylai fod yn fater o ddewis rhwng y ddau. Felly, a yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai'r strategaeth sydd ar ddod helpu darparu cyfleusterau rhagorol sy'n gyfleus i bobl ym mhob rhan o Gymru? Fel gwlad sy'n hoff o chwaraeon, os yw Cymru am gystadlu â gwledydd mwy mae'n hollbwysig inni wneud yn fawr o ddawn a'i datblygu ble bynnag y mae, boed yng Nghaerdydd neu yng Nghrymymch.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn cytuno, ac yr ydym yn bendant yn awyddus i sicrhau bod pobl sy'n disgleirio mewn chwaraeon yn cael y cymorth cywir ble bynnag y maent yn byw. Yr oedd yr adolygiad o berfformiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon yn cynnwys argymhellion ar gyfer system sy'n rhoi'r lefel orau o gymorth i'n pobl ifanc sy'n disgleirio mewn chwaraeon, i'w helpu i lwyddo ar y lefel uchaf. Yr wyf yn cael trafodaethau, a byddaf yn cael trafodaethau pellach, gydag awdurdodau lleol a Chyngor Chwaraeon Cymru am ein cyfleusterau chwaraeon. Yn ddi-os, mae pwysau ar awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn, a rhaid inni sicrhau bod yna gyfleusterau o safon gyson drwy Gymru gyfan er mwyn cyflawni'r hyn y dymunwn ei gyflawni ar gyfer ein pobl sy'n disgleirio mewn chwaraeon, a sicrhau cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol ar lefel gymunedol.

Darren Millar: Weinidog, a wnewch chi longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am sefydlu ei gronfa ragoriaeth rai blynyddoedd yn ôl? Mae wedi cefnogi 160 o bobl sy'n cystadlu yn eu camp ar lefel

sport at a national level to the tune of £125,000 since its establishment? Do you also recognise that these are precisely the sorts of funds that are threatened as a result of the historically low settlements that your Assembly Government has made available to local authorities in Wales? What discussions will you have with local authorities, not just to protect facilities such as leisure centres, which will clearly be threatened in some parts of Wales because of the local government settlement, but also to ensure that funds can continue to exist to motivate young people and others involved in sporting excellence across the country?

Alun Ffred Jones: I applaud Conwy council's foresight in this matter and I know that other local authorities have similar funds available. On financial support to local government, I must come back to the point that the Conservatives have declared quite openly that they will bring about cuts in public spending in the next financial year, and they will have a knock-on effect in Wales. I therefore find it confusing that you are asking the Government in Wales to spend more money here, there and everywhere although you are a member of a party that has indicated that it will cut public spending this coming year. I am not sure whether we need any lectures from you on that point.

Kirsty Williams: Despite having a relatively small population, Brecon and Radnorshire has a proud history of producing first-class international rugby players. In recent years, they have included Mark Jones, Andy Powell, Adam Jones and Dan Lydiate, as well as exciting new prospects such as Lewis Smout and Sam Hobbs. Many of those players started their rugby careers in local clubs, and so the facilities at those local clubs are vital if we are to continue to produce a train of talented young rugby players. Brecon Rugby Football Club desperately needs to improve the lighting on its ground to enable more youth teams to play and to develop women's rugby in the club. What can the Welsh Assembly Government do to help clubs like Brecon to supplement their fundraising efforts so that they can install facilities that will allow them to continue to

genedlaethol, gan gyfrannu tua £125,000 ers ei sefydlu. A ydych hefyd yn cydnabod mai dyna'r union fath o gronfeydd sy'n cael eu bygwth o ganlyniad i'r setliadau y mae eich Llywodraeth wedi'u rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru, sydd gyda'r isaf erioed? Pa drafodaethau y byddwch yn eu cael gydag awdurdodau lleol, nid yn unig er mwyn diogelu cyfleusterau megis canolfannau hamdden, a fydd yn amlwg yn cael eu bygwth mewn rhai rhannau o Gymru oherwydd setliad llywodraeth leol, ond hefyd i sicrhau y gall arian barhau i fod ar gael er mwyn cymell pobl ifanc ac eraill sy'n ymwneud â rhagoriaeth mewn chwaraeon ledled y wlad?

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn cymeradwyo craffter cyngor Conwy yn y mater hwn, a gwn fod gan awdurdodau lleol eraill gronfeydd tebyg. O ran cymorth ariannol i lywodraeth leol, rhaid imi ddychwelyd at y pwynt fod y Ceidwadwyr wedi cyhoeddi'n eithaf agored y byddant yn torri gwariant cyhoeddus yn y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd y toriadau hynny'n cael effaith gynyddol yng Nghymru. Felly, mae'n peri dryswch imi eich bod yn gofyn i'r Llywodraeth yng Nghymru wario mwy o arian ar hyn, y llall ac arall er eich bod yn aelod o blaid sydd wedi dweud y bydd yn torri gwariant cyhoeddus yn ystod y flwyddyn nesaf. Ni chredaf fod arnom angen pregeth gennych chi ar y pwynt hwnnw.

Kirsty Williams: Mae gan Frycheiniog a Sir Faesyfed hanes balch o gynhyrchu chwaraewyr rygbi rhyngwladol gwych, er mai cymharol fach yw poblogaeth yr ardal. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf maent wedi cynnwys Mark Jones, Andy Powell, Adam Jones a Dan Lydiate, yn ogystal â chwaraewyr newydd cyffrous megis Lewis Smout a Sam Hobbs. Dechreuodd nifer o'r chwaraewyr hyn eu gyrfaedd rygbi mewn clybiau lleol, ac felly mae'r cyfleusterau yn y clybiau lleol hyn yn hollbwysig os ydym i barhau i gynhyrchu llif o chwaraewyr rygbi ifanc dawnus. Mae taer angen gwella'r goleuadau ar gae Clwb Rygbi Aberhonddu i alluogi mwy o dimau ieuenedid i chwarae, ac i ddatblygu rygbi merched yn y clwb. Beth all Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i helpu clybiau fel Aberhonddu i ychwanegu at eu hymdrechion codi arian, er mwyn iddynt allu

produce first-class rugby players for our nation?

Alun Ffred Jones: I applaud that long list of players, although you seemed to stumble over one or two of the names. Sports clubs are at the heart of sports development, and the sports council is committed to supporting them by providing education and training to the volunteers and professionals involved, and appropriate investment. Community Chest grants are recognised as an important contributor to this support. However, the fall in lottery funding has affected the sports council's ability to support large schemes such as the one that you mentioned. Therefore, in the present climate, I am afraid that there is a limited amount that the sports council can do to support such important schemes. I recognise from my own experience the importance of having good-quality facilities at the local level, but I am unable to give you any reassurances that money will be available in the short term.

2.40 p.m.

Welsh Broadcasters

Q5 Leanne Wood: What recent discussions has the Minister had with Welsh broadcasters? OAQ(3)1063(HER)

Alun Ffred Jones: I have regular meetings with Welsh broadcasters and Ofcom. I recently met with representatives of all three potential tenderers for the independently funded news consortia—the news pilot project being led by the Department for Culture, Media and Sport—and members of the DCMS decision panel during their visit to Cardiff.

Leanne Wood: What discussions have you had recently regarding product placement on Welsh television? I understand that the UK Government has raised concerns about the unfair advantage that international broadcasters have over UK broadcasters because of the rules on product placement, and indications are that the rules will be

cael cyfleusterau a fydd yn caniatáu iddynt barhau i gynhyrchu chwaraewyr rygbi o'r radd flaenaf ar gyfer ein gwlad?

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn cymeradwyo'r rhestr hir hon o chwaraewyr, er ei bod yn ymddangos ichi faglu dros un neu ddau o'r enwau. Mae clybiau chwaraeon wrth wraidd datblygu chwaraeon, ac mae'r cyngor chwaraeon wedi ymrwymo i'w cefnogi drwy ddarparu addysg a hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr a'r bobl broffesiynol sy'n ymwneud â hwy, a buddsoddiad priodol. Cydnabyddir bod grantiau'r Gist Gymunedol yn gwneud cyfraniad pwysig i'r cymorth hwn. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn arian y loteri wedi effeithio ar allu'r cyngor chwaraeon i gefnogi cynlluniau mawr fel yr un a grybwyllwyd gennych. Felly, yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae arnaf ofn mai dim ond hyn a hyn y gall y cyngor chwaraeon ei wneud i gefnogi cynlluniau mor bwysig. Yr wyf yn cydnabod o'm profiad fy hun mor bwysig yw cael cyfleusterau da ar lefel leol, ond ni allaf roi dim sicrwydd y bydd arian ar gael yn y tymor byr.

Darlledwyr yng Nghymru

C5 Leanne Wood: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda darlledwyr yng Nghymru? OAQ(3)1063(HER)

Alun Ffred Jones: Byddaf yn cyfarfod yn rheolaidd â darlledwyr Cymru ac Ofcom. Yn ddiweddar, cyfarfûm â chynrychiolwyr y tri chwmni posibl a fydd yn tendro am y consortia newyddion a ariennir yn annibynnol—y prosiect newyddion peilot dan arweiniad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon—ac aelodau panel penderfynu'r adran yn ystod eu hymweliad â Chaerdydd.

Leanne Wood: Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ddiweddar ynglŷn â hyrwyddo cynnyrch ar raglenni teledu yng Nghymru? Deallaf fod Llywodraeth y DU wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r fantais annheg sydd gan ddarlledwyr rhyngwladol dros ddarlledwyr yn y DU oherwydd y rheolau ar hyrwyddo cynnyrch, ac mae awgrymiadau y bydd y

relaxed. Many parents will be concerned about the effect of that on the pester power of their children, who will ask for the junk food or the toys seen. Will you agree to raise these concerns with relevant Ministers at Westminster and with broadcasters in Wales?

Alun Ffred Jones: The Welsh Assembly Government submitted a joint response from the Minister for Health and Social Services, the Minister for Social Justice and Local Government, and me to the DCMS's 'Consultation on Product Placement on Television'. The response was published on 5 February and, on 9 February, the DCMS announced its results, which concurred with the Welsh Assembly Government's response. Products such as alcoholic drinks, foods and drinks that are high in fat, salt or sugar, and that relate to smoking are to be prohibited, among others.

Alun Cairns: Minister, the largest broadcaster in Wales is the BBC, in spite of a strong—even disproportionately so— independent sector. Do you not think that the BBC has an obligation to make full use of the independent sector, even when making programmes that are broadcast on the BBC?

Alun Ffred Jones: Yes. The BBC produces programmes through some independent companies, but I believe that it has an obligation to use the independent sector— although you might say that I am biased in that respect. [*Laughter.*] That also ensures that there is a broad base of production skills being developed outside the BBC, and that is especially important given the BBC's position relative to the industry here in Wales.

Hyrwyddo'r Gymraeg

C6 Paul Davies: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r iaith Gymraeg? OAQ(3)1061(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth Cymru'n Un yn parhau i fod yn ymroddedig i

rheolau'n cael eu llacio. Bydd llawer o rieni'n poeni am effaith hynny ar rym eu plant i blagio, a fydd yn gofyn am y bwyd sothach neu'r teganaua welant. A wnewch chi gytuno i godi'r pryderon hyn gyda'r Gweinidog perthnasol yn San Steffan a chyda darlledwyr yng Nghymru?

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno ymateb ar y cyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a minnau i'r Ymgynghoriad ar Hyrwyddo Cynnyrch ar y Teledu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cyhoeddwyd yr ymateb ar 5 Chwefror, ac ar 9 Chwefror cyhoeddodd yr adran ei chanlyniadau, a oedd yn cyd-fynd ag ymateb Llywodraeth y Cynulliad. Bydd cynnyrch megis diodydd alcohol, bwyd a diodydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr, a chynnyrch sy'n ymwneud ag ysmegu, ymhlith eraill, yn cael eu gwahardd.

Alun Cairns: Weinidog, y darlledwr mwyaf yng Nghymru yw'r BBC, er gwaethaf sector annibynnol cryf, sydd efallai'n anghyfartal o gryf. A ydych yn credu bod gan y BBC rwymedigaeth i ddefnyddio'r sector annibynnol yn llawn, hyd yn oed wrth gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu darlledu gan y BBC?

Alun Ffred Jones: Ydw. Mae'r BBC yn cynhyrchu rhaglenni drwy rai cwmnïau annibynnol, ond credaf fod ganddo rwymedigaeth i ddefnyddio'r sector annibynnol—er y gallech ddweud bod fy marn m hynny yn unllgyeidiog. [*Chwerthin.*] Mae hynny hefyd yn sicrhau bod sylfaen eang o sgiliau cynhyrchu'n cael ei datblygu y tu allan i'r BBC, sy'n arbennig o bwysig o gofio safle'r BBC yn y diwydiant yma yng Nghymru.

Promoting the Welsh Language

Q6 Paul Davies: What is the Welsh Assembly Government doing to promote the Welsh language? OAQ(3)1061(HER)

Alun Ffred Jones: The One Wales Government remains committed to making

wneud Cymru'n wlad gyfan gwbl ddwyieithog lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg

Wales a truly bilingual country where people can choose to live their lives through the medium of Welsh or English.

Paul Davies: Beth amser yn ôl, chwaraeodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol rôl allweddol yn yr achos yn erbyn cwmni Thomas Cook, a oedd wedi gwahardd rhai o'i staff rhag siarad Cymraeg. Yn sgîl sylwadau'r comisiynydd newydd, a all y Gweinidog egluro a oes rôl gan y corff hwn mewn perthynas â'r Gymraeg? Pa gefnogaeth y gall corff o'r fath ei rhoi i'r Gymraeg?

Paul Davies: Some time ago, the Commission for Equality and Human Rights played a key role in the case against Thomas Cook, which had forbidden some of its staff from speaking Welsh. Given the comments by the new commissioner, can the Minister clarify whether that body has a role in relation to the Welsh language? What support can such a body give to the Welsh language?

Alun Ffred Jones: Nid wyf yn siŵr ai'r comisiwn wnaeth y gwaith yn achos Thomas Cook, oherwydd gwn fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd wedi ymwneud â'r mater. Sefydlwyd yr egwyddor ers rhai degawdau nad yw materion ieithyddol fel y cyfryw yn berthnasol i waith y comisiwn cydraddoldeb, a hynny yn yr ystyr bur ynghylch yr iaith, neu unrhyw broblemau sy'n codi o ran defnyddio'r iaith. Daw'r sefyllfa'n fwy eglur wedi inni gyhoeddi'r Mesur arfaethedig, ond ni chredaf fod y datganiad a wnaed gan y comisiynydd yn newid y sefyllfa fel y bu ers rhai degawdau.

Alun Ffred Jones: I am not certain that it was the commission that did the work in the case of Thomas Cook, because I know the Welsh Language Board was also involved. It has been an established principle for some decades that linguistic matters as such are not matters for the equality commission, not in the pure sense of the language, or any problems arising in relation to language use. The situation will become clearer once we publish the proposed Measure, but I do not believe the statement made by the commissioner changes the situation which has existed for several decades.

Nerys Evans: Mae rôl bwysig hyrwyddo'r Gymraeg bellach yn nwylo Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Wrth ichi ddatblygu a gwireddu eich rhaglen ddeddfu ym maes y Gymraeg, mae'n bwysig parhau â'r elfen o'i hyrwyddo. A ydych yn cytuno bod angen i'r gwaith hwn barhau a chryfhau? Wrth i'r Mesur arfaethedig ynghylch yr iaith gael ei ddatblygu, pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith hwn? Ai'r comisiynydd newydd fydd yn gyfrifol?

Nerys Evans: The important role of promoting the Welsh language is now undertaken by the Welsh Language Board. As you develop and deliver your legislative programme for the Welsh language, it is important that that element of promotion continues. Do you agree that this work needs to continue and be strengthened? As the proposed Measure on the Welsh language is developed, who will be responsible for that work? Will it be the new commissioner?

Alun Ffred Jones: Cytunaf yn llwyr fod y gwaith hyrwyddo yn hollbwysig, a chredaf fod y sefyllfa yng Nghymru efallai'n fwy blaengar nag mewn gwledydd eraill, gan fod cymaint o'r gwaith hyrwyddo hwn yn digwydd ar lefel gymunedol. Credaf ei fod yn hollbwysig bod hynny'n parhau. Ni fydd y Mesur arfaethedig, pan fydd yn cael ei gyhoeddi, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r materion hyn, ond bydd yn rhoi'r hawl i'r comisiynydd i wneud y gwaith hwn. Credaf ei fod yn fater i'w drafod gan y Llywodraeth, y comisiwn a chyrrff eraill i weld lle fydd y

Alun Ffred Jones: I agree entirely that the promotional work is crucial, and I believe the situation in Wales is perhaps more innovative than in other countries, since much of this promotional work takes place on a community level. I believe it is essential that that should continue. The proposed Measure, when published, will not appertain directly to these issues, but it will give the commissioner the right to undertake this work. I think where this work will be done most effectively is a matter for discussion between the Government, the commission

gwaith yn cael ei wneud yn fwyaf effeithiol. Byddwn yn trafod y mater hwn yn gyhoeddus yn ystod y misoedd nesaf.

and other bodies. We shall discuss this matter publicly in the ensuing months.

Future of Welsh Football

Q7 Leanne Wood: What discussions has the Minister had regarding the future of Welsh football? OAQ(3)1059(HER)

Alun Ffred Jones: The Football Association of Wales has recently appointed Jonathan Ford as its new chief executive. I met Mr Ford on 13 January to discuss various issues relating to the development of Welsh football and free-to-air broadcasting.

Leanne Wood: Do you share my concern that the fans of Cardiff City Football Club were promised that if they bought their season tickets early for the next season, the funds would be invested in new players—the so-called ‘golden tickets’—but that the management has now reneged on that offer? Many fans believe that they were misled by the club’s managing director, Peter Ridsdale. Do you also share fans’ concerns about the future of Cardiff City Football Club—one of Wales’s top football clubs—because of the significant challenges faced by the club, which have recently been highlighted by the media? I am aware that a number of football clubs across the UK appear to be facing similar financial difficulties.

Alun Ffred Jones: First of all, I would like to congratulate both Cardiff and Swansea—says he, rapidly—on their comparative success on the playing fields this year. I am not in a position to comment on the situation at Cardiff City Football Club. The only thing that I would say is that the fans who have given loyal and raucous support to the team—including some Ministers here—deserve to be told the truth. However, the stories this morning about the general state of football clubs in the UK and the huge debts that they have racked up over recent years give great cause for concern.

Ann Jones: As we are talking about Welsh football, I must remind you that Rhyl

Dyfodol Pêl-Droed yng Nghymru

C7 Leanne Wood: Pa drafodaethau mae’r Gweinidog wedi’u cael ynghylch dyfodol pêl-droed yng Nghymru? OAQ(3)1059(HER)

Alun Ffred Jones: Yn ddiweddar, mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi penodi Jonathan Ford yn brif weithredwr newydd. Cefais gyfarfod â Mr Ford ar 13 Ionawr i drafod amrywiol faterion yn gysylltiedig â datblygu pêl-droed yng Nghymru a darlledu am ddim.

Leanne Wood: A ydych chi, fel finnau, yn pryderu bod cefnogwyr Clwb Pêl-droed Caerdydd wedi cael addewid, pe baent yn prynu eu tocynnau tymor am y tymor nesaf yn gynnar, y byddai’r arian hwnnw’n cael ei fuddsoddi mewn chwaraewyr newydd—y ‘tocynnau aur’, chwedl hwythau—ond bod y bwrdd rheoli bellach wedi torri’i air ar hynny? Mae nifer o gefnogwyr yn credu iddynt gael eu camarwain gan reolwr-gyfarwyddwr y clwb, Peter Ridsdale. A ydych chi, fel y cefnogwyr, yn pryderu am ddyfodol Clwb Pêl-droed Caerdydd—un o’r prif glybiau pêl-droed yng Nghymru—oherwydd yr heriau mawr sy’n wynebu’r clwb ac sydd wedi cael sylw yn y cyfryngau’n ddiweddar? Gwn fod nifer o glybiau pêl-droed ledled y DU yn wynebu anawsterau ariannol tebyg.

Alun Ffred Jones: Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Caerdydd ac Abertawe—meddai, yn gyflym—am eu llwyddiant cymharol ar y meysydd chwarae eleni. Nid wyf mewn sefyllfa i roi sylw ar y sefyllfa yng Nghlwb Pêl-droed Caerdydd. Yr unig beth y gallaf ei ddweud yw bod y cefnogwyr sydd wedi rhoi cefnogaeth deyrngar a llafar i’r tîm—gan gynnwys rhai Gweinidogion yma—yn haeddu’r gwirionedd. Fodd bynnag, mae’r storïau y bore yma am gyflwr cyffredinol clybiau pêl-droed yn y DU a’r dyledion mawr y maent wedi’u cronni dros y blynyddoedd diwethaf yn peri pryder mawr.

Ann Jones: Gan ein bod yn trafod pêl-droed yng Nghymru, rhaid imi eich atgoffa mai

Football Club is the current champion of Wales. Never mind about Cardiff, Wrexham or Swansea: they all play in the English league.

I ask you, Minister, to look at the pyramid leagues during your next meeting with the Football Association of Wales. Will you join me in congratulating the Cymru Alliance League, which is celebrating its seventy-fifth anniversary this year? The Cymru Alliance League has given many teams the opportunity to move through the pyramid system, and many of those players have now joined teams, such as Rhyl, in the Welsh Premier League and have enjoyed trips to Europe. Will you make sure that the FAW realises the importance of the pyramid system for Welsh football?

Alun Ffred Jones: I will raise that issue and I join you in congratulating the Cymru Alliance League on its seventy-fifth anniversary. I also applaud the progress made, not only by Rhyl, but by other leading clubs in Wales, which seem to be in rude health despite the difficulties that are faced by one or two of them.

Budget

Q8 Jenny Randerson: Minister, will you make a statement on the budget allocation to your department? OAQ(3)1055(HER)

Alun Ffred Jones: I am very conscious that the budget has been set at a time of an increasingly tight economic climate and in challenging times, and I am pleased that the revenue allocation of the heritage portfolio budget has been increased by £2.2 million or 1.5 per cent.

2.50 p.m.

Jenny Randerson: Some of the money from your budget goes towards the costs of Cadw. Earlier, Jonathan Morgan mentioned the decision made by the Court of Appeal this week on the listing of Llanishen reservoir. I share his pleasure and that of others living in the area that there was a very successful defence of that listing. I was particularly

Clwb Pêl-droed y Rhyl yw pencampwyr presennol Cymru. Anghofiwch am Gaerdydd, Wrecsam neu Abertawe: yng nghynghrair Lloegr y maent hwy'n chwarae.

Gofynnaf ichi, Weinidog, edrych ar y cynghreiriau pyramid yn ystod eich cyfarfod nesaf gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Cynghrair Undebol Cymru, sydd eleni'n dathlu 75 mlynedd ers ei sefydlu? Mae Cynghrair Undebol Cymru wedi rhoi cyfle i nifer o dimau symud drwy'r system byramid, a nifer o'r chwaraewyr hynny bellach wedi ymuno â thimau, megis y Rhyl, yn Uwch-gynghrair Cymru ac wedi mwynhau teithiau i Ewrop. A wnewch chi sicrhau bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y system byramid ar gyfer pêl-droed yng Nghymru?

Alun Ffred Jones: Codaf y mater hwn, a hoffwn innau longyfarch Cynghrair Undebol Cymru ar ei phen-blwydd yn 75 oed. Yr wyf hefyd yn cymeradwyo'r cynnydd sydd wedi'i wneud, nid yn unig gan y Rhyl, ond gan glybiau amlwg eraill yng Nghymru. Mae'n ymddangos eu bod mewn cyflwr da er gwaethaf yr anawsterau sy'n wynebu un neu ddau ohonynt.

Cyllideb

C8 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb a ddyrannwyd i'w adran? OAQ(3)1055(HER)

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn ymwybodol iawn fod y gyllideb hon wedi'i phennu mewn hinsawdd economaidd sy'n gynyddol anodd ac mewn cyfnod heriol, ac yr wyf yn falch bod y dyraniad refeniw i gyllideb y portffolio treftadaeth wedi cynyddu £2.2 miliwn neu 1.5 y cant.

Jenny Randerson: Mae rhywfaint o'r arian o'ch cyllideb yn mynd tuag at gostau Cadw. Soniodd Jonathan Morgan yn gynharach am y penderfyniad a wnaed gan y Llys Apêl yr wythnos hon ynglŷn â rhestru cronfa ddŵr Llanisien. Yr wyf fi hefyd yn falch, fel y mae yntau a phobl eraill sy'n byw yn yr ardal, fod y penderfyniad i restru'r gronfa wedi'i

pleased that costs were awarded against Western Power Distribution and that there will therefore be no cost to the taxpayer for the defence of that listing.

Minister, in your answer to Jonathan, you said with regard to one issue that it was a matter for Cardiff Council. Do you understand the immense frustration of the people of northern Cardiff, and those well beyond that area, that this site has every type of protection you could imagine—it is listed, it has a site of special scientific interest designation from the Environment Agency, and the council has given it protection as a nature reserve—and yet the power and might of big business still seems determined to go forward and trample the democratic decision-making process and the democratically made decision on protection? Rather than you and Jane Davidson, the other Minister involved in this, and the council operating separately, will you agree to meet as a powerful summit to look at a strategy for the way forward? If this reservoir is drained, it will be very damaging to the structure of the reservoir, which your department has ensured is listed.

Alun Ffred Jones: I will give your suggestion due consideration and I will write to you on that. The site is obviously valuable in more ways than one, and that is undoubtedly why there is so much pressure from the developers. When I said that this was a matter for the county council, I said that it was a matter for the council and the Environment Agency. I know that there are other agencies with interests in the site, but with regard to controlling the site and giving permission with regard to it, the council and the Environment Agency are the two lead bodies. I do not think I can comment further on the situation, but I will give your suggestion due consideration.

Gareth Jones: Weinidog, a fyddech yn cytuno bod y dehongliad a wnaed o'r ffigurau ar wariant ar dwristiaeth treftadaeth fesul ardal awdurdod lleol a gafodd eu cyhoeddi'n

amddiffyn yn llwyddiannus iawn. Yr oeddwn yn arbennig o falch fod costau wedi'u dyfarnu yn erbyn Western Power Distribution, ac felly ni fydd cost i'r trethdalwr am amddiffyn y penderfyniad hwnnw i restru'r gronfa.

Weinidog, yn eich ateb i Jonathan dywedasoch mai mater i Gyngor Caerdydd oedd un mater. A ydych yn deall rhwystredigaeth fawr pobl yng ngogledd Caerdydd, a thu hwnt i'r ardal honno, fod y safle hwn yn cael ei amddiffyn ym mhob ffordd bosibl—mae'n safle rhestredig, mae iddo ddynodiad ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig gan Asiantaeth yr Amgylchedd, ac mae'r cyngor wedi'i amddiffyn fel gwarchodfa natur. Er hynny, ymddengys fod busnes mawr yn dal yn benderfynol o ddefnyddio'i rym a'i bŵer i fwrw ymlaen a sathru ar y broses benderfynu ddemocrataidd a'r penderfyniad democrataidd a wnaed ynghylch amddiffyn y safle? Yn hytrach na chael sefyllfa lle'r ydych chi a Jane Davidson, y Gweinidog arall sy'n gysylltiedig â hyn, a'r cyngor yn gweithredu ar wahân, a wnewch chi gytuno i gwrdd fel uwch-gynhadledd bwerus i edrych ar strategaeth ar gyfer y ffordd ymlaen? Os caiff y gronfa ddŵr ei draenio, bydd yn niweidiol iawn i strwythur y gronfa ddŵr, er bod eich adran chi wedi sicrhau ei bod yn cael ei rhestru.

Alun Ffred Jones: Byddaf yn rhoi ystyriaeth deg i'ch awgrym, ac ysgrifennaf atoch ynglŷn â hynny. Mae'n amlwg fod y safle'n werthfawr mewn mwy nag un ffordd, a dyna pam mae cymaint o bwysau'n cael ei roi gan y datblygwyr. Pan ddywedais mai mater i'r cyngor sir oedd hyn, dywedais ei fod yn fater i'r cyngor sir ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Gwn fod gan nifer o asiantaethau eraill ddiddordeb yn y safle, ond o ran rheoli'r safle a rhoi caniatâd mewn cysylltiad ag ef, y cyngor ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r ddau gorff arweiniol. Ni chredaf y gallaf roi sylwadau pellach ar y sefyllfa, ond rhof ystyriaeth briodol i'ch awgrym.

Gareth Jones: Minister, do you agree that the interpretation of the figures recently published on the expenditure on heritage tourism in local authority areas was totally

ddiweddar yn gwbl gamarweiniol, ac nad ydyw'n adlewyrchu'r pwysigrwydd mae Llywodraeth Cymru'n Un yn ei roi ar y sector hwn o'r economi dwristiaeth? A ydych hefyd yn cytuno nad oedd ychwaith yn adlewyrchu'n gywir y ffordd yr ydych yn gwario'r gyllideb adrannol ar dwristiaeth, na'r budd economaidd sy'n dod i'r ardaloedd hynny o bob ffynhonnell o gyllid ac incwm? Faint o gyllideb eich adran sy'n cael ei wario ar dwristiaeth ac ar farchnata Cymru, yn enwedig gogledd Cymru, fel cyrchfan i ymwelwyr?

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn cytuno bod y *spin* a roddwyd ar y ffigurau yn gamarweiniol a byddaf yn cael cyfle i ehangu ar hynny yn ystod y ddadl prynhawn yma. Mae edrych yn unig ar yr arian craidd a roddir i Groeso Cymru ar gyfer ei weithgareddau marchnata ac i gefnogi'r diwydiant yn gamarweiniol, gan fod yr arian hwnnw yn cael ei chwyddo gydag arian Ewropeaidd. Mae Croeso Cymru wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus yn datblygu cynlluniau sy'n ymwneud â thwristiaeth ac wedi derbyn cefnogaeth arian Ewropeaidd wrth gwrs. Mae cyfanswm yr arian hwnnw yn agos at ryw £70 miliwn. Felly, mae ceisio gwneud môr a mynydd o un set o ffigurau mewn maes mor amrywiol yn gwbl gamarweiniol.

Mark Isherwood: As you are aware, Minister, Fields in Trust Cymru has indicated that its financial situation is precarious. It has had meetings with your officials, but it has said that, so far, each line has been rejected. It added that there is no doubt that it is helping the Welsh Government to achieve its strategic goals, but a specific reason is always given as to why a particular project cannot be funded. I wrote to you, and you replied that the Welsh Government needs to be satisfied that any project offers value for money and links to your sport and physical activity agenda. How do you therefore respond to concerns that the Children and Families (Wales) Measure 2010 redefined the Welsh Government's definition of 'play' to include any recreational activity, moving away from the previous position of play-work principles that children's behaviour should be freely chosen, personally directed, intrinsically motivated and performed for no external goal

misleading and does not reflect the importance that the One Wales Government attaches to this sector of the tourism economy? Furthermore, do you agree that it did not reflect accurately the way in which you spend the departmental budget on tourism or the economic benefits that those areas obtain from every source of finance and income? How much of your departmental budget is spent on tourism and on marketing Wales, and particularly north Wales, as a destination for visitors?

Alun Ffred Jones: I agree that the spin put on the figures was misleading and I will have an opportunity to expand on that during the debate this afternoon. Looking only at the core funding provided to Visit Wales for its activities in supporting the industry and for marketing is misleading, because that money is boosted by European funding. Visit Wales has been very successful in developing schemes involving tourism, and, of course, we have received European financial support. The total of that funding comes to around £70 million. Therefore, to try to make a mountain out of a molehill with one set of figures in such a varied area is totally misleading.

Mark Isherwood: Fel y gwyddoch, Weinidog, mae Meysydd Chwarae Cymru wedi dweud bod ei sefyllfa ariannol yn ansicr. Mae wedi cael cyfarfodydd gyda'ch swyddogion, ond mae wedi dweud bod pob awgrym, hyd yma, wedi'i wrthod. Dywedodd hefyd nad oes amheuaeth nad yw'n helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nodau strategol, ond rhoddir rheswm penodol bob tro pam nad yw'n bosibl ariannu prosiect penodol. Ysgrifennais atoch, ac yn eich ateb dywedech fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod pob prosiect yn rhoi gwerth yr arian ac yn cysylltu â'ch agenda ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Sut, felly, yr ydych yn ymateb i bryderon bod Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ail-ddiffinio diffiniad Llywodraeth Cymru o 'chwarae' i gynnwys unrhyw weithgaredd hamdden, gan symud i ffwrdd o'r diffiniad blaenorol wedi'i seilio ar egwyddorion gwaith chwarae, sef y dylai ymddygiad

or reward?

Alun Ffred Jones: That is an interesting interpretation, and I will not quarrel with it. The funds available to me are limited and certainly could not encompass all that is included in that definition. There is nothing wrong with the Government looking for value for money from its investments. We are still in contact with Fields in Trust, and I hope that we will be able to make a positive contribution in the near future.

Rygbi'r Gynghrai yng Nghymru

C9 Bethan Jenkins: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i rygbi'r gynghrai yng Nghymru? OAQ(3)1053(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi datblygu rygbi'r gynghrai yng Nghymru. Y llynedd, cyfrannodd Llywodraeth y Cynulliad £18,500 tuag at farchnata digwyddiadau penodol rygbi'r gynghrai. Eleni, dyrannodd Cyngor Chwaraeon Cymru £25,000 ar gyfer rygbi'r gynghrai yng Nghymru i gefnogi hyfforddiant, rhaglenni rhyngwladol ieuencid a phrosiect peilot rygbi'r gynghrai ar y stryd.

Bethan Jenkins: Fel y gwyddoch, bydd tîm rygbi'r gynghrai y Scorpions yng Nghastell-nedd Port Talbot am y ddwy flynedd nesaf. Mae rygbi'r gynghrai yng Nghymru yn chwilio am gefnogaeth er mwyn annog pobl leol i ymwneud â'r gêm a'u mynychu, hybu twristiaeth ac annog y cyngor i ymwneud fwyfwy gyda hybu'r gêm yn lleol. A oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw strategaeth i hybu twf rygbi'r gynghrai mewn ardaloedd llai breintiedig, megis Castell-nedd Port Talbot, yn sgîl yr hyn y mae Cyngor Wrecsam wedi ei wneud yn ddiweddar o ran symud tîm y Crusaders i Wrecsam? Mae'n bwysig bod rygbi'r gynghrai yn cael yr un fath o gefnogaeth â rygbi undeb yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi'r chwaraewyr a'r tîmau.

plentyn gael ei ddewis yn rhydd, ei gyfarwyddo'n bersonol, ei gymell o'i ran ei hun a'i gyflawni heb ddim nod na gwobr allanol?

Alun Ffred Jones: Mae hynny'n ddehongliad diddorol, ac nid wyf am ddadlau ag ef. Mae'r arian sydd ar gael imi'n gyfyngedig, ac yn sicr ni allai gwmpasu popeth sydd wedi'i gynnwys yn y diffiniad hwnnw. Nid oes dim o'i le yn y ffaith bod y Llywodraeth am i'w buddsoddiadau roi gwerth yr arian. Yr ydym yn dal mewn cysylltiad â Meysydd Chwarae Cymru, a gobeithio y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol yn y dyfodol agos.

Rugby League in Wales

Q9 Bethan Jenkins: Will the Minister outline Welsh Assembly Government support for rugby league in Wales? OAQ(3)1053(HER)

Alun Ffred Jones: The Welsh Assembly Government supports the development of rugby league in Wales. Last year, the Assembly Government provided £18,500 towards the marketing of specific rugby league events. This year, the Sports Council for Wales allocated £25,000 to league rugby in Wales to support coaching, junior international programmes and a street rugby league pilot project.

Bethan Jenkins: As you know, the Scorpions rugby league team will be in Neath Port Talbot for the next two years. Rugby league in Wales is looking for support to encourage young people to be involved in the game and to attend matches, to promote tourism and to encourage the council to do more to promote the game locally. Does the Assembly Government have a strategy to promote the growth of rugby league in deprived areas, such as Neath Port Talbot, in the wake of what Wrexham Council has done recently with moving the Crusaders team to Wrexham? It is important that rugby league should receive the same sort of support as rugby union in Wales. It is important that we support the players and the teams.

Alun Ffred Jones: Yr wyf wedi cyfarfod â swyddogion rygbi'r gynghair yng Nghymru ar fwy nag un achlysur ac wedi trafod y gweithgaredd a gyflawnir ganddynt yn y cymunedau a'r ysgolion, yn arbennig yng nghymoedd y De. Yr wyf yn gefnogol i hynny. Mater i Gyngor Chwaraeon Cymru yw'r gefnogaeth uniongyrchol y mae'r gamp yn ei derbyn. Yr oeddwn yn falch iawn o gael bod yn bresennol y llynedd yn y gêm rhwng Cymru a'r Alban, lle bu Cymru'n fuddugol gyda sgôr o 28 i 16. Yr wyf yn falch dweud hefyd bod uned digwyddiadau mawr y Llywodraeth wedi gallu cefnogi'r digwyddiad hwnnw gyda grant o £18,000.

Alun Ffred Jones: I have met rugby league officials in Wales on more than one occasion and have discussed their activities in various communities and schools, particularly in the south Wales Valleys. I am supportive of that. The direct support that rugby league receives is a matter for the Sports Council for Wales. I was very pleased to have attended last year's game between Wales and Scotland, which Wales won with a score of 28 to 16. I am also pleased to say that the Government's major events unit was able to support that event with a grant of £18,000.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei atebion.

The Presiding Officer: Thank you to the Minister for his responses.

Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog i Ganiatáu'r Cynulliad i Drafod a Chymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010
Motion to Suspend Standing Orders to Allow the Assembly to Debate and Approve the Draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): I move that

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:

suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under item 3 to be considered in Plenary on Wednesday 24 February 2010. (NDM4426)

yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 3 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Chwefror 2010. (NDM4426)

Y Llywydd: Y cwestiwn yw ein bod yn atal y Rheolau Sefydlog. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly galwaf am bleidlais. Gan mai mater gweithdrefnol yw hwn, cynhelir y bleidlais yn awr.

The Presiding Officer: The question is that we suspend Standing Orders. Are there any objections? I see there are, and therefore I call for a vote. As this is a procedural matter, the vote will be held now.

*Cynnig: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 11.
 Motion: For 38, Abstain 0, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Watson, Joyce
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Asghar, Mohammad
 Bourne, Nick
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Paul
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion agreed.*

**Dadl a Chymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru
 (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010
 Debate and Approval of the Draft National Assembly for Wales (Legislative
 Competence) (Housing and Local Government) Order 2010**

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): I move that

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfwyio (Jocelyn Davies): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 22.34:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.34:

approves the draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010. (NNDM4425)

yn cymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010. (NNDM4425)

I am pleased to lay the draft National

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Gorchymyn

Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010 for your approval today, which would provide legislative competence for the National Assembly in relation to social housing and meeting the accommodation needs of vulnerable people. The scrutiny process has demonstrated the breadth of support for this proposed legislative competence Order, not only politically, but also by the housing sector across Wales. I thank the National Assembly's Legislation Committee No. 2 for its scrutiny report. I was pleased to note the committee's unanimous support for the principles of the draft Order, and that all the consultees overwhelmingly agreed with its general principles.

3.00 p.m.

The committee raised a number of issues in relation to the private rented sector. As outlined in my letter to the committee, we are taking work forward in this area and if it is felt that legislative competence is necessary that will be taken up in a further legislative competence Order. With regard to the community right to buy, it is an interesting idea and I have asked my officials to investigate it, but I have decided not to amend the draft Order.

I thank the Welsh Affairs Committee, which similarly produced its report within a very short time frame, and I am pleased that it also supports the draft Order. In response to its report, we have made some minor technical changes, and have undertaken to work closely with the UK Government, particularly on cross-border issues.

Above all, the process of developing the draft Order has shown how important it is to enable the Assembly to legislate effectively on behalf of social tenants and vulnerable people in Wales. Without these powers the Assembly will not, for example, be able to introduce primary legislation to provide powers over the regulation of social landlords, and lenders have told us that a robust regulatory regime is vital to secure funding for Welsh registered social landlords.

Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010 ichi ei gymeradwyo heddiw. Byddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yng nghyswllt tai cymdeithasol a diwallu anghenion llety pobl sy'n agored i niwed. Mae'r broses graffu wedi dangos cymaint yw'r gefnogaeth i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn, nid yn unig yn wleidyddol, ond hefyd yn y sector tai yng Nghymru. Yr wyf yn diolch i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 y Cynulliad Cenedlaethol am ei adroddiad craffu. Yr oeddwn yn falch sylwi ar gefnogaeth unfrydol y pwyllgor i egwyddorion y Gorchymyn drafft, a bod pawb yr ymgynghorwyd â hwy yn cytuno i raddau helaeth iawn â'i egwyddorion cyffredinol.

Cododd y pwyllgor nifer o faterion yng nghyswllt y sector rhentu preifat. Fel yr eglurwyd yn fy llythyr at y pwyllgor, yr ydym yn datblygu gwaith yn y maes hwn, ac os teimlir bod angen cymhwysedd deddfwriaethol, eir i'r afael â hynny mewn Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arall. O ran yr hawl gymunedol i brynu, mae'n syniad diddorol, ac yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion ymchwilio iddo. Ond yr wyf wedi penderfynu peidio â diwygio'r Gorchymyn drafft.

Yr wyf yn diolch i'r Pwyllgor Materion Cymreig, a gynhyrchodd ei adroddiad mewn cyfnod byr iawn hefyd, ac yr wyf yn falch ei fod yntau'n cefnogi'r Gorchymyn drafft. Yr ydym wedi gwneud rhai mân newidiadau technegol i ymateb i'w adroddiad, ac wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, yn enwedig ar faterion trawsffiniol.

Yn anad dim, mae datblygu'r Gorchymyn drafft wedi dangos mor bwysig yw galluogi'r Cynulliad i ddeddfu'n effeithiol ar ran tenantiaid cymdeithasol a phobl sy'n agored i niwed yng Nghymru. Heb y pwerau hyn ni fydd y Cynulliad, er enghraifft, yn gallu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ddarparu pwerau i reoleiddio landlordiaid cymdeithasol, ac mae benthycwyr wedi dweud wrthym bod cael trefn reoleiddio gadarn yn hanfodol i sicrhau cyllid ar gyfer

Also, we will have no means to create a single social tenancy or to put flexible tenure on a statutory footing, which are things that tenants want. Without these powers, we will not be able to deliver the commitment to draw down powers to temporarily suspend the right to buy in areas of social housing pressure, which is supported in the manifestos of three parties here and by all consultees, including the Welsh Tenants Federation and TPAS Cymru. Without these powers, the Assembly will not be able to commit local authorities to increasing council tax to address issues raised by empty and second homes, which councils have called for. Without the draft Order, we cannot review legislation on the duties of local authorities in relation to the needs of homeless people, including putting the emphasis on prevention, or legislation to improve the housing-related support that we provide to vulnerable people, despite widespread support for that across the housing sector.

Only the shortage of time today prevents me from continuing, but I assure you all that the entire Welsh housing sector supports these powers being held here, and has given of its time freely and willingly to develop these policies. Two weeks ago, there was a unanimous vote in the Chamber to trigger a referendum. Many made it clear on that day that they wanted to campaign for a 'yes' vote this autumn. If we got that, all these powers, and more, would transfer here automatically. There can be no intellectual argument that would lead you logically to genuinely support a 'yes' campaign but to oppose the proposed Order. Therefore, I ask you to approve the draft Order, so that it can proceed to be considered by Parliament.

Val Lloyd: As Chair of the Legislation Committee No. 2, I am pleased to contribute to today's debate on the draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010. I thank all

landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. At hynny, ni fydd gennym fodd i greu un denantiaeth gymdeithasol neu roi sail statudol i ddeiliadaeth hyblyg, sy'n bethau y mae tenantiaid am eu cael. Heb y pwerau hyn, ni fyddwn yn gallu gwireddu'r ymrwymiad i gael pwerau i atal dros dro yr hawl i brynu mewn ardaloedd lle mae pwysau ar dai cymdeithasol. Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei gefnogi ym manifestos tair plaid yma a chan yr holl bobl yr ymgynghorwyd â hwy, gan gynnwys Ffederasiwn Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru. Heb y pwerau hyn, ni fydd y Cynulliad yn gallu gorfodi awdurdodau lleol i godi'r dreth gyngor er mwyn mynd i'r afael â phroblemau a achosir gan gartrefi gwag ac ail gartrefi, sy'n rhywbeth y mae cynghorau wedi galw amdano. Heb y Gorchymyn drafft, ni allwn adolygu deddfwriaeth ar ddyletswyddau awdurdodau lleol yng nghyswllt anghenion pobl ddigartref, gan gynnwys rhoi pwyslais ar atal digartrefedd, na deddfwriaeth i wella cymorth yn gysylltiedig â thai a ddarparwn i bobl sy'n agored i niwed, er y gefnogaeth eang sydd i hynny ar draws y sector tai.

Dim ond prinder amser heddiw sy'n fy atal rhag parhau, ond gallaf eich sicrhau bob un fod y sector tai yn gyfan yng Nghymru o blaid gweld y pwerau hyn yn dod i'r fan hon, ac mae'r sector wedi rhoi yn hael ac yn foddog o'i amser i ddatblygu'r polisiau hyn. Bythefnos yn ôl, cafwyd pleidlais unfrydol yn y Siambr i sbarduno refferendwm. Dangosodd llawer o bobl y diwrnod hwnnw eu bod am ymgyrchu dros bleidlais 'ie' yr hydref hwn. Pe baem yn ennill y bleidlais honno, byddai'r holl bwerau hyn, a mwy, yn cael eu trosglwyddo yma'n awtomatig. Nid oes yr un ddadl ddeallusol a fyddai'n eich arwain yn rhesymegol i gefnogi ymgyrch 'ie' yn wirioneddol ar y naill law ond gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig ar y llaw arall. Felly, gofynnaf ichi gymeradwyo'r Gorchymyn drafft, fel y gall fynd rhagddo i gael ei ystyried gan Senedd y DU.

Val Lloyd: Fel Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, yr wyf yn falch cael cyfrannu at y ddadl heddiw ar Orchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010. Diolch i holl

members of the committee for their hard and sustained work. I also thank all those who gave evidence to the committee, and particularly those individuals who came to answer our questions. We took evidence from the Welsh Local Government Association, Shelter Cymru, Cymorth Cymru, the Welsh Tenants Federation, the Chartered Institute of Housing Cymru and Community Housing Cymru. Witnesses' contributions were extremely helpful to the committee in carrying out its work. I thank the Deputy Minister for Housing and Regeneration for her extensive evidence to the committee. I also had informal discussions with the chair of the Welsh Affairs Committee, which proved to be useful to us both. Finally, I thank the clerking team for all their help and dedication in assisting us to report on the draft Order by the deadline of 29 January.

Legislation Committee No. 2 considered the proposed Order between December 2009 and January 2010. We agreed that the committee's approach to scrutiny would be to consider the general principles of the proposed Order and whether the legislative competence specified in matters 11.2 through to 11.8, and in matter 12.18, should be conferred on the Assembly, and, secondly, to decide whether the terms of the proposed Order were too broadly or too narrowly defined. Before I go into the specifics of the findings and recommendations, I would like to once again highlight the short amount of time that the committee was given to consider the proposed Order. The deadline set by the Business Committee allowed only five sitting weeks to complete the scrutiny of the proposed Order. We have been able to undertake full scrutiny of the proposals before us thanks to the speed with which witnesses responded to our call for evidence, particularly taking into consideration the fact that much of the available time was over the Christmas period. However, I believe that such short time frames put an unacceptable amount of pressure on organisations and would urge the Business Committee to give further consideration to deadlines in the interest of facilitating public engagement.

The committee was unanimous in its

aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled a pharhaus. Diolch hefyd i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, ac yn enwedig yr unigolion hynny a ddaeth i ateb ein cwestiynau. Cawsom dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Shelter Cymru, Cymorth Cymru, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru. Yr oedd cyfraniadau'r tystion o gymorth mawr i'r pwyllgor wrth iddo gyflawni'i waith. Diolch i'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio am ei thystiolaeth helaeth i'r pwyllgor. Cefais drafodaethau anffurfiol gyda chadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig hefyd, a fu'n fuddiol i'r naill a'r llall ohonom. Yn olaf, diolch i aelodau'r tîm clericio am eu holl gymorth a'u hymroddiad yn ein cynorthwyo i adrodd ar y Gorchymyn drafft erbyn y terfyn amser a bennwyd, sef 29 Ionawr.

Bu Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn ystyried y Gorchymyn arfaethedig rhwng mis Rhagfyr 2009 a mis Ionawr 2010. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn mynd ati i graffu trwy ystyried egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac ystyried a ddylid rhoi i'r Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol a bennir ym materion 11.2 i 11.8 ac ym mater 12.18, ac yn ail trwy benderfynu a oedd telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy eang ynteu'n rhy gyfyng. Cyn trafod y darganfyddiadau a'r argymhellion yn benodol, hoffwn dynnu sylw eto at y cyfnod byr a gafodd y pwyllgor i ystyried y Gorchymyn arfaethedig. Yr oedd y terfyn amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes yn golygu mai pum wythnos yn unig o amser cyfarfod y Cynulliad a oedd ar gael i gwblhau'r gwaith craffu ar y Gorchymyn arfaethedig. Yr ydym wedi gallu craffu'n llawn ar y cynigion sydd ger ein bron, diolch i'r ffaith fod tystion wedi ymateb yn gyflym iawn i'n cais am dystiolaeth, yn enwedig o gofio bod llawer o'r amser a oedd ar gael yn cynnwys cyfnod y Nadolig. Fodd bynnag, credaf fod amserlenni mor fyr yn rhoi pwysau annerbyniol ar sefydliadau, a byddwn yn annog y Pwyllgor Busnes i ystyried ymhellach y terfynau amser a bennir, er mwyn hwyluso ymgysylltu â'r cyhoedd.

Yr oedd y pwyllgor yn gwbl gytûn y dylid

agreement that legislative competence in the areas identified in the proposed Order should be conferred on the Assembly. That was supported by all the evidence received by the committee. The committee was broadly content with the scope of the proposed Order and the wording of all the matters, and was content with the interpretation provisions. However, the committee suggested that the scope could be widened in two areas.

First, on matter 11.4, which relates to tenure of rented social housing, the committee had some specific views on the exclusion of the private rented sector. We received evidence from a number of witnesses who commented on the exclusion of the private rented sector from the scope of the proposed Order. We recognise the important role that this sector plays in the housing market in terms of providing accommodation for people in housing need and assisting in the prevention of homelessness. We also recognise that greater use is being made of the private rented sector to alleviate pressure on social housing and as a result of difficulties relating to the affordability of owner occupation. As such, we were disappointed that the private rented sector was not within the scope of the proposed Order. However, in view of the importance of the proposed Order to delivering on the policy proposals relating to social housing and to meeting the needs of vulnerable people in Wales, the committee agreed that we would not wish to see the passage of the proposed Order unduly delayed by attempts to broaden its scope to include the said private rented sector.

However, we recommended that the Deputy Minister take the necessary steps to bring forward a proposed Order relating to tenure arrangements in the private rented sector at the earliest possible time. I note that the Deputy Minister has not included the private rented sector in the scope of this draft Order, but I was most grateful to receive a letter from her, following the publication of the committee's report, informing the committee that the Government will shortly be consulting on a range of proposals in this area. In fact, the consultation opened on Monday and is available on the Welsh Assembly Government's website. I thank the Deputy Minister for that.

rhoi i'r Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir yn y Gorchymyn arfaethedig. Cefnogwyd hynny gan yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor. At ei gilydd, yr oedd y pwyllgor yn fodlon â chwmpas y Gorchymyn arfaethedig ac â geiriad pob un o'r materion, ac yr oedd yn fodlon â'r darpariaethau dehongli. Fodd bynnag, awgrymodd y pwyllgor y gellid ehangu'r cwmpas mewn dau faes.

Yn gyntaf, o ran mater 11.4 sy'n ymwneud â deiliadaeth tai cymdeithasol ar rent, yr oedd gan y pwyllgor rai safbwyntiau penodol ar hepgor y sector rhentu preifat. Cawsom dystiolaeth gan nifer o dystion a sylwodd fod y sector rhentu preifat wedi'i hepgor o gwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Yr ydym yn cydnabod rôl bwysig y sector hwn yn y farchnad tai o ran darparu llety i bobl y mae angen cartref arnynt ac o ran cynorthwyo i atal digartrefedd. Yr ydym hefyd yn cydnabod bod y sector rhentu preifat yn cael ei ddefnyddio'n fwy helaeth i leddfu pwysau ar dai cymdeithasol, ac oherwydd anawsterau gyda fforddiadwyedd perchen-feddiannaeth. Fel y cyfryw, yr oeddem yn siomedig nad oedd y sector rhentu preifat wedi'i gynnwys yng nghwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Fodd bynnag, o gofio mor bwysig yw'r Gorchymyn arfaethedig i wireddu'r cynigion polisi ar dai cymdeithasol a diwallu anghenion pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru, cytunodd y pwyllgor na fyddai'n dymuno gweld hynt y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei arafu'n ormodol gan ymdrechion i ehangu ei gwmpas i gynnwys y sector rhentu preifat.

Fodd bynnag, argymhellwn y dylai'r Dirprwy Weinidog gymryd y camau angenrheidiol i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig ynghylch trefniadau deiliadaeth yn y sector rhentu preifat cyn gynted ag y gellir. Sylwaf nad yw'r Dirprwy Weinidog wedi cynnwys y sector rhentu preifat yng nghwmpas y Gorchymyn drafft hwn, ond yr oeddwn yn ddiolchgar iawn iddi am anfon llythyr ataf, ar ôl cyhoeddi adroddiad y pwyllgor, yn dweud wrth y pwyllgor y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori cyn hir ar ystod o gynigion yn y maes hwn. A dweud y gwir, dechreuodd yr ymgynghoriad ddydd Llun, ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Yr wyf yn diolch i'r Dirprwy Weinidog am hynny.

The second area that I wish to elaborate on is matter 11.5, which relates to disposals of social housing. The committee had some comments on community right to buy. We noted the Deputy Minister's reasons for not seeking legislative competence in this area, but we remain of the view that the inclusion may complement a range of powers in relation to disposals being sought under the proposed Order. We therefore asked the Deputy Minister to give consideration to extending the scope of the proposed Order to include community right to buy relating to social housing. Although I respect the Deputy Minister's decision, I am disappointed that she has not broadened the scope of the draft Order to include community right to buy. However, consultees who spoke in favour of community right to buy did not want the passage of the proposed Order delayed because of this issue.

The proposed Order was broadly welcomed by consultees and I believe that it equips the Assembly to legislate in the field of social housing in order to ensure greater clarity and to provide greater assistance to meet the housing needs of vulnerable people. I look forward to the Minister's response this afternoon and urge colleagues to support this draft LCO.

Mark Isherwood: I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add a new point at the end of the motion:

regrets the draft Order includes matters that can have no positive impact on sustainable housing in Wales.

3.10 p.m.

We strongly support many elements within this draft LCO that can have a real impact on tackling the housing crisis in Wales. However, we cannot support those elements that can make no difference whatsoever and which can only have been included in order to appease the misplaced dogma of a few. Hence amendment 1, which regrets that the draft Order includes matters that can have no positive impact on sustainable housing in

Yr ail faes yr wyf am ymhelaethu arno yw mater 11.5, sy'n ymwneud â gwerthu tai cymdeithasol. Yr oedd gan y pwyllgor rai sylwadau ar yr hawl gymunedol i brynu. Nodwyd rhesymau'r Dirprwy Weinidog dros beidio â cheisio cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn, ond yr ydym yn dal o'r farn y byddai ei gynnwys yn ategu ystod o bwerau'n ymwneud â gwerthu tai, a geisir dan y Gorchymyn arfaethedig. Felly, gofynnodd y pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog ystyried ehangu cwmpas y Gorchymyn arfaethedig i gynnwys yr hawl gymunedol i brynu yng nghyswllt tai cymdeithasol. Er fy mod yn parchu penderfyniad y Dirprwy Weinidog, yr wyf yn siomedig nad yw wedi ehangu cwmpas y Gorchymyn drafft i gynnwys yr hawl gymunedol i brynu. Fodd bynnag, nid oedd y sawl yr ymgynghorwyd â hwy ac a siaradodd o blaid yr hawl gymunedol i brynu, am i'r broblem hon arafu hynt y Gorchymyn arfaethedig.

At ei gilydd, croesawyd y Gorchymyn arfaethedig gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, a chredaf ei fod yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ym maes tai cymdeithasol er mwyn sicrhau mwy o eglurder a darparu mwy o gymorth i ddiwallu anghenion tai pobl sy'n agored i niwed. Edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog y prynhawn yma, ac anogaf fy nghyd-Aelodau i gefnogi'r Gorchymyn drafft hwn.

Mark Isherwood: Cynigaf welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu bod y Gorchymyn drafft yn cynnwys materion na allant effeithio'n gadarnhaol ar dai cynaliadwy yng Nghymru.

Yr ydym yn gryf o blaid nifer o elfennau yn y Gorchymyn drafft hwn, a all gael effaith wirioneddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Nghymru. Fodd bynnag, ni allwn gefnogi'r elfennau na allant wneud dim gwahaniaeth o gwbl ac sy'n ymddangos iddynt gael eu cynnwys er mwyn bodloni dogma gyfeiliornus ambell un. Dyna pam y cynigiwyd gwelliant 1, sy'n gresynu bod y Gorchymyn drafft yn cynnwys materion na

Wales. Had the Deputy Minister removed the meaningless and, for us, incendiary reference to the right to buy from this draft Order, we would have been able to support it. We therefore deeply regret that by not doing so she has prevented the cross-party consensus that we sought. Legislative competence Orders are supposed to be about agreement.

Alun Davies: Will you give way?

Mark Isherwood: Yes.

Chris Franks: The voice of reason.

Alun Davies: That was a great help.

You talked about cross-party consensus, which indeed there was. When this was last debated in the Chamber, on 1 December last year, you voted in favour of it. It has not changed.

Mark Isherwood: I was not present on that occasion, so I cannot comment.

Legislative competence Orders are supposed to be about agreement on a principle, with legislation to follow in resulting Measures. However, in practice, they have become statements of intent, blueprints for the legislation to follow, rather than the legislative blank sheets that the transfer of powers in a referendum would provide. Were this not the case and had this otherwise admirable and necessary draft Order not been tainted by petty, pointless dogma, we would be able to support it today.

Janet Ryder: Mark, you have said much about dogma. Can you tell me how selling off council housing and losing it from the social housing stock in any way helps to provide a sustainable social housing market for Wales?

Mark Isherwood: There is copious social and economic research on the benefits that

allant effeithio'n gadarnhaol ar dai cynaliadwy yng Nghymru. Gallasem, gefnogi'r Gorchymyn drafft hwn pe bai'r Dirprwy Weinidog wedi dileu'r cyfeiriad diystyr ynddo at yr hawl i brynu sydd, i ni, yn gyfeiriad cynhennus. Mae'n ofid mawr inni, felly, ei bod, trwy beidio â gwneud hynny, wedi atal y consensws trawsbleidiol yr oeddem yn ei geisio. Dylai Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol fod yn seiliedig ar gytundeb.

Alun Davies: A wnewch chi ildio?

Mark Isherwood: Gwnaf.

Chris Franks: Llais rheswm.

Alun Davies: Yr oedd y sylw hwnnw'n ddefnyddiol iawn.

Yr oeddech yn sôn am gonsensws trawsbleidiol, ac yn wir, cafwyd hynny. Pan gynhaliwyd y ddadl ddiwethaf ar y mater hwn yn y Siambr, ar 1 Rhagfyr y llynedd, fe bleidleisioch o'i blaid. Nid yw wedi newid.

Mark Isherwood: Nid oeddwn yn bresennol ar yr achlysur hwnnw, felly, ni allaf wneud sylw.

Dylai Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol fod yn seiliedig ar gytundeb ar egwyddor, a deddfwriaeth i ddilyn yn y Mesurau sy'n deillio ohonynt. Fodd bynnag, yn ymarferol maent wedi troi'n ddatganiadau o fwriad, yn lasbrint ar gyfer y ddeddfwriaeth sydd i ddilyn, yn hytrach na dalennau gwag deddfwriaethol, sef yr hyn y byddai trosglwyddo pwerau mewn refferendwm yn ei ddarparu. Pe na bai hynny'n wir, a phe na bai'r Gorchymyn drafft hwn, sydd fel arall yn glodwiw ac yn angenrheidiol, wedi'i lychwino gan ddogma ddibwynt, ddibwys, byddem yn gallu ei gefnogi heddiw.

Janet Ryder: Mark, yr ydych wedi sôn llawer am ddogma. A allwch ddweud wrthyf sut mae gwerthu tai cyngor a'u colli o'r stoc tai cymdeithasol yn helpu mewn unrhyw fodd i ddarparu marchnad tai cymdeithasol sy'n gynaliadwy i Gymru?

Mark Isherwood: Mae yna lawer iawn o ymchwil cymdeithasol ac economaidd ar y

the policy has delivered. What you cannot do is to stop building social housing, which is precisely what the devolved Government in Wales did. That was a betrayal and it is a betrayal that we are committed to addressing. *[Laughter.]* Laugh at yourselves—I would. This draft Order is tainted and the Welsh Conservative group's position is that we therefore cannot support it.

We stand with the Welsh housing sector in welcoming the opportunities that this draft Order provides to support the most vulnerable individuals receiving housing related support, supported living and homelessness services. We welcome the inclusion of our proposal for a single tenure and the protection that it will afford both landlords and tenants. We believe that many proposals in the draft Order offer opportunities for improving strategic planning and service delivery. However, as the Welsh Affairs Committee report states, the suspension of the right to buy would not, of itself, result in an increase in the supply of affordable housing. That is mature politics. Why, then, include it?

Helen Mary Jones: Mark, I understand your party's stand on the right to buy, although, obviously, I do not agree with it. However, this is not about the right to buy, but about whether or not the Assembly should be able to legislate on it. In the highly unlikely event that your party were to form the Government in the Assembly following the next elections, if the power was here, then you could change it. During the week before half term, the vast majority of your group said that they wanted full legislative competence here after a referendum, which I welcome. Surely, this is not consistent with that position. Do you want full legislative competence or not?

Mark Isherwood: I have already addressed that. A transfer of powers is a blank sheet; this is a statement of intent.

The introduction of the right to buy two

manteision a gafwyd o'r polisi hwnnw. Yr hyn na allwch ei wneud yw rhoi'r gorau i adeiladu tai cymdeithasol, sef yr union beth a wnaeth y Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Brad oedd hynny, ac mae'n frad yr ydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag ef. *[Chwerthin.]* Chwarddwch chi am eich pen eich hunain—dyna y byddwn i'n ei wneud. Mae'r Gorchymyn drafft hwn wedi'i lychwino, a safbwynt grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yw na allwn ei gefnogi oherwydd hynny.

Yr ydym ni, fel y sector tai yng Nghymru, yn croesawu'r cyfleoedd y mae'r Gorchymyn drafft hwn yn eu darparu i gefnogi'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n cael cymorth gyda thai, a gwasanaethau byw gyda chymorth a gwasanaethau digartrefedd. Croesawn y ffaith i'n cynnig ar gyfer un ddeiliadaeth gael ei gynnwys, a'r modd y bydd hynny'n amddiffyn landlordiaid a thenantiaid. Credwn fod nifer o'r cynigion yn y Gorchymyn drafft yn gyfleoedd i wella gwaith cynllunio strategol a gwaith darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y dywed adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig, ni fyddai atal yr hawl i brynu ynddo'i hun yn arwain at gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy. Gwleidyddiaeth aeddfed yw hynny. Pam ei gynnwys, felly?

Helen Mary Jones: Mark, yr wyf yn deall safbwynt eich plaid ar yr hawl i brynu, er nad wyf yn cytuno ag ef, yn amlwg. Fodd bynnag, nid yr hawl i brynu yw'r pwynt dan sylw. Y pwynt dan sylw yw a ddylai'r Cynulliad fod yn gallu deddfu yn ei gylch. Pe bai eich plaid chi'n ffurfio'r Llywodraeth yn y Cynulliad yn dilyn yr etholiadau nesaf, sy'n annhebygol iawn, yna gallech newid yr hawl, pe bai'r pŵer gennym yma. Yn ystod yr wythnos cyn hanner tymor, dywedodd mwyafrif helaeth o aelodau eich grŵp eu bod am gael cymhwysedd deddfwriaethol llawn yma ar ôl refferendwm, ac yr wyf yn croesawu hynny. Go brin bod hyn yn gyson â'r safbwynt hwnnw. A ydych am gael cymhwysedd deddfwriaethol llawn ai peidio?

Mark Isherwood: Yr wyf wedi rhoi sylw i hynny eisoes. Mae trosglwyddo pwerau yn ddalen wag; datganiad o fwriad yw hwn.

Yr oedd cyflwyno'r hawl i brynu ddau

decades ago went hand in hand with the provision of new social and affordable housing. It was delivered by housing associations, because they could double the money. Professor Steve Wilcox, now an adviser to the Deputy Minister, has concluded that simply stopping the right to buy in high-demand areas will have little or no immediate effect on re-let levels in those areas. He said that he did not think that suspending the right to buy would contribute to improving the availability of affordable housing in Wales, where, on average, people remain in occupation for 15 years and the cost to the public purse is simply the loss of a re-let in 15 years' time. So much for short-term relief.

The right to buy gave the opportunity for thousands to get onto the housing ladder and for the creation of mixed communities. Thirty years on, we should build on that, recognising the need for social housing that promotes opportunity and social mobility. We support the development of new forms of occupation, recognising the importance of intermediate housing where prices or rents are below market house prices or rents but above social rent levels, of low-cost home ownership schemes and of meeting the aspirations of social housing tenants for home ownership, all of which follow on from Conservative Government policies that have since been neglected by the devolved Government in the Assembly.

We would have concerns were council tax policy on second homes to be used as a blunt instrument in order to scapegoat in areas where housing shortages for local people have been caused by Welsh Government policy failure and neglect over a decade.

We strongly support proposals to deregulate housing associations and, with the proviso that Welsh Ministers could not dictate the location of sites to local authorities and that need should be identified according to the 2006 report, the 'Accommodation needs of Gypsy-Travellers in Wales', rather than county boundaries, we support proposals

ddegawd yn ôl yn mynd law yn llaw â darparu tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd. Cyflawnwyd hynny gan gymdeithasau tai am eu bod yn gallu dyblu'r arian. Mae'r Athro Steve Wilcox, sydd bellach yn gynghorydd i'r Dirprwy Weinidog, wedi dod i'r casgliad na fydd atal yr hawl i brynu mewn ardaloedd lle mae llawer o alw yn cael fawr ddim effaith uniongyrchol ar lefelau ailosod yn yr ardaloedd hynny. Dywedodd nad oedd yn credu y byddai atal yr hawl i brynu yn cyfrannu at wella nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru, gan fod pobl, ar gyfartaledd, yn byw yn eu tai am 15 mlynedd, a'r unig gost i bwrs y wlad yw'r ffaith y collir eiddo i'w ailosod ymhen 15 mlynedd. Nid yw hynny'n fawr o gymorth yn y tymor byr.

Yr oedd yr hawl i brynu yn cynnig cyfle i filoedd o bobl brynu tŷ am y tro cyntaf, a chyfle i greu cymunedau cymysg. Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, dylem adeiladu ar hynny gan gydnabod yr angen am dai cymdeithasol sy'n hybu cyfle a mudoedd cymdeithasol. Yr ydym yn cefnogi datblygu mathau newydd o feddiannaeth, gan gydnabod pwysigrwydd tai canolraddol, lle mae prisiau neu renti yn is na rhenti neu brisiau tai ar y farchnad ond yn uwch na lefelau rhent tai cymdeithasol, pwysigrwydd cynlluniau perchentyaeth cost isel a bodloni dyheadau tenantiaid tai cymdeithasol i fod yn berchen ar eu tŷ eu hunain. Mae pob un o'r rhain yn deillio o bolisiau Llywodraeth Geidwadol, sydd ers hynny wedi'u diystyru gan y Llywodraeth ddatganoledig yn y Cynulliad.

Byddem yn pryderu pe bai'r polisi ar y dreth gyngor ar ail gartrefi yn cael ei ddefnyddio fel erfyn di-fin i greu bwch dihangol mewn ardaloedd lle mae diystyrwch Llywodraeth Cymru a methiant ei pholisiau dros ddegawd wedi achosi prinder tai i bobl leol.

Yr ydym yn gryf o blaid cynigion i ddadroleiddio cymdeithasau tai, ac yr ydym yn cefnogi'r cynigion ynghylch sipsiwn a theithwyr, ar yr amod na allai Gweinidogion Cymru ddweud wrth awdurdodau lleol ble i leoli safleoedd, ac y dylid nodi angen yn unol â'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2006, 'Anghenion llety Sipsiwn-Teithwyr yng

concerning Gypsies and Travellers. It is therefore more than regrettable that this Welsh Government has chosen to play party politics with this draft Order.

As stated, much within this draft Order is admirable and necessary, and much of it, may I say, filched from us—and imitation is the sincerest form of flattery. Should Measures result from this draft Order that focus on what will make a positive difference rather than what will not, we will be minded to support them. Further, Welsh Conservatives in a future Welsh Government would take urgent action to bring forward the many positive proposals that this draft Order contains.

Gareth Jones: Mae'r broses sy'n ymwneud ag LCOs, a'r LCO drafft hwn yn enwedig, wedi bod yn enghraifft berffaith o pam mae angen pwerau i ddeddfu yma yn y Cynulliad yn hytrach na gorfod mynd â'n cap yn ein llaw i San Steffan i ofyn caniatâd.

Fel aelod o'r pwyllgor a ystyriodd y Gorchymyn drafft hwn, yr oedd y dystiolaeth a gawsom gan arbenigwyr a grwpiau perthnasol yn unfrydol ynghylch y newidiadau sy'n cael eu hargymell yn yr LCO drafft. Yr oedd tystiolaeth Shelter Cymru, yn enwedig, yn ddadlennol, ac o ganlyniad nid oes gennyf unrhyw amheuaeth am yr angen i weithredu yn y maes.

Mae cymunedau Cymru, fel y gwyddom i gyd ymhob plaid, yn wynebu her arbennig ym maes tai, o ran eu hansawdd a'u fforddiadwyedd, ac o ran y strategaethau ar gyfer y digartref. Yn hynny o beth, mae pob un yr wyf wedi gwranddo arno yn cefnogi'r camau y mae'r Llywodraeth yn awyddus i'w dilyn. Mae'n hanfodol ein bod yn cymeradwyo'r LCO drafft heddiw. Os na wneir hynny, clywsom gan y Dirprwy Weinidog yr hyn na allwn ei gyflawni yma, a byddai'n amhosibl inni fwrw ymlaen gyda'r gwelliannau hynny.

Essentially, this draft LCO is a practical

Nghymru', yn hytrach na chan ffiniau siroedd. Mae'n fwy na mater o ofid, felly, fod y Llywodraeth hon yng Nghymru wedi dewis defnyddio'r Gorchymyn drafft hwn ar ddibenion gwleidyddiaeth bleidiol.

Fel y dywedwyd, mae llawer o gynnwys y Gorchymyn drafft hwn yn glodwiw ac yn angenrheidiol, ac mae llawer ohono, os caf ddweud, wedi'i fachu oddi arnom ni—ac mae'n debyg mai dyna'r deyrnged orau y gallech ei rhoi inni. Os bydd Mesurau'n deillio o'r Gorchymyn drafft hwn a fydd yn canolbwyntio ar agweddau a fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, yn hytrach nag agweddau na fyddant yn gwneud hynny, byddwn yn barod i'w cefnogi. At hynny, byddai'r Ceidwadwyr Cymreig mewn Llywodraeth yng Nghymru yn y dyfodol yn gweithredu ar frys i gyflwyno'r cynigion cadarnhaol niferus sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft hwn.

Gareth Jones: The process relating to LCOs, and to this draft LCO in particular, has been a perfect example of why we need powers to legislate here in the Assembly rather than having to go, cap in hand, to Westminster to ask permission.

As a member of the committee that considered this draft Order, the evidence we received from experts and relevant groups was overwhelming regarding the changes being proposed in the draft LCO. Shelter Cymru's evidence, in particular, was revealing, and as a result I have no doubt about the need to take action in this area.

Welsh communities, as all of us from all parties know, face a specific challenge in relation to housing, in terms of their quality and affordability and the homelessness strategy. In that respect, everyone that I have listened to supports the action which the Government is keen to pursue. It is crucial that we approve this draft LCO today. If that is not done, we have heard from the Deputy Minister what we will not be able to achieve here, and it would be impossible for us to proceed with those improvements.

Yn ei hanfod, ymateb ymarferol yw'r

response to the expressed needs of individuals and communities throughout Wales. It is not based on ideology, dogma or spin; it is a direct response to the wishes of the people of Wales, and they are in agreement with it. Three of the four political parties represented in this Chamber made manifesto commitments to suspend the right to buy in areas of great pressure. There is a clear consensus, politically and among stakeholders in this field. It is therefore a matter of considerable regret that because of the demeaning legislative process, we must endure much of our energies being channelled to political and procedural considerations, rather than the issues that proposed legislation affects.

Alun Cairns: Will you take an intervention?

Gareth Jones: Not at the moment.

The eyes of so many today are on the opposition benches. Many will be watching and wondering whether the Conservatives are prepared to live up to their devolution-friendly approach—perhaps that is a façade—or whether they will slip once more into the old habits of denying Wales the most basic elements of nationhood. Two weeks ago, Conservative colleagues courageously voted for the process for a referendum on primary law-making powers for the Assembly to begin. If we enjoyed such powers today, there would be no debate on competence, and no three-year wait for the enacting of Welsh legislation. This draft LCO received strong support from all on the Welsh Affairs Committee, apart from three Tory MPs, two of whom never attended a single evidence session on this matter, while the other does not even represent a Welsh constituency. If the Conservatives here vote against this draft LCO, they would show inconsistency and a lack of clear thinking and vision in their approach to devolution.

Alun Cairns: Will the Member give way?

Gareth Jones: No, not at the moment. I have

Gorchymyn drafft hwn i'r anghenion a fynegwyd gan unigolion a chymunedau ledled Cymru. Nid yw'n seiliedig ar ideoleg, dogma na sbin; ymateb uniongyrchol ydyw i ddymuniaidau pobl Cymru, ac mae pobl Cymru'n cytuno ag ef. Gwnaeth tair o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Siambr hon ymrwymiaidau yn eu manifestos i atal yr hawl i brynu mewn ardaloedd lle mae pwysau mawr. Mae yna gonsensws clir, yn wleidyddol, ac ymysg rhanddeiliaid yn y maes hwn. Felly, mae'n destun gofid mawr fod y broses ddeddfwriaethol ddiraddiol yn golygu ei bod yn rhaid inni oddef sefyllfa lle mae llawer o'n hegni'n canolbwyntio ar ystyriaethau gwleidyddol a threfniadol, yn hytrach nag ar y materion y mae deddfwriaeth arfaethedig yn effeithio arnynt.

Alun Cairns: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Gareth Jones: Na wnaif, ddim ar hyn o bryd.

Mae llygaid cynifer o bobl heddiw ar feinciau'r wrthblaid. Bydd llawer yn gwyltio ac yn meddwl tybed a yw'r Ceidwadwyr yn barod i wireddu eu hagwedd sy'n gefnogol i ddatganoli—efallai mai rhith yw'r agwedd honno—ynteu a fyddant yn llithro'n ôl i'r hen arferion o warafun i Gymru elfennau mwyaf sylfaenol cenedligrwydd. Bythefnos yn ôl, cymerodd ein cydweithwyr yn y blaid Geidwadol gam dewr wrth bleidleisio o blaid dechrau'r broses o gael refferendwm ar bwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad. Pe bai gennym y pwerau hynny heddiw, ni fyddai dadl ynghylch cymhwysedd, ac ni fyddai'n rhaid aros tair blynedd i gyhoeddi deddfwriaeth i Gymru. Cafodd y Gorchymyn drafft hwn gefnogaeth gref gan bawb yn y Pwyllgor Materion Cymreig, ar wahân i dri Aelod Seneddol Torïaidd, nad oedd dau ohonynt wedi bod yn yr un sesiwn dystiolaeth ar y mater, a'r llall nad yw hyd yn oed yn cynrychioli etholaeth yng Nghymru. Os bydd y Ceidwadwyr yma yn pleidleisio yn erbyn y Gorchymyn drafft hwn, byddant yn dangos anghysondeb a diffyg meddwl a gweledigaeth glir yn eu hagwedd at ddatganoli.

Alun Cairns: A wnaiff yr Aelod ildio?

Gareth Jones: Na wnaif, ddim ar hyn o bryd.

a very important message to spell out to you, Alun.

Furthermore, the three MPs did not even provide a minority report to suggest any positive proposals in response to this issue. Perhaps the three Tory MPs who voted against this draft LCO at the Welsh Affairs Committee are the true representatives of modern Welsh conservatism. If they are not, I urge Tory AMs to act in the specific interests of Welsh communities, and not in the self-interest of their Westminster colleagues.

3.20 p.m.

Alun Cairns: I am grateful to Gareth Jones for giving way. He mentioned two issues, one of which is a procedural issue. I resent the point about using procedural motions. The Standing Orders are laid before the Assembly to allow due process and consideration to be given to issues. I resent the fact that you are using the Government majority to overturn that to drive legislation through, which does not allow it to be properly scrutinised, and I ask you to withdraw that point.

My second point is a principled objection about the right to buy. Our line has been consistent on this from before 1979 until now about preserving the right to buy. There is no consensus on the right to buy because, as you rightly said in your speech, three parties wish to suspend the right to buy; this party is not one of them.

Gareth Jones: You are hiding behind your talk of procedures; you are still not facing up to your obligations and responsibilities. The people of Wales gave us direct evidence. Some of your colleagues in Westminster never listened to that evidence—that is the whole point. Therefore, shame on you for not supporting the draft LCO. It shows extreme inconsistency and you are giving the people of Wales a mixed message as far as your stance on devolution is concerned. For the housing needs of Wales, we need to approve this draft LCO, and I look to you to support it.

Mae gennyf neges bwysig iawn ichi, Alun.

At hynny, ni ddarparodd y tri Aelod Seneddol adroddiad lleiafrifol hyd yn oed, i awgrymu unrhyw gynigion cadarnhaol mewn ymateb i'r mater hwn. Efallai mai'r tri Aelod Seneddol Torïaidd, a bleidleisiodd yn erbyn y Gorchymyn drafft hwn yn y Pwyllgor Materion Cymreig, yw gwir gynrychiolwyr ceidwadaeth Gymreig fodern. Os nad yw hynny'n wir, anogaf Aelodau Torïaidd y Cynulliad i weithredu er budd penodol cymunedau Cymru, nid er hunan-fudd eu cydweithwyr yn San Steffan.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i Gareth Jones am ildio. Cyfeiriodd at ddau fater, un ohonynt yn ymwneud â threfniadaeth. Mae'r pwynt ynghylch defnyddio cynigion trefniadol yn fy nigio. Caiff y Rheolau Sefydlog eu gosod gerbron y Cynulliad er mwyn caniatáu i faterion fynd drwy'r broses briodol a chael eu hystyried yn briodol. Yr wyf yn ddig eich bod yn defnyddio mwyafrif y Llywodraeth i wrthdroi hynny er mwyn gwthio deddfwriaeth drwodd, sy'n golygu nad oes modd craffu'n iawn arni, a gofynnaf ichi dynnu'r pwynt hwnnw'n ôl.

Mae fy ail bwynt yn wrthwynebiad, ar sail egwyddor, i'r hawl i brynu. Mae ein safbwynt ar ddiogelu'r hawl i brynu wedi bod yn gyson ers cyn 1979 tan heddiw. Nid oes consensws ar yr hawl i brynu oherwydd, fel y dywedasoeh yn ddigon cywir yn eich araith, mae tair plaid yn dymuno atal yr hawl i brynu; nid yw'r plaid hon yn un ohonynt.

Gareth Jones: Yr ydych yn cuddio y tu ôl i'ch holl siarad am weithdrefnau; yr ydych yn dal i osgoi eich rhwymedigaethau a'ch cyfrifoldebau. Cawsom dystiolaeth uniongyrchol gan bobl Cymru. Ni wrandawodd rhai o'ch cydweithwyr yn San Steffan ar y dystiolaeth honno erioed—dyna'r holl bwynt. Felly, rhag eich cywilydd am beidio â chefnogi'r Gorchymyn drafft. Mae'n dangos anghysondeb eithafol, ac yr ydych yn rhoi neges gymysg i bobl Cymru am eich safbwynt ar ddatganoli. Mae angen inni gymeradwyo'r Gorchymyn drafft hwn er mwyn anghenion tai Cymru, a gofynnaf ichi

ei gefnogi.

The Presiding Officer: Order. References have been made to the use of procedure. Alun Cairns will know that nothing happened today or yesterday that was contrary to our procedure or conventions. It is for any Member to move a procedural motion. In this case, the Deputy Minister chose to do so yesterday in preparation for today. That indicated that there was not the consensus that I had strived for within the Business Committee on this matter. We have observed our procedures and conventions.

Alun Cairns: On that point, I am grateful for your clarification because, until now, the convention for suspending Standing Orders was one where there has been consensus. I accept and recognise the reason why you as Presiding Officer did not table the motion to suspend Standing Orders.

The Presiding Officer: Thank you very much; now we all understand each other.

Peter Black: The Welsh Liberal Democrats fully support the draft housing LCO and the desire to draw down the powers contained in it. It is the LCO that we would have liked to have seen being introduced the first time around, but we must accept where we are. The point has already been made strongly about the vote on 9 February, where every Member of the Conservatives' group present, including Mark Isherwood, voted to support a referendum on greater powers, and indicated that they would vote for those powers. They were effectively saying that the powers contained in the draft LCO, along with many other powers, would be drawn down to the Assembly so that we could legislate accordingly.

David Melding *rose*—

Peter Black: May I finish this point? I find it bizarre that we are now in a situation where we are being asked to draw down powers from Westminster so that we are able to legislate, yet the Conservatives are opposed to that. I understand Mark's point that a

Y Llywydd: Trefn. Cyfeiriwyd at ddefnyddio trefniadaeth. Gŵyr Alun Cairns na ddigwyddodd dim byd heddiw na ddoe a oedd yn groes i'n trefniadaeth neu ein confensiynau. Mae pob Aelod yn rhydd i gynnig cynnig trefniadol. Yn yr achos hwn, dewisodd y Dirprwy Weinidog wneud hynny ddoe er mwyn paratoi ar gyfer heddiw. Yr oedd hynny'n arwydd na chafwyd y consensws yr oeddwn wedi ymdrechu i'w gael ar y mater hwn yn y Pwyllgor Busnes. Yr ydym wedi dilyn ein gweithdrefnau a'n confensiynau.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar am eich eglurhad ar y pwynt hwnnw, oherwydd hyd yn hyn yr oedd y confensiwn ar gyfer atal Rheolau Sefydlog yn un lle oedd consensws. Yr wyf yn derbyn ac yn cydnabod y rheswm pam na chafodd y cynnig i atal Rheolau Sefydlog ei gyflwyno gennych chi, fel Llywydd.

Y Llywydd: Diolch yn fawr; mae pawb yn deall ei gilydd yn awr.

Peter Black: Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwbl gefnogol i'r Gorchymyn drafft ar dai, a'r awydd i gael y pwerau a gynhwysir ynddo. Dyma'r Gorchymyn y byddem wedi dymuno gweld ei gyflwyno y tro cyntaf, ond rhaid inni dderbyn y sefyllfa yr ydym ynddi. Mae'r pwynt eisoes wedi'i wneud yn gryf ynghylch y bleidlais ar 9 Chwefror, lle pleidleisiodd pob Aelod o'r grŵp Ceidwadwyr a oedd yn bresennol, gan gynnwys Mark Isherwood, o blaid refferendwm ar gael mwy o bwerau, gan nodi y byddent yn pleidleisio o blaid y pwerau hynny. I bob pwrpas, yr oeddent yn dweud y byddai'r pwerau a gynhwysir yn y Gorchymyn drafft, ynghyd â nifer o bwerau eraill, yn dod i'r Cynulliad fel y gallem ddeddfu'n unol â hynny.

David Melding *a gododd*—

Peter Black: A gaf fi orffen y pwynt hwn? Credaf ei bod yn rhyfedd ein bod yn awr mewn sefyllfa lle gofynnir inni geisio pwerau gan San Steffan fel y gallwn ddeddfu, ond bod y Ceidwadwyr yn gwrthwynebu hynny. Deallaf bwynt Mark bod refferendwm yn

referendum is a blank sheet and that this indicates a statement of intent, but, ultimately, the effect is the same. We, as an Assembly, have those powers that we can use accordingly, and we will do so if we have a majority in the Assembly.

David Melding: I am happy to explain what appears to you to be an inconsistency, because it does not appear as such to me. We believe that the people of Wales should determine whether or not primary law-making powers should come to this institution. We urged that in 2005 when the Government of Wales Bill was being discussed. We opposed the LCO process at that stage because we thought that it equated to primary powers by the back door without asking the people of Wales. We have taken a pragmatic approach to LCOs, which is proper, but we have never said that we are committed to any LCO just because it draws down powers to the Assembly. We think that the people of Wales ought to determine our powers.

Peter Black: I understand that point too, David; I am happy for there to be a referendum for people to decide that. Having said that, you have also taken the view that you support those powers coming to Wales, yet you now oppose bringing those powers to Wales on the basis that you do not like what we will do with them. You cannot vote for a blank sheet and then quibble about what will be on that blank sheet at a later date. This is an important constitutional issue that the Conservatives do not seem to understand.

Mark said in opposing the draft LCO that the Welsh Conservative group supported some elements of it, but not others. If that is the case, you need to let us have the powers and then oppose the Measures that you oppose and support the Measures that you support; that is how it should be. There are no shades of grey here. If you vote against the draft LCO, you are voting against every single item in it and you will be held to account for that vote, irrespective of whether you want to do that or not. The powers that we will draw

ddalen wag a bod hyn yn dangos datganiad o fwriad, ond yr un yw'r effaith yn y pen draw. Fel Cynulliad, mae gennym y pwerau hynny y gallwn eu defnyddio'n gyfatebol, a dyna a wnawn os bydd gennym fwyafrif yn y Cynulliad.

David Melding: Yr wyf yn fodlon egluro'r hyn sy'n ymddangos yn anghyson i chi, oherwydd nid yw'n ymddangos felly i mi. Credwn mai pobl Cymru a ddylai benderfynu a ddylai'r sefydliad hwn gael pwerau deddfu sylfaenol ai peidio. Yr oeddem yn pwysu am hynny yn 2005 wrth drafod Mesur Llywodraeth Cymru. Bryd hynny bu inni wrthwynebu'r broses Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol am ein bod o'r farn ei bod yn gyfystyr â chael pwerau sylfaenol drwy'r drws cefn, heb ofyn i bobl Cymru. Yr ydym wedi bod yn bragmatig yn ein hagwedd at Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, ac mae hynny'n briodol, ond ni ddywedasom erioed ein bod wedi ymrwymo i unrhyw Orchmyn dim ond am ei fod yn fodd i gael pwerau i'r Cynulliad. Credwn mai pobl Cymru a ddylai benderfynu ein pwerau.

Peter Black: Yr wyf yn deall y pwynt hwnnw hefyd, David; yr wyf yn fodlon cael refferendwm er mwyn i bobl benderfynu hynny. Wedi dweud hynny, yr ydych hefyd wedi bod o'r farn eich bod yn cefnogi gweld y pwerau hynny'n dod i Gymru, ond yn awr, yr ydych yn gwrthwynebu hynny am nad ydych yn hoffi'r hyn y byddwn yn ei wneud â hwy. Ni allwch bleidleisio o blaid dalen wag ac yna ddadlau ynghylch beth fydd ar y ddalen wag honno'n ddiweddarach. Mae hwn yn fater cyfansoddiadol pwysig, ac ymddengys nad yw'r Ceidwadwyr yn ei ddeall.

Wrth wrthwynebu'r Gorchmyn drafft, dywedodd Mark fod grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi rhai elfennau ohono ond nid rhai eraill. Os felly, mae angen ichi adael inni gael y pwerau, ac yna wrthwynebu'r Mesurau yr ydych yn eu gwrthwynebu a chefnogi'r Mesurau yr ydych yn eu cefnogi; dyna sut y dylai fod. Nid oes man canol yn y mater hwn. O bleidleisio yn erbyn y Gorchmyn drafft, yr ydych yn pleidleisio yn erbyn pob eitem sydd ynddo, a byddwch yn cael eich galw i gyfrif am y bleidlais honno,

down are powers that the Assembly will use through the Measures that will be introduced. If you oppose us getting the powers on homelessness, council tax and second homes, and other aspects of the draft LCO, you are obstructing the Assembly from dealing with those issues and we will be justified in saying to the voters that the Welsh Conservatives have opposed those powers coming to us and are therefore opposed to us legislating on those particular issues. The Conservatives' position is clear to all of us on this side of the Chamber—

Alun Cairns: Will you give way?

Peter Black: No, I will not give way because I want to make two more quick points. I have limited time, and you have had adequate time to make your points. My points relate to the amendment that is being proposed and Mark's specific point on the right to buy. I accept that the right to buy is effectively in place already and that houses have been sold. I support the right to buy because I believe that people should have the right to buy their own homes, but a clear case is being made that, where there is high demand, there needs to be an element of stability to rebuild the social housing stock. If properties continue to be sold off in those areas of high demand, that will undermine the restocking process and that is why there is a case, in certain circumstances and where there is a proper housing needs survey, to suspend the right to buy for a limited period of time to replenish the social housing stock. That is why this particular aspect of the draft LCO—and when we have a Measure, there is no doubt that we will debate it again—will benefit sustainable housing in Wales.

Mark also referred to evidence given to the committee on the first LCO on whether the right to buy as it stands can enable you to replenish the social housing stock. Clearly, that is not the case. The person who gave that evidence to the committee accepted the point that I made to him, namely that unless the housing finance rules are changed, it will not be possible to use the capital receipts in the

p'un a fyddwch am wneud hynny ai peidio. Mae'r pwerau y byddwn yn eu cael yn bwerau y bydd y Cynulliad yn eu defnyddio drwy'r Mesurau a gaiff eu cyflwyno. Os byddwch yn gwrthwynebu ein hymdrechion i gael y pwerau ar ddigartrefedd, y dreth gyngor ac ail gartrefi, ac agweddau eraill ar y Gorchymyn drafft, byddwch yn rhwystro'r Cynulliad rhag ymdrin â'r materion hynny, a bydd yn deg inni ddweud wrth yr etholwyr bod y Ceidwadwyr Cymreig wedi gwrthwynebu ein hymdrechion i gael y pwerau hynny a'u bod, felly, wedi gwrthwynebu ein hymdrechion i ddeddfu ar y materion penodol hynny. Mae safbwynt y Ceidwadwyr yn glir i bawb ar yr ochr hon i'r Siambr—

Alun Cairns: A wnewch chi ildio?

Peter Black: Na wnaaf, oherwydd yr wyf am wneud dau bwynt arall yn sydyn. Ychydig amser sydd gennyf, ac yr ydych wedi cael digon o amser i wneud eich pwyntiau chi. Mae fy mhwyntiau'n ymwneud â'r gwelliant a gynigir a phwynt penodol Mark ar yr hawl i brynu. Derbyniaf fod yr hawl i brynu eisoes mewn grym i bob pwrpas a bod tai wedi cael eu gwerthu. Yr wyf yn cefnogi'r hawl i brynu oherwydd credaf y dylai pobl gael yr hawl i brynu eu cartrefi eu hunain, ond dadleuir yn glir bod angen elfen o sefydlogrwydd i ailadeiladu'r stoc tai cymdeithasol lle mae llawer o alw. Os bydd eiddo'n parhau i gael ei werthu yn yr ardaloedd lle mae llawer o alw, bydd hynny'n tanseilio'r broses ailstocio, a dyna pam y mae achos, mewn rhai amgylchiadau a lle mae arolwg priodol o anghenion tai, dros atal yr hawl i brynu am gyfnod cyfyngedig i ailgyflenwi'r stoc tai cymdeithasol. Dyna pam y bydd yr agwedd benodol hon ar y Gorchymyn drafft o fudd i dai cynaliadwy yng Nghymru—ac mae'n siŵr gennyf y cawn ddadl arall ar y mater pan fydd Mesur gennym.

Cyfeiriodd Mark hefyd at y dystiolaeth a roddwyd i bwyllgor y Gorchymyn cyntaf am y cwestiwn a all yr hawl i brynu, fel y mae ar hyn o bryd, eich galluogi i ailgyflenwi'r stoc tai cymdeithasol. Yn amlwg, nid yw hynny'n wir. Yr oedd y sawl a roddodd y dystiolaeth honno i'r pwyllgor yn derbyn y pwynt a wneuthum iddo, sef na fydd yn bosibl defnyddio'r cyfalaf a dderbynnir fel yr

way that he outlined and, therefore, the argument that it is possible to restock council houses and other social housing from the proceeds of right to buy does not apply because the Assembly does not have power over the housing finance rules. That needs to be made clear because the arguments being used to maintain the right to buy are spurious on that point. I hope that the Conservatives change their mind and support the draft LCO. It is about drawing down powers, not creating new legislation at this stage. I hope that they understand that if they vote against the draft LCO, they will oppose every single aspect of it and prevent us from developing the legislation that we need through it.

Alun Davies: Like most other speakers this afternoon, I welcome the publication of the draft LCO and the fact that we are debating it this afternoon. Many of us have spent some time debating affordable housing over the last few years and I am absolutely delighted to and have unqualified pleasure in welcoming the draft LCO this afternoon. You will note an element of relief, and even surprise and shock, in my voice. There were times when I did not think that we would get here, but we have, and I commend you for the work that you have done, Deputy Minister. You have worked extraordinarily hard on this, as have the committees, providing us with a draft legislative competence Order that goes further than the original Order that we debated and discussed and which seeks the legislative competence that we need to do the job in this case.

I am somewhat bamboozled by the Conservative opposition to this—they even opposed the debate taking place this afternoon. Conservative speakers have spoken about consistency, and during the committee stage, there was consistency. They supported this draft LCO at every stage, at every possible opportunity and at every vote.

amlinellodd oni bai bod y rheolau ar gyllid tai yn cael eu newid, ac felly, nad yw'r ddadl y gellir defnyddio'r arian a geir trwy'r hawl i brynu i ailgyflenwi tai cyngor a thai cymdeithasol eraill yn berthnasol, am nad oes gan y Cynulliad bŵer dros y rheolau ar gyllid tai. Mae angen egluro hynny, oherwydd mae'r dadleuon a ddefnyddir i gynnal yr hawl i brynu yn annilys yng nghyswllt y pwynt hwnnw. Gobeithio y bydd y Ceidwadwyr yn newid eu meddwl ac yn cefnogi'r Gorchymyn drafft. Ar hyn o bryd mae'n golygu cael pwerau, nid creu deddfwriaeth newydd. Gobeithio'u bod yn deall y byddant, trwy bleidleisio yn erbyn y Gorchymyn drafft, yn gwrthwynebu pob agwedd arno ac yn ein rhwystro rhag ei ddefnyddio i ddatblygu'r ddeddfwriaeth y mae arnom ei hangen.

Alun Davies: Fel y rhan fwyaf o'r siaradwyr eraill y prynhawn yma, yr wyf yn croesawu'r ffaith fod y Gorchymyn drafft wedi'i gyhoeddi a'n bod yn cael dadl amdano y prynhawn yma. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae nifer ohonom wedi treulio cryn amser yn dadlau am dai fforddiadwy, ac mae'n bleser mawr gennyf groesawu'r Gorchymyn drafft y prynhawn yma, ac yr wyf yn falch iawn o gael gwneud hynny. Byddwch yn synhwyro elfen o ryddhad, a hyd yn oed syndod a sioc, yn fy llais. Bu adegau pan nad oeddwn yn credu y byddem yn cyrraedd y fan hon, ond yr ydym wedi cyrraedd, ac yr wyf yn eich cymeradwyo am y gwaith yr ydych wedi'i wneud, Ddirprwy Weinidog. Yr ydych chi a'r pwyllgorau wedi gweithio'n eithriadol o galed ar hyn, gan ddarparu Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft inni sy'n mynd ymhellach na'r Gorchymyn gwreiddiol y buom yn ei drafod a'i ddadlau, ac sy'n ceisio'r cymhwysedd deddfwriaethol y mae arnom ei angen i wneud y gwaith yn yr achos hwn.

Yr wyf wedi fy nrysu braidd gan wrthwynebiad y Ceidwadwyr i hyn—yr oeddent hyd yn oed yn gwrthwynebu cael y ddadl hon y prynhawn yma. Mae siaradwyr o'r blaidd Geidwadol wedi sôn am gysondeb, a chafwyd cysondeb, yn ystod y cam pwyllgor. Cefnogwyd y Gorchymyn drafft hwn ganddynt ym mhob cam yn y broses, ar bob cyfle posibl ac ym mhob pleidlais.

Darren Millar *rose*—

3.30 p.m.

Alun Davies: I see that Darren is standing up because he wants to speak. I will give way to him in a moment, but I thought that I would give the Chamber the pleasure of hearing his words the last time he spoke on this matter, on 1 December 2009. He began, you will be pleased to hear, Deputy Minister, by thanking you for your hard work and expressing his pleasure that the proposed LCO was being brought forward that day. He said that he was pleased to confirm the Welsh Conservatives' support for it. However, his pleasure went further than mine. He was also delighted to support matters 11.4, 11.6, 11.7 and 11.8. He was delighted to support nearly all the proposed LCO. There was one area in matter 11.5 with which he said that his party had 'an issue' with, but he went on to lecture us that

'we must put dogma aside in this respect and focus on maximising the numbers of households that are housed rather than scrapping the right to buy for simply political reasons'.

Darren Millar: You will be aware that we have been entirely consistent on the right to buy right from day one when this was first proposed. If you want to talk about inconsistencies, let us talk about the inconsistency of the two governing parties voting against proposals for further powers in my Member proposed legislative competence Order, and yet voting in favour of further powers in the vote on the motion for a referendum. Let us talk about inconsistency; let us have this debate.

Alun Davies: I am not entirely sure that you answered the points raised there, but you are not alone in that. I recently picked up a press release that stated that the Deputy Minister for Housing and Regeneration was being put under the spotlight by a north Wales politician keen to know the Welsh Government's plans to tackle the shortage of new affordable homes for rent or for purchase. When I found out that that spotlight

Darren Millar *a gododd*—

Alun Davies: Gwelaf fod Darren yn sefyll am ei fod yn dymuno siarad. Ildiaf iddo ymhen eiliad, ond meddyliais y byddwn yn rhoi'r pleser i'r Siambr o glywed ei eiriau pan sairadodd ddiwethaf ar y mater hwn ar 1 Rhagfyr 2009. Byddwch yn falch clywed, Ddirprwy Weinidog, iddo ddechrau trwy ddiolch ichi am eich gwaith caled a mynegi ei bleser bod y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei gyflwyno'r diwrnod hwnnw. Dywedodd ei fod yn falch cadarnhau bod y Ceidwadwyr Cymreig yn ei gefnogi. Fodd bynnag, yr oedd e'n fwy balch na mi. Yr oedd hefyd yn falch o gefnogi materion 11.4, 11.6, 11.7 ac 11.8. Dywedodd ei fod yn falch cefnogi popeth bron yn y Gorchymyn arfaethedig. Dywedodd fod ei blaid yn cael anhawster gydag un elfen ym mater 11.5, ond aeth yn ei flaen i bregethu wrthym ei bod yn

'rhaid inni roi dogma o'r neilltu yng nghyswllt hyn a chanolbwyntio ar gartrefu'r nifer mwyaf posibl o deuluoedd yn hytrach na diddymu'r hawl i brynu am resymau gwleidyddol yn unig'.

Darren Millar: Gwyddoch inni fod yn gwbl gyson ynglŷn â'r hawl i brynu o'r dechrau'n deg pan gynigiwyd hyn gyntaf. Os ydych am sôn am anghysondebau, gadewch inni sôn am anghysondeb y ddwy blaid sy'n llywodraethu, a bleidleisiodd yn erbyn cynigion i gael mwy o bwerau yn fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig gan Aelod, ond gan bleidleisio o blaid cael mwy o bwerau, yn y bleidlais ar y cynnig am refferendwm. Gadewch inni sôn am anghysondeb; gadewch inni gael y ddadl hon.

Alun Davies: Nid wyf yn hollol siŵr ichi ateb y pwyntiau a godais yn awr, ond nid chi yw'r unig un i fethu â gwneud hynny. Gwelais ddatganiad i'r wasg yn ddiweddar yn dweud bod y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio yn cael ei holi gan wleidydd o'r gogledd, a oedd yn awyddus i daflu goleuni ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy newydd i'w rhentu neu eu prynu. Pylodd y goleuni

was being brandished by Mark Isherwood, it diminished its illumination somewhat. He asked what the Government was doing, on the sixtieth anniversary of Bevan's Housing Act, to provide Wales with more affordable housing. We know what you are doing, Deputy Minister; I would like to know what he is going to do.

Mark Isherwood: Before coming to this place, I worked in the social and housing finance sector for 22 years. I helped hundreds and hundreds of people to acquire their homes and access the housing ladder using the right to buy—a right they were previously denied. I also worked with Tai Cymru to introduce low-cost, home-ownership schemes to north Wales, which were stopped when devolution arrived. This is not dogma; I am speaking from half a lifetime's practical and professional experience—and I still remember the looks on people's faces when they got the help that they asked for.

Alun Davies: And I was talking about 21 January, just last month, when you asked what the Government was doing. We know what the Government is doing: it has taken the powers to act, but you oppose even a debate on that. If you had any consistency of intellect, you would know that the powers that we take to abolish the right to buy in certain defined areas are the same powers that you could use to reintroduce it, were you to have the mandate to do so. David Melding speaks about the people of Wales deciding—

Alun Cairns *rose*—

Alun Davies: No, I am going to finish my contribution now. In the 2007 election, the people of Wales did speak—

Alun Cairns: Give way.

The Presiding Officer: Order. This has been a lively debate, as is appropriate in a good democracy, but I do not think that he is giving way anymore, Alun.

Alun Davies: I have given way on a number

rywfaint pan ddysgais mai Mark Isherwood oedd y gwleidydd hwnnw. Gofynnodd beth yr oedd y Llywodraeth yn ei wneud, union drigain mlynedd wedi cyflwyno Deddf Tai Bevan, i ddarparu mwy o dai fforddiadwy i Gymru. Gwyddom beth yr ydych chi'n ei wneud, Ddirprwy Weinidog; hoffwn wybod beth y bydd ef yn ei wneud.

Mark Isherwood: Cyn dod yma, bûm yn gweithio yn y sector cyllid tai a chyllid cymdeithasol am 22 flynedd. Helpais gannoedd ar gannoedd o bobl i brynu eu cartrefi eu hunain am y tro cyntaf gan ddefnyddio'r hawl i brynu—hawl a wrthodwyd iddynt cyn hynny. Bûm yn gweithio gyda Tai Cymru hefyd i gyflwyno cynlluniau perchentyaeth cost isel yn y gogledd, a ataliwyd adeg datganoli. Nid dogma yw hyn; yr wyf yn siarad gyda hanner oes o brofiad ymarferol a phroffesiynol—a chofiaf o hyd yr olwg ar wynebau pobl pan fyddent yn cael y cymorth yr oeddent yn gofyn amdano.

Alun Davies: Ac yr oeddwn i'n sôn am 21 Ionawr, sef y mis diwethaf, pan ofynasoch beth yr oedd y Llywodraeth yn ei wneud. Gwyddom beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud: mae wedi cymryd y pwerau i weithredu, ond yr ydych chi'n gwrthwynebu cael dadl hyd yn oed ar hynny. Pe bai unrhyw gysondeb yn eich dealltwriaeth, byddech yn gwybod mai'r pwerau y byddem yn eu defnyddio i ddileu'r hawl i brynu mewn rhai ardaloedd penodol yw'r union bwerau y gallech chi eu defnyddio i ailgyflwyno'r hawl honno, pe baech yn cael mandad i wneud hynny. Mae David Melding yn sôn am adael i bobl Cymru benderfynu—

Alun Cairns *a gododd*—

Alun Davies: Na, yr wyf yn bwriadu gorffen fy nghyfraniad yn awr. Yn etholiad 2007, mynegodd pobl Cymru eu barn—

Alun Cairns: Ildiwch.

Y Llywydd: Trefn. Mae hon wedi bod yn ddadl fywiog, fel sy'n briodol mewn democratiaeth dda, ond ni chredaf ei fod am ildio bellach, Alun.

Alun Davies: Yr wyf wedi ildio droeon. Yn

of occasions. In 2007, the people of Wales did speak. They voted overwhelmingly for parties committed to this policy. The Government is now delivering that manifesto commitment. If you had any commitment to democracy and to the proposals on housing, you would vote in favour of this rather than run away from what you have said before, from votes that you have taken before, and from your contributions in committee, so sit down and vote.

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): To start, I will deal with the amendment. I refer the Conservatives to the report, as I think that they would benefit from reading it. Matter 11.5 does not mention the right to buy; it talks about disposals by social landlords. I will list the organisations that specifically supported that matter: Shelter, Community Housing Cymru, the Chartered Institute of Housing, the Welsh Local Government Association, the Tenants' Participation Advisory Service, the Presbyterian Church of Wales, and the Tenants' Federation. Those organisations are hardly driven by dogma, nor are they a bunch of amateurs. They know what they are talking about. Alun made a good point: if the powers over disposals by social landlords were to lie here with the Assembly, the Conservatives could, if they ever found themselves in Government, extend the right to buy. Perhaps we could see those proposals. Perhaps you would like to suggest that it applies—

Alun Cairns: I am grateful to the Deputy Minister for giving way. She listed the organisations in favour of matter 11.5 in the draft Order. However, the Welsh Conservatives have tabled many motions for debate that were phrased virtually word for word to reflect the wishes and pledges of various charitable organisations—including one supported by the National Autistic Society—but you have voted against them. There can be legitimate reasons for disagreeing with, and voting against, motions that have the support of external organisations. Our standpoint on the right to

2007, mynegodd pobl Cymru eu barn. Bwriasant eu pleidlais i raddau helaeth iawn o blaid pleidiau a oedd wedi ymrwymo i'r polisi hwn. Bellach mae'r Llywodraeth yn gwireddu'r ymrwymiad hwnnw yn ei maniffesto. Pe bai gennyhch unrhyw ymrwymiad i ddemocratiaeth a'r cynigion ar dai, byddech yn pleidleisio o blaid y mater hwn, yn hytrach na chefnu ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud o'r blaen, a phleidleisiau yr ydych wedi'u bwrw o'r blaen, a'ch cyfraniadau yn y pwyllgor. Felly, eisteddych a phleidleisiwch.

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Yr wyf am ymdrin â'r gwelliant yn gyntaf. Hoffwn gyfeirio sylw'r Ceidwadwyr at yr adroddiad, gan fy mod yn credu y byddai'n fuddiol iddynt ei ddarllen. Nid yw mater 11.5 yn crybwyll yr hawl i brynu; mae'n sôn am landlordiaid cymdeithasol yn gwerthu eiddo. Rhestraf y sefydliadau a gefnogodd y mater hwnnw'n benodol: Shelter, Cartrefi Cymunedol Cymru, y Sefydliad Tai Siartredig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Ffederasiwn Tenantiaid. Go brin mai dogma sy'n gyrru'r sefydliadau hynny, ac nid criw o amaturiaid mohonynt ychwaith. Maent yn gwybod am beth y maent yn sôn. Gwnaeth Alun bwynt da: pe bai gan y Cynulliad bwerau yng nghyswllt hawl landlordiaid cymdeithasol i werthu eiddo, gallai'r Ceidwadwyr ymestyn yr hawl i brynu, pe baent byth yn eu cael eu hunain mewn Llywodraeth. Efallai y gallem weld y cynigion hynny. Efallai yr hoffech awgrymu ei bod yn berthnasol—

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ildio. Rhestrodd y sefydliadau sydd o blaid mater 11.5 yn y Gorchymyn drafft. Fodd bynnag, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno llawer o gynigion i'w trafod, a eiriwyd air am air fwy neu lai i adlewyrchu dymuniadau ac addewidion gwahanol sefydliadau elusenol—gan gynnwys un cynnig a gefnogwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth—ond yr ydych wedi pleidleisio yn eu herbyn. Gall fod rhesymau dilys dros anghytuno â chynigion a gefnogir gan sefydliadau allanol, a phleidleisio yn eu

buy is as it is and has been consistent since 1979. That is how it stands.

Jocelyn Davies: My point is that the support of those organisations shows that this is not a matter driven by party politics alone. Matter 11.5 in the draft Order is supported by housing professionals and not one of you is a housing professional. I will tell you what the Chartered Institute of Housing said about this matter:

‘We firmly support the aspirations of social housing tenants for homeownership, but in our view there are other products and initiatives (particularly flexible tenure) that are more fit-for-purpose in today’s housing system’.

Just imagine that. I now come on to the debate. I thank Val for her contribution, and her chairing of the legislation committee, which had to work to a very tight deadline because of the approaching general election. I hope that the committee at least understood the response that I sent on the private rented sector. I know that you would have preferred a broader scope, but I do not think that I could ever satisfy a committee of the Assembly in relation to powers over housing. I am always told that they should be broader. However, we will give serious consideration to the matters that you raise.

I thank Mark for his contribution. He did the best job that he could considering the shoddy deal that he was given by the rest of his group today. I will correct him on one point, however. Steve Wilcox is not my adviser. He was independently commissioned to do a specific piece of work. He was an adviser to the Welsh Affairs Committee, which has issued a report in support of this draft Order.

You cannot create a social housing tenancy without powers over disposals by social landlords;. You cannot put low-cost home ownership schemes on a statutory footing without those powers. The proposed Order was welcomed by Members from all parties of the Chamber in December. I know that

herbyn. Mae ein safbwynt ar yr hawl i brynu fel y mae, ac mae wedi bod yn gyson er 1979. Dyna fel y mae.

Jocelyn Davies: Fy mhwynt yw bod cefnogaeth y sefydliadau hynny’n dangos nad mater sy’n cael ei yrru gan wleidyddiaeth plaid yn unig mo hwn. Caiff mater 11.5 yn y Gorchymyn drafft ei gefnogi gan bobl broffesiynol sy’n gweithio ym maes tai, ac nid oed yr un ohonoch chi yn weithiwr proffesiynol yn y maes hwnnw. Dywedaf wrthyhych beth a ddywedodd y Sefydliad Tai Siartredig am y mater hwn:

Yr ydym yn gwbl gefnogol i ddyheadau tenantiaid tai cymdeithasol i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, ond yn ein barn ni mae yna gynnyrch a mentrau eraill (a deiliadaeth hyblyg yn benodol) sy’n fwy addas at y diben yn y system tai sydd ohoni.

Dychmygwch hynny. Dof at y ddadl yn awr. Yr wyf yn diolch i Val am ei chyfraniad ac am gadeirio’r pwyllgor deddfwriaeth, y gorfu iddo weithio yn ôl terfyn amser tynn iawn oherwydd bod yr etholiad cyffredinol ar y gorwel. Gobeithio bod y pwyllgor o leiaf wedi deall yr ymateb a anfonais am y sector rhentu preifat. Gwn y byddai’n well gennych gwmpas ehangach, ond ni chredaf y byddai byth yn bosibl imi fodloni un o bwyllgorau’r Cynulliad yng nghyswllt pwerau dros dai. Bydd pobl yn dweud wrthyf o hyd y dylent fod yn fwy eang. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried o ddifrif y materion a godwch.

Yr wyf yn diolch i Mark am ei gyfraniad. Gwnaeth cystal ag y gallai o ystyried y tro gwael a wnaeth gweddill ei grŵp ag ef heddiw. Yr wyf am ei gywiro ar un pwynt, fodd bynnag. Nid yw Steve Wilcox yn gynghorydd imi. Fe’i comisiynwyd yn annibynnol i wneud darn penodol o waith. Yr oedd yn gynghorydd i’r Pwyllgor Materion Cymreig, sydd wedi cyhoeddi adroddiad i gefnogi’r Gorchymyn drafft hwn.

Ni allwch greu tenantiaeth tai cymdeithasol heb bwerau dros hawl landlordiaid cymdeithasol i werthu eiddo. Ni allwch roi sail statudol i gynlluniau perchentyaeth cost isel heb y pwerau hynny. Cafodd y Gorchymyn arfaethedig ei groesawu gan Aelodau o bob plaid yn y Siambr ym mis

Mark was not here, but he is welcome to read the Record.

Darren Millar: When you brought forward the proposed LCO, of course we welcomed it, but I made it quite clear on that day that we did not support anything regarding the right to buy.

Jocelyn Davies: We just heard Alun quoting your words. I have read the Record, and everyone else is able to do so. You said that you supported it 'in principle'.

Gareth sat on the committee, and the evidence that was presented was overwhelmingly positive. I was not surprised by that, because we involved outside organisations in developing the policy that underpinned it, and so no member of that committee had any reason not to endorse its content. Moreover, I gave assurances to the committee, to the Chamber, and to the Welsh Affairs Committee that this Government does not intend to abolish the right to buy. We have been consistent on that, but you choose to ignore it.

You had no principles when it came to suspending Standing Orders to discuss the proposed Orders on culture or school governance. There was no problem then. You have singled out the draft LCO on housing, so it is not a matter of the rules being paramount; you are quite prepared to suspend Standing Orders—

Alun Cairns *rose*—

Jocelyn Davies: No, you have had your say on this, and now I am having mine.

3.40 p.m.

Peter, I could not agree more with all that you said. Two committee reports have supported the draft Order, all the consultees and all the evidence supports it, but it is suggested that, for some reason, I should remove something supported by everyone throughout. That would be absolutely ridiculous. Are the Conservatives suggesting that we need a

Rhagfyr. Gwn nad oedd Mark yma, ond mae croeso iddo ddarllen y Cofnod.

Darren Millar: Pan gafodd y Gorchymyn arfaethedig ei gyflwyno gennych, cafodd groeso gennym wrth gwrs, ond eglurais y diwrnod hwnnw nad oeddem yn cefnogi dim ynghylch yr hawl i brynu.

Jocelyn Davies: Yr ydym newydd glywed Alun yn dyfynnu eich geiriau. Yr wyf wedi darllen y Cofnod, a gall pawb arall wneud hynny. Dywedasoch eich bod yn ei gefnogi 'mewn egwyddor'.

Yr oedd Gareth ar y pwyllgor, ac yr oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn gadarnhaol i raddau helaeth iawn. Nid oeddwn yn synnu at hynny, gan inni gynnwys sefydliadau allanol wrth ddatblygu'r polisi a oedd yn sail iddo, ac nid oedd gan yr un aelod o'r pwyllgor hwnnw reswm, felly, i beidio â chefnogi'i gynnwys. At hynny, rhoddais sicrwydd i'r pwyllgor, i'r Siambr ac i'r Pwyllgor Materion Cymreig nad yw'r Llywodraeth hon yn bwriadu dileu'r hawl i brynu. Yr ydym wedi bod yn gyson ynglŷn â hynny, ond yr ydych chi'n dewis anwybyddu'r pwynt.

Nid oedd gennych ddim egwyddorion pan oedd angen atal Rheolau Sefydlog i drafod y Gorchymynion arfaethedig ar ddiwylliant neu lywodraethu ysgolion. Nid oedd problem bryd hynny. Yr ydych wedi dewis y Gorchymyn drafft ynghylch tai yn benodol, felly, nid mater ydyw fod y rheolau o'r pwys mwyaf; yr ydych yn ddigon parod i atal Rheolau Sefydlog—

Alun Cairns *a gododd*—

Jocelyn Davies: Na, yr ydych wedi cael dweud eich dweud ar y mater; fy nhro i yw hi'n awr.

Peter, ni allwn gytuno mwy â'r cyfan a ddywedasoch. Mae dau adroddiad pwyllgor wedi cefnogi'r Gorchymyn drafft, mae pawb yr ymgynghorwyd â hwy a'r holl dystiolaeth yn ei gefnogi. Ond awgrymir, am ryw reswm, y dylwn ddileu rhywbeth yr oedd pawb yn ei gefnogi gydol yr amser. Byddai hynny'n hollol hurt. A yw'r Ceidwadwyr yn awgrymu

referendum on every single legislative competence Order that seeks to draw down primary legislation? They are choosing not to understand. Now let me remind you of something, David Melding. In 1999, it was your group that proposed that we devolve the law on hunting. Why was that? Did you want a referendum on that? No. It was because you thought that the decision that you wanted could be secured here. You cannot run a Government based on those principles, because there are no principles underpinning that.

David Melding *rose*—

Jocelyn Davies: No, David, I will not give way.

The Presiding Officer: Order. I do not think that the Deputy Minister is giving way, David. She seems to be in full flow.

Jocelyn Davies: It is not just me who has been working very hard on this, but the entire housing sector in Wales. You are now completely out of the loop on housing, believe you me. I thank Alun for reminding us of the debate in December 2009, which had cross-party support. However, I will give the last word to Shelter, which the Conservatives often quote to us, but I can tell them not to bother ever again.

‘If the LCO fell at this late stage, it would be a huge blow for homeless and vulnerable people in Wales. The Welsh Government would be left in the impossible situation of carrying out a comprehensive review of homelessness services but lacking the powers to take any action to respond to the needs of vulnerable people...We need this LCO to pass.’

Therefore, if you do not want to listen to me, please listen to those who represent vulnerable people in Wales.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf pob

bod angen inni gael refferendwm ar bob Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol sy'n ceisio cael pwerau deddfu sylfaenol? Maent yn dewis peidio â deall. Gadewch imi eich atgoffa o un peth, David Melding. Yn 1999 eich grŵp chi a gynigiodd y dylem ddatganoli'r gyfraith ar hela. Pam hynny? A oeddech am gael refferendwm ar hynny? Na. Y rheswm am hynny oedd eich bod yn credu y gallech gael y penderfyniad yr oeddech am ei gael yma. Ni allwch redeg Llywodraeth ar sail yr egwyddorion hynny, oherwydd nid oes egwyddorion yn sail i hynny.

David Melding *a gododd*—

Jocelyn Davies: Na, David, nid wyf am ildio.

Y Llywydd: Trefn. Ni chredaf fod y Dirprwy Weinidog am ildio, David. Mae'n ymddangos ei bod yn cael hwyl arni.

Jocelyn Davies: Nid fi yw'r unig un sydd wedi bod yn gweithio'n galed iawn ar hyn, oherwydd mae'r holl sector tai yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n galed iawn arno. Yr ydych yn hollol anwybodus am yr hyn sy'n digwydd ym maes tai erbyn hyn, credwch fi. Yr wyf yn diolch i Alun am ein hatgoffa o'r ddadl ym mis Rhagfyr 2009, a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol. Fodd bynnag, yr wyf am roi'r gair olaf i Shelter, sefydliad a ddyfynnir inni'n aml gan y Ceidwadwyr, ond gallaf ddweud wrthynt am beidio â thrafferthu byth eto.

Pe bai'r Gorchymyn yn methu mor hwyr â hyn yn y broses, byddai'n ergyd drom i bobl ddigartref a phobl sy'n agored i niwed yng Nghymru. Byddai hynny'n gadael Llywodraeth Cymru yn y sefyllfa amhosibl o orfod gwneud adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau digartrefedd heb y pwerau i weithredu i ymateb i anghenion pobl sy'n agored i niwed...Mae angen i'r Gorchymyn hwn gael ei basio.

Felly, os nad ydych am wrando arnaf fi, gwrandewch ar y rheini sy'n cynrychioli pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru.

The Presiding Officer: The question is that amendment 1 be agreed. Is there any objection? I see that there is objection, and so

pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. I will defer all votes on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission

Commonwealth Parliamentary Association

Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

Q1 Leanne Wood: Does the Assembly Commission make a contribution to the Commonwealth Parliamentary Association? OAQ(3)0038(AC)

C1 Leanne Wood: A yw Comisiwn y Cynulliad yn cyfrannu at Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad? OAQ(3)0038(AC)

The Commissioner for the Assembly and the Citizen (Peter Black): The National Assembly for Wales's Commonwealth Parliamentary Association branch contributes to the CPA on several different levels. We pay an annual subscription fee and nominate Assembly Members to participate in its conferences, as well as host visiting delegations from other branches. The CPA Wales Branch is proud of the leading contribution that it is making to promote discussions to shape the way in which the CPA is governed in a positive and accountable manner.

Comisiynydd y Cynulliad a'r Dinesydd (Peter Black): Mae cangen Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cyfrannu at y gymdeithas mewn nifer o ffyrdd. Yr ydym yn talu ffi danysgrifio flynyddol ac yn enwebu Aelodau'r Cynulliad sy'n cymryd rhan yng nghynadledau'r gymdeithas, yn ogystal â chrosawu ymwelwyr o ganghennau eraill o'r gymdeithas. Mae cangen Cymru yn falch o'r cyfraniad blaenllaw y mae'n ei wneud i hyrwyddo trafodaethau i lunio'r modd y caiff y gymdeithas ei rhedeg mewn ffordd gadarnhaol ac atebol.

Leanne Wood: I would be grateful if you could tell us how much money is provided to the CPA from the Assembly Commission. In addition, are you aware of any other funding sources for the CPA's work in Wales? Are you, personally, confident that we are getting value for money from that expenditure?

Leanne Wood: Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym faint o arian a roir i'r gymdeithas gan Gomisiwn y Cynulliad. Yn ogystal, a wyddoch am unrhyw ffynonellau cyllid eraill ar gyfer gwaith y gymdeithas yng Nghymru? A ydych chi'n bersonol yn hyderus ein bod yn cael gwerth yr arian o'r gwariant hwnnw?

Peter Black: The CPA membership fee for the National Assembly for Wales in 2010 was £7,056, an increase of 2.7 per cent on previous years. As I said, the Assembly has contributed particularly to work on improving the management of the CPA and the way in which it is run. Therefore, we are confident that we are getting value for money as well as valuable experience from that. The work of the Assembly's delegates to the CPA contributes to improving that experience and the value for money that we get from it.

Peter Black: Ffi aelodaeth y gymdeithas ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2010 oedd £7,056, sy'n gynydd o 2.7 y cant ers blynnyddoedd blaenorol. Fel y dywedais, mae'r Cynulliad wedi cyfrannu'n benodol at wella'r modd y caiff y gymdeithas ei rheoli a'i rhedeg. Felly, yr ydym yn hyderus ein bod yn cael gwerth yr arian yn ogystal â phrofiad gwerthfawr o hynny. Mae gwaith cynrychiolwyr y Cynulliad i'r gymdeithas yn cyfrannu at wella'r profiad hwnnw a'r gwerth am arian a gawn ohono.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Twristiaeth Tourism

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

Alun Cairns: I move that

the National Assembly for Wales:

regrets the Welsh Assembly's Government's tourism plans and ambitions;

expresses concern that the budget to promote Wales and develop the tourism product is inadequate and well below the levels of other comparable nations. (NDM4416)

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (William Graham) i'r Gadair am 3.44 p.m.
The Temporary Deputy Presiding Officer (William Graham) took the Chair at 3.44 p.m.*

It is a pleasure to have the opportunity to table a motion in relation to tourism for the Assembly's consideration. The Government often talks about its priorities and about how important tourism is to the Welsh economy, particularly as it is likely to be one of the fastest-growing sectors. It said that for many years, through several administrations, and it still claims that today in its various tourism strategies. Being in Government comes down to priorities, and if we want to establish what priority tourism is given by the Welsh Assembly Government, one simple method would be to look at how much money it spends on tourism. In the questions to the Minister for Heritage earlier today, I asked how much money was being spent on tourism and how the trend had grown or declined over recent years.

It is amusing in one sense, but alarming in another, to note the spend on tourism. The core spending for tourism is £12.9 million in 2009-10 and £13.06 million for 2010-11, which is a fraction of a percentage increase, bearing in mind where inflation is today. We

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

Alun Cairns: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn gresynu wrth gynlluniau a dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran twristiaeth;

yn mynegi pryder bod y gyllideb i hyrwyddo Cymru a datblygu'r cynnyrch twristiaeth yn annigonol ac yn llawer is na'r lefelau mewn gwledydd tebyg eraill. (NDM4416)

Mae'n bleser cael y cyfle i gyflwyno cynnig yn ymwneud â thwristiaeth i'w ystyried gan y Cynulliad. Bydd y Llywodraeth yn aml yn sôn am ei blaenoriaethau ac am bwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru, yn enwedig am ei fod yn un o'r sectorau sy'n debygol o dyfu gyflymaf. Dywedodd y Llywodraeth hynny am flynyddoedd, drwy sawl gweinyddiaeth, ac mae'n dal i honni hynny heddiw yn ei hamrywiol strategaethau twristiaeth. Mae bod mewn Llywodraeth yn golygu ystyried blaenoriaethau, ac os ydym am sefydlu pa flaenoriaeth a roir i dwristiaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, un ffordd syml i wneud hynny yw edrych ar faint o arian y mae'n ei wario ar dwristiaeth. Yn y cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn gynharach heddiw, gofynnais faint o arian a oedd yn cael ei wario ar dwristiaeth, a sut yr oedd y duedd wedi cynyddu neu leihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae nodi'r gwariant ar dwristiaeth yn ddifrif ar y naill law, ond yn frawychus ar y llaw arall. Y gwariant craidd ar gyfer twristiaeth yw £12.9 miliwn yn 2009-10 a £13.06 miliwn ar gyfer 2010-11, sy'n gynydd canrannol bach iawn o gofio sefyllfa

need to be looking at the trend. If we look back to one of the first Assembly draft budgets, presented in 1999, when it went in front of the former Economic Development Committee, the core budget for tourism was £15 million at that time. That demonstrates that, in the last 10 years, the core spend on tourism by the Welsh Assembly Government has fallen. The data does not even stop there. When we were discussing the budget for 2000-01, there was access to European money and the likelihood at that stage was that tourism spend would increase from £15 million to £30 million, with the aid of European money. We no longer have the same access to European money, with the same flexibility, as we had then, which demonstrates the lack of priority that is being given to tourism and its importance to the economy.

We can also move on to look at the data to see how well are we doing in relation to tourism. When you look at the data, or at least seek to look at the data, it is not readily available, whereas in England, Enjoy England publishes the trends in terms of visitors and spend on a monthly basis. Those figures are not readily available in Wales and are not published with the same regularity. They are only published in response to written Assembly questions that we may table from time to time. Is there a wonder that the Welsh Assembly Government does not want to publish such figures when the number of visitors is clearly falling? In 2006, the total number of visitors to Wales was 10.75 million; in 2008, that had fallen on a consistent and persistent basis to 9.56 million. That demonstrates the lack of impact that we are having and it goes back to the amount of spend.

Far be it from me to underline that the input of spend is directly related to the output that we get from any particular policy. However, tourism is different, because the number of people that you can attract to Wales will often depend on the advertising that you can buy and how effectively you use that advertising income. I will never forget that when the Minister came to the Finance Committee some time ago, he said that he had managed to get some efficiency savings

chwyddiant heddiw. Mae angen inni edrych ar y duedd. O edrych yn ôl ar un o gyllidebau drafft y Cynulliad cyntaf, a gyflwynwyd yn 1999, pan aeth gerbron yr hen Bwyllgor Datblygu Economaidd, y gyllideb graidd ar gyfer twristiaeth oedd £15 miliwn ar y pryd. Dengys hynny fod gwariant craidd Llywodraeth y Cynulliad ar dwristiaeth wedi gostwng yn y 10 mlynedd diwethaf. Nid dyna'r unig beth y mae'r data'n ei ddatgelu. Pan oeddem yn trafod y gyllideb ar gyfer 2000-01, yr oedd modd cael arian Ewropeaidd, a'r tebygolrwydd y pryd hwnnw oedd y byddai gwariant ar dwristiaeth yn cynyddu o £15 miliwn i £30 miliwn, gyda chymorth arian Ewropeaidd. Erbyn hyn, nid oes gennym yr un mynediad i arian Ewropeaidd na'r un hyblygrwydd a oedd gennym ar y pryd, sy'n dangos y diffyg blaenoriaeth a roddir i dwristiaeth a'i phwysigrwydd i'r economi.

Yn ogystal, gallwn symud ymlaen i edrych ar y data i weld sut hwyl yr ydym yn ei chael o ran twristiaeth. Wrth edrych ar y data, neu o leiaf wrth geisio edrych ar y data, gwelir nad ydynt ar gael yn hawdd, ond yn Lloegr mae Enjoy England yn cyhoeddi'r tueddiadau o ran ymwelwyr a gwariant bob mis. Nid yw'n hawdd cael gafael ar y ffigurau hynny yng Nghymru, ac ni chânt eu cyhoeddi yr un mor rheolaidd. Cânt eu cyhoeddi i ymateb yn unig i gwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad y gallwn eu cyflwyno o bryd i'w gilydd. Pa rhyfedd nad yw Llywodraeth y Cynulliad am gyhoeddi ffigurau o'r fath a nifer yr ymwelwyr yn amlwg yn gostwng? Yn 2006 yr oedd nifer y bobl a ymwelodd â Chymru yn 10.75 miliwn; yn 2008, yr oedd y ffigur wedi gostwng yn gyson ac yn barhaus i 9.56 miliwn. Mae hynny'n dangos ein diffyg effaith, a'r rheswm dros hynny yw'r a gaiff ei wario.

Nid fy lle i yw pwysleisio bod cysylltiad uniongyrchol rhwng yn swm a gaiff ei wario a'r canlyniadau a gawn o unrhyw bolisi penodol. Mae twristiaeth yn wahanol, fodd bynnag, oherwydd yn aml bydd nifer y bobl y gallwch eu denu i Gymru yn dibynnu ar y cyfleoedd hysbysebu y gallwch eu prynu, a pha mor effeithiol y defnyddiwch yr incwm hysbysebu hwnnw. Nid anghofiaf fyth pan ddaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Cyllid ychydig amser yn ôl, a dweud iddo lwyddo i

in the advertising budget. When the committee pressed a bit further, asking what that meant and whether we were getting the same advertising for less cost, the answer came that they had simply cut the amount of advertising that had been bought across the portfolio. That clearly demonstrates a lack of understanding of marketing, buying advertising and promoting Wales within the United Kingdom or overseas. This is the priority, or the lack of a priority, that the Welsh Assembly Government places on tourism.

What do we get in terms of policy? It was only a short time ago that the tourism strategy for north Wales was launched, when the headlines read, 'Tourism strategy heralds £2 billion bonanza'. We also heard that north Wales was aiming to become one of the top five tourism location in the United Kingdom. That can only be delivered if we are prepared to market it properly, improve the product and invest in skills and training.

Weinidog, erys y ffaith bod y gwariant craidd wedi gostwng, sy'n dangos ymhle y mae eich blaenoriaeth.

Agorodd Alun Cairns y ddadl yn ardderchog drwy amlinellu cefndir twristiaeth yng Nghymru. Synhwyrodd fod gennym gyfleoedd aruthrol yng Nghymru nad ydym yn manteisio'n ddigonol arnynt, a nododd y ffigurau siomedig. Pam mai Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig lle na fu cynnydd mewn refeniw twristiaeth o wledydd tramor rhwng 2004 a 2008? Cynyddodd refeniw o'r fath 26 y cant yn Llundain, 25 y cant yng ngweddill Lloegr, a 24.8 y cant yn yr Alban, ond yng Nghymru, cynyddodd 1 y cant yn unig. Pam mae Cymru yn ei marchnata ei hun mor wael yn y marchnadoedd tramor hynny? Dywedaf wrthyhch pam. Oherwydd nad ydym yn marchnata yn y meysydd awyr, ac am nad ydym yn cyfleu'r neges dramor fod Cymru'n gyrchfan y dylai pobl ymweld â hi. Pam mae Iwerddon yn gwneud hynny'n well o lawer na ni, pan fo gennym gryfderau megis ein hiaith, ein diwylliant, ein dawnsio, ein cestyll, a dinasoedd gwych megis Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe? Dylai'r rhain i gyd fod ar lwyfan y byd, ond nid ydynt yno am nad ydynt yn flaenoriaeth i chi, Weinidog, ac am nad ydynt, felly, yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth.

Soniodd Mark Isherwood am bwysigrwydd twristiaeth i economi'r gogledd, sy'n darparu gwerth £1.8 biliwn o incwm i'r rhan honno o Gymru. Fodd bynnag, cawn ein siomi eto gan y Llywodraeth hon, oherwydd effaith y sefyllfa o ran ardrethi busnes, a'r ergyd ddwbl sy'n wynebu busnesau sy'n gosod llety gwyliau hunan-ddarpar oherwydd y newidiadau yn y dreth ar enillion cyfalaf. Mae'n ddigon hawdd i'r Gweinidog ddweud iddo gyflwyno sylwadau i San Steffan, ond codi pais yw hynny. Yr oedd y penderfyniad wedi'i wneud eisoes, ac ni chafwyd dim trafodaeth gyda Llywodraeth y Cynulliad am y newid hwnnw yn y system drethi.

Dywedodd Sandie Mewies ein bod yn bychanu Cymru, ond yr ydym yn brolio Cymru, ac yn siarad am yr holl gyfleoedd na fanteisir arnynt. Mae hon yn wlad wych, fel y dywedodd Mohammad Asghar, ac yn lle y dylai pobl fod yn ymweld ag ef. Ond nid

visiting because the coalition Government is not doing a good enough job at getting the message across about Wales as a destination. Trailer-park ghettos were mentioned, which misrepresented my views. My views on this are clear: I want to safeguard the future of our wonderful first-class holiday parks, in north Wales and beyond, but you are the person who is talking them down by saying that they are going down the pan. Do you want to respond?

Sandy Mewies: Are you denying that you said that there would be trailer park ghettos along the north Wales coast or not?

Darren Millar: I said that if we are not careful we will end up with trailer park ghettos and that is why we have to stop the rot now. You voted to review the regulations on caravan parks because you accepted my concerns, as did the Minister—talk about inconsistency and misrepresentation. You are the epitome of it this afternoon, I am afraid.

I thought that Nick Bourne was very good in his contribution, offering constructive criticism and outlining the Government's complacency. Alun Ffred pats himself on the back, and the other members of Plaid Cymru and the Labour Party pat him on the back, yet, at the same time, visitor numbers are falling—a fall of over 1 million people between 2006 and 2008 in the number of visitors to Wales. All of the figures are going in the wrong direction. That is where the trends are and that is why we need more of a focus on tourism from this Government. We are not talking about spending huge sums more; we are talking about making it more of a priority and spending the cash that is available in the right areas instead of the wrong areas. I think that David Melding had it absolutely right that there is a bit of a whiff of North Korea about this. Whenever we bring a debate forward—whether it is on child poverty, fuel poverty, the NHS or tourism—there is always criticism of us for bringing forward these debates and trying to hold the Government to account and scrutinising what it is doing.

ydych yn dod yma am nad yw'r Llywodraeth glymblaid yn gwneud gwaith digon da i gyfleu'r neges am Gymru fel cyrchfan. Soniwyd am getos meysydd carafanau, a oedd yn gamddehongliad o'm safbwynt. Mae fy safbwynt ar hyn yn glir: yr wyf am ddiogelu dyfodol ein parciau gwyliau rhagorol o'r radd flaenaf, yn y gogledd a thu hwnt, ond chi sy'n eu bychanu drwy ddweud eu bod yn gwaethygu. A ydych am ymateb?

Sandy Mewies: A ydych yn gwadu ichi ddweud y byddai getos meysydd carafanau ar hyd arfordir y gogledd ai peidio?

Darren Millar: Dywedais y byddai gennym getos meysydd carafanau pe na baem yn ofalus, a dyna pam mae'n rhaid inni atal y dirywiad yn awr. Rhoesoch eich pleidlais dros adolygu'r rheoliadau ar feysydd carafanau oherwydd ichi dderbyn fy mhryderon, fel y gwnaeth y Gweinidog—sôn am anghysondeb a chamddehongli. Yr ydych yn ymgorfforiad o hynny y prynhawn yma, mae arnaf ofn.

Credais fod cyfraniad Nick Bourne yn dda iawn, wrth gynnig beirniadaeth adeiladol ac amlinellu hunan-fodlonrwydd y Llywodraeth. Mae Alun Ffred yn ei ganmol ei hun, a chafodd ei ganmol gan aelodau eraill Plaid Cymru a'r Blaid Lafur. Ond eto, ar yr un pryd, mae niferoedd yr ymwelwyr yn gostwng—bu gostyngiad o dros 1 filiwn rhwng 2006 a 2008 yn nifer yr ymwelwyr i Gymru. Mae'r ffigurau i gyd yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Dyna ble mae'r tueddiadau, a dyna pam mae angen i'r Llywodraeth hon ganolbwyntio mwy ar dwristiaeth. Nid ydym yn siarad am wario symiau mawr o arian mwyach; yr ydym yn siarad am wneud twristiaeth yn fwy o flaenoriaeth, a gwario'r arian sydd ar gael yn y meysydd cywir yn hytrach nag yn y meysydd anghywir. Credaf fod David Melding yn llygad ei le pan ddywedodd fod adlais o Ogledd Korea yn hyn. Pryd bynnag y byddwn yn cyflwyno dadl—boed am dlodi plant, tlodi tanwydd, y GIG ynteu am dwristiaeth—cawn ein beirniadu bob tro am gyflwyno'r dadleuon, a cheisio dwyn y Llywodraeth i gyfrif a chraffu ar yr hyn y mae'n ei wneud.

Alun Ffred Jones: [*Inaudible.*]—for bringing this debate forward.

Alun Ffred Jones: [*Anghlywadwy.*]—am gyflwyno'r ddadl hon.

Darren Millar: Bethan Jenkins, who is sitting behind you, certainly did not seem to welcome the fact that we have brought this debate forward and that is the huge disappointment.

Darren Millar: Nid oedd Bethan Jenkins, sy'n eistedd y tu ôl ichi, yn sicr yn ymddangos fel pe bai'n croesawu'r ffaith inni gyflwyno'r ddadl hon, ac mae hynny'n siom enfawr.

I understand that a survey by Visit Wales concluded that Wales was not a place that people thought of when they thought of going on holiday to cities, yet Cardiff is one of the finest cities in Europe, with wonderful things to offer. People are not coming here because you are not marketing this place properly. What we are calling for, Minister, is very simple. We are calling for tourism to be given more of a priority by the Government and a reprioritisation of where money is spent, particularly in terms of the marketing spend that is available to you as a Minister. We want that spend focused on overseas visitors and marketing within the United Kingdom. There was a huge opportunity, with the devaluation of the pound and the recession, for us to take advantage of that year when people were holidaying here, rather than overseas, yet we have missed out. We have failed miserably and we have to do more.

Deallaf fod arolwg gan Croeso Cymru wedi dod i'r casgliad nad oedd Cymru yn lle yr oedd pobl yn meddwl amdano wrth feddwl am fynd ar wyliau i ddinasoedd. Ond eto, mae Caerdydd yn un o ddinasoedd gorau Ewrop, gyda phethau gwych i'w cynnig. Nid yw pobl yn dod yma am nad ydych yn marchnata'r lle hwn yn gywir. Mae'r hyn yr ydym yn galw amdano, Weinidog, yn syml iawn. Yr ydym yn galw ar y Llywodraeth i roi mwy o flaenoriaeth i dwristiaeth, ac ailflaenoriaethu'r modd y caiff arian ei wario, yn enwedig o ran y gwariant ar farchnata sydd ar gael ichi fel Gweinidog. Yr ydym am i'r gwariant hwnnw ganolbwyntio ar ymwelwyr o dramor ac ar farchnata yn y Deyrnas Unedig. Yr oedd cyfle enfawr, gyda dibrisiad y bunt a'r dirwasgiad, inni fanteisio ar y flwyddyn pan oedd pobl yn treulio'u gwyliau yma yn hytrach na thramor, ond eto, yr ydym wedi colli cyfle. Yr ydym wedi methu'n arw, a rhaid inni wneud mwy.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, the votes will be deferred until voting time.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Ombwdsmon Archfarchnadoedd Supermarket Ombudsman

The Temporary Deputy Presiding Officer: The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

Brynle Williams: I move that

Brynle Williams: Cynigiau fod

the National Assembly for Wales:

regrets the 10-year decline of the rural economy and recognises the benefits a supermarket ombudsman could bring to support Welsh producers, small businesses and consumers across urban and rural Wales. (NDM4417)

The Welsh Conservatives have tabled this debate today to highlight the appalling legacy that Labour Governments, here and in Westminster, have left for Welsh agriculture and to set out how a supermarket ombudsman and fairer retailer practices could breathe new life into this industry.

I note from the Assembly Government's amendments that it would prefer to describe this period as one of challenges and opportunities. However, the facts speak for themselves. When Labour came to power in 1997, the gross value added for Welsh agriculture was £630 million. After 10 years, that figure had sunk like a stone to just £202 million—a drop of 68 per cent. Members may wish to note that this accounts for three fifths of the total decline across the UK. In case an attempt is made to blame this on foot-and-mouth disease, the majority of this decline took place between 2004 and 2007, when more than half of the GVA was lost. This is a period that saw nearly half of all Welsh dairy producers leaving the industry—some 1,600 family businesses closed. Added to that are the 1,500 cattle and sheep producers who have also gone.

4.50 p.m.

This is not just confined to the agriculture industry. Rural communities, particularly Welsh-speaking ones, have been undermined by the loss of these businesses and the jobs that they support. I have asked the Minister for Rural Affairs about these figures and the appalling legacy that she has inherited. She has argued that the losses are due to the effects of market forces on the dairy and red meat sectors, and I accept that that does tell

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn gresynu wrth ddirywiad yr economi wledig dros y 10 mlynedd diwethaf ac yn cydnabod y manteision a allai ddod yn sgil ombwdsmon archfarchnadoedd o ran cefnogi cynhyrchwyr o Gymru, busnesau bach, a defnyddwyr ledled Cymru wledig a threfol. (NDM4417)

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw er mwyn tynnu sylw at y gwaddol ofnadwy y mae Llywodraethau Llafur, yma ac yn San Steffan, wedi'i adael i amaethyddiaeth yng Nghymru, ac er mwyn gosod allan sut y gallai ombwdsmon archfarchnadoedd ac arferion tecach ymhlith manwerthwyr adfywio'r diwydiant hwn.

Sylwaf o welliannau Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n well ganddi ddisgrifio'r cyfnod hwn fel cyfnod o heriau a chyfleoedd. Fodd bynnag, mae'r ffeithiau'n dweud y cyfan. Pan ddaeth y Blaid Lafur i rym yn 1997, yr oedd y gwerth ychwanegol crynswth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn £630 miliwn. Ar ôl 10 mlynedd yr oedd y ffigur hwnnw wedi plymio i ddim ond £202 miliwn—gostyngiad o 68 y cant. Efallai'r hoffai Aelodau sylwi bod hynny'n cyfrif am dair rhan o bump o gyfanswm y dirywiad ar draws y DU. Rhag ofn y ceisir beio clwy'r traed a'r genau am hynny, digwyddodd y rhan fwyaf o'r dirywiad hwnnw rhwng 2004 a 2007, pan gollwyd dros hanner y gwerth ychwanegol crynswth. Dyma gyfnod pan welwyd bron i hanner holl gynhyrchwyr llaeth Cymru yn gadael y diwydiant—caeodd tua 1,600 o fusnesau teuluol. At hynny, gellir ychwanegu'r 1,500 o gynhyrchwyr gwartheg a defaid sydd hefyd wedi mynd.

Nid yw hyn yn gyfyngedig i'r diwydiant amaeth yn unig. Mae cymunedau gwledig, yn enwedig cymunedau Cymraeg eu hiaith, wedi eu tanseilio yn sgil colli'r busnesau hyn a'r swyddi y maent yn eu cynnal. Yr wyf wedi holi'r Gweinidog dros Faterion Gwledig am y ffigurau hyn a'r gwaddol ofnadwy y mae wedi'i etifeddu. Mae wedi dadlau fod y colledion wedi digwydd oherwydd effeithiau grymoedd y farchnad ar y sector llaeth a'r

part of the story. However, the major pressures on the industry also include unfair competition from foreign produce grown to welfare standards that would be illegal in Wales and the UK, and the massive pressure that the big retailers brought to bear on producers. That pressure has, for example, pushed the farm-gate price of milk down to 20p a litre or lower, while the supermarkets' margin has gone from 6p 10 years ago to an astounding 16p today. On top of all this, the industry faces an endless stream of gold-plated EU red tape and bureaucracy. All of these problems could have been addressed by Governments here and in Westminster, if they had chosen to do so, and that would have brought real benefits to Welsh producers. I do not believe that those Ministers who oversaw these 10 years of decline can duck their responsibility by blaming it all on market forces.

No-one is saying that the supermarket ombudsman would, by itself, be the answer to all the problems that the industry has, but the benefits that it could bring are substantial, and I hope that all Members would agree with me on that point. Let me say from the outset that this is not a supermarket-bashing exercise; it is about recognising the fact that some of the practices that are used by the big retailers, like retrospective discounting, harm consumers as well as producers in the long term. There is a wealth of evidence to support this, from the Competition Commission's own investigation, to the work carried out by the Cardiff Business School.

Welsh Conservatives firmly believe in the free market, but we also recognise that the public interest is best served if the food supply chain operates on a fair and equitable basis. We also recognise that for an ombudsman to be successful, and for the new grocery supply code of practice to be enforced, the right powers are needed. The Conservatives have provided details of how we would deliver this, as a ring-fenced unit in the Office of Fair Trading. I emphasise that there would be no direct cost to the taxpayer, as it would be funded by a levy on the big

sector cig coch, a derbyniaf fod hynny'n egluro rhan o'r stori. Fodd bynnag, mae'r prif bwysau ar y diwydiant hefyd yn cynnwys cystadleuaeth annheg gan gynnyrch tramor a dyfir yn ôl safonau lles a fyddai'n anghyfreithlon yng Nghymru a'r DU, a'r pwysau aruthrol gan y manwerthwyr mawr ar gynhyrchwyr. Mae'r pwysau hynny, er enghraifft, wedi gwthio'r pris a gaiff ffermwyr am eu llaeth i lawr i 20c y litr neu lai, er bod elw'r archfarchnadoedd wedi codi o 6c 10 mlynedd yn ôl i 16c heddiw, sy'n swm syfrdanol. At hynny i gyd, mae'r diwydiant yn wynebu llif diddiwedd o waith papur a biwrocraatiaeth ffansi o gyfeiriad yr Undeb Ewropeaidd. Gallai Llywodraethau yma ac yn San Steffan fod wedi mynd i'r afael â'r problemau hyn i gyd, pe baent wedi dewis gwneud, a hynny wedi esgor ar fanteision gwirioneddol i gynhyrchwyr yng Nghymru. Ni chredaf y gall y Gweinidogion a fu'n goruchwyllo'r 10 mlynedd o ddirywiad osgoi cymryd eu cyfrifoldeb drwy roi'r bai am y cyfan ar rymoedd y farchnad.

Nid oes neb yn dweud y byddai'r ombwdsmon archfarchnadoedd, ar ei ben ei hun, yn ateb yr holl broblemau sydd gan y diwydiant, ond mae'r manteision y gallai esgor arnynt yn sylweddol, a gobeithio bod pob Aelod yn cytuno â mi ar y pwynt hwnnw. Gadewch imi ddweud o'r dechrau'n deg nad lladd ar yr archfarchnadoedd yw diben y ddadl hon; ei diben yw cydnabod bod rhai o arferion y manwerthwyr mawr, megis cynnig gostyngiadau ar ôl i ddefnyddwyr dalu'r pris llawn, yn niweidiol i ddefnyddwyr yn ogystal â chynhyrchwyr yn y pen draw. Mae yna beth wmbredd o dystiolaeth i gefnogi hynny, o ymchwiliad y Comisiwn Cystadlu ei hun i'r gwaith a wneir gan Ysgol Fusnes Caerdydd.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu'n gryf yn y farchnad rydd, ond cydnabyddwn hefyd mai'r hyn sydd orau i'r cyhoedd yw cadwyn gyflenwi bwyd sy'n gweithredu'n deg ac yn gyfiawn. Cydnabyddwn hefyd fod angen y pwerau cywir i alluogi ombwdsmon i lwyddo a'i gwneud yn bosibl i'r cod ymarfer newydd ar gyflenwi bwyd gael ei orfodi. Mae'r Ceidwadwyr wedi rhoi manylion am y modd y byddem yn cyflwyno hynny, ar ffurf uned wedi'i neilltuo yn y Swyddfa Masnachu Teg. Pwysleisiaf na fyddai cost uniongyrchol i'r trethdalwr, oherwydd byddai'r uned yn cael

retailers. We would also impose a cap on the size of the businesses that are protected by the ombudsman, so that the smaller producers also benefit, not just the big multinationals. While Conservatives have clear policies, the Government in Westminster dithers; instead of implementing an ombudsman, its response is to issue yet another consultation and delay the process.

The next decade is going to see a much greater demand for food across the world, and food security will be firmly in the national interest. Even Hilary Benn finally conceded that point at the Oxford conference. If Wales is to play its part, there must be fair returns for producers. I hope that all Members would agree that an effective ombudsman would go a long way to achieving this.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r economi wledig wedi'u hwynebu dros y 10 mlynedd diwethaf,

2. yn nodi'r buddsoddiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi wledig, drwy ei chynllun datblygu gwledig yn arbennig,

3. yn cydnabod manteision sefydlu ombwdsmon archfarchnadoedd i gynhyrchwyr a chwsmeriaid Cymru.

Nick Ramsay: I am not one to include too many statistics in my speeches, but the key statistic that Brynle Williams mentioned in his excellent opening contribution—of a 68 per cent drop in agricultural GVA, mainly between 2004 and 2007—is one of the reasons that we have brought this debate forward. This is a debate on the widely recognised need for a supermarket ombudsman, but it is set against the backdrop of the severe economic situation that is affecting most sectors of life across Wales and the UK, which is certainly affecting our farmers and food producers. We believe

ei chyllido gan ardoll ar y manwerthwyr mawr. Yn ogystal, byddem yn gosod terfyn ar faint y busnesau a gâi eu gwarchod gan yr ombwdsmon, er mwyn i'r cynhyrchwyr llai elwa, yn ogystal â'r cwmnïau rhyngwladol mawr. Tra mae gan y Ceidwadwyr bolisiau clir, mae'r Llywodraeth yn San Steffan yn tin-droi; yn lle cyflwyno ombwdsmon, ei hymateb hi i'r broblem yw cael ymgynghoriad eto fyth eto ac arafu'r broses.

Yn ystod y degawd nesaf bydd galw mwy o lawer am fwyd ar draws y byd, a bydd diogelu cyflenwadau bwyd o fudd pendant i'n gwlad. Cyfaddefodd hyd yn oed Hilary Benn hynny o'r diwedd yng nghynhadledd Rhydychen. Os yw Cymru am wneud ei rhan, rhaid sicrhau elw teg i gynhyrchwyr. Gobeithio bod pob Aelod yn cytuno y byddai cael ombwdsmon effeithiol yn gam mawr ymlaen o ran sicrhau hynny.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales:

1. notes the challenges and opportunities that have faced the rural economy over the past 10 years,

2. notes the investment the Welsh Assembly Government is making to support the rural economy particularly through its rural development plan,

3. recognises the benefits for Welsh producers and consumers of establishing a supermarket ombudsman.

Nick Ramsay: Ni fyddaf fel rheol yn cynnwys llawer o ystadegau yn fy areithiau, ond yr ystadegyn allweddol y soniodd Brynle Williams amdano yn ei gyfraniad agoriadol ardderchog—sef gostyngiad o 68 y cant yng ngwerth ychwanegol crynswth amaethyddiaeth, rhwng 2004 a 2007 yn bennaf—yw un o'r rhesymau pam yr ydym wedi cyflwyno'r ddadl hon. Mae hon yn ddadl am yr angen a gydnabyddir yn eang am ombwdsmon archfarchnadoedd, ond mae'n digwydd yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd ddifrifol sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o sectorau bywyd ar draws Cymru a'r

firmly on this side of the Chamber that a supermarket ombudsman is one key way to address this situation.

I too find part 1 of the Government's amendment quite surprising. It replaces

'Regrets the ten year decline of the rural economy and recognises the benefits a Supermarket Ombudsman could bring',

with,

'Notes the challenges and opportunities that have faced the rural economy over the past 10 years'.

The concept is still in there somewhere, but that does a serious disservice to the farmers in support of whom we have tabled this motion. It in no way reflects the gravity of the situation affecting our farmers and the problems that they face with regard to marketing their produce. We have already had an important debate on tourism today. Along with tourism, this is a vital area where we could be doing a lot better in Wales. That said, we recognise that progress has been made in certain areas. The Minister cares passionately for the farming community and she has done her best. However, I do not think that she always gets the support that she deserves from the quarters that she would look to in order to be able to do her best.

With regard to the current Westminster Government's support for agriculture, the Farmers' Union of Wales has said that it welcomes the fact that the UK Government has recognised the importance of food production and agriculture and agrees with many of the broad principles of the Government's policy. However, looking at 'Food 2030', it continues to advocate DEFRA's 2005 vision for the common agricultural policy, even though DEFRA's own research has shown that that would devastate UK agriculture and rural communities. Of course, that is Westminster, and I know that the Minister will say that we can do things differently in Wales. That is the

DU, sy'n bendant yn effeithio ar ein ffermwyr a'n cynhyrchwyr bwyd. Yr ochr hon i'r Siambr, credwn yn gryf fod cael ombwdsmon archfarchnadoedd yn un ffordd allweddol i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Mae rhan 1 yn y gwelliant y Llywodraeth yn fy synnu innau. Yn lle

'yn gresynu wrth ddirywiad yr economi wledig dros y 10 mlynedd diwethaf ac yn cydnabod y manteision a allai ddod yn sgil ombwdsmon archfarchnadoedd',

mae am roi,

'yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r economi wledig wedi'u hwynebu dros y 10 mlynedd diwethaf'.

Mae'r cysyniad yno rywle o hyd, ond mae'n gwneud anghymwynas fawr â'r ffermwyr yr ydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn i'w cefnogi. Nid yw'n adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa sy'n effeithio ar ein ffermwyr, a'r problemau sy'n eu hwynebu wrth farchnata'u cynnyrch. Yr ydym eisoes wedi cael dadl bwysig ar dwristiaeth heddiw. Ynghyd â thwristiaeth, mae hwn yn faes hanfodol lle gallem fod yn gwneud yn well o lawer yng Nghymru. Wedi dweud hynny, cydnabyddwn fod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd. Mae'r gymuned amaethyddol yn agos iawn at galon y Gweinidog, ac mae wedi gwneud ei gorau. Fodd bynnag, ni chredaf ei bod bob amser yn cael y gefnogaeth y mae'n ei haeddu o'r manau y byddai'n troi atynt i allu gwneud ei gorau.

O ran cefnogaeth Llywodraeth bresennol San Steffan i amaethyddiaeth, mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi dweud ei fod yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi cydnabod pwysigrwydd amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, a'i fod yn cytuno â nifer o'r egwyddorion cyffredinol ym mholisi'r Llywodraeth. Fodd bynnag, o edrych ar 'Food 2030', mae'n dal o blaid gweledigaeth 2005 DEFRA ar gyfer y polisi amaethyddol cyffredin, er bod ymchwil DEFRA ei hun wedi dangos y byddai hynny'n difetha amaethyddiaeth a chymunedau gwledig y DU. Wrth gwrs, yn San Steffan y mae hynny, a gwn y bydd y Gweinidog yn dweud y gallwn wneud pethau'n wahanol yng

reason that we tabled this motion. We hope that this will be taken on board and that we can do something different.

I also wish to make the point that this is not about supermarket-bashing. I am a great supporter of supermarkets. I am the first person to pop out to the nearby supermarket when I run out of something. They have revolutionised our lives and they are a very important part of Welsh life, life in the UK and, indeed, the whole world. However, at the end of the day, the current situation is harmful not only to farmers, but to supermarkets as well, because, as my colleague Brynle Williams said, it is a damaging situation for suppliers and marketers. It is to be hoped that a supermarket ombudsman could make a difference.

I think that the Government has been dithering about this when a clearer approach would have been far better. We would introduce an ombudsman to curb abuses of power that have undermined our farmers and acted against the long-term interests of consumers. As the Competition Commission has made clear, failure to do this could result in reduced investment by suppliers, lower product quality and less product choice in the long term, with potentially higher prices in the long run. So, this is not just a problem affecting farmers. It is a problem that, in the medium and long term, could affect each and every one of us increasingly. Any Government that forgets the important role of agriculture and that our farmers and producers play in maintaining the overall security of our nation at a time of global insecurities, does so at its peril.

As Brynle said, a supermarket ombudsman would be most effective as a ring-fenced unit within the Office of Fair Trading. I know from her previous comments that the Minister is well aware of the advantages of an ombudsman and believes that it would be best done on a UK basis. Finally, I look forward to hearing your comments at the end, Minister, and, as I have said before, I would like to hear how we could ensure a Welsh

Nghymru. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn. Gobeithiwn y caiff y mater ei ystyried ac y gallwn wneud rhywbeth yn wahanol.

Hoffwn innau wneud y pwynt nad diben y ddadl yw lladd ar yr archfarchnadoedd. Yr wyf yn gefnogol iawn i archfarchnadoedd. Fi yw'r cyntaf i fynd allan i'r archfarchnad gyfagos pan fydd rhywbeth wedi dod i ben. Maent wedi chwyldroi ein bywydau, ac maent yn rhan bwysig iawn o fywyd yng Nghymru, bywyd yn y DU, a bywyd ledled y byd, yn wir. Fodd bynnag, yn y pen draw mae'r sefyllfa bresennol yn niweidiol nid yn unig i ffermwyr ond i archfarchnadoedd hefyd, oherwydd, fel y dywedodd fy nghydweithiwr, Brynle Williams, mae'n sefyllfa andwyol i'r cyflenwyr a'r marchnadwyr. Y gobaith yw y gallai ombwdsmon archfarchnadoedd wneud gwahaniaeth.

Credaf fod y Llywodraeth wedi bod yn tindreid ar y mater hwn pan fyddai dull cliriach o weithredu wedi bod yn well o lawer. Byddem ni'n cyflwyno ombwdsmon i leihau'r achosion o gamddefnyddio grym, sydd wedi tanseilio ein ffermwyr ac wedi mynd yn groes i fuddiannau hirdymor defnyddwyr. Fel yr eglurodd y Comisiwn Cystadlu, gallai methu â gwneud hynny arwain at lai o fuddsoddi gan gyflenwyr, cynnyrch o ansawdd is, a llai o ddewis o gynnyrch yn y pen draw, a phrisiau uchel yn bosibl o'r herwydd. Felly, nid problem sy'n effeithio ar ffermwyr yn unig yw hon. Mae'n broblem a allai effeithio fwyfwy ar bob un ohonom, yn y tymor canolig a hir. Gwae unrhyw Lywodraeth sy'n anghofio rôl bwysig amaethyddiaeth a'n ffermwyr a'n cynhyrchwyr o ran cynnal diogelwch cyffredinol ein gwlad mewn cyfnod o ansicrwydd byd-eang.

Fel y dywedodd Brynle, yr ombwdsmon archfarchnadoedd mwyaf effeithiol fyddai uned wedi'i neilltuo yn y Swyddfa Masnachu Teg. Gwn, o'i sylwadau blaenorol, fod y Gweinidog yn ymwybodol iawn o fanteision ombwdsmon a'i bod o'r farn mai cael ombwdsmon ar lefel y DU fyddai orau. Yn olaf, edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau ar y diwedd, Weinidog, ac fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, hoffwn glywed

input to a UK-level ombudsman's office. Let us stop the dithering. Let us have an ombudsman with real powers and real teeth that will help everyone. Let us also ensure that there is a Welsh element to an overall UK strategy.

Alun Davies: It is quite extraordinary that we have heard two Conservative speeches so far on the rural economy, neither of which have referred to anything like wages, skills, education, public transport or access to broadband. What we have heard are cut-and-paste speeches from a party that does not understand any economy, rural or otherwise. Let me tell you that there is a real rural agenda. You do not understand it, because you do not understand poverty. It is about low wages. [*Laughter.*] Of course, you are laughing; you laugh whenever I mention poverty. You are pathetic. At the end of the day—

5.00 p.m.

Nick Bourne: Point of order. I ask that the accusation that a Member is pathetic be withdrawn.

The Temporary Deputy Presiding Officer: I ask Alun Davies to reconsider his remarks.

Alun Davies: I will reconsider my remarks, and I will withdraw any remarks that cause offence. However, it is highly offensive to many people that the Conservatives laugh in the face of poverty.

There is a real rural agenda. Six of the eight rural counties in Wales have lower wages than the Welsh average. That is the economic crisis facing rural Wales. There is a real issue about childcare, and you do not give a damn about that. There is an issue about skills, and you do not care about that.

Brynle Williams: Will you take an intervention?

Alun Davies: No. I will not allow you to

sut y gallem sicrhau cyfraniad gan Gymru at swydd ombwdsmon ar lefel y DU. Gadewch inni roi'r gorau i din-droi. Gadewch inni gael ombwdsmon sydd â phwerau go iawn a dannedd go iawn a fydd o gymorth i bawb. Gadewch inni hefyd sicrhau bod elfen Gymreig mewn strategaeth gyffredinol ar gyfer y DU.

Alun Davies: Mae'n rhyfedd iawn inni glywed dwy araith gan y Ceidwadwyr mor belled am yr economi wledig, heb i'r naill na'r llall gyfeirio at bethau megis cyflogau, sgiliau, addysg, cludiant cyhoeddus neu fynediad i fand eang. Yr hyn yr ydym wedi'i glywed yw areithiau wedi'u hailwampio gan blaidd nad yw'n deall yr un economi, boed yn economi wledig neu fel arall. Gadewch imi ddweud wrthyhych bod gennym ni agenda wledig go iawn. Nid ydych yn ei deall am nad ydych yn deall tlodi. Mae a wnelo â chyflogau isel. [*Chwerthin.*] Yr ydych yn chwerthin, wrth gwrs; byddwch yn chwerthin bob tro pan fyddaf yn sôn am dlodi. Yr ydych yn bathetig. Yn y pen draw—

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Gofynnaf i'r cyhuddiad bod Aelod yn bathetig gael ei dynnu'n ôl.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Gofynnaf i Alun Davies ailystyried ei sylwadau.

Alun Davies: Ailystyriaf fy sylwadau, a thynnaf yn ôl unrhyw sylwadau sy'n peri tramgwydd. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod y Ceidwadwyr yn chwerthin am ben tlodi yn fater sy'n peri tramgwydd dychrynlyd i lawer o bobl.

Mae yna agenda wledig go iawn. Mewn chwech o'r wyth sir wledig yng Nghymru amae cyflogau'n na chyfartaledd Cymru. Dyna'r argyfwng economaidd sy'n wynebu cefn gwlad Cymru. Mae gofal plant yn broblem wirioneddol, ac nid ydych yn poeni dim am hynny. Mae sgiliau'n broblem, ac nid ydych yn poeni am hynny ychwaith.

Brynle Williams: A wnewch chi dderbyn myiriad?

Alun Davies: Na wna. Nid wyf am ganiatáu

intervene at the moment.

The reason why I say that is because, in two speeches—in over 10 minutes of time in this Chamber—you did not refer to those things on any occasion. You have talked about what is important to you, and you did not talk about low wages or the structural issues faced in the rural economy. You did not talk about the education and skills agenda that we need if we are to make progress.

Andrew R.T. Davies: Will you give way?

Alun Davies: No, I will not allow you to intervene at the moment.

You did not talk about any of those issues because, frankly, they are not important to you. When I talk about poverty, you laugh. We have had this debate with the Minister on several occasions over the last few years. We have seen a Government programme—the rural development plan—invest around £795 million in supporting the rural economy in everything from increasing the competitiveness of agriculture through to improving quality of life and diversification of the rural economy. That is real action, which was not recognised in any of the Conservatives' speeches. In the last few weeks, we have seen farm incomes increase by around 7 per cent. At a time of recession, when many parts of the economy are facing unemployment and poverty, we are seeing an increase in farm incomes of around 7 per cent. If you look at the latest statistics from agriculture, you will see that GVA in agriculture in Wales increased from £140 million in 2006 to £168 million in 2008.

Andrew R.T. Davies: Will you take an intervention?

Alun Davies: No, I will not allow you to intervene at the moment.

When Brynle compares figures from 1997 to those in 2007, he includes in the 1997 figures the single farm payment scheme, which is not included in other parts of the United Kingdom.

ichi ymyrryd ar hyn o bryd.

Y rheswm pam yr wyf yn dweud hynny yw nad oeddech, mewn dwy araith—yn ystod dros 10 munud o amser yn y Siambr hon—yn sôn am y pethau hynny o gwbl. Yr ydych wedi sôn am yr hyn sy'n bwysig ichi, ac ni soniwyd am gyflogau isel neu'r problemau strwythurol sy'n wynebu pobl yn yr economi wledig. Ni soniwyd am yr agenda addysg a sgiliau y mae arnom ei hangen os ydym i wneud cynnydd.

Andrew R.T. Davies: A wnewch chi ildio?

Alun Davies: Na wna. Nid wyf am ganiatáu ichi ymyrryd ar hyn o bryd.

Ni soniwyd am yr un o'r problemau hynny oherwydd, a siarad yn blaen, nid ydynt yn bwysig ichi. Pan fyddaf yn siarad am dlodi, yr ydych chi'n chwerthin. Yr ydym wedi cael y ddadl hon gyda'r Gweinidog droeon dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yr ydym wedi gweld rhaglen gan y Llywodraeth—y cynllun datblygu gwledig—yn buddsoddi tua £795 miliwn i gefnogi'r economi wledig ym mhopeth, o gynyddu gallu amaethyddiaeth i gystadlu i wella ansawdd bywyd ac arallgyfeirio'r economi wledig. Dyna gamau gweithredu go iawn na chawsant eu cydnabod yn yr un o areithiau'r Ceidwadwyr. Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, gwelsom incwm ffermydd yn cynyddu tua 7 y cant. Adeg dirwasgiad, a llawer rhan o'r economi'n wynebu diweithdra a thlodi, yr ydym yn gweld cynnydd o ryw 7 y cant yn incwm ffermydd. O edrych ar yr ystadegau diweddaraf o'r byd amaeth, gwelwch fod gwerth ychwanegol crynswth mewn amaethyddiaeth yng Nghymru wedi cynyddu o £140 miliwn yn 2006 i £168 miliwn yn 2008.

Andrew R.T. Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Alun Davies: Na wna. Nid wyf am ganiatáu ichi ymyrryd ar hyn o bryd.

Wrth gymharu ffigurau 1997 â ffigurau 2007, mae Brynle yn cynnwys y cynllun taliad sengl yn ffigurau 1997, nad yw wedi'i gynnwys mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Brynle Williams: Will you take an intervention?

Alun Davies: Yes, I will allow you to intervene.

Brynle Williams: Are you saying that we are not concerned about poverty in the rural community and so forth?

Alun Davies: Yes, I am saying that.

Brynle Williams: How dare you stand there and say that when, two weeks ago, your Government was charged with the fact that there are 96,000 children in poverty when you said that you would obliterate it by 2010? How dare you stand there and say that?

Alun Davies: When you were in power, child poverty trebled in Wales. I tell you now, Brynle, I would take the Conservatives' crocodile tears on these issues a little more seriously had either of the opening two Conservative speakers—

Andrew R.T. Davies: Will you take an intervention?

Alun Davies: I have just taken an intervention.

Andrew R.T. Davies: Come on. This is my third attempt.

Alun Davies: No, Andrew. Please sit down.

I would take the Conservatives' crocodile tears on these issues a little more seriously had either of the opening two Conservative speakers referred to any of the issues that I have tried to develop in relation to the wider economy. There are clear issues that the Government needs to address. I agree with the Welsh Local Government Association when it states that Government policies on a whole range of economic issues need to be rural-proofed to ensure that they have the same impact in rural Wales as they have in urban Wales. I think that that needs to be done. I also think that the Government needs

Brynle Williams: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Alun Davies: Gwnaf, gadawaf ichi ymyrryd.

Brynle Williams: A ydych yn dweud nad ydym yn poeni am dlodi yn y gymuned wledig, ac yn y blaen?

Alun Davies: Ydw, dyna'r wyf yn ei ddweud.

Brynle Williams: Sut y meiddiwech ddweud hynny, a'ch Llywodraeth chi, bythefnos yn ôl, yn cael ei chyhuddo o fod yn gyfrifol am y ffaith fod 96,000 o blant mewn tlodi, ar ôl dweud y byddech yn dileu tlodi plant erbyn 2010? Sut y meiddiwech ddweud hynny?

Alun Davies: Pan oeddech chi mewn grym, treblodd tlodi plant yng Nghymru. Yr wyf yn dweud wrthy ch yn awr, Brynle, byddwn yn cymryd dagrau ffug y Ceidwadwyr ynglŷn â'r materion hyn ychydig yn fwy o ddifrif pe bai'r naill neu'r llall o siaradwyr agoriadol y Ceidwadwyr—

Andrew R.T. Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Alun Davies: Yr wyf newydd dderbyn ymyriad.

Andrew R.T. Davies: Dewch. Dyma fy nhrydydd ymgais.

Alun Davies: Na wna, Andrew. Eisteddwch, os gwelwch yn dda.

Byddwn yn cymryd dagrau ffug y Ceidwadwyr ynglŷn â'r materion hyn ychydig yn fwy o ddifrif pe bai'r naill neu'r llall o siaradwyr agoriadol y Ceidwadwyr wedi cyfeirio at rai o'r problemau yr wyf wedi ceisio'u datblygu yng nghyswllt yr economi ehangach. Mae yna broblemau amlwg y mae angen i'r Llywodraeth fynd i'r afael â hwy. Cytunaf â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n dweud bod angen i bolisiau'r Llywodraeth ar ystod eang o faterion economaidd gael eu profi yng nghyswllt ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau bod eu heffaith ar ardaloedd gwledig

to ensure, where it has very clear policies to invest in training and skills for the urban population, that those are equally available to people living in rural communities. There are some very real issues there, and it is a shame that the Conservatives have not addressed any of those issues, because, potentially, there is a very exciting opportunity for large parts of rural Wales. The problem is that the Conservatives do not understand that; they do not care about the issues faced by many families in rural Wales. As much as 25 per cent of families in rural Wales live in what is defined as relative poverty. That has not been mentioned in any of the speeches from the Conservatives this afternoon. There has been no mention of the challenges facing us. We have just had a rehearsal of previous speeches—this is a cut-and-paste debate from the Conservatives, who have nothing better to contribute.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl hon y prynhawn yma a dod ag ychydig o synnwyd yn ôl i'r ddatl. Fel y gwyr Aelodau, gan gynnwys Alun Davies, yr wyf yn cynrychioli etholaeth sydd yn wledig i raddau helaeth, ac mae'r bobl sy'n byw ynddi yn dibynnu'n fawr ar yr economi wledig. Hoffwn ategu'r hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod Brynle Williams yn gynharach, a mynegi fy siom am ddirywiad yr economi wledig dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n hanfodol cael economi wledig gryf ac iachus mewn ardaloedd fel f'etholaeth er mwyn cefnogi pobl leol. Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod economïau cryf yn gymunedau gwledig ledled Cymru sy'n cefnogi ac yn datblygu diwydiannau lleol hanfodol er mwyn datblygu rhagor o gyfleoedd i'n pobl. Mae economïau gwledig cadarn ac iachus hefyd yn hollbwysig er mwyn annog ein pobl ifanc i aros yng nghefn gwlad Cymru. Yn rhy aml, yr wyf wedi gweld pobl ifanc yn symud o gymunedau gwledig i drefi mawr neu ddinasoedd.

Yn amlwg, ni allwn ddisgwyl i bobl ifanc aros yn eu hardaloedd lleol os nad oes digon o swyddi cynaliadwy yno. Yr wyf wedi dod

Cymru yr un fath ag ar ardaloedd trefol Cymru. Credaf fod angen gwneud hynny. Os oes gan y Llywodraeth bolisiau clir iawn i fuddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y boblogaeth drefol, credaf hefyd fod angen iddi sicrhau bod y rheini ar gael yn yr un modd i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae yna rai problemau gwirioneddol yn hynny, ac y mae'n drueni nad yw'r Ceidwadwyr wedi rhoi sylw i'r un ohonynt, oherwydd fe allai fod cyfle cyffrous iawn yma i rannau helaeth o gefn gwlad Cymru. Y broblem yw nad yw'r Ceidwadwyr yn deall hynny; nid ydynt yn poeni am y problemau sy'n wynebu nifer o deuluoedd yng nghefn gwlad Cymru. Mae cynifer â 25 y cant o deuluoedd yng nghefn gwlad Cymru yn byw yn yr hyn a elwir yn dlodi cymharol. Nid yw hynny wedi'i grybwyll o gwbl yn areithiau'r Ceidwadwyr y prynhawn yma. Ni chlywyd sôn o gwbl am yr heriau sy'n ein hwynebu. Yr ydym newydd glywed areithiau blaenorol yn cael eu hailadrodd—datl wedi'i hailwampio yw hon gan y Ceidwadwyr, nad oes ganddynt ddim byd gwell i'w gyfrannu.

Paul Davies: I am grateful for the opportunity to take part in this debate this afternoon and to bring some sense back into the debate. As Members know, including Alun Davies, I represent a constituency which is mainly rural, and the people who live there are very dependent on the rural economy. I endorse what my colleague Brynle Williams said earlier, and express my disappointment at the decline of the rural economy over the past 10 years. A strong and healthy rural economy is vital in areas such as my constituency to support local people. It is crucial that we create strong economies in rural communities across Wales that support and develop essential local industries in order to develop more opportunities for our people. Strong and healthy rural economies are also vital to encourage our young people to stay in rural Wales. Too often, I have seen young people move from rural communities to large towns or cities.

Clearly, we cannot expect young people to stay in their localities if there are no sustainable jobs there. I have come across

ar draws nifer o bobl ifanc, a phobl yn gyffredinol, sydd eisiau mynd yn ôl i ardal eu cynefin, ond fe'u hanogir i beidio â dychwelyd oherwydd ni allant weld sut y byddant yn dod o hyd i swyddi mewn rhai o'r ardaloedd gwledig hyn.

Tra'r ydym yn trafod yr economi wledig, hoffwn gyffwrdd ar yr effaith ddinistriol y bydd ailbrisiu trethi busnes yn ei chael ar fusnesau hunanarlwyo mewn ardaloedd gwledig yn f'etholaeth. Busnesau bach yw asgwrn cefn economi'r ardal yr wyf yn ei gynrychioli yn sir Benfro. Yr wyf wedi clywed gan berchnogion busnesau hunanarlwyo sy'n poeni'n fawr am y trethi busnes a fydd yn cael eu cyflwyno yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae llawer yn dweud wrthyf eu bod yn debygol y byddant mewn sefyllfa anobeithiol oherwydd bod y cynnydd yn y trethi busnes mor uchel. Bydd rhai, er enghraifft, yn gweld eu trethi busnes yn codi oddeutu 40 y cant.

Yn amlwg, mae'r sector twristiaeth yn chwarae rhan sylweddol o ran sicrhau cynaliadwyedd yn yr economi wledig. Ni allwn anwybyddu'r effaith niweidiol y gall y newidiadau hyn eu cael. Byddwn yn annog y Llywodraeth i ailystyried hyn, yn enwedig mewn cyfnod pan fo busnesau yn brwydro i barhau.

Trof yn awr at yr ombwdsmon archfarchnad, a'r manteision y gallai greu o ran cefnogi cynhyrchwyr Cymreig, busnesau bach a phrynwyr ledled Cymru. Yr wyf yn siŵr y byddai pawb yma'n cytuno bod cynnyrch Cymreig o'r safon uchaf, ac y dylai'n cynhyrchwyr dderbyn pris teg am eu cynnyrch. Yn amlwg, mae'r archfarchnadoedd mawr yn cymryd siâr enfawr o'r farchnad, ac mae'n bwysig bod buddiannau'r cynhyrchwyr lleiaf, fel y rhai sydd yn ein cymunedau lleol, yn cael eu hamddiffyn.

Cafwyd achosion yn y gorffennol o'r archfarchnadoedd yn sefydlu prisiau ar gynnyrch gan niweidio cynhyrchwyr lleol bychain. Felly, mae'n rhaid inni sicrhau nad yw hynny'n digwydd eto. Nid yw achosion fel hynny o fudd i'r cynhyrchwyr nac i'r prynwyr, ac felly mae'n hollbwysig ein bod yn gweithredu'n gyflym i sefydlu

many young people, and people in general, who want to return to their native areas, but they are discouraged from doing so because they cannot see how they will find jobs in some of these rural areas.

As we are discussing the rural economy, I should like to touch on the destructive impact of the revaluation of business rates on self-catering businesses in rural areas in my constituency. Small businesses are the backbone of the economy in the area I represent in Pembrokeshire. I have heard from self-catering business owners who are very concerned about the business rates to be introduced in the next financial year. Many tell me they will probably be in a hopeless situation since the increase in business rates is so high. Some, for example, will see their business rates increase by around 40 per cent.

Obviously, the tourism sector plays a significant part in ensuring the sustainability of the rural economy. We cannot ignore the detrimental effect which these changes can have. I urge the Government to reconsider this, especially at a time when businesses are fighting for survival.

I now turn to the supermarket ombudsman, and the benefits which he could bring in terms of supporting Welsh producers, small businesses and consumers across Wales. I am sure everyone here would agree that Welsh produce is of the highest standard, and that our producers should receive a fair price for their produce. Obviously, the large supermarkets have a huge share of the market, and it is important that the interests of the smallest producers, such as those in our local communities, are protected.

There have been cases in the past of supermarkets establishing the price for produce, thereby damaging small local producers. Therefore, we need to ensure that that does not happen again. Cases such as these do not benefit producers or consumers, and therefore it is vital that we act swiftly to establish a supermarket ombudsman.

ombwdsmon archfarchnad.

Yr ydym ni ar yr ochr hon o'r Siambr yn cefnogi creu ombwdsmon fel uned y tu fewn i'r Swyddfa Masnach Deg a fydd yn cael ei ariannu gan fanwerthwyr. Mae'n hanfodol rhoi cap ar faint y busnesau y bydd yr ombwdsmon yn eu hamddiffyn, er mwyn sicrhau bod ffocws y rôl ar fusnesau bach yn benodol. Drwy amddiffyn cynhyrchwyr llai, mae mwy o siawns gan y busnesau hynny i ddatblygu busnesau cynaliadwy. Mae'n rhaid inni sicrhau bod tegwch i bawb yn y sector hwn, a bod hawliau cynhyrchwyr llai yn gyfartal â rhai cynhyrchwyr mawr cenedlaethol.

Fel y soniais, cafwyd dirywiad sylweddol yn yr economi wledig dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn ddiweddar, tynnodd NFU Cymru sylw at y gostyngiad enfawr yn y nifer o ffermwyr llaeth yng Nghymru rhwng 1998 a 2008 fel un enghraifft o'r economi leol yn dioddef. Dywedodd NFU Cymru hefyd ei fod yn croesawu'n fawr y gefnogaeth sylweddol a thrawsbleidiol dros sefydlu ombwdsmon archfarchnad. Mae'n glir bod cydnabyddiaeth y tu fewn a thu allan i'r diwydiant bod angen ailfeddwl ynglŷn â sut y gallwn gefnogi economïau gwledig Cymru.

Hoffwn gloi gan ddweud fy mod yn poeni'n fawr am y dirywiad yr ydym wedi ei weld yn yr economi wledig yn y degawd diwethaf. Felly, anogaf y Gweinidog a Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ac i ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt i sicrhau bod y dirywiad yn cael ei rwystro, a'n bod yn adeiladu economi wledig gryf a chadarn ledled Cymru.

5.10 p.m.

Joyce Watson: I would like to set the record straight with reference to the previous speaker. Do I know about the area that he represents? Yes, I do, because I have represented it for much longer than he has, in local government and in national Government. I have a clear memory of the time that I went into local government in 1995, when jobs were being advertised with a salary of £1.60 and £2 an hour, and when 300 people queued up to try to get a job as a rat

We, on this side of the Chamber, support the creation of an ombudsman as a unit within the Office of Fair Trading, which will be funded by retailers. It is essential to have a cap on the size of business which the ombudsman will protect, to ensure that the role is focussed specifically on small businesses. By protecting smaller producers, those businesses have a better chance of developing sustainable businesses. We must ensure fairness for all in this sector, and that the rights of smaller producers are equal to those of the big national producers.

As I mentioned, there has been a substantial decline in the rural economy over the last 10 years. Recently, NFU Cymru highlighted the huge reduction in the number of dairy farmers in Wales between 1998 and 2008 as one example of the suffering of the local economy. NFU Cymru also said that it very much welcomed the substantial cross-party support for establishing a supermarket ombudsman. It is clear that there is recognition both inside and outside the industry that we need to reconsider the way in which we support rural economies in Wales.

I shall conclude by saying that I am very concerned at the decline we have seen in the rural economy over the last decade. Therefore, I urge the Minister and the Assembly Government to act and to use the powers they possess to stem the decline, and to build a strong and robust rural economy.

Joyce Watson: Hoffwn gywiro'r darlun gwallus a gyflwynwyd gan y siaradwr blaenorol. A wyf yn adnabod yr ardal y mae'n ei chynrychioli? Ydwyf, oherwydd yr wyf wedi cynrychioli'r ardal honno'n hirach o lawer nag ef, mewn llywodraeth leol a Llywodraeth genedlaethol. Cofiaf yn glir yr adeg pan ymunais â llywodraeth leol yn 1995, pan oedd swyddi'n cael eu hysbysebu gyda chyflog o £1.60 a £2 yr awr, a phan oedd 300 o bobl mewn rhes yn ceisio cael

catcher in Milford Haven. I also remember that there was 50 per cent unemployment in Milford Haven. That is the situation that you presided over and those are the sorts of issues that we have had to address. I wanted to share my memory of your party's time in Government and of what you did not do in the place where I live and have represented continuously since 1995. That was a matter of setting the record straight.

The Tories would have us believe that the Assembly Government has done nothing for the rural economy in Wales over the past decade, when, in fact, there has been significant investment in rural Wales. Paul Davies, I am sure, uses the much-improved roads when he drives here on occasion—I know that he tends to take the train to Cardiff—and a Labour Government presided over those changes.

The Tories used figures from the Office for National Statistics to try to show a massive fall in GVA for agriculture and other rural sectors in Wales between 1997 and 2007. However, the figures are not like for like, because direct subsidies are included in the 1997 figures, but indirect subsidy payments, such as the single farm payment, which pretty much replaced the direct subsidies, are not included in the 2007 figures. However, I recognise that the proportion of the fall in GVA, as compared with the rest of the UK, is concerning, and I take that on board. The domination of our meat market, where prices have been historically low in recent years, compared with those in arable farming, may have something to do with that.

However, what I am more concerned about is the narrow view that the Tories seem to have of what the rural economy is. I support the establishment of a supermarket ombudsman and it could help to bring much more fairness to the marketplace, but we should not overestimate what this post could achieve—there are no magic bullets.

swydd fel gweithiwr dal llygod mawr yn Aberdaugleddau. Cofiaf hefyd fod y gyfradd diweithdra yn Aberdaugleddau bryd hynny'n 50 y cant. Dyna'r sefyllfa pan oeddech chi mewn grym, a dyna'r mathau o broblemau yr ydym ni wedi gorfod mynd i'r afael â hwy. Yr oeddwn am rannu'r hyn a gofiaf am gyfnod eich plaid chi mewn Llywodraeth, a'r hyn na wnaethoch yn yr ardal lle yr wyf yn byw ac wedi'i chynrychioli'n barhaus er 1995. Mater o gywiro'r darlun gwallus oedd hynny.

Yn ôl y Torïaid, nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud dim dros yr economi wledig yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf, ond y gwir amdani yw bod llawer iawn o fuddsoddi wedi digwydd yng nghefn gwlad Cymru. Yr wyf yn siŵr bod Paul Davies yn defnyddio'r ffyrdd, sydd wedi gwella'n aruthrol, wrth yrru yma weithiau—gwn ei fod yn tueddu i ddod i Gaerdydd ar yr trê—a Llywodraeth Lafur oedd mewn grym adeg y newidiadau hynny.

Defnyddiodd y Torïaid ffigurau o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i geisio dangos cwymp enfawr mewn gwerth ychwanegol crynswth ar gyfer amaethyddiaeth a sectorau gwledig eraill yng Nghymru rhwng 1997 a 2007. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau wedi'u seilio ar yr un wybodaeth, oherwydd mae cymorthdaliadau uniongyrchol wedi'u cynnwys yn ffigurau 1997, ond nid yw cymorthdaliadau anuniongyrchol, megis y taliad sengl, a ddisodlodd y cymorthdaliadau uniongyrchol fwy neu lai, wedi'u cynnwys yn ffigurau 2007. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod cyfran y cwymp mewn gwerth ychwanegol crynswth, o'i chymharu â gweddill y DU, yn peri pryder, a derbynïaf hynny. Efallai fod a wnelo maint ein marchnad gig â hynny, lle mae prisiau wedi bod yn isel yn hanesyddol dros y blynyddoedd diwethaf, o'u cymharu â phrisiau yn y sector ffermio tir â.

Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn pryderu mwy yn ei gylch yw culni darlun y Torïaid o'r economi wledig, yn ôl pob golwg. Yr wyf o blaid sefydlu ombwdsmon archfarchnadoedd, a gallai helpu gwneud y farchnad yn lle tecach o lawer. Ond ni ddylem osod disgwyliadau rhy uchel ynghylch yr hyn y gallai'r swydd hon ei gyflawni—nid oes

The economy of rural Wales deserves more consideration than the Tories seem either willing or able to give it. They have a history of painting a simplistic picture of rural Wales, and, again, I cast my mind back to when they backed the pro-hunting lobby's study that predicted catastrophic damage to the economy if hunting were banned. That was simply wrong. However, I see that their animal welfare spokesperson has recently said that a Tory Government would reintroduce hunting with dogs, so they may still think the same way. That is the foremost pledge that you have put in place for rural Wales—that you will bring back hunting. That will solve all of our problems and will put everyone back to work.

Nick Bourne: Will you give way?

Joyce Watson: I will give way in a minute. You ignored the study of deep rural localities undertaken by the Wales Rural Observatory last year, which you could have mentioned. It highlighted the issues that my colleague Alun Davies mentioned, and which you failed to mention, such as better employment prospects. I have highlighted your poor record in that regard. It also mentioned affordable housing, which you have said you will vote against today. Paul Davies did mention support for SMEs, which is a serious issue, but your debate today has had a narrow focus, as your debates always do. There is much more to the rural economy than that which you have debated today. I will give way to Nick Bourne.

The Temporary Deputy Presiding Officer: No, your time is up.

Joyce Watson: Okay, that is fine.

Nick Bourne: This is an important debate. I greatly regret the intemperate observations and contribution from the Assembly Member for Mid and West Wales—not Joyce Watson, whose contribution I will come to in a

modd gwella'r sefyllfa dros nos.

Mae economi cefn gwlad Cymru yn haeddu mwy o ystyriaeth nag y mae'r Toriaid yn barod i'w rhoi iddi neu'n gallu ei rhoi iddi, yn ôl pob golwg. Mae ganddynt hanes o beintio darlun rhy syml o gefn gwlad Cymru, ac unwaith eto, cofiaf pan oeddent yn cefnogi astudiaeth y lobi o blaid hela, a oedd yn rhagweld difrod trychinebus i'r economi pe bai hela'n cael ei wahardd. Yn syml iawn, yr oedd hynny'n anghywir. Fodd bynnag, gwelaf fod eu llefarydd ar les anifeiliaid wedi dweud yn ddiweddar y byddai Llywodraeth Doriaidd yn ailgyflwyno hela gyda chŵn, felly, efallai eu bod yn dal o'r un farn. Dyna'r addewid pennaf yr ydych wedi'i wneud ar gyfer cefn gwlad Cymru—sef y byddwch yn ailgyflwyno hela. Bydd hynny, wrth gwrs, yn datrys ein problemau i gyd ac yn sicrhau bod gan bawb waith.

Nick Bourne: A wnewch chi ildio?

Joyce Watson: Ildiaf yn y man. Cafodd yr astudiaeth o ardaloedd gwledig anghysbell, gan Arsyllfa Wledig Cymru y llynedd ac y gallech fod wedi'i chrybwyll, ei hanwybyddu gennych. Yr oedd yn tynnu sylw at y problemau y soniodd fy nghydweithiwr, Alun Davies, amdanynt a'u hanwybyddu gennych, megis gwell rhagolygon cyflogaeth. Yr wyf wedi tynnu sylw at eich perfformiad gwael yn hynny o beth. Yr oedd yr astudiaeth hefyd yn sôn am dai fforddiadwy, ac yr ydych wedi dweud y byddwch yn pleidleisio yn ei erbyn heddiw. Soniodd Paul Davies am gymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint, sy'n broblem ddifrifol, ond mae ffocws eich dadl heddiw wedi bod yn gul, ac mae hynny'n wir am bob un o'ch dadleuon. Mae'r economi wledig yn cynnwys llawer mwy o agweddau nag yr ydych wedi eu dadlau heddiw. Ildiaf i Nick Bourne.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Na wnewch, oherwydd mae eich amser ar ben.

Joyce Watson: Popeth yn iawn.

Nick Bourne: Mae hon yn ddadl bwysig. Yr wyf yn gresynu'n fawr at sylwadau a chyfraniad eithafol yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru—nid Joyce Watson, y byddaf yn troi at ei chyfraniad yn y man, ond

minute, but Alun Davies. I have represented the area for 11 years and, unlike the Member, I hope to continue to do so after the next election. I need no lessons from him about the dangers to the rural way of life: the closure of schools, post offices, pubs, shops, and rural community health councils. If he really is keen to protect rural Wales, I look forward to his contributions to, and support for, some of these campaigns.

This is about rural poverty, which I have seen at close quarters in the area that I represent. Any suggestion that Andrew Davies, Brynle Williams and Paul Davies do not understand rural poverty when they have lived in rural areas and seen rural poverty throughout their lives is as risible as it is ridiculous.

Alun Davies: Do you therefore regret that, when I mentioned poverty, Andrew R.T. Davies laughed?

Nick Bourne: I think that he was laughing at you, which I can well understand. Your contribution to the debate was pretty outrageous. However, I recognise that you apologise for those things you said that may have caused offence. We have had a team of people working on this over the weeks and months during which you have said things in the Chamber that were offensive. Yours was the most intemperate of contributions in a debate that is serious and which is about a serious issue.

Let us look at the issues surrounding rural poverty, because that is what this debate is about. Brynle Williams was quite clear in saying that this is not a silver bullet; no debate here will be a silver bullet. However, it is a contribution and a constructive suggestion regarding how things might be improved for rural consumers and rural producers. After all, this is about protecting Welsh farmers, people who work on Welsh farms, and people in rural communities. All would be protected by a supermarket ombudsman. I am not suggesting that this is a silver bullet, as it clearly is not, but it will help. Even the amendment put forward by the Government recognises this fact.

Alun Davies. Yr wyf wedi cynrychioli'r ardaler 11 mlynedd, ac yn wahanol i'r Aelod dan sylw, gobeithiaf barhau i wneud hynny ar ôl yr etholiad nesaf. Nid oes arnaf angen pregeth ganddo ef am y peryglon i'r ffordd wledig o fyw: cau ysgolion, swyddfeydd post, tafarnau, siopau, a chynghorau iechyd cymuned mewn ardaloedd gwledig. Os yw'n wirioneddol awyddus i ddiogelu cefn gwlad Cymru, edrychaf ymlaen at ei gyfraniadau a'i gefnogaeth i rai o'r ymgyrchoedd hynny.

Mae a wnelo hyn â thlodi gwledig, ac yr wyf wedi'i weld yn agos iawn yn yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli. Mae unrhyw awgrym nad yw Andrew Davies, Brynle Williams a Paul Davies yn deall beth yw tlodi gwledig, a hwythau wedi byw mewn ardaloedd gwledig ac wedi gweld tlodi gwledig gydol eu hoes, yn hurt ac yn chwerthinllyd.

Alun Davies: A ydych, felly, yn gresynu bod Andrew R.T. Davies wedi chwerthin pan soniais am dlodi?

Nick Bourne: Credaf ei fod yn chwerthin am eich pen chi, a gallaf ddeall hynny'n hawdd. Yr oedd eich cyfraniad i'r ddadl yn warthus. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod ichi ymddiheuro am eich geiriau a allai fod wedi peri tramgwydd. Mae tîm o bobl wedi bod yn gweithio ar y mater hwn inni yn ystod yr wythnosau a'r misoedd pan ydych wedi dweud pethau tramgwyddus yn y Siambr. Eich cyfraniad chi oedd yr un mwyaf eithafol mewn dadl difrifol am broblem ddiffrifol.

Gadewch inni edrych ar broblemau tlodi gwledig, oherwydd dyna mae'r ddadl hon yn ymwneud ag ef. Dywedodd Brynle Williams yn eithaf clir nad yw'n ateb syml i broblem anodd; ni fydd yr un ddadl yma'n cynnig ateb o'r fath. Fodd bynnag, mae'n gyfraniad ac yn awgrym adeiladol ynghylch sut y gellid gwella pethau ar gyfer defnyddwyr gwledig a chynhyrchwyr gwledig. Wedi'r cyfan, mae a wnelo hyn ag amddiffyn ffermwyr Cymru, pobl sy'n gweithio ar ffermydd yng Nghymru, a phobl mewn cymunedau gwledig. Byddent i gyd yn cael eu hamddiffyn gan ombwdsmon archfarchnadoedd. Nid wyf yn awgrymu bod cael ombwdsmon yn ateb hawdd, oherwydd mae'n amlwg nad ydyw, ond bydd o

gymorth. Mae hyd yn oed y gwelliant a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn cydnabod y ffaith hon.

Brynle Williams and our team in Westminster have been working jointly on this. Aspects of it will be specifically Welsh, because matters such as focusing regulation and controls on the supermarkets, aspects such as the Welsh language, for example, will need to be protected, as will our Welsh producers. Therefore, I recognise the importance of the ombudsman's role in implementing and enforcing a code of practice relating to grocery supply to ensure that the market operates as a level, and fair, playing field in the interests of producers, retailers and consumers. That seems to me to be a sensible way of regulating the market, because supermarkets are too powerful. We all use them—I would be surprised if there was anyone here who has never used a supermarket. However, that does not mean that they do not need controlling; they do. They need to be controlled in the interests of the people who use them, the interests of producers and the interests of communities up and down Wales. I make no apology for saying that. I do not see why that is trivialising important issues, in the way that speeches that were probably prepared before hearing the debate suggested—speeches that do not recognise the needs that have been recognised by this debate.

Supermarkets deliver real benefits, but some aspects of their treatment of suppliers can harm both producers and consumers. It also has an effect on communities up and down Wales if shops are being destroyed and independent traders are affected. We have seen the dangers of that, and the Minister will be as aware of the dangers from her area as I am. Therefore, an ombudsman would be introduced to curb abuses of power, which undermine our farmers, and which act against the long-term interests of consumers.

This call has been backed by the Food Ethics Council, which is an independent body. It has

Mae Brynle Williams a'n tîm yn San Steffan wedi bod yn cydweithio ar y mater hwn. Bydd agweddau arno sy'n benodol i Gymru, oherwydd bydd angen amddiffyn materion megis canolbwyntio gwaith rheoleiddio a systemau rheoli ar yr archfarchnadoedd, ac agweddau megis yr iaith Gymraeg, er enghraifft, yn ogystal ag amddiffyn ein cynhyrchwyr yng Nghymru. Felly, yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd rôl yr ombwdsmon o ran gweithredu a gorfodi cod ymarfer yng nghyswllt cyflenwi bwyd er mwyn sicrhau chwarae teg yn y farchnad er budd cynhyrchwyr, manwerthwyr a defnyddwyr. I mi, ymddengys fod y dull hwnnw'n ffordd synhwyrol i reoleiddio'r farchnad, oherwydd mae gan yr archfarchnadoedd ormod o rym. Yr ydym i gyd yn eu defnyddio—byddwn yn synnu'n fawr pe bai rhywun yma nad yw erioed wedi defnyddio archfarchnad. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes angen eu rheoli; mae angen gwneud hynny. Mae angen eu rheoli er budd y bobl sy'n eu defnyddio, er budd cynhyrchwyr ac er budd cymunedau ar hyd a lled Cymru. Nid wyf yn bwriadu ymddiheuro am ddweud hynny. Nid wyf yn deall pam mae hynny'n gyfystyr â bychanu problemau pwysig, sef yr hyn a awgrymwyd gan rai areithiau a baratowyd, fwy na thebyg, cyn clywed y ddadl—areithiau nad ydynt yn cydnabod yr anghenion sydd wedi'u cydnabod gan y ddadl hon.

Mae archfarchnadoedd yn cynnig manteision gwirioneddol, ond gall rhai agweddau ar y modd y maent yn trin cyflenwyr fod yn niweidiol i gynhyrchwyr a defnyddwyr. Yn ogystal, os yw siopau'n cael eu dinistrio ac os effeithir ar fasnachwyr annibynnol, effeithir hefyd ar gymunedau ar hyd a lled Cymru. Yr ydym wedi gweld peryglon hynny, a bydd y Gweinidog mor ymwybodol â mi o'r peryglon o'i hardal hi. Felly, byddai ombwdsmon yn cael ei gyflwyno i leihau achosion o gamddefnyddio grym, sy'n tanseilio ein ffermwyr ac yn gweithredu'n groes i fuddiannau hirdymor defnyddwyr.

Mae'r alwad hon wedi'i chefnogi gan y Cyngor Moeseg Bwyd, sy'n gorff

been recognised and backed by the Federation of Small Businesses and the Farmers Union of Wales. I recognise the importance of those bodies. Gareth Vaughan, the FUW president maintains that an independent ombudsman, coupled with compliance officers employed by supermarkets to oversee the implementation of the new code, would be a major step forward in ensuring that supermarkets provide a fair deal for all suppliers, including farmers.

In my area, I know of co-operative shops that operate successfully, such as that in Llanbadarn Fynydd. We have excellent farmers' markets, such as those in Aberystwyth and Brecon among many others in the area that I represent and beyond. It is important that they are also protected from the supermarkets. That is why, in tackling rural poverty, this is a positive contribution to the debate to help producers and consumers, and, indeed, the entire rural community.

5.20 p.m.

Leanne Wood: Plaid Cymru strongly supports the creation of a supermarket ombudsman, but we want such an office to have robust powers to be able to take on the big four. Crucially, we would like to see such an ombudsman offer anonymity to complainants against the supermarkets.

Support for an ombudsman is not something new for Plaid Cymru, as our MPs proposed a milk and supermarkets Bill as far back as 2005, and parts of that proposal have already been forced into legislation by Simon Thomas when he was an MP. It is also worth noting the work of Elin Jones as our Minister for Rural Affairs. She has pushed hard to promote Welsh produce and to persuade supermarkets to stock and source local goods. The problem now is that it may already be too late for many of the smaller producers, as the dominance and monopoly of the big supermarkets has already pushed so many out of business and caused irrevocable damage to

annibynnol. Mae hefyd wedi'i chydabod a'i chefnogi gan y Ffederasiwn Busnesau Bach ac Undeb Amaethwyr Cymru. Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd y cyrff hynny. Mae Gareth Vaughan, llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, yn mynnu y byddai ombwdsmon annibynnol, ynghyd â swyddogion cydymffurfio a gyflogir gan archfarchnadoedd i oruchwylio'r broses o weithredu'r cod newydd, yn gam pwysig ymlaen i sicrhau bod archfarchnadoedd yn rhoi chwarae teg i bob cyflenwr, gan gynnwys ffermwyr.

Yn fy ardal i, gwn am siopau cydweithredol sy'n gweithredu'n llwyddiannus, megis yr un yn Llanbadarn Fynydd. Mae gennym farchnadoedd ffermwyr ardderchog megis y rheini yn Aberystwyth ac Aberhonddu ymhlith nifer o rai eraill yn yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli a thu hwnt. Mae'n bwysig iddynt hwy hefyd gael eu diogelu rhag yr archfarchnadoedd. Dyna pam mae'r mater hwn, wrth fynd i'r afael â thlodi gwledig, yn gyfraniad cadarnhaol i'r ddadl i helpu cynhyrchwyr a defnyddwyr, a'r gymuned wledig gyfan, yn wir.

Leanne Wood: Mae Plaid Cymru yn gryf o blaid creu ombwdsmon archfarchnadoedd, ond yr ydym am i swydd felly gael pwerau cadarn er mwyn medru herio'r pedair prif archfarchnad. Byddem yn hoffi pe bai ombwdsmon o'r fath yn gallu sicrhau bod enwau'r sawl sy'n cwyno am yr archfarchnadoedd yn cael eu celu, sy'n hollbwysig.

Nid yw cefnogi ombwdsmon yn rhywbeth newydd i Blaid Cymru, oherwydd cynigiodd ein Haelodau Seneddol Fesur Ilaeth ac archfarchnadoedd mor bell yn ôl â 2005, ac mae rhannau o'r cynnig hwnnw eisoes wedi'u gwthio i mewn i ddeddfwriaeth gan Simon Thomas pan oedd yn Aelod Seneddol. Mae hefyd yn werth tynnu sylw at waith Elin Jones, ein Gweinidog dros Faterion Gwledig. Mae wedi gweithio'n ddygn i hyrwyddo cynnyrch Cymreig ac i berswadio archfarchnadoedd i werthu a chyrchu nwyddau lleol. Y broblem yn awr yw y gallai eisoes fod yn rhy hwyr i lawer o'r cynhyrchwyr llai, gan fod grym a monopoli'r

the industry around the world. From the cosy co-operation at UK Government level that has enabled these huge monopolies to form unchallenged to local decisions to allow the building of mega-sized retail units, which are often out of town, this has led to serious damage to the viability of our smaller independent shops and businesses. That is the background to where we are now.

Turning to the proposals mooted by the Tories, you will not often hear me say this, but I think that it is positive that the Tories have finally recognised the need to intervene in the market. I am pleased that they have recognised the need for a level playing field. It is a move in the right direction. We do not see any signs, however, that any new regulatory body, as proposed by the Tories, will have real and robust powers to challenge the supermarkets' power and to reverse the damage that has already been done.

Small farmers and producers are in real fear of losing their livelihood if they are contracted to one of the big four. They will not speak out, because the supermarkets have them over a barrel. That is why the point about an ombudsman offering anonymity is so important.

I will finish with some statistics. Fifty years ago, farmers in Europe and North America received between 45 and 60 per cent of the money that consumers spent on food. Today, that figure has dropped dramatically to around 7 per cent in the UK and 3.5 per cent in the USA. Interestingly, it remains around 18 per cent in France. There is therefore no doubt that the power of these large food multinationals has to be checked, challenged and reversed, but this one measure alone will not rectify the problems facing people in our rural communities. I have faith in our Minister, Elin Jones, and the work that she is doing within the constraints of the powers that she has to rectify this huge power imbalance. When it comes to the Tories intervening in the markets to tackle this

archfarchnadoedd mawr eisoes wedi gorfodi cynifer ohonynt i roi'r gorau iddi ac wedi achosi difrod nad oes modd ei ddadwneud yn y diwydiant o amgylch y byd. O'r cydweithredu agos ar lefel Llywodraeth y DU, sydd wedi galluogi'r monopolïau anferth hyn i ffurfio'n ddiwrthwynebiad, i benderfyniadau lleol i ganiatáu adeiladu unedau manwerthu enfawr, y tu allan i drefi'n aml, mae'r cyfan wedi niweidio hyfywedd ein siopau a'n busnesau annibynnol llai o faint yn ddifrifol. Dyna yw cefndir y sefyllfa sydd ohoni.

I droi at y cynigion y cyfeiriodd y Torïaid atynt, ni chlywch fi'n dweud hyn yn aml, ond credaf fod y ffaith bod y Torïaid wedi cydnabod o'r diwedd fod angen ymyrryd yn y farchnad yn gam cadarnhaol. Yr wyf yn falch eu bod wedi cydnabod bod angen chwarae teg. Mae'n gam i'r cyfeiriad iawn. Fodd bynnag, nid ydym yn gweld dim arwyddion i ddangos y bydd gan unrhyw gorff rheoleiddio newydd, fel yr un a gynigir gan y Torïaid, bwerau gwirioneddol a chadarn i herio grym yr archfarchnadoedd a dadwneud y niwed a wnaed eisoes.

Mae ar gynhyrchwyr a ffermwyr bach ofn gwirioneddol y gallent gollu eu bywoliaeth, o ymrwymo i gontract ag un o'r pedair prif archfarchnad. Nid ydynt yn fodlon dweud dim, oherwydd maent ar drugaredd yr archfarchnadoedd. Dyna pam mae'r pwynt am alluogi ombwdsmon i gelu enwau mor bwysig.

Hoffwn orffen gyda rhai ystadegau. Hanner can mlynedd yn ôl, yr oedd ffermwyr yn Ewrop a Gogledd America yn cael rhwng 45 a 60 y cant o'r arian a wariar defnyddwyr ar fwyd. Heddiw, mae'r ffigur hwnnw wedi disgyn yn ddramatig i ryw 7 y cant yn y DU a 3.5 y cant yn yr Unol Daleithiau. Yn ddiddorol iawn, mae'r ffigur yn dal tua 18 y cant yn Ffrainc. Felly, nid oes amheuaeth nad oes yn rhaid ffrwyno, herio a gwrthdroi grym y cwmnïau bwyd rhyngwladol mawr hyn, ond ni fydd y mesur hwn yn unig yn datrys y problemau sy'n wynebu pobl yn ein cymunedau gwledig. Mae gennyf ffydd yn ein Gweinidog, Elin Jones, a'r gwaith a wna o fewn terfynau'r pwerau sydd ganddi i unioni'r diffyg cydbwysedd enfawr hwn mewn grym. Pan ddaw'n fater o weld y

power imbalance, frankly, I do not have much faith at all.

Mohammad Asghar: We should not take any lectures from the other side of the Chamber. First of all, they live in the past, and we are talking about the future. Basically, their reasons, whatever they are, are all rubbish. Under Labour, Welsh agriculture has declined by a worrying degree. The rural economy has been mistreated. Go to Blaenau Gwent. There are a few areas in my constituency where you can see what real rural poverty is before you say anything else.

As rural economies become less competitive, communities in rural areas become less sustainable. That is something we surely want to avoid here in Wales. As we know, Wales currently has higher unemployment than any other UK region. However, less publicised figures show Wales's failings with regards to agriculture. The decline in Wales has been significantly worse than in any other UK region. I join my Conservative colleagues in highlighting the benefits that a supermarket ombudsman could bring to Wales. The implementation of a supermarket ombudsman could play a big role in helping to stem the decline of many rural communities across Wales. They would help to ensure that markets work fairly and that smaller producers—many of whom have suffered so much under Labour for so long—are adequately protected. They would provide a reassuring and crucially independent voice for dispute settlement.

Last September, I fell in a supermarket in Newport. I have not received an apology to this day. The manager of the store asked me to leave the store. He did not know who I was. It is not just about me—many other customers have slipped and been injured in a supermarket. The treatment that they received from some of the managers was deplorable. That needs to be checked and managers need to be controlled. They should be taught about public relations.

Torïaid yn ymyrryd yn y marchnadoedd i fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd hwn mewn grym, nid oes gennyf lawer o ffydd o gwbl, a dweud y gwir.

Mohammad Asghar: Ni ddylem dderbyn dim pregeth o ochr arall y Siambr. Yn gyntaf, maent yn byw yn y gorffennol, ac yr ydym ni'n sôn am y dyfodol. Yn y bôn, nonsens yw eu rhesymau i gyd, beth bynnag ydynt. Dan y Blaid Lafur, mae amaethyddiaeth yng Nghymru wedi dirywio i raddau sy'n peri pryder mawr. Mae'r economi wledig wedi ei cham-drin. Ewch i Flaenau Gwent. Mae rhai ardaloedd yn fy etholaeth i lle gallwch weld beth yw tloedi gwledig go iawn, cyn ichi ddweud dim byd arall.

Wrth i economïau gwledig fynd yn llai cystadleuol, mae cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn mynd yn llai cynaliadwy. Rhaid ein bod am osgoi hynny yma yng Nghymru. Fel y gwyddom, mae'r gyfradd diweithdra yn uwch ar hyn o bryd yng Nghymru nag yn yr un rhanbarth arall yn y DU. Fodd bynnag, mae ffigurau sydd wedi cael llai o sylw yn dangos methiannau Cymru o ran amaethyddiaeth. Mae'r dirywiad yng Nghymru wedi bod gryn dipyn yn waeth nag yn yr un rhanbarth arall yn y DU. Ymunaf â'm cydweithwyr Ceidwadol i dynnu sylw at y manteision y gallai ombwdsmon archfarchnadoedd eu cynnig i Gymru. Gallai cyflwyno ombwdsmon archfarchnadoedd chwarae rhan fawr wrth helpu atal dirywiad nifer o gymunedau gwledig ar draws Cymru. Byddai'n helpu sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n deg a bod cynhyrchwyr llai—y mae cynifer ohonynt wedi dioddef cymaint cyhyd dan y Blaid Lafur—yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. Byddai'n llais cysurlon ac annibynnol, sy'n hollbwysig, i ddatrys anghydfodau.

Fis Medi diwethaf, syrthiais mewn archfarchnad yng Nghasnewydd. Nid wyf wedi cael ymddiheuriad hyd heddiw. Gofynnodd y rheolwr imi adael y siop. Ni wyddai pwy oeddwn. Nid i mi'n unig mae hynny wedi digwydd—mae llawer o gwsmeriaid eraill wedi llithro ac wedi cael eu hanafu mewn archfarchnad. Yr oedd y modd y cawsant eu trin gan rai o'r rheolwyr yn warthus. Mae angen gwirio hynny, ac mae angen i reolwyr gael eu rheoli. Dylid eu

haddysgu am gysylltiadau cyhoeddus.

Ombudsmen would provide a reassuring and crucially independent voice for dispute settlement. The security which an ombudsman would provide to suppliers will instil new levels of confidence at a time when many, particularly in Wales, have suffered. This confidence can breed innovation from suppliers which could help to reverse economic decline.

It is regrettable that the Government has acted so slowly. While the Conservatives have made plans, the Labour Government has been hesitant.

Leanne Wood: What are your views on the question of anonymity? Do you think it is important, and, if so, will you agree to make representations to your new bosses in London?

Mohammad Asghar: Why do you worry about new bosses in London? You will have new bosses here soon. I am a believer in the free market. However, I am also a believer in a free market which is fair for all. Once in place, the role of supermarket ombudsmen should be promoted to the people of Wales. This will allow them to understand the benefits that such officials can bring to their local communities and beyond.

We have a growing population in the UK. To feed that population, we should be doing all that we can to provide our producers with confidence and a fair deal, which ombudsmen can protect. Let us recognise the benefits that supermarket ombudsmen could have in ensuring a fair deal in the future in Wales.

Kirsty Williams: Oscar, of all the roles that I thought a supermarket ombudsman would have, arbitrating in slips and falls was not at the forefront of my mind. I am sure that it would be of great reassurance to farmers in my constituency that there will be someone to regulate that particular aspect of the usage of supermarkets.

Byddai ombwdsmon yn llais cysurion ac annibynnol, sy'n hollbwysig, i ddatrys anghydfodau. Byddai'r sicrwydd y byddai ombwdsmon yn ei roi i gyflenwyr yn ennyn lefelau newydd o hyder ar adeg pan fo llawer o bobl, yng Nghymru'n enwedig, wedi dioddef. Gallai'r hyder hwnnw esgor ar arloesi ymhlith cyflenwyr, a allai helpu gwrthdroi'r dirywiad economaidd.

Mae'n drueni bod y Llywodraeth wedi gweithredu mor araf. Tra bu'r Ceidwadwyr yn cynllunio, bu'r Llywodraeth Lafur yn tindreid.

Leanne Wood: Beth yw eich barn am gelu enwau? A ydych yn credu bod hynny'n bwysig, ac os felly, a gytunwch i gyflwyno sylwadau i'ch penaethiaid newydd yn Llundain?

Mohammad Asghar: Pam yr ydych yn poeni am benaethiaid newydd yn Llundain? Bydd gennych chi benaethiaid newydd yma cyn hir. Yr wyf yn credu yn y farchnad rydd. Fodd bynnag, yr wyf hefyd yn credu mewn marchnad rydd sy'n deg i bawb. Pan fydd rôl yr ombwdsmon archfarchnadoedd wedi'i chreu, dylid ei hyrwyddo i bobl Cymru. Bydd hynny'n caniatáu iddynt ddeall y manteision y gall swyddogion o'r fath eu cynnig i'w cymunedau lleol a thu hwnt.

Mae poblogaeth y DU yn tyfu. Er mwyn bwydo'r boblogaeth honno, dylem fod yn gwneud popeth posibl i roi hyder a chwarae teg i'n cynhyrchwyr y gall ombwdsmon eu hamddiffyn. Gadewch inni gydnabod y manteision y gallai ombwdsmon archfarchnadoedd eu cynnig wrth sicrhau chwarae teg yn y dyfodol yng Nghymru.

Kirsty Williams: Oscar, o'r holl rolau y meddyliais y byddai ombwdsmon archfarchnadoedd yn eu cael, nid cymrodeddu mewn achosion lle mae pobl wedi llithro neu syrthio oedd un o'r rhai pwysicaf yn fy meddwl. Yr wyf yn siŵr y byddai ffermwyr yn fy etholaeth i'n dawlach eu meddwl o lawer o wybod y byddai rhywun yn rheoleiddio'r agwedd honno ar ddefnyddio archfarchnadoedd.

I welcome the debate by the Conservative party, and I also welcome their support for the principle of a supermarket ombudsman. It is something of which they have not been so supportive in the past. When my Liberal Democrat colleagues in Parliament tried to introduce a regulator two years ago, the Conservatives voted against it.

Andrew R.T. Davies: The role of an ombudsman was identified by the Office of Fair Trading in 2001, when all opposition parties agreed with that report. However, the Labour Government in London refused to implement the report's recommendations. Our ambition was limited by your proposals. Our new ambition is met by the proposals that we put forward at the Oxford farming conference.

Kirsty Williams: Andrew has just made the case for me. When they had an opportunity two years ago to vote for the proposals in London, the Conservatives would not support them. So, I welcome the fact that they now say that they do so. However, the detail of what the ombudsman will do is crucial, and this is where the consensus breaks down.

5.30 p.m.

The kind of ombudsman that I want to see is a watchdog with real teeth, someone with real regulatory powers who can monitor the food market and food prices and can enforce a reformed code. It is not someone who can fix prices, but someone who can prevent price-fixing. If this ombudsman is to be truly effective on behalf of British farmers and British consumers, he or she should have the powers of, and be able to act like, any other regulatory body. It cannot be good enough for the ombudsman's office simply to be a body to which people can complain. Anything less than a proper regulatory body will provide a cover for the supermarkets to hide behind, giving them an air of regulation without their having to act any differently in reality.

Croesawaf y ddadl gan y blaid Geidwadol, a chroesawaf hefyd ei chefnogaeth i'r egwyddor o gael ombwdsmon archfarchnadoedd. Mae'n rhywbeth nad yw'r Ceidwadwyr wedi'i gefnogi'n frwd iawn yn y gorffennol. Pan geisiodd fy nghydweithwyr sy'n Ddemocratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan gyflwyno corff rheoleiddio ddwy flynedd yn ôl, pleidleisiodd y Ceidwadwyr yn ei erbyn.

Andrew R.T. Davies: Tynnodd y Swyddfa Masnachu Teg sylw at rôl ombwdsmon yn 2001, a chytunodd pob un o'r gwrthbleidiau â'r adroddiad hwnnw. Fodd bynnag, gwrthododd y Llywodraeth Lafur yn Llundain weithredu argymhellion yr adroddiad. Cafodd ein huchelgais ni ei chyfyngu gan eich cynigion chi. Caiff ein huchelgais newydd ni ei bodloni gan y cynigion a gyflwynwyd gennym yng nghynhadledd ffermio Rhydychen.

Kirsty Williams: Mae Andrew newydd wneud y pwynt ar fy rhan. Pan oedd ganddynt gyfle ddwy flynedd yn ôl i bleidleisio dros y cynigion yn Llundain, nid oedd y Ceidwadwyr yn fodlon eu cefnogi. Felly, croesawaf y ffaith eu bod yn dweud yn awr eu bod yn eu cefnogi. Fodd bynnag, mae manylion yr hyn y bydd yr ombwdsmon yn ei wneud yn hollbwysig, a dyna ble mae'r consensws yn mynd ar chwâl.

Y math o ombwdsmon yr hoffwn i ei weld yw corff gwarchod sydd â dannedd go iawn, rhywun sydd â phwerau rheoleiddio go iawn ac a all fonitro'r farchnad fwyd a phrisiau bwyd a gorfodi cod diwygiedig. Ni fyddai'n rhywun sy'n gallu pennu prisiau, ond yn rhywun a allai atal hynny rhag digwydd. Os bwriedir i'r ombwdsmon hwn fod yn wirioneddol effeithiol ar ran ffermwyr Prydain a defnyddwyr Prydain, dylai fod ganddo'r pwerau sydd gan bob corff rheoleiddio arall, a dylai allu gweithredu yn yr un modd. Nid yw cael swydd ombwdsmon sy'n ddim byd mwy na chorff y gall pobl gwyno wrtho yn ddigon da. Bydd unrhyw beth llai na chorff rheoleiddio go iawn yn sgrîn y gall yr archfarchnadoedd guddio y tu ôl iddi, gan roi'r argraff eu bod yn cael eu rheoleiddio heb orfod gweithredu'n wahanol

mewn gwirionedd.

Undoubtedly, there have been tough times for the farming industry over the past 10 years. My goodness, have I seen it in my constituency and in my own home. Those tough times are undoubtedly continuing for the dairy farmers of Wales, but there is sometimes a danger of talking the industry down by constantly saying that things are terrible and of playing into the hands of those who do not want to support the farming industry. That does nothing to engender the kind of urban/rural support that we need when things get genuinely tough. I very much welcome the news that farm incomes have gone up this year. I accept that a lot of that has been to do with the exchange rate, which has pushed up the prices for stock in the sheep and beef sectors and has had a significant impact on the single farm payment. However, we should celebrate when things are going well rather than talk the industry down constantly. Nothing gives me greater pleasure than to see the fantastic stock that is reared by our farmers. Anyone at the potential sale at Brecon or Ruthin over the past two weeks could see Welsh agriculture at its best and Welsh agriculture doing well.

However, we must guard against the growing uncertainty over the changes facing the industry with the introduction of Glastir. We cannot ignore the anxiety and nervousness in the industry about what the significant changes to support payments will mean. We need to get to the bottom of those concerns to give farmers the confidence to plan for their businesses' futures by being clear about what Glastir will mean for individuals.

Much as it grieves me to say it, for once, Alun Davies was right when he said that we need to talk about the rural economy in a much broader context than just farming and the supermarket ombudsman. We need to look at wage levels in the private sector in rural Wales and at defending and developing what manufacturing we still have left—and there is manufacturing and private sector work outside the farming industry in rural

Heb os, mae'r diwydiant ffermio wedi bod drwy gyfnodau anodd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Bobl bach, yr wyf wedi gweld hynny yn fy etholaeth ac yn fy nghartref fy hun. Nid oes amheuaeth nad yw'r cyfnodau anodd hynny'n parhau i ffermwyr llaeth Cymru, ond mae perygl weithiau inni siarad yn negyddol am y diwydiant drwy ddweud byth a hefyd bod pethau'n wael, a rhoi mantais i'r sawl nad ydynt am gefnogi'r diwydiant ffermio. Nid yw hynny'n gwneud dim i ennyn y math o gefnogaeth drefol/wledig y mae arnom ei hangen pan fydd pethau'n wirioneddol wael. Croesawaf yn fawr iawn y newydd bod incwm ffermydd wedi cynyddu eleni. Derbyniaf fod hynny wedi digwydd i raddau helaeth oherwydd y gyfradd gyfnewid, sydd wedi gwthio prisiau anifeiliaid yn y sectorau defaid a chig eidion i fyny ac wedi effeithio'n sylweddol ar y taliad sengl. Fodd bynnag, dylem ddathlu pan fydd pethau'n mynd yn dda yn hytrach na siarad yn negyddol byth a hefyd am y diwydiant. Nid oes dim yn rhoi mwy o bleser i mi na gweld yr anifeiliaid gwych sy'n cael eu magu gan ein ffermwyr. Gallai unrhyw un yn yr arwerthiant potensial yn Aberhonddu neu Ruthun dros y pythefnos diwethaf weld amaethyddiaeth Cymru ar ei gorau ac amaethyddiaeth Cymru yn ffynnu.

Fodd bynnag, rhaid inni ochel rhag yr ansicrwydd cynyddol am y newidiadau sy'n wynebu'r diwydiant wrth i Glastir gael ei gyflwyno. Ni allwn anwybyddu'r pryder a'r nerfusrwydd yn y diwydiant am oblygiadau'r newidiadau sylweddol mewn cymorthdaliadau. Mae angen inni fynd i wraidd y pryderon hynny er mwyn rhoi hyder i ffermwyr gynllunio ar gyfer dyfodol eu busnesau, drwy egluro'r hyn y bydd Glastir yn ei olygu i unigolion.

Er ei bod yn loes calon imi ddweud hyn, yr oedd Alun Davies, am unwaith, yn iawn pan ddywedodd fod angen inni siarad am yr economi wledig mewn cyd-destun ehangach o lawer na ffermio a'r ombwdsmon archfarchnadoedd yn unig. Mae angen inni edrych ar lefelau cyflogau yn y sector preifat yng nghefn gwlad Cymru, ac ystyried diogelu a datblygu'r hyn sy'n weddill o'r sector gweithgynhyrchu—ac mae gwaith y tu allan

communities. We need to look at the infrastructure that will help businesses to develop more. We still have not made significant progress on the broadband infrastructure problems that face so many communities in rural Wales. We also have to look at the impact of public expenditure cuts when so much of the rural economy is dependent on public sector jobs.

Many people in my constituency work in the county council, the local health board, the Brecon Beacons National Park, or the other statutory and public service agencies. The spectre of large-scale cuts will have a significant impact on the economy and the wealth of rural areas.

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. Your time is up. Thank you.

Kirsty Williams: Finally, we need to look at the issue of—

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. I have pressed the red button and I now call the Minister.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r sialensiau y mae'r economi wledig wedi'u hwynebu dros y 10 mlynedd diwethaf ac yr wyf yn benderfynol o wneud yr hyn a allaf fel Gweinidog dros Faterion Gwledig i'w rhoi ar dir cadarn wrth inni symud ymlaen at y ddegawd nesaf. Mae'n bwysig imi dynnu sylw wrth basio nad ydwyf wedi cael cyfrifoldeb Gweinidog ers 10 mlynedd—dim ond ers dwy flynedd a hanner. Mae rhai o'r ffigurau a ddefnyddiwyd y prynhawn yma, gan Brynle yn ei gyflwyniad, er enghraifft, yn bennaf yn perthyn i'r cyfnod rhwng 1997 a 2007, ac yr wyf yn falch bod Brynle wedi derbyn hynny yn ei gyflwyniad a bod y Llywodraeth hon yn bodoli er 2007 yn unig. Mae'n bwysig nodi, fel y gwnaeth Kirsty Williams, fod agweddau ar yr economi wledig, yn enwedig yr economi amaethyddol, wedi dangos mwy o lewyrch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a hynny'n groes i'r duedd economaidd yn fwy cyffredinol. Mae'r

i'r diwydiant ffermio mewn cymunedau gwledig, yn y sectorau gweithgynhyrchu a phreifat. Mae angen inni edrych ar y seilwaith a fydd yn helpu busnesau i ddatblygu mwy. Nid ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o hyd gyda phroblemau'r seilwaith band eang sy'n wynebu cynifer o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru. Yn ogystal, rhaid inni edrych ar effaith toriadau ar wariant cyhoeddus, gan fod cymaint o'r economi wledig yn dibynnu ar swyddi yn y sector cyhoeddus.

Mae llawer o bobl yn fy etholaeth i'n gweithio yn y cyngor sir, yn y bwrdd iechyd lleol, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, neu mewn asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus a statudol eraill. Bydd bygythiad toriadau pellgyrhaeddol yn effeithio'n sylweddol ar economi a chyfoeth ardaloedd gwledig.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Mae eich amser ar ben. Diolch.

Kirsty Williams: Yn olaf, mae angen inni edrych ar y broblem sy'n—

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Yr wyf wedi gwasgu'r botwm coch, a galwaf yn awr ar y Gweinidog.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I am very aware of the challenges that the rural economy has faced over the past 10 years, and I am determined to do what I can as Minister for Rural Affairs to put it on a strong footing as we go forward into the next decade. It is important that I should point out in passing that I have not had ministerial responsibility for 10 years—only for two and a half years. Some of the figures cited this afternoon, by Brynle in his opening remarks, for example, mainly relate to the period between 1997 and 2007, and I am pleased that Brynle accepted that in his contribution and that this Government has only been in existence since 2007. It is important to note, as Kirsty Williams did, that aspects of the rural economy, the agricultural economy in particular, have shown more prosperity over the past two years, in contrast to the more general economic trend. The exchange rate between the euro and the pound has meant that the export market is flourishing to a

gyfradd gyfnewid rhwng yr ewro a'r bunt wedi golygu bod y farchnad allforion yn weddol lewyrchus ar hyn o bryd, sy'n cyfrannu at brisiau sylweddol uwch i ffermwyr yn y farchnad am gig oen a chig eidion. Yn ogystal, mae'r gyfradd gyfnewid wedi ychwanegu at werth y taliad sengl i ffermwyr yng Nghymru, a oedd yn £227 miliwn yn 2007 a thua £290 miliwn eleni. Yr oedd £60 miliwn o arian ychwanegol felly yn cylchdroi yn yr economi wledig yn y ddwy flynedd diwethaf.

Nid wyf yn hawlio'r clod am y ffactorau hyn, gyda llaw. Ar y cyfan, maent yn bodoli yn y farchnad rydd. Ar rai adegau, bydd yr amodau a'r prisiau yn y farchnad yn ffafriol; ar adegau eraill, ni fyddant mor ffafriol. Felly, nid wyf yn hawlio'r clod heddiw am y ffigurau yr wyf newydd eu rhoi i chi, ac ni fyddaf ychwaith yn derbyn unrhyw ran o'r feirniadaeth pan fydd y prisiau yn mynd i'r cyfeiriad arall rywbryd yn y dyfodol. Byddai cael mwy o gysondeb yn y prisiau ac yn y farchnad yn dda i bob ffermwr a chynhyrchwr. Y ffordd amlwg o sicrhau hyn yn y cyd-destun hwn fyddai cael un math o arian, sef yr ewro—ond dadl ar gyfer diwrnod arall yw honno.

Er 2006, mae'r gwerth sydd wedi'i ychwanegu at yr economi o'r sector amaethyddol wedi cynyddu'n flynyddol, a rhagwelir y bydd yn cynyddu yn sylweddol eto eleni. Yn 2010, mae disgwyl iddo fod yn uwch nag yn 2000. Yr hyn sy'n bwysig yw bod incwm ffermydd, ar gyfartaledd, hefyd wedi codi'n raddol yn ystod y blynyddoedd diweddaraf, gyda chynnydd blynyddol o 18 y cant yn ystod 2008-09. Mae hyn yn newyddion calonogol, a dylem gydnabod hynny.

Llynedd, lansiais y strategaeth 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad—Creu dyfodol cadarn', sy'n gosod yr agenda o ran edrych ar sut i ymateb i rai o'r sialensiau y cyfeiriwyd atynt y prynhawn yma, drwy hybu effeithlonrwydd technolegol i gynyddu proffidioldeb yn wyneb costau cynhyrchu cynyddol, ac i ychwanegu gwerth at gynhyrchu drwy farchnata arbenigol.

Prif nod cynllun datblygu gwledig Cymru yw

certain degree at present, which contributes to significantly higher prices for farmers in the lamb and beef markets. In addition, the exchange rate has added to the value of the single payment for farmers in Wales; it was £227 million in 2007 and around £290 million this year. Therefore, £60 million in additional funding was circulating in the rural economy over the past two years.

I am not claiming the credit for all of these factors, by the way. On the whole, they are factors that exist in the free market. At times, the conditions and prices in the market are favourable; at other times, they are not so favourable. Therefore, I am not claiming the credit for the figures that I have just given you, nor will I take any part of the criticism when prices go in the opposite direction sometime in future. More consistency in the prices and in the market would be good for all farmers and producers. The obvious way to ensure that in this context would be to have a single currency, that is, the euro—but that is an argument for another day.

Since 2006, the value added to the economy from the agricultural sector has increased annually, and it is predicted that it will increase significantly again this year. In 2010, it is expected to be higher than in 2000. What is important is that farm income, on average, has also increased gradually in recent years, with an annual increase of 18 per cent in 2008-09. This is encouraging news and we should acknowledge that.

Last year, I launched the strategy 'Farming, Food and Countryside—Building a secure future', which sets the agenda in terms of looking at how we respond to some of the challenges that have been referred to this afternoon, by promoting technological efficiency to increase profitability in the face of increasing production costs, and to add value to production through expert marketing.

The main aim of the Wales rural

cynyddu'r cynnyrch mewnwladol crynswth yn yr economi wledig. Un ffordd o wneud hynny yw cefnogi buddsoddiad mewn busnesau bach a chanolig eu maint fel eu bod yn dod yn fwy proffidiol. Drwy wneud hynny, mae'n fwy tebygol y bydd y sectorau bwyd ac amaeth pwysig yn sefydlogi yn y pen draw. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at lefel uwch o gynnyrch mewnwladol crynswth.

Ers cychwyn y cynllun datblygu gwledig, mae mwy na £62 miliwn wedi'i fuddsoddi o dan y cynllun grant prosesu a marchnata, gyda chymorth grant o £23 miliwn. Mae'r buddsoddiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar drosiant uwch, gan greu mwy o elw a chyfleoedd gwaith, a hynny yn y sector bwyd yn benodol. Mae hefyd yn rhoi mwy o obaith i gael cyflogau uwch yn yr ardaloedd gwledig, a chyfeiriodd Alun Davies at yr her benodol honno.

Wrth feddwl am y ddadl hon heddiw, a'm cyfraniad i hefyd o bosibl, y duedd yw inni ganolbwyntio yn sylweddol ar yr economi amaethyddol a'r economi fwyd, ond mae'r economi wledig gymaint yn fwy na'r economi honno. Bydd cynnig a dadl gan y Llywodraeth yr wythnos nesaf ar ardaloedd gwledig pellennig, ac felly cawn gyfle i drafod y materion hyn ar yr adeg honno. Yna, bydd dadl yn amser y Llywodraeth ar Glastir, sef pwynt a godwyd gan Kirsty Williams.

Andrew Davies: One of our aspirations for the supermarket ombudsman is for the postholder to look at the development of smaller supermarket operations, such as convenience stores, which are a key factor for small and medium-sized businesses in the retail trade, particularly in rural communities. Would you not welcome the ombudsman's ability to ensure that there is no predatory pricing or cross-subsidisation from the larger stores into the convenience sector, to the detriment of the high street?

Elin Jones: Bydd union rôl yr ombwdsman yn fater i'w drafod mewn mwy o fanylder wrth inni ymateb i'r ymgynghoriad o San Steffan. Byddaf yn dod at yr ombwdsman yn y man.

5.40 p.m.

development plan is to increase gross domestic product in the rural economy. One way of doing that is to support investment in small and medium-sized business to make them more profitable. In doing so, it is more likely that the important food and agriculture sectors will become ultimately more stable. That, in turn, will contribute to a higher level of gross domestic product.

Since the beginning of the rural development plan, more than £62 million has been invested under the processing and marketing grant, with grant assistance of £23 million. Those investments have a direct impact on increased turnover, creating more profit and job opportunities in the food sector in particular. It also gives more hope of getting higher wages in rural areas, a challenge to which Alun Davies referred.

In thinking about this debate today, and my contribution, too, possibly, the tendency is for us to concentrate mainly on the agricultural economy and the food economy, but the rural economy encompasses so much more than that. The Government will table a motion for debate next week on deep rural areas, and so we will have an opportunity to discuss these matters at that time. Then, there will be a debate in Government time on Glastir, a point raised by Kirsty Williams.

Andrew Davies: Un o'n dyheadau ar gyfer yr ombwdsmon archfarchnadoedd yw bod deiliad y swydd yn ystyried datblygu archfarchnadoedd llai, megis siopau cyfleustra, sy'n ffactor allweddol i fusnesau bach a chanolig yn y fasnach manwerthu, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. A fydddech yn croesawu gallu'r ombwdsmon i sicrhau na fydd croesgymorthdalau neu brisio rheibus yn symud draw o'r siopau mwy i'r sector siopau cyfleustra, a fyddai'n niweidio'r stryd fawr?

Elin Jones: The ombudsman's precise role will be the subject of more detailed discussions in preparing our response to the Westminster consultation. I shall come to the ombudsman in a moment.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig rhaglenni sy'n ychwanegu gwerth at bob sector. Mae'r sectorau garddwriaeth a chynhyrchu llaeth yn ddwy enghraifft sy'n helpu cynhyrchwyr i ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol sylfaenol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi tair canolfan fwyd er mwyn hybu arloesedd, datblygu cynnyrch, ac ychwanegu gwerth drwy brosesu, yn enwedig cynnyrch llaeth a chig. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gwneud popeth o fewn ei gallu i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl o fwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol, ac i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol. Cafodd hynny ei amlinellu yn y cynllun gweithredu cyrchu lleol a lansiws y llynedd, i annog y sector cyhoeddus i gaffael yn lleol lle bo'n bosibl. Mae brand y Gwir Flas yn rhoi sylw i safon rhagorol bwydydd o Gymru, ac mae ganddo broffil cynyddol uwch yng Nghymru a thu hwnt.

Er nad yw polisiau ar gystadlu wedi'u datganoli, nod Llywodraeth Cymru yw gweld yr amodau iawn yn y farchnad i sicrhau cystadleuaeth deg ac agored. Byddwch yn ymwybodol y bwm innau a'r Llywodraeth o blaid sefydlu ombwdsmon archfarchnadoedd ers amser maith. Mae angen corff o'r fath i oruchwylio'r broses o roi cod ymarfer y gadwyn fwyd ar waith. Bydd yn ganolwr annibynnol, fel bod gan gyflenwyr rywle i fynd i ddatrys unrhyw anghydfod.

Er bod croeso i'r cod ymarfer y gadwyn fwyd newydd, yr wyf yn falch o weld bod cytundeb barn bellach ledled y Deyrnas Gyfunol ac ar draws y pleidiau gwleidyddol o blaid cael ombwdsmon annibynnol. Ar ôl prynhawn o drafodaeth wleidyddol heriol, yr wyf yn falch o weld ein bod am 5.40 p.m. wedi taro nodyn o gonsensws, gyda'r Toriaid bellach o blaid ymyrraeth yn y farchnad rydd, gyda Leanne Wood yn eu cymeradwyo am hynny.

Andrew R.T. Davies: Will you give way?

Elin Jones: Very well, in the spirit of consensus.

Andrew R.T. Davies: The consensus view on the ombudsman relates to the Office of Fair Trading report into the working of the

The Assembly Government offers programmes that add value to all sectors. The horticulture and dairy sectors are two examples, which help producers by adding value to basic agricultural produce. The Assembly Government supports three food centres to promote innovation, develop produce, and add value through processing, particularly in the dairy and meat sectors. The Government is also doing all it can to raise awareness of foods produced locally, and to support local supply chains. That was outlined in the local procurement action plan that I launched last year, which was aimed at encouraging the public sector to procure locally wherever possible. The True Taste brand draws attention to the outstanding standard of food from Wales, and its profile is increasing in Wales and beyond.

Although competition policy is not devolved, the aim of the Welsh Government is to ensure the right conditions in the market for fair and open competition. You will be aware that the Government and I have been in favour of establishing a supermarket ombudsman for some time. We need such a body to oversee the process of putting a food chain code of practice in place. It will be an independent advocate, so that suppliers have somewhere to go to resolve any conflicts.

Although the new food chain code of practice has been welcomed, I am pleased to see that there is now agreement across the UK and across the political parties in favour of an independent ombudsman. After an afternoon of challenging political debate, I am pleased that we have, at 5.40 p.m., struck a chord of consensus, with the Tories now in favour of intervention in the free market, and Leanne Wood applauding them for so doing.

Andrew R.T. Davies: A wnewch chi ildio?

Elin Jones: Gwnaf, yn ysbryd consensws.

Andrew R.T. Davies: Mae'r farn gydsyniol am yr ombwdsmon yn ymwneud ag adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg ar y

supermarket trade, and the impact that a monopoly can have on the free market. It does not alter the ideology. The free market delivers many benefits to society and increases wages. Would you not therefore accept that it is the Office of Fair Trading's recommendation that has endorsed the supermarket ombudsman?

Elin Jones: I am not sure that the view of the supermarkets is quite in line with that, given their response to the proposal to establish an ombudsman.

I gloi, er na fydd yr ombwdsmon yn datrys yr holl anawsterau, bydd yn helpu i gael mwy o degwch a threfniadau mwy agored mewn cytundebau rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr. Bydd o fantais i gynhyrchwyr a defnyddwyr yn y gadwyn fwyd drwyddi draw. Gobeithiwn y bydd archfarchnadoedd yn derbyn yn y pen draw fod hyder pawb yn y gadwyn cyflenwi bwyd—cwsmeriaid a chynhyrchwyr—yn ddibynnol ar hyn a'i fod o fantais iddynt hwythau yn ogystal ag i ffermwyr a chynhyrchwyr.

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. You need to wind up now, Minister.

Elin Jones: Mae Llywodraeth San Steffan wrthi'n ymgynghori ar sut i fynd ati i sefydlu ombwdsmon, a byddaf yn ymateb ar ran y Llywodraeth i ymgynghoriad yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Os oes gan unrhyw Aelod farn am sut y dylem ymateb, o ran manylion sefydlu'r ombwdsman a'i rôl yng Nghymru, sef pwynt Nick Ramsay, byddem yn gwerthfawrogi eu clywed maes o law.

Brynle Williams: First, I thank everyone who has contributed to this debate. I am sorry that it got bad-tempered in the middle but, Alun, you quite surprised me. I am sorry, but when it comes to anything to do with agriculture, you hate us with a vengeance. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] That is a fair comment, and I will stick by that.

The Temporary Deputy Presiding Officer:

modd y mae'r fasnach archfarchnadoedd yn gweithio, a'r effaith y gall monopoli ei chael ar y farchnad rydd. Nid yw'n newid yr ideoleg. Mae'r farchnad rydd yn cynnig nifer o fanteision i gymdeithas ac yn codi cyflogau. A fyddech yn fodlon derbyn, felly, mai argymhelliad y Swyddfa Masnachu Teg sydd wedi cymeradwyo'r ombwdsmon archfarchnadoedd?

Elin Jones: Nid wyf yn siŵr a yw barn yr archfarchnadoedd yn cyd-fynd yn union â hynny, o gofio eu hymateb i'r cynnig i sefydlu ombwdsmon.

In conclusion, although the ombudsman will not solve all the difficulties, it will help secure more fairness and openness in contracts between producers and purchasers. It will be of advantage to producers and users throughout the whole food chain. I hope supermarkets will accept at the end of the day that having the confidence of everyone in the food supply chain—producers and customers—is dependent on this, and that it will also benefit supermarkets as well as farmers and producers.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Mae angen ichi ddod at y terfyn yn awr, Weinidog.

Elin Jones: The Westminster Government is currently consulting on how to establish an ombudsman, and I will respond on behalf of the Government to the Department for Business, Innovation and Skills. If any Member has an opinion on how we should respond, on the detail of the establishment of the ombudsman in Wales, which was Nick Ramsay's point, we should appreciate hearing those views in due course.

Brynle Williams: Yn gyntaf, diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Mae'n flin gennyf fod pethau wedi mynd braidd yn flêr tua'r canol, ond, Alun, synnais atoch. Mae'n ddrwg gennyf, ond pan ddaw'n fater o ymdrin ag unrhyw beth yn ymwneud ag amaethyddiaeth, yr ydych yn ein casáu â chas perffaith. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Mae hwnnw'n sylw teg, ac yr wyf yn cadw ato.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Yn

Order. In the spirit of fair play, I should ask you to reconsider those remarks.

Brynle Williams: I withdraw that remark.

Going back to the beginning, Nick talked about the significance of the supermarket ombudsman. This is what we are here to debate today: the role of the ombudsman. The idea of the ombudsman, as far as the industry and the consumer are concerned, is to ensure that everyone gets fair play. Some interesting comments have been made this afternoon, and by Leanne in particular. This matter of anonymity needs to be taken forward. An ombudsman without anonymity will not have much effect.

I am sorry that I am not very good at summing up. Kirsty made a very pertinent comment that we want no price fixing. We need the market to operate, but within that the consumer must gain as well. This is not about the farmer or the producer in particular; it is about everybody gaining and paying a fair price for food. Everyone has the right to good, clean, wholesome food. As it is, there are some unsavoury practices in the marketplace. We are all well aware of them. For once, as the Minister says, there is a consensus here that this ombudsman is long overdue. We must ensure that the ombudsman has teeth so that he can do the business. We must also ensure that we all feed in to the Government to ensure that we get the right outcome from this.

As a Conservative, I am pleased that we tabled this motion today. We have touched on this issue many times, but the debate today is on whether we support an ombudsman and the benefits that he would give the community. Ladies and gentlemen, we have heard today that people are leaving the land and that the rural population is decreasing. I will make one stark prediction: unless we take action today, within 10 years, we will see shortages of certain foods in this country. That is a fact, I am afraid. This has been said at the Oxford farming conference by Hilary Benn and many others; food shortages will soon be here and we must double production.

ysbryd chwarae teg, dylwn ofyn ichi ailystyried y sylwadau hynny.

Brynle Williams: Hoffwn dynnu'r sylw'n ôl.

I fynd yn ôl i'r dechrau, siaradodd Nick am bwysigrwydd yr ombwdsmon archfarchnadoedd. Dyna'r ydym yn dadlau yn ei gylch heddiw: rôl yr ombwdsmon. Y syniad y tu ôl i'r ombwdsmon, o safbwynt y diwydiant a'r defnyddiwr, yw sicrhau bod pawb yn cael chwarae teg. Gwnaed rhai sylwadau diddorol y prynhawn yma, gan Leanne yn enwedig. Mae angen ystyried peidio â datgelu enwau. Ni fydd ombwdsmon nad oes ganddo'r hawl i gelu enwau yn cael llawer o effaith.

Mae'n ddrwg gennyf nad wyf yn un da iawn am grynhoi. Gwnaeth Kirsty sylw perthnasol iawn, sef nad ydym am weld pennu prisiau. Mae arnom angen i'r farchnad weithredu, ond o fewn hynny rhaid i'r defnyddiwr fod ar ei ennill hefyd. Nid yw'n ymwneud â'r ffermwr neu'r cynhyrchwr yn benodol; mae'n ymwneud â sicrhau bod pawb ar eu hennill a phawb yn talu pris teg am fwyd. Mae gan bawb hawl i gael bwyd da, glân a maethlon. Fel y mae, mae rhai arferion annymunol ar waith yn y farchnad. Gwyddom i gyd yn iawn amdanynt. Am unwaith, fel y dywedodd y Gweinidog, mae yma gonsensws, sef y dylem fod wedi cael yr ombwdsmon hwn ers tro. Rhaid inni sicrhau bod gan yr ombwdsmon ddannedd fel y gall wneud y gwaith. Rhaid hefyd inni sicrhau ein bod i gyd yn cyfrannu at yr hyn a wna'r Llywodraeth er mwyn sicrhau ein bod yn cael y canlyniad cywir.

Fel Ceidwadwr, yr wyf yn falch inni gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Yr ydym wedi cyffwrdd â'r mater hwn droeon, ond y ddadl heddiw yw a ydym o blaid ombwdsmon a'r manteision y byddai'n eu cynnig i'r gymuned. Foneddigion a boneddigesau, clywsom heddiw fod pobl yn troi eu cefn ar y tir a'r boblogaeth wledig yn gostwng. Yr wyf am broffwydo gwae: oni bai ein bod yn gweithredu heddiw, cyn pen 10 mlynedd byddwn yn gweld prinder rhai mathau o fwyd yn y wlad hon. Mae hynny'n ffaith, mae arnaf ofn. Dywedodd Hilary Benn hynny a nifer o bobl eraill yng nghynhadledd ffermio Rhydychen; bydd prinder bwyd cyn hir, a

So, we must ensure that producers get a fair return, but we must also ensure that the consumer pays a sensible price for the food.

rhaid inni ddyblu ein cynnyrch. Felly, rhaid inni sicrhau bod cynhyrchwyr yn cael elw teg, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod y defnyddiwr yn talu pris synhwyrol am y bwyd.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, the votes will be deferred until voting time.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru The Welsh Liberal Democrats Debate

Yr Economi Werdd The Green Economy

The Temporary Deputy Presiding Officer: The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendments 2 and 3 in the name of Alun Cairns.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 2 a 3 yn enw Alun Cairns.

Michael German: I move that

Michael German: Cynigiad fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

believes that the road out of the recession is for the Welsh Assembly Government to create jobs that last by investing in the green economy. (NDM4418)

yn credu mai'r ffordd allan o'r dirwasgiad yw i Lywodraeth Cynulliad Cymru greu swyddi sy'n para drwy fuddsoddi yn yr economi werdd. (NDM4418)

The motion calls on the National Assembly to recognise our responsibility to stimulate steady and consistent economic revival through investment in the green economy, through green energy generation, investment in research, development of technology parks and support for relevant training and apprenticeships. Debates about green energy and green jobs have moved on from discussions about simple ecological responsibility and climate change because, nowadays, there is a growing acceptance that there is huge potential for economic growth and long-term, lasting economic stability. I make no excuse whatsoever for making the comparison with what has happened in Germany, where they were very quick to realise this potential.

Mae'r cynnig yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i gydnabod ein cyfrifoldeb i ysgogi adfywiad economaidd graddol a chyson drwy fuddsoddi yn yr economi werdd, drwy gynhyrchu ynni gwyrdd, buddsoddi mewn ymchwil, datblygu parciau technoleg a chefnogi hyfforddiant a phrentisiaethau perthnasol. Mae dadleuon am ynni gwyrdd a swyddi gwyrdd wedi symud ymlaen o drafodaethau am gyfrifoldeb ecolegol a'r newid yn yr hinsawdd, oherwydd y dyddiau hyn, derbynnir fwyfwy bod potensial enfawr i sicrhau twf economaidd a sefydlogrwydd economaidd hirdymor, parhaol. Nid wyf am ymddiheuro o gwbl am gymharu'r sefyllfa â'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Almaen, lle gwiredwyd y potensial hwn yn gyflym iawn.

I will give you the figures. In 2004, the number of renewable energy jobs in Germany was 160,500. In 2007, the number had risen to 249,300. Out of that, 39,300 new jobs in biomass have been created since 2004. There were 63,000 people employed in wind power in 2004 in Germany; in 2007, the number rose to 84,300. Exports in wind power technology were worth €5.7 billion in 2007, and that was up 7 per cent from the year before. The solar power sector employed 25,100 in 2004 and 38,600 in 2007. There is very good reason, therefore, to believe that investment in renewable energy is economically sound.

5.50 p.m.

Germany has got it right, and I do not think that we have. It is easy for people to say that the development of green jobs should be left to the free market, but Governments have an important role to play because they can stimulate investment, the market, and the conditions that will make the infrastructure around that industry grow.

I think that the German Government's investment was triggered by its renewable energy law. That law gave a big stimulus to investment, which is why Germany has the 134,000 green jobs that have been coming about since that law was put in place. The stimulation of the market is probably one of the main major reasons why Germany has been so successful. The crucial thing to stimulate the market is to stimulate the consumer. The way that that has been done in Germany, and is now slowly being realised in the United Kingdom, is through feed-in tariffs. People will be getting money to be able to generate, in their own homes or communities, energy from renewable sources. The German feed-in tariff was first introduced in 1990. Domestic turnover in 2007 was €25 billion and, as I said before, there were 0.25 million people employed in this sector. By stimulating the market, more people want to buy the product and want to use it. The reason that it has worked there is because they get a payback for that investment. People who invest in small wind

Rhoddaf y ffigurau ichi. Yn 2004, nifer y swyddi ym maes ynni adnewyddadwy yn yr Almaen oedd 160,500. Yn 2007, yr oedd y nifer wedi codi i 249,300. O blith y rheini, mae 39,300 o swyddi newydd ym maes biomass wedi'u creu er 2004. Yr oedd 63,000 o bobl yn cael eu cyflogi ym maes ynni gwynt yn yr Almaen yn 2004; yn 2007, cododd y nifer i 84,300. Yr oedd allforion ym maes technoleg ynni gwynt yn werth €5.7 biliwn yn 2007, sef 7 y cant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yr oedd sector ynni'r haul yn cyflogi 25,100 yn 2004 a 38,600 yn 2007. Mae rheswm da iawn, felly, dros gredu bod buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy yn gam diogel o safbwynt economaidd.

Mae'r Almaen wedi cymryd y camau cywir, ond ni chredaf ein bod ni wedi gwneud hynny. Mae'n hawdd i bobl ddweud y dylid gadael gwaith datblygu swyddi gwyrdd i'r farchnad rydd, ond mae gan Lywodraethau rôl bwysig i'w chwarae, oherwydd gallant ysgogi gwaith buddsoddi, y farchnad, a'r amodau a fydd yn gwneud i'r seilwaith o amgylch y diwydiant hwnnw dyfu.

Credaf fod buddsoddiad Llywodraeth yr Almaen wedi ei sbarduno gan ei chyfraith ar i adnewyddadwy. Ysgogodd y gyfraith honno lawer iawn o fuddsoddi, a dyna pam mae gan yr Almaen y 134,000 o swyddi gwyrdd sydd wedi ymddangos ers rhoi'r gyfraith honno ar waith. Mae'n debyg mai gwaith ysgogi'r farchnad yw un o'r prif resymau pam mae'r Almaen wedi bod mor llwyddiannus. Y peth hanfodol i'w wneud i ysgogi'r farchnad yw ysgogi'r defnyddiwr. Y modd y gwnaed hynny yn yr Almaen, ac a sylweddolir yn araf yn y Deyrnas Unedig erbyn hyn, yw drwy dariffau bwydo i mewn. Bydd pobl yn cael arian i allu cynhyrchu ynni, yn eu cartrefi neu'u cymunedau eu hunain, o ffynonellau adnewyddadwy. Cyflwynwyd tariff bwydo i mewn am y tro cyntaf yn yr Almaen yn 1990. Yn 2007, yr oedd trosiant domestig yn €25 biliwn, ac fel y dywedais o'r blaen, yr oedd 0.25 miliwn o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector hwnnw. Drwy ysgogi'r farchnad, mae mwy o bobl am brynu'r cynnyrch ac am ei ddefnyddio. Y rheswm pam mae wedi gweithio yno yw eu bod yn cael eu had-dalu

generators, photovoltaic cells, or ground-source heat pumps and so on for their homes are getting an investment and they get their money back very quickly.

Payback is a complicated and complex area. I will give you an example of how this might work and what the figures amount up to. A 2 kW solar photovoltaic system would cost you around £9,000 to be fully fitted, including value added tax and the Government grant. Therefore, how long will it take to get your £9,000 back? If you estimate your electricity bill and estimate what you will get back in terms of not having to pay so much for your electricity—about half of the amount that you would use over a period—and if you then look at what you would get back for the electricity that you have sold to the grid, you will see that the time that it would take to get that money back would be around eight years. Therefore, according to the feed-in tariffs that have already been announced, which the Government is considering, you would take eight years to get your investment back on a £9,000 fully fitted system, inclusive of VAT and Government grant money. Is that enough of an investment? Will people respond to that sort of payback time? We need to question that, and I want the Minister to tell me whether he believes that seven, eight or nine years is a quick enough time for getting that money back so that people will want to invest in this matter.

Given the fact that it incentivised the market, Germany then had to train young people in the skills needed for that booming renewable energy market sector. Germany is already expanding a programme to sign up more companies, creating jobs for future generations. At present, here in Wales, we are watching as those very same companies pack up shop and part for foreign lands. The Government cuts to further and higher education are doing nothing to assist with the provision of the skills that we need in order to be able to develop the sector even further.

Eco2's Darren Williams said recently that

am y buddsoddiad hwnnw. Mae pobl sy'n buddsoddi mewn generaduron bach ynni gwynt, celloedd ffotofoltäig, neu bympiau sy'n codi gwres o'r ddaear ac yn y blaen ar gyfer eu cartrefi yn cael buddsoddiad, ac yn cael eu harian yn ôl yn gyflym iawn.

Mae ad-dalu'n faes cymhleth a dyrys. Rhoddaf enghraifft ichi o'r modd y gallai hyn weithio a beth yw'r ffigurau. Byddai gosod system ffotofoltäig solar 2 kW yn llawn yn costio tua £9,000 ichi, gan gynnwys treth ar werth a grant y Llywodraeth. Felly, faint o amser a gymer ichi gael eich £9,000 yn ôl? O amcangyfrif eich bil trydan ac amcangyfrif beth fydddech yn ei gael yn ôl drwy beidio â gorfod talu cymaint am eich trydan—tua hanner y trydan y bydddech yn ei ddefnyddio dros gyfnod—ac o edrych wedyn ar yr hyn y bydddech yn ei gael yn ôl am y trydan yr ydych wedi'i werthu i'r grid, gwelwch mai tuag wyth mlynedd y byddai'n ei gymryd i gael yr arian hwnnw'n ôl. Felly, yn ôl y tariffau bwydo i mewn sydd wedi'u cyhoeddi eisoes ac sydd wedi'u hystyried gan y Llywodraeth, byddai'n cymryd wyth mlynedd ichi gael eich buddsoddiad yn ôl ar system £9,000 wedi'i gosod yn llawn, sy'n cynnwys treth ar werth ac arian grant y Llywodraeth. A yw hynny'n ddigon o fuddsoddiad? A fydd pobl yn ymateb i'r math hwnnw o amser ad-dalu? Mae angen inni gwestiynu hynny, ac yr wyf am i'r Gweinidog ddweud wrthyf a yw'n credu bod saith, wyth neu naw mlynedd yn amser digon byr i gael yr arian hwnnw'n ôl, fel y bydd pobl am fuddsoddi yn y mater hwn.

O gofio bod yr Almaen swedi cymell y farchnad, yr oedd yn rhaid wedyn iddi hyfforddi pobl ifanc yn y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y sector ffyniannus hwnnw, sef y farchnad ynni adnewyddadwy. Mae'r Almaen eisoes yn ehangu rhaglen i gael mwy o gwmnïau i ymrwymo, gan greu swyddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, yma yng Nghymru yr ydym yn gwyllo wrth i'r union gwmnïau hynny godi eu pac a mynd dramor. Nid yw toriadau'r Llywodraeth mewn addysg bellach ac addysg uwch yn gwneud dim i helpu darparu'r sgiliau y mae arnom eu hangen i allu datblygu'r sector ymhellach fyth.

Dywedodd Darren Williams o Eco2 yn

Wales was, and still is, seen as the hardest place in the UK to develop renewable projects because of the slow and unpredictable planning process. Virtually all of the manufacturing work is carried out in Scandinavia and Germany for the European wind turbines market. That means that Wales has missed out. Of all the jobs in wind and solar energy, 70 per cent to 75 per cent are in manufacturing, yet we have missed out on those. By purchasing overseas, a tremendous number of job opportunities have been lost. That is a primary focus of a green jobs strategy: one in which we give future generations the promise of manufacturing work in Wales.

Germany and Scandinavia have proved that investing in green jobs offers real economic opportunities. It is interesting to note how many prime ministers and leaders of countries, when talking about their future, say that it will come from green energy or the green jobs sector. The Taoiseach said to the British-Irish Parliamentary Assembly the day before yesterday that green jobs will be a major source of our economic recovery. Everyone is now competing for those new jobs, and that is why we need to be a step ahead of the game. The way to do that is to incentivise the market sufficiently to ensure that there will be demand from British and Welsh consumers to buy the products.

We want to see a coherent strategy for the development of these industries. There is no point in developing an industry for a marketplace that is not there. Sharp has a site near Wrexham, of course, and we know that 80 per cent of its products go overseas, and largely to Germany, which has incentivised its market. We could expand on those jobs and that work. We have Europe's largest photovoltaic cell manufacturer in Wales, but very little of its product is bought by consumers in Wales or the UK.

We need our FE colleges to train people in installing and maintaining this technology. There is no point in having it available if the

ddiweddar mai Cymru, yn nhyb llawer, oedd y lle anoddaf yn y DU i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, oherwydd y broses gynllunio araf nad oes modd ei rhagweld, a dywedodd bod y dyb honno'n parhau. Caiff bron yr holl waith gweithgynhyrchu ar gyfer y farchnad tyrbinau gwynt yn Ewrop ei wneud yn Llychlyn a'r Almaen. Mae hynny'n golygu bod Cymru wedi colli cyfleoedd. O'r holl swyddi ym maes ynni gwynt ac ynni'r haul, mae 70 y cant i 75 y cant ym maes gweithgynhyrchu, ond yr ydym wedi colli cyfle i gael y rheini. Drwy brynu dramor, mae nifer enfawr o gyfleoedd gwaith wedi'u colli. Mae hynny'n brif ffocws mewn strategaeth swyddi gwyrdd: strategaeth lle'r ydym yn rhoi addewid i genedlaethau'r dyfodol am waith gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Mae'r Almaen a Llychlyn wedi profi bod buddsoddi mewn swyddi gwyrdd yn cynnig cyfleoedd economaidd go iawn. Mae'n ddiddorol sylwi faint o brif weinidogion ac arweinyddion gwledydd sy'n dweud, wrth sôn am eu dyfodol, y bydd hwnnw'n deillio o'r sector ynni gwyrdd neu swyddi gwyrdd. Dywedodd y Taoiseach wrth y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig echdoe y bydd swyddi gwyrdd yn ffynhonnell bwysig i'n hadferiad economaidd. Mae pawb yn cystadlu am y swyddi newydd hynny'n awr, a dyna pam mae angen inni fod gam ar y blaen. Y ffordd o wneud hynny yw cymell y farchnad yn ddigonol i sicrhau y bydd galw gan ddefnyddwyr Prydain a Chymru i brynu'r cynnyrch.

Yr ydym am weld strategaeth gydlynol ar gyfer datblygu'r diwydiannau hyn. Nid oes diben datblygu diwydiant ar gyfer marchnad nad yw yno. Mae gan Sharp safle ger Wrecsam, wrth gwrs, a gwyddom fod 80 y cant o'i gynnyrch yn mynd dramor, ac i'r Almaen yn bennaf, sydd wedi cymell ei farchnad. Galleu ehangu'r swyddi hynny a'r gwaith hwnnw. Mae cwmni gweithgynhyrchu celloedd ffotofoltâig mwyaf Ewrop gennym yng Nghymru, ond ychydig iawn o'i gynnyrch a brynir gan ddefnyddwyr yng Nghymru neu'r DU.

Mae angen i'n colegau addysg bellach hyfforddi pobl i osod a chynnal a chadw'r dechnoleg hon. Nid oes diben iddi fod ar gael

techniques are not there to help people to put them in place. That would include retrofitting and insulating homes. The most important thing is that this strategy has to incentivise market opportunities and unite them with the strategies of the education sector and economic development. By providing a joined-up approach of this sort, Wales will be able to carve out a path as a world leader in the new renewable technologies.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu popeth ar ôl 'Cymru' a rhoi yn ei le:

fwrw ymlaen â'i rhaglen adnewyddu'r economi a fydd yn rhoi lle blaenllaw i fuddsoddi yn yr economi werdd.

David Melding: I move the following amendments in the name of Alun Cairns. Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

expresses concern at the lack of Welsh Assembly Government sponsored funding for research and development in renewable technologies and urges the Welsh Assembly Government to task their new public-private partnership unit with focusing on renewable research and development and manufacturing companies that create jobs in the green economy.

Amendment 3: add a new point at the end of the motion:

regrets the lack of strategic direction and quantifiable outcomes in the Green Jobs Strategy and urges the Welsh Assembly Government to redraft the strategy.

I will start by thanking the Liberal Democrats for bringing this important subject to be debated at the Assembly. We should debate the green jobs strategy at greater length, as well as the whole subject of the greening of the economy. I want to start with a word of caution, because the Enterprise and Learning Committee has done some work on examining the Government's green jobs strategy. I was very impressed by one piece

os nad yw'r technegau yno i helpu pobl i'w rhoi ar waith. Byddai hynny'n cynnwys ôl-ffitio ac inswleiddio cartrefi. Y peth pwysicaf yw bod yn rhaid i'r strategaeth hon gymell cyfleoedd yn y farchnad, a'u huno â strategaethau'r sector addysg a datblygu economaidd. Drwy ddarparu dull cydgyssylltiedig o'r math hwn, bydd Cymru'n gallu torri llwybr fel arweinydd byd-eang ym maes technolegau adnewyddadwy newydd.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. Delete all after 'to' and replace with:

pursue its economic renewal programme within which a prominent place will be given to investing in the green economy.

David Melding: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Alun Cairns. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn mynegi pryder am y diffyg cyllid dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ymchwil a datblygu mewn technolegau adnewyddadwy ac yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i osod tasg i'w huned partneriaeth cyhoeddus-preifat newydd ganolbwyntio ar Ymchwil a Datblygu adnewyddadwy a chwmnïau gweithgynhyrchu sy'n creu swyddi yn yr economi werdd.

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu wrth y diffyg cyfeiriad strategol a'r canlyniadau mesuradwy yn y strategaeth swyddi gwyrdd ac yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailddrafftio'r strategaeth.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r pwnc pwysig hwn ar gyfer dadl yn y Cynulliad. Dylem gael dadleuon helaethach ar y strategaeth swyddi gwyrdd, yn ogystal â holl bwnc gwneud yr economi'n fwy gwyrdd. Yr wyf am ddechrau â gair o rybudd, oherwydd mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu wedi gwneud rhywfaint o waith yn archwilio strategaeth swyddi gwyrdd y Llywodraeth.

of evidence that we received from an academic at Cardiff University's business school. He said that we need to remember that our economy is vulnerable to the inevitable move towards greening that will now take place across Europe, and that we still have many industrial and manufacturing processes that represent old technology and that will become increasingly expensive, if feasible at all, to operate. That will inevitably have an effect on the number of jobs that they can sustain. We have to be aware of that, as well as being aware of the great opportunities that now exist as we move to different industrial and manufacturing processes, a greater emphasis on alternative ways of generating energy, and indeed to the whole issue of conserving energy.

If I have a criticism of the Government's policy to date, it is not of the vision or the strategy, as I think that it shares a sincere desire to move the economy on, to take some of these opportunities and to encourage people to start to develop new products and enterprises that can take advantage of the greening of the economy. However, there is a certain lack of targets or a clear route-map, if I can put it in that way, of how we will start to see what will inevitably be, if it is successful, a profound shift. There are already some examples of good practice elsewhere, and I was very impressed by the green jobs strategy of the State of Rhode Island's Government, because it is a good read, it has clear goals, and it has objective ways of measuring progress. I do not think that the objectives are too ambitious, but they are clear and they stretch the area's current potential. We could emulate some of the things that have been identified in that strategy and, in fairness, those are touched on in some of the statements that the Government has made.

6.00 p.m.

There is a need to green advanced manufacturing so that we have modern processes that can take advantage of the new generation that we will get, from new cars to

Gwnaed argraff fawr arnaf gan un darn o dystiolaeth a gawsom gan academydd yn ysgol fusnes Prifysgol Caerdydd. Dywedodd fod angen inni gofio bod ein heconomi'n agored i niwed yn wyneb y newid cyfeiriad anochel a fydd yn digwydd yn awr ar draws Ewrop er mwyn gwneud economïau'n fwy gwyrdd. Dywedodd fod gennym lawer o brosesau diwydiannol a phrosesau gweithgynhyrchu o hyd sy'n cynrychioli hen dechnoleg a fydd yn mynd yn gynyddol ddud i'w gweithredu, os byddant yn ddichonadwy o gwbl. Bydd hynny'n cael effaith anochel ar nifer y swyddi y gallant eu cynnal. Rhaid inni fod yn ymwybodol o hynny, a bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd mawr sy'n bodoli'n awr wrth inni symud at wahanol brosesau diwydiannol a phrosesau gweithgynhyrchu, symud at fwy o bwyslais ar ffyrdd amgen i gynhyrchu ynni, a symud, yn wir, at holl fater arbed ynni.

Os oes gennyf feirniadaeth o bolisi'r Llywodraeth hyd yma, nid beirniadaeth o'r weledigaeth na'r strategaeth ydyw, oherwydd credaf ei bod hi, fel minnau, yn ddidwyll yn ei hawydd i symud yr economi yn ei blaen, er mwyn manteisio ar rai o'r cyfleoedd hyn ac annog pobl i ddechrau datblygu cynnyrch a mentrau newydd a all fanteisio ar wneud yr economi'n fwy gwyrdd. Fodd bynnag, mae ychydig ddiffyg targedau neu drywydd clir, os caf ei roi felly, ynghylch y modd y byddwn yn dechrau gweld rhywbeth a fydd yn anochel yn newid cyfeiriad llwyr, os yw'n llwyddiannus. Ceir enghreifftiau o arfer da mewn mannau eraill eisoes, a gwnaeth strategaeth swyddi gwyrdd Llywodraeth Talaith Rhode Island argraff fawr arnaf, oherwydd mae'n werth ei darllen. Mae ynddi nodau clir a ffyrdd gwrthrychol i fesur cynnydd. Ni chredaf fod yr amcanion yn rhy uchelgeisiol, ond maent yn glir ac yn ymestyn potensial presennol yr ardal. Gallem efelychu rhai o'r pethau sydd yn y strategaeth honno, ac er tegwch, cânt eu crybwyll yn rhai o'r datganiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud.

Mae angen gwneud gweithgynhyrchu blaengar yn fwy gwyrdd, fel y bydd gennym brosesau modern a all fanteisio ar y genhedlaeth newydd a gawn, o geir newydd i

washing machines—all sorts of devices that would use much less energy. There is a research and development opportunity there and there may be manufacturing potential.

The need to build more efficient homes is well recognised and is included in the Rhode Island document, but one of the real problems is retrofitting the existing housing stock, particularly housing stock that dates back to pre-1930, when building standards were of a very different nature. It can be very difficult to come up with effective and low-cost ways of making those homes more energy efficient.

The Rhode Island document looks at the need to have a hub of local supply in wind energy so that it can attract research and development and manufacturers. I think that we have probably missed the boat in terms of wind energy. If we have not, and there are still opportunities, then we should gather them in, but the evidence that the committee heard was that we would be better off looking at the new opportunities that may arise if we can find effective ways of harnessing tidal energy. It is feasible that we could develop new turbines in a joint venture or a specifically Welsh venture—you never know; there are a couple of SMEs looking at this area at the moment. However, even in that area, Scotland is already a bit ahead of us. Perhaps we need to link up with what the Scots are doing and to see whether we can be part of that search for new turbines to take advantage of the power of the sea. We need to integrate the objective to green the economy into existing business programmes. That is very important.

In conclusion, with regard to the new post of chief scientific adviser, I hope that that person will be instructed to look at this whole area of greening the economy and of encouraging new technology, in particular, to make Wales one of the first places where entrepreneurs and academics will want to develop and then, crucially, to test the new products, because they know that there will be a ready market once a product is shown to be viable.

beiriannau golchi—pob math o ddyfeisiau a fyddai'n defnyddio llai o lawer o ynni. Mae cyfle i ymchwil a datblygu, ac efallai fod potensial i weithgynhyrchu.

Mae'r angen i adeiladu cartrefi mwy effeithlon yn dra chyfarwydd, ac mae wedi'i gynnwys yn nogfen talaith Rhode Island. Ond un o'r problemau gwirioneddol yw ôl-ffitio'r stoc tai presennol, yn enwedig stoc tai sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1930, pan oedd natur safonau adeiladu yn wahanol iawn. Gall fod yn anodd iawn cael ffyrdd effeithiol a rhad i sicrhau bod y cartrefi hynny'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Mae dogfen talaith Rhode Island yn edrych ar yr angen i gael canolfan o gyflenwad lleol o ynni'r gwynt, er mwyn iddi allu denu gwaith ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchwyr. Credaf ein bod, hwyrach, wedi colli cyfle o ran ynni'r gwynt. Os nad ydym, a bod yna gyfleoedd o hyd, yna dylem eu casglu ynghyd. Ond yn ôl y dystiolaeth a glywodd y pwyllgor, gwell fyddai inni edrych ar y cyfleoedd newydd a allai godi os gallwn ddod o hyd i ffyrdd effeithiol i ddefnyddio ynni'r llanw. Mae'n ddichonadwy y gallem ddatblygu tyrbinau newydd mewn menter ar y cyd neu mewn menter sy'n benodol i Gymru—pwy a wŷr; mae ambell fusnes bach a chanolig eu maint yn edrych ar y maes hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn y maes hwnnw hyd yn oed, mae'r Alban eisoes ychydig ar y blaen i ni. Efallai fod angen inni ymgysylltu â'r hyn y mae'r Albanwyr yn ei wneud, a gweld a allwn fod yn rhan o'r chwilio hwnnw am dyrbinau newydd i fanteisio ar bŵer y môr. Mae angen inni integreiddio'r amcan, sef gwneud yr economi'n fwy gwyrdd, mewn rhaglenni busnes cyfredol. Mae hynny'n bwysig iawn.

I gloi, o ran swydd newydd y prif gynghorydd gwyddonol, gobeithio y caiff yr unigolyn hwnnw gyfarwyddyd i edrych ar yr holl faes hwn o wneud yr economi'n fwy gwyrdd, ac annog technoleg newydd yn benodol, er mwyn gwneud Cymru'n un o'r lleoedd cyntaf lle bydd entrepreneuriaid ac academyddion am ddatblygu cynnyrch newydd a'i roi ar brawf wedyn. Mae hynny'n hollbwysig, oherwydd maent yn gwybod y bydd marchnad barod ar gael pan ddangosir bod cynnyrch yn ddichonadwy.

Jenny Randerson: There is a tendency for people nowadays to think of a green jobs strategy as being akin to motherhood and apple pie, in that everyone has to be in favour of it. However, the same academic to whom David has just referred said that it poses some very difficult questions, especially when you look at existing jobs. One issue that he raised was whether the Government would give money, for example, to an aircraft manufacturer in future. So, it poses difficult questions and difficult strategic decisions for the Government. I think that we have to expect a clear steer on this from Ministers. It also, of course, costs a great deal of money.

The Deputy First Minister: I think that it is common knowledge that we have supported Airbus at Broughton recently, which is an aircraft manufacturer. Do the Liberal Democrats support that investment?

Jenny Randerson: I was not querying that at all. The particularly difficult question about that issue is: was that investment provided to make the existing production and manufacturing of aeroplanes more environmentally friendly? Those are not my queries, but those of the academic, and you, as the Minister, have an obligation to answer those.

I was about to move on to the fact that there are massive costs involved. For example, there is the cost of dealing with our heavy industry and our heritage of heavy industry. Yesterday, a lecturer from Cardiff University, Professor Phil Bowen, came in to talk about innovation in economic development and the work that the university is doing on that, such as the work it is doing with Corus to deal with the flaring of surplus gases in order to reduce carbon dioxide emissions. That is important but costly work for the industry. Therefore, Government support is often required in order to green existing jobs.

David referred to the committee review. One of my lasting impressions from that review was that witness after witness expressed

Jenny Randerson: Mae tuedd y dyddiau hyn i bobl feddwl am strategaeth swyddi gwyrdd fel teisen afal a bod yn fam, yn yr ystyr ei bod yn rhaid i bawb fod o'i phlaid. Fodd bynnag, dywedodd yr academydd y mae David newydd gyfeirio ato fod y strategaeth yn gofyn rhai cwestiynau anodd iawn, yn enwedig wrth edrych ar swyddi presennol. Un cwestiwn a gododd oedd a fyddai'r Llywodraeth yn rhoi arian, er enghraifft, i gwmmi gweithgynhyrchu awyrennau yn y dyfodol. Felly, mae'n gofyn cwestiynau anodd ac yn golygu penderfyniadau strategol anodd i'r Llywodraeth. Credaf ei bod yn rhaid inni ddisgwyl cyfeiriad clir ar hyn gan Weinidogion. Mae hefyd yn golygu gwario llawer iawn o arian, wrth gwrs.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Credaf fod pawb yn gwybod inni gefnogi Airbus ym Mrychdyn yn ddiweddar, sy'n gwmmi gweithgynhyrchu awyrennau. A yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r buddsoddiad hwnnw?

Jenny Randerson: Nid oeddwn yn amau hynny o gwbl. Dyma'r cwestiwn arbennig o anodd am y mater hwnnw: a ddarparwyd y buddsoddiad dan sylw i wneud y gwaith cynhyrchu a gweithgynhyrchu awyrennau, sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn fwy ecogyfeillgar? Nid fy nghwestiynau i yw'r rheini, ond cwestiynau'r academydd, ac mae rheidwydd arnoch chi, fel y Gweinidog, i'w hateb.

Yr oeddwn ar fin symud ymlaen at y ffaith fod costau sylweddol yn hyn. Er enghraifft, mae cost wrth ymdrin â'n diwydiant trwm a'n treftadaeth diwydiant trwm. Ddoe daeth yr Athro Phil Bowen, darlithydd o Brifysgol Caerdydd, atom i siarad am arloesedd mewn datblygu economaidd, a'r gwaith y mae'r brifysgol yn ei wneud ar hynny, megis ei gwaith gyda Corus i ymdrin â llosgi nwyon sydd dros ben, er mwyn lleihau allyriadau carbon deuocsid. Mae hwnnw'n waith pwysig ond costus i'r diwydiant. Yn aml, felly, mae angen cefnogaeth y Llywodraeth i wneud swyddi presennol yn fwy gwyrdd.

Cyfeiriodd David at adolygiad y pwyllgor. Un o'r pethau a wnaeth argraff barhaol arnaf yn yr adolygiad hwnnw oedd y ffaith fod y

concern at the lack of specific actions and targets in the Government's green jobs strategy. One of the more polite words used to describe it was that it is 'aspirational'. In order to be effective, the Government's green jobs strategy has to be harder edged and has to have many more specific goals, targets, and instruments to measure and monitor. I will give you an example. On page 23 of the strategy it is stated:

'We are developing our approach to strategic regeneration in Wales, particularly in areas of high deprivation'.

How, exactly? The strategy does not tell you.

It is interesting that, despite the existence of this strategy and the fact that the professed purpose of this debate is to discuss green jobs, the Government's amendment is about a completely different strategy: the economic renewal programme. Why have we moved on from the green jobs strategy? Perhaps the Minister can tell us later whether the green jobs strategy is to be subsumed into this economic renewal programme, or will be free standing in the future.

One problem with the strategy that the Government has produced is that such a strategy should be about more than just greening existing jobs—important as that is—and there is very little about creating new green jobs and new industries. My real frustration with regard to all this is how long it takes. It seems that the attitude is: if in doubt, create a strategy, and it seems to take so long to produce a strategy. The manufacturing strategy is a case in point. It has been on the boil since November 2006 and we have not received it yet.

It will probably take another year before the new strategy referred to in the Government amendment is in its final form and can therefore be incorporated into Government policy.

naill dyst ar ôl y llall wedi mynegi pryder am y diffyg camau gweithredu a'r diffyg targedau penodol yn strategaeth swyddi gwyrdd y Llywodraeth. Un o'r ymadroddion mwyaf cwrtais a ddefnyddiwyd i'w disgrifio oedd 'llawn bwriadau da'. I fod yn effeithiol, rhaid i strategaeth swyddi gwyrdd y Llywodraeth fod yn fwy pendant, a rhaid iddi gynnwys mwy o lawer o nodau, targedau ac adnoddau penodol i fesur a monitro. Rhoddaf enghraifft ichi. Ar dudalen 23 yn y strategaeth, dywedir:

'Rydym yn datblygu ein dull mewn perthynas ag adfywio strategol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uchel'.

Sut, yn union? Nid yw'r strategaeth yn dweud wrthyich.

Mae'n ddiddorol bod gwelliant y Llywodraeth yn ymwneud â strategaeth gwbl wahanol, sef rhaglen adnewyddu'r economi, er gwaethaf bodolaeth y strategaeth hon a'r ffaith mai pwrpas penodol y ddadl hon yw trafod swyddi gwyrdd. Pam yr ydym wedi symud ymlaen o'r strategaeth swyddi gwyrdd? Efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym yn nes ymlaen a fydd y strategaeth swyddi gwyrdd yn cael ei chynnwys yn rhaglen adnewyddu'r economi, ynteu a fydd yn sefyll ar ei thraed ei hun yn y dyfodol.

Un broblem gyda'r strategaeth y mae'r Llywodraeth wedi'i chynhyrchu yw y dylai strategaeth o'r fath drafod mwy na dim ond gwneud swyddi presennol yn fwy gwyrdd—er bod hynny'n bwysig iawn—ac ychydig iawn o sôn sydd ynddi am greu swyddi gwyrdd newydd a diwydiannau newydd. Fy ngwir rwystredigaeth ynglŷn â hyn i gyd yw'r amser a gymer. Ymddengys mai'r agwedd yw: os oes amheuaeth, crëwch strategaeth, ac mae cynhyrchu strategaeth fel pe bai'n cymryd cymaint o amser. Mae'r strategaeth gweithgynhyrchu yn enghraifft. Mae wedi bod yn mudferwi er mis Tachwedd 2006, ac nid ydym wedi'i chael eto.

Mae'n debyg y cymer flwyddyn arall cyn y bydd y strategaeth newydd y cyfeirir ati yng ngwelliant y Llywodraeth yn ymddangos yn ei ffurf derfynol ac y gellir ei hymgorffori, felly, ym mholisi'r Llywodraeth.

The Deputy First Minister: Will you give way?

Jenny Randerson: I will happily give way.

The Temporary Deputy Presiding Officer: I am afraid that you are out of time.

Brian Gibbons: We are aware that the green jobs strategy is about stimulating the creation of new green jobs as well as greening existing jobs to achieve the Assembly Government's targets of a 3 per cent annual reduction in greenhouse gas emissions from 2011, 70 per cent recycling by 2025, and generating, from renewable sources, more energy than we use by 2025.

The need to achieve these targets is pretty clear. However, our ability to achieve them will be more than problematic, not least in being able to do so while ensuring social justice and equity, and avoiding unintended consequences that undermine our capacity to deliver any jobs, let alone green jobs.

6.10 p.m.

I look at this from the perspective of my constituency, Aberavon, because the carbon footprint of my constituency is one of the greatest in Wales, and possibly in the United Kingdom. Nonetheless, in a constituency that would not be considered the obvious place to start to look at what is going on in relation to green jobs, there is a tremendous amount to encourage us. If, for example, we look at what is going on at Coed Darcy at the western end of my constituency, around 4,000 new homes are proposed for development in line with the best environmental and sustainability standards. The developers of the site have made a clear commitment to that, and they are also willing to look at new building methods, and are looking in particular at projects such as the Tŷ Unnos project, which is being developed in Wales. That is a unique project, and it deserves considerable attention, because it offers a real opportunity to use Welsh softwood, which has traditionally failed to

Y Dirprwy Brif Weinidog: A wnewch chi ildio?

Jenny Randerson: Yr wyf yn fodlon ildio.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Mae arnaf ofn fod eich amser ar ben.

Brian Gibbons: Yr ydym yn ymwybodol bod y strategaeth swyddi gwyrdd yn ymwneud ag ysgogi'r broses o greu swyddi gwyrdd newydd yn ogystal â gwneud swyddi presennol yn fwy gwyrdd. Mae hynny er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth y Cynulliad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd 3 y cant bob blwyddyn o 2011 ymlaen, ailgylchu 70 y cant erbyn 2025, a chynhyrchu mwy o ynni nag a ddefnyddiwn o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025.

Mae'r angen i gyrraedd y targedau hyn yn eithaf clir. Fodd bynnag, bydd ein gallu i'w cyrraedd yn fwy nag amheus, yn bennaf yng nghyswllt ein gallu i wneud hynny gan sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a thegwch, ac osgoi canlyniadau anfwriadol sy'n tanseilio ein gallu i ddarparu swyddi o gwbl, heb sôn am swyddi gwyrdd.

Edrychaf ar hyn o safbwynt fy etholaeth i, sef Aberafan, oherwydd ôl troed carbon fy etholaeth i yw un o'r mwyaf yng Nghymru, ac yn y Deyrnas Unedig efallai. Er hynny, mewn etholaeth na fyddai'n cael ei hystyried yn lle amlwg i ddechrau edrych ar yr hyn sy'n digwydd o ran swyddi gwyrdd, mae llawer iawn i'n calonogi. Er enghraifft, o edrych ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghoed Darsi ym mhen gorllewinol fy etholaeth, gwelir y bwriedir datblygu tua 4,000 o dai newydd yn unol â'r safonau amgylcheddol a'r safonau cynaliadwyedd uchaf. Mae datblygwyr y safle wedi ymrwymo'n glir i hynny, ac maent hefyd yn fodlon edrych ar ddulliau newydd o adeiladu. Maent yn edrych yn benodol ar brosiectau megis y prosiect Tŷ Unnos, sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru. Mae'r prosiect hwnnw'n unigryw ac yn haeddu cryn sylw, oherwydd mae'n gyfle gwirioneddol i ddefnyddio pren meddal Cymreig, sydd wedi methu â chael marchnad yn y diwydiant adeiladu tai yn draddodiadol.

find a market in the house building industry. The Tŷ Unnos project allows us the prospect of reversing that situation. That could happen in my constituency. Just down from Coed Darcy is the firm Derwen Construction, which is involved in recycling building materials and which contributes to the fact that 85 to 90 per cent of building waste in Wales is recycled. As a construction company, that business is delivering green jobs.

Also in the construction sector, Civil and Marine Slag Cement Ltd in Port Talbot docks recycles slag from the Corus steelworks, producing cement-type products that can be used in the building industry that have particularly attractive water-resistant properties, which may be relevant to the Severn barrage, if we come around to developing it.

Jenny mentioned the situation at Corus. Many people would see Corus as one of the great beasts in the struggle against global warming, but, without any Assembly Government funding, and with no support from the public sector whatsoever, Corus has invested £60 million in recycling gases from the British Oxygen Steelmaking plant. As Jenny said, that has, effectively, eliminated the flaring that took place at the Port Talbot steelworks, and it also makes good economic sense to sustain that particular industry.

Between Coed Darcy and the Corus steelworks, we have the Hydrogen Centre, where the University of Glamorgan is undertaking research on how hydrogen can be generated from renewable energy. I am pleased that it has recently had a £6 million grant to look at how hydrogen can be used as a storage mechanism for renewable energy, as well as other issues, such as the potential for developing an internal combustion engine that is based on hydrogen or fuel cell technology.

That is the type of work that is taking place in a fairly ordinary constituency in the industrial heartlands of Wales. Many of the contributions to today's debate have been on the negative side, suggesting that we cannot do it. The evidence from my constituency

Mae'r prosiect Tŷ Unnos yn caniatáu inni obeithio bod modd gwrthdroi'r sefyllfa honno. Gallai hynny ddigwydd yn fy etholaeth i. Ychydig islaw Coed Darsi mae cwmni Derwen Construction, sy'n ymwneud ag ailgylchu deunyddiau adeiladu ac yn cyfrannu at y ffaith fod 85 i 90 y cant o wastraff adeiladu yng Nghymru yn cael ei ailgylchu. Fel cwmni adeiladu, mae'r busnes hwnnw'n darparu swyddi gwyrdd.

Yn y sector adeiladu hefyd mae Civil and Marine Slag Cement Ltd yn nociau Port Talbot yn ailgylchu slag o waith dur Corus, gan greu cynnyrch tebyg i sment y gellir ei ddefnyddio yn y diwydiant adeiladu. Mae iddo nodweddion arbennig o ddiadodol o ran atal dŵr, a allai fod yn berthnasol i forglawdd Hafren, os down i ben â'i ddatblygu.

Soniodd Jenny am y sefyllfa yn Corus. Byddai llawer o bobl yn ystyried Corus yn un o'r bwystfilod mawr yn y frwydr yn erbyn cynhesu byd-eang. Ond heb ddim arian gan Lywodraeth y Cynulliad, a heb ddim cymorth o gwbl gan y sector cyhoeddus, mae Corus wedi buddsoddi £60 miliwn i ailgylchu nwyon o'r gwaith cynhyrchu dur ag ocsigen. Fel y dywedodd Jenny, mae hynny, i bob pwrpas, wedi dileu'r llosgi a ddigwyddai yng ngwaith dur Port Talbot, ac mae hefyd yn ddoeth yn economaiddi gynnal y diwydiant penodol hwnnw.

Rhwng Coed Darsi a gwaith dur Corus mae'r Ganolfan Hydrogen, lle mae Prifysgol Morgannwg yn ymchwilio i'r modd y gellir cynhyrchu hydrogen o ynni adnewyddadwy. Yr wyf yn falch iddi gael grant o £6 miliwn yn ddiweddar i archwilio'r modd y gellir defnyddio hydrogen fel system storio ar gyfer ynni adnewyddadwy, yn ogystal â materion eraill, megis y potensial i ddatblygu peiriant tanio mewnol yn seiliedig ar hydrogen neu dechnoleg celloedd tanwydd.

Dyma'r math o waith sy'n digwydd mewn etholaeth lled gyffredin yn ardaloedd diwydiannol traddodiadol Cymru. Mae nifer o'r cyfraniadau i'r ddadl heddiw wedi bod ar yr ochr negyddol, gan awgrymu na allwn wneud hyn. Mae'r dystiolaeth o'm hetholaeth

shows that the willingness to do this exists, and there are lots of entrepreneurs out there trying to make it happen.

Mick Bates: I very much agree with Brian Gibbons about the attitude to the development of green industries in Wales. He mentioned the Tŷ Unnos project, which was developed in Tregynon in my constituency. It is unique, and its sustainable principles mean that it uses Welsh softwood, for which there are few markets. It uses it in box form to construct a modular house, which has been developed by a local company, the Pickstock Group. It has taken this on board, and I hope to see it used as exemplar modular housing in years to come, because it is truly built from Welsh materials, and it satisfies our aim to see sustainable development as part of all job creation.

In this debate, I would like to develop the theme of collaboration and how it can be used to assist more links between higher education and the creation of research and development, thereby commercialising the great skills that exist in our higher education establishments. I will start by looking into the current green jobs strategy, which was published in July 2009, in which the funding is based largely on the EU-funded business innovation programme.

As a primary mechanism to boost research and development funding, you are allowed to take innovation vouchers twice a year worth up to £10,000 and use the single investment fund, from which you receive varying degrees of grants. You can use the innovation vouchers from the EU-funded business innovation programme if you are a business to enhance collaboration with universities and colleges that have the facilities, equipment and expertise to solve technical problems and assist you with innovation. This offers a great opportunity in Wales, Minister, because we have the higher education institutions and a culture of collaboration, but it needs to be enhanced by more support from your Government. If that were possible, through collaboration you could set specific goals and measure specific

i'n dangos bod y parodrwydd i wneud hyn yn bod, ac mae nifer o entrepreneuriaid wrthi'n ceisio sicrhau ei fod yn digwydd.

Mick Bates: Cytunaf yn llwyr â Brian Gibbons am yr agwedd at ddatblygu diwydiannau gwyrdd yng Nghymru. Soniodd am y prosiect Tŷ Unnos a ddatblygwyd yn Nhregynon yn fy etholaeth i. Mae'n unigryw, ac mae ei egwyddorion cynaliadwy'n golygu ei fod yn defnyddio pren meddal Cymreig nad oes llawer o farchnadoedd ar ei gyfer. Mae'n ei ddefnyddio ar ffurf blychau i adeiladu tŷ modiwlwr sydd wedi'i ddatblygu gan gwmni lleol, The Pickstock Group. Mae wedi ystyried hynny, a gobeithiaf weld ei ddefnyddio mewn tai modiwlwr enghreifftiol yn y blynyddoedd i ddod, oherwydd mae wedi'i adeiladu'n wirioneddol o ddeunyddiau Cymreig ac yn bodloni ein nod, sef gweld datblygu cynaliadwy yn rhan o'r holl swyddi a grëir.

Yn y ddadl hon, hoffwn ddatblygu'r thema gydweithio, a'r modd y gellir defnyddio'r thema honno i hybu mwy o gysylltiadau rhwng addysg uwch a chreu ymchwil a datblygu, a thrwy hynny fasnacheiddio'r sgiliau gwych sy'n bodoli yn ein sefydliadau addysg uwch. Dechreuaf drwy edrych ar y strategaeth bresennol ar swyddi gwyrdd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, lle mae'r cyllid wedi'i seilio'n bennaf ar y rhaglen arloesi i fusnesau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd.

Fel prif ddull o gynyddu cyllid ymchwil a datblygu, mae gennych hawl i gael talebau arloesi ddwywaith y flwyddyn sy'n werth hyd at £10,000, a defnyddio'r gronfa fuddsoddi sengl sy'n rhoi grantiau o symiau amrywiol ichi. Os ydych yn fusnes, gallwch ddefnyddio'r talebau arloesi o'r rhaglen arloesi i fusnesau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd i wella cydweithio â phrifysgolion a cholegau sydd â'r cyfleusterau, yr offer a'r arbenigedd i ddatrys problemau technegol a'ch cynorthwyo i arloesi. Mae'n gyfle gwych yng Nghymru, Weinidog, gan fod gennym y sefydliadau addysg uwch ynghyd â diwylliant o gydweithio, ond mae angen ei wella gyda mwy o gymorth gan eich Llywodraeth. Pe bai hynny'n bosibl, drwy gydweithio, gallech bennu nodau penodol a mesur canlyniadau

outcomes. When I look back at the records of the use of this funding, they are not accompanied by specific goals which assist the development of our HE establishments, the research and development therein and commercialisation into jobs.

A notable example where collaboration could lead to jobs is the commitment to develop energy in the Severn estuary, preferably from the Shoots barrage. The Welsh Liberal Democrats collaborated with Liberal Democrat councillors and MPs across the estuary to hold a year-long inquiry into what type of energy development would suit the Severn estuary according to the evidence that we took. In addition to the barrage, our conclusion was that the installation of wind turbines, a pilot lagoon and a reef would produce the continuity of energy production that would assist the best and most environmentally-sustainable solution in the estuary.

We believe that we could get collaboration using the innovation grant, because there are currently researchers in Swansea and Cardiff universities working on underwater turbines that are fast approaching commercial viability. This is a clear situation where collaboration is not only possible, but logical. However, Government has not influenced collaboration, and I believe that this is a perfect opportunity for the Government, because the proposed Severn barrage, which is a much larger construction, will gain favour with the Labour Party in London.

The link between construction, the Shoots barrage and the economy is clear. It would lead to the creation of construction jobs and, most importantly, create a high-speed rail link to relieve the pressure on the 120-year-old Severn tunnel. It would present the opportunity to electrify the line between London and Cardiff, lowering the journey time by as much as 70 minutes, and possibly lead to an increase in tourism. It would also make it possible for Eurostar to come to Cardiff. A high-speed rail link would also provide a valuable alternative to short-haul flights. A good example of a successful

penodol. Pan edrychaf yn ôl ar hanes defnyddio'r cyllid hwn, nid oes nodau penodol yn cyd-fynd sy'n helpu datblygu ein sefydliadau addysg uwch, y gwaith ymchwil a datblygu sy'n digwydd ynddynt, a'r broses o fasnacheiddio hynny i greu swyddi.

Enghraifft nodedig lle gallai cydweithio arwain at swyddi yw'r ymrwymiad i ddatblygu ynni yn aber afon Hafren, o forglawdd Shoots yn ddelfrydol. Bu Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cydweithio â chynghorwyr ac Aelodau Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol ar draws yr aber i wneud ymchwiliad, a barodd flwyddyn, i'r math o ddulliau datblygu ynni a fyddai'n gweddu i aber afon Hafren yn ôl y dystiolaeth a gawsom. Yn ogystal â'r morglawdd, ein casgliad oedd y byddai gosod tyrbinau gwynt, creu morlyn peilot a chreigres yn darparu'r mewn cynhyrchu ynni. Byddai hynny'n helpu cael yr ateb gorau a'r ateb mwyaf cynaliadwy o safbwynt amgylcheddol yn yr aber.

Credwn y gallem sicrhau cydweithio gan ddefnyddio'r grant arloesi, oherwydd mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd wrthi'n gweithio ar hyn o bryd ar dyrbinau tanddwr, ac maent yn nesáu'n gyflym at gynyrech a allai fod yn ymarferol yn fasnachol. Mae hon yn sefyllfa amlwg lle mae cydweithio nid yn unig yn bosibl ond hefyd yn rhesymegol. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth wedi dylanwadu ar gydweithio, a chredaf fod hwn yn gyfle perffaith i'r Llywodraeth, oherwydd bydd morglawdd arfaethedig afon Hafren, sy'n adeiladwaith mwy o lawer, yn ennill ffafwr y Blaid Lafur yn Llundain.

Mae'r cyswllt rhwng gwaith adeiladu, morglawdd Shoots a'r economi yn glir. Byddai'n arwain at greu swyddi adeiladu, ac yn bwysicaf oll byddai'n creu cyswllt rheilffyrdd cyflym i leihau'r pwysau ar dwnnel Hafren, sy'n 120 mlwydd oed. Byddai'n gyfle i drydaneiddio'r llinell rhwng Llundain a Chaerdydd, gan leihau hyd y daith cymaint â 70 munud, ac o bosibl yn arwain at gynydd mewn twristiaeth. Byddai hefyd yn ei gwneud yn bosibl i Eurostar ddod i Gaerdydd. Byddai cyswllt rheilffyrdd cyflym hefyd yn ddewis amgen gwerthfawr yn lle teithiau byr mewn awyren. Mae La Rance yn

barrage is La Rance in France, which celebrated 30 years of active service in 1996 without a major incident.

In conclusion, I recommend that you look closely at how collaboration through research and development can commercialise much of the intellectual property and skills that we have in our HE establishments, thereby creating green jobs.

Alun Davies: I welcome and follow the remarks made by Mick Bates. In opening the debate, Mike German focused on the work that has been done in Germany to recreate a new economic base. He could equally have referred to China, the United States of America or any other of the economies that are currently investing in a different economy of the future than that with which we have been familiar in the past.

I welcome the opportunity to discuss the Government's commitment to creating a different economic future for Wales as we move out of recession. I welcome what the Government said about its green jobs strategy, although I accept the point that decarbonising the economy is about far more than green jobs—it is about a different way of manufacturing and producing economic wealth.

6.20 p.m.

I would like the Deputy First Minister, in responding to this afternoon's debate, to explain to us how the designation of Wales by the UK Government as a low-carbon economic area will impact on people who have suffered during the recession and how that will link into what the Government has already said about the creation of a low-carbon area in the Heads of the Valleys region. The regeneration of that area has been focusing on it being a low-carbon region. I would be interested to know how those two designations will work together and what that means in practice. I agree with many of the contributions that have been made this afternoon, but we need to stimulate and invest in economic growth—many of the things that Mick Bates referred to in terms of research and development and investing in

Ffrainc yn enghraifft dda o forglawdd llwyddiannus, ac yn 1996 dathlodd 30 mlynedd o weithredu heb helynt mawr.

I gloi, yr wyf yn argymhell y dylech edrych yn fanwl ar y modd y gall cydweithio drwy ymchwil a datblygu fasnacheiddio llawer o'r sgiliau a'r eiddo deallusol sydd gennym yn ein sefydliadau addysg uwch, a thrwy hynny greu swyddi gwyrdd.

Alun Davies: Yr wyf yn croesawu ac yn dilyn y sylwadau a wnaeth Mick Bates. Wrth agor y ddadl, canolbwyntiodd Mike German ar y gwaith sydd wedi'i wneud yn yr Almaen i ail-greu sylfaen economaidd newydd. Gallai fod wedi cyfeirio yn yr un modd at Tsieina, Unol Daleithiau America neu unrhyw rai o'r economïau eraill sy'n buddsoddi ar hyn o bryd mewn economi ar gyfer y dyfodol sy'n wahanol i'r hyn yr ydym wedi bod yn gyfarwydd â hi yn y gorffennol.

Croesawaf y cyfle i drafod ymrwymiad y Llywodraeth i greu dyfodol economaidd gwahanol i Gymru wrth inni symud allan o'r dirwasgiad. Croesawaf yr hyn a ddywedodd y Llywodraeth am ei strategaeth ar swyddi gwyrdd, er fy mod yn derbyn y pwynt bod datgarboneiddio'r economi yn golygu mwy o lawer na swyddi gwyrdd—mae'n golygu ffordd wahanol o weithgynhyrchu a chynhyrchu cyfoeth economaidd.

Hoffwn i'r Dirprwy Brif Weinidog, wrth ymateb i ddadl y prynhawn yma, egluro wrthym sut y bydd dynodi Cymru yn ardal economaidd carbon isel gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar bobl sydd wedi dioddef yn ystod y dirwasgiad, a sut y bydd hynny'n cysylltu â'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i ddweud eisoes am greu ardal carbon isel yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Mae adfywio'r ardal honno wedi bod yn canolbwyntio ar y ffaith ei bod yn rhanbarth carbon isel. Hoffwn wybod sut y bydd y ddau ddynodiad hynny'n gweithio gyda'i gilydd, a beth fydd hynny'n ei olygu yn ymarferol. Cytunaf â llawer o'r cyfraniadau sydd wedi'u gwneud y prynhawn yma, ond mae angen inni ysgogi twf economaidd a buddsoddi ynddo—sy'n cyd-fynd â llawer o'r pethau y cyfeiriodd Mick Bates atynt o ran ymchwil a

higher education. I was delighted to see the appointment of a Deputy Minister for innovation to focus on the Government's work there and I hope that this will be one of the ways in which we will be able to transform our economy in Wales.

We need to change our economic base fundamentally. We have relied on heavy, primary extractive industries to underpin the Welsh economy throughout the modern era. We will not be able to build a green economy on that basis, but we cannot sacrifice people's livelihoods and prosperity in order to do something different. The Government has to strike a difficult balance and I am interested to know where the Government intends to invest, so that people will be able to access high-quality, high-skilled jobs while, at the same time, transforming the nature of our economic base. I have been reading about how different Governments are responding to the recession and investing in new technologies, new products and new manufacturing processes as they come out of the recession. I agree with what was said earlier in this debate about manufacturing. All too often, it is presented as a choice between a green economy and a manufacturing economy. I reject that choice. I believe that we can and need to have a strong manufacturing base in this country, and one that is based on a high level of skills and on creating a different sort of manufacturing. The Government has established a framework for delivery that will support businesses, foster information technology and invest in a more sustainable economy.

I would like to see the Deputy First Minister, in responding to this debate, explain where skills come in to that and the contribution of the education portfolio, because one of the historic fundamental weaknesses of the Welsh economy has been a failure to generate high-quality research and development jobs and institutions in Wales. If we are to ensure that we are able, not so much to generate new green jobs as to decarbonise the economy, research and development must be a fundamental part of

datblygu a buddsoddi mewn addysg uwch. Yr oeddwn yn falch iawn gweld penodi Dirprwy Weinidog dros arloesi i ganolbwyntio ar waith y Llywodraeth yn y maes hwnnw, a gobeithio y bydd hon yn un o'r ffyrdd y gallwn weddnewid ein heconomi yng Nghymru.

Mae angen inni newid ein sylfaen economaidd yn sylfaenol. Yr ydym wedi dibynnu ar ddiwydiannau trwm, diwydiannau cloddio yn bennaf, i gynnal economi Cymru drwy gydol y cyfnod modern. Ni fyddwn yn gallu adeiladu economi werdd ar y sail honno, ond ni allwn aberthu bywoliaeth a ffyniant pobl er mwyn gwneud rhywbeth gwahanol. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau cydbwysedd, sy'n dasg anodd, a byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod ymhle mae'r Llywodraeth yn bwriadu buddsoddi, fel y gall pobl gael gafael ar swyddi o safon sy'n gofyn am hyfedredd, gan weddnewid natur ein sylfaen economaidd ar yr un pryd. Yr wyf wedi bod yn darllen am y modd y mae gwahanol Lywodraethau yn ymateb i'r dirwasgiad ac yn buddsoddi mewn technolegau newydd, cynnyrch newydd a phrosesau gweithgynhyrchu newydd wrth ddod allan o'r dirwasgiad. Cytunaf â'r hyn a ddywedwyd yn gynharach yn y ddadl hon am weithgynhyrchu. Yn rhy aml caiff y mater ei gyflwyno fel dewis rhwng economi werdd ac economi weithgynhyrchu. Yr wyf yn gwrthod y dewis hwnnw. Credaf y gallwn gael sylfaen weithgynhyrchu gref yn y wlad hon yn seiliedig ar lefel uchel o sgiliau ac ar greu gwahanol fath o weithgynhyrchu, a bod angen hynny arnom. Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu fframwaith ar gyfer darparu a fydd yn cefnogi busnesau, yn meithrin technoleg gwybodaeth ac yn buddsoddi mewn economi fwy cynaliadwy.

Hoffwn weld y Dirprwy Brif Weinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn egluro rôl sgiliau yn hynny a chyfraniad y portffolio addysg, oherwydd un o wendidau sylfaenol economi Cymru yn hanesyddol fu methiant i greu swyddi, a sefydliadau ymchwil a datblygu o safon yng Nghymru. Os ydym i sicrhau y gallwn ddatgarboneiddio'r economi, yn fwy felly na chreu swyddi gwyrdd, rhaid i ymchwil a datblygu fod yn rhan hanfodol o hynny. Rhaid inni gysylltu hynny â'r math o sgiliau newydd y bydd arnom eu hangen yn y

that. We have to link that into the sort of new skills that we will need in the future and the new manufacturing processes that will deliver new products to sustain a green economy. That is an ambitious agenda, but, at the same time, issues that have been raised already such as rail, access to broadband and connectivity will be crucial to the economy of the future. Those are issues that have to be brought together in the overall green jobs strategy to ensure that it is a holistic strategy and not simply a way of marketing or branding what we were going to do anyway, because we need a change, a different emphasis and a different approach.

Nick Ramsay: Alun Davies will be pleased to know that I had one of my Tory cut-and-paste speeches ready, but the debate has widened greatly since I prepared that, so I can now dispose of it. I want to return to the basis of the debate, which is an interesting motion and I am grateful to the Liberal Democrats for bringing it forward. The opening motion believes that the road out of the recession lies in creating jobs that invest in the green economy. That encompasses a lot of issues, and we have heard today about green jobs, manufacturing, the future greening of the economy, retrospective greening of the economy and public services, and now energy production as well.

We call in our amendment for a revision of the green jobs strategy, because although it is a great idea, it is questionable in practice. As Alun Davies said, there are questions about implementation, along with other economic factors. We have previously put on record our concerns about the strategy, and I believe that it needs to include far more detail about implementation. This issue will not go away; I am sure that that is why the Liberal Democrats have brought this debate to the Chamber. As we come out of recession, it will not be a question of simply recreating the old jobs and the old scenarios. You cannot do that; you can only go forwards, not backwards, unless you are Doctor Who. In contrast to the slant that Dr Brian Gibbons put on this issue of green jobs earlier, the two can go together; it will not be easy to deliver,

dyfodol, a'r prosesau gweithgynhyrchu newydd a fydd yn darparu cynnyrch newydd i gynnal economi werdd. Mae honno'n agenda uchelgeisiol, ond ar yr un pryd bydd materion sydd wedi'u codi eisoes, megis rheilffyrdd, gallu cael band eang a chysylltedd, yn hanfodol i economi'r dyfodol. Mae'r rheini'n faterion y mae'n rhaid eu tynnu ynghyd yn y strategaeth gyffredinol ar swyddi gwyrdd, er mwyn sicrhau ei bod yn strategaeth gyfannol ac yn fwy na dim ond ffordd i farchnata neu frandio'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud beth bynnag, oherwydd mae arnom angen newid, a gwahanol bwyslais a gwahanol ddull gweithredu.

Nick Ramsay: Bydd Alun Davies yn falch o wybod bod un o'm hareithiau Toriaidd a ailwampwyd yn barod gennyf, ond mae'r ddadl wedi ehangu'n fawr ers imi ei pharatoi, a gallaf gael gwared â hi'n awr, felly. Yr wyf am ddychwelyd at sail y ddadl, sy'n gynnig diddorol, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am ei gyflwyno. Mae'r cynnig agoriadol yn credu mai'r ffordd allan o'r dirwasgiad yw creu swyddi sy'n buddsoddi yn yr economi werdd. Mae hynny'n cwmpasu llawer o faterion, ac yr ydym wedi clywed heddiw am swyddi gwyrdd, gweithgynhyrchu, gwneud yr economi'n fwy gwyrdd yn y dyfodol, cymryd camau ôl-weithredol i wneud yr economi a gwasanaethau cyhoeddus yn fwy gwyrdd, a chynhyrchu ynni'n awr hefyd.

Yn ein gwelliant, yr ydym yn galw am adolygu'r strategaeth swyddi gwyrdd, oherwydd er ei bod yn syniad gwych, mae'n amheus o safbwynt ymarferol. Fel y dywedodd Alun Davies, ceir amheuan ynghylch gweithredu'r strategaeth, ynghyd â ffactorau economaidd eraill. Yr ydym wedi cofnodi ein pryderon am y strategaeth o'r blaen, a chredaf fod angen iddi gynnwys mwy o lawer o fanylion am y dull o'i gweithredu. Ni fydd y broblem hon yn diflannu; yr wyf yn siŵr mai dyna pam mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi dod â'r ddadl hon i'r Siambr. Wrth inni ddod allan o'r dirwasgiad, ni fydd yn fater syml o ail-greu'r hen swyddi a'r hen sefyllfaoedd. Ni allwch wneud hynny; oni bai mai chi yw Doctor Who, ni allwch fynd tuag yn ôl, dim ond tuag ymlaen. Mewn cyferbyniad â'r

but it is something that we have to do.

The debate moved on to energy production, and I know that my side of the Chamber is not always seen as the most pro-wind-energy party in the world. That is actually not the case. Our policy is pro-green energy, but we have issues about the planning system. We constantly try to make that point, but unfortunately, we are not always heard. I believe that the wind strategy should be seen in the context of other areas—none of it can be seen in isolation. Windfarms and tidal power will not go away will not go away. We are certainly not making the best use of tidal power, I agree. Jane Davidson, the Minister for Environment, Sustainability and Housing, arranged for Members representing areas that might be affected by the barrage to liaise on the feasibility study. As someone who was involved in that, I was fascinated by the potential of a barrage, although I was also very cautious about some of the problems associated with it. There is no doubt in my mind that, if we can achieve a balance in terms of energy production and maybe a reef as an option—something that does not jeopardise the environmental benefits of the estuary—then that should be considered.

The redefining of the green jobs strategy, as I said earlier, is essential. Our amendment mentions the issue of public-private partnerships, and we believe that you have to use the private sector on this. You cannot isolate it from the development of green technologies. Earlier in this debate Leanne Wood mentioned the importance of a market economy—actually it was in a previous debate; the different debates that we have had today are all going through my mind, as there is a similar theme running through them. It is about having a market economy, but also an economy where we take action, when necessary, to ensure that new technologies are given the initial impetus that they need to survive, otherwise we will not get anywhere. However, we also have to recognise that

modd yr ystyriodd Dr Brian Gibbons y mater hwn sy'n ymwneud â swyddi gwyrdd, yn gynharach, gall y ddeubeth gyd-fynd â'i gilydd; ni fydd yn hawdd gwneud hynny, ond mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud.

Symudodd y ddadl ymlaen at gynhyrchu ynni, a gwn nad yw fy ochr i o'r Siambr bob amser yn cael ei hystyried fel y blaid fwyaf cefnogol yn y byd i ynni gwynt. Nid yw hynny'n wir mewn gwirionedd. Mae ein polisi o blaid ynni gwyrdd, ond mae'r system gynllunio'n peri anhawster inni. Yr ydym yn ceisio gwneud y pwynt hwnnw'n gyson, ond yn anffodus nid yw ein llais bob amser yn cael ei glywed. Credaf y dylai'r strategaeth ar ynni gwynt gael ei hystyried yng nghydestun meysydd eraill—ni ellir ystyried yr un rhan ohoni ar ei phen ei hun. Ni fydd ffermydd gwynt ac ynni'r llanw yn diflannu. Cytunaf nad ydym, yn bendant, yn defnyddio ynni'r llanw gystal ag y gallem. Trefnodd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, i Aelodau sy'n cynrychioli ardaloedd y gallai'r morglawdd effeithio arnynt gydweithio ar yr astudiaeth ddichonoldeb. Fel un a fu'n ymwneud â hynny, yr oedd gennyf ddi-ddordeb mawr ym mhotensial morglawdd, er fy mod hefyd yn wylidwrus iawn o rai o'r problemau sy'n gysylltiedig ag ef. Os gallwn sicrhau cydbwysedd o ran cynhyrchu ynni, ac ystyried creigres fel dewis, efallai—rhywbeth nad yw'n peryglu nodweddiad amgylcheddol yr aber—nid oes gennyf amheuaeth na ddylid ystyried hynny.

Fel y dywedais yn gynharach, mae ailddiffinio'r strategaeth ar swyddi gwyrdd yn hanfodol. Mae ein gwelliant yn sôn am bartneriaethau cyhoeddus-preifat, a chredwn ei bod yn rhaid ichi ddefnyddio'r sector preifat ar gyfer hyn. Ni allwch ei gadw allan o ddatblygiad technolegau gwyrdd. Yn gynharach yn y ddadl hon soniodd Leanne Wood am bwysigrwydd economi'r farchnad—a dweud y gwir, mewn dadl flaenorol y soniodd am hynny; mae'r holl wahanol ddadleuon yr ydym wedi'u cael heddiw yn mynd drwy fy meddwl, gan fod thema debyg yn rhedeg drwyddynt. Mae'n golygu cael economi'r farchnad, ond economi hefyd lle'r ydym yn gweithredu, pan fo angen, i sicrhau bod technolegau newydd yn cael yr hwb dechreuol y mae arnynt ei

choice and diversity is key—we need to bring people along with us on that.

This has been a more interesting debate than I initially envisaged because it has covered so many different areas. *[Interruption.]* Well, it has, Alun, and, in fact, your contribution was a case in point. When you stop insulting people, you are quite interesting to listen to.

Finally, a lot of this comes back to mainstreaming. We see these things in isolation, but there is no point in having a strategy sitting on a bookcase in one department if it does not get used by Ministers in other areas. Let us ensure that all Ministers work together to ensure that good practice is passed on and that mainstreaming happens.

Jeff Cuthbert: I agree that this debate is important, and I am grateful to the Liberal Democrats for bringing it forward. I think that we all agree that we need to look towards building a more sustainable economy, one that is fuelled—excuse the pun—by greener jobs.

6.30 p.m.

I agree with Nick Ramsay on one point, which is that one important lesson learned from the recent financial crisis given how it has affected businesses and individuals is that it has taught us that the old ways of doing things cannot continue. We now have an opportunity to gear ourselves up for the future by creating more green jobs. That is why I welcome what the Welsh Assembly Government has done so far to put such arrangements in place. Our economic renewal programme dovetails neatly with our green jobs strategy, which, in turn, ties in nicely with the fact that Wales will soon become a low-carbon economic area. The latter, of course, means that we will need to be a lead area in developing alternative fuels, including hydrogen from renewable sources. It also recognises the existing strengths and

angen i oroesi, neu fel arall ni fyddwn yn cyflawni dim. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd sylweddoli bod dewis ac amrywiaeth yn allweddol—mae angen inni gael pobl i'n cefnogi yn hynny o beth.

Mae hon wedi bod yn ddadl fwy diddorol nag a ragwelais i ddechrau, am iddi gwmpasu cynifer o wahanol feysydd. *[Torri ar draws.]* Wel, mae hynny'n wir, Alun, ac a dweud y gwir, yr oedd eich cyfraniad chi'n enghraifft. Pan fyddwch yn rhoi'r gorau i sarhau pobl, mae gennych bethau digon diddorol i'w dweud.

Yn olaf, mae llawer o hyn yn ymwneud â phrif ffrydio. Yr ydym yn gweld y pethau hyn ar wahân i'w gilydd, ond nid oes diben cael strategaeth sy'n eistedd mewn cwpwrdd llyfrau mewn un adran os na chaiff ei defnyddio gan Weinidogion mewn meysydd eraill. Gadewch inni sicrhau bod y Gweinidogion i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod arfer da yn cael ei drosglwyddo a bod prif ffrydio'n digwydd.

Jeff Cuthbert: Cytunaf fod y ddadl hon yn bwysig, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am ei chyflwyno. Credaf ein bod i gyd yn cytuno bod angen inni edrych tuag at adeiladu economi fwy cynaliadwy, un sy'n cael ei hybu gan swyddi gwyrddaxh.

Cytunaf â Nick Ramsay ar un pwynt, sef mai un wers bwysig a ddysgwyd o'r argyfwng ariannol diweddar, o ystyried y modd y mae wedi effeithio ar fusnesau ac unigolion, yw ei fod wedi ein dysgu na all yr hen ffyrdd o wneud pethau barhau. Mae gennym gyfle'n awr i ymbaratoi hunain ar gyfer y dyfodol drwy greu mwy o swyddi gwyrdd. Dyna pam yr wyf yn croesawu'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud hyd yma i roi trefniadau o'r fath ar waith. Mae ein rhaglen i adnewyddu'r economi yn asio'n dwt â'n strategaeth ar swyddi gwyrdd, sydd, yn ei thro, yn cyd-fynd yn daclus â'r ffaith y bydd Cymru'n dod yn ardal economaidd carbon isel cyn hir. Mae'r olaf, wrth gwrs, yn golygu y bydd angen inni fod yn ardal flaenllaw o ran datblygu mathau amgen o danwydd, gan gynnwys hydrogen o ffynonellau

expertise in Wales in the industrial production and use of hydrogen, as well as its involvement in developing renewable alternative fuels. Of course, in the context of strength and expertise, we cannot ignore the crucial issue of skills. If we are to create a green economy, we must invest in our human capital by ensuring that our workforce has the necessary skills to be ready to adapt.

While I am on the subject of the resources that we have already, we cannot ignore one of our most abundant natural resources, particularly in the south Wales Valleys: coal. I am, of course, referring to clean coal technology, and I urge the Welsh Assembly Government at least to consider whether use could be made of this innovative technology in Wales. I do not underestimate the potential magnitude of such an undertaking, and I realise that much research needs to be done into the environmental costs and benefits, let alone the economic viability of clean coal. I believe that there is only one clean coal power station currently operating in Europe, and that is state owned. It would require a huge investment, but it would make sense for us at least to look into this technology, given that we still have an awful lot of coal underneath us.

I welcome the Government's amendment to the motion today, as it demonstrates the consistency of approach in the three strategies and policy initiatives that I have mentioned. Creating these jobs and the skills be required for them will be the big strategic challenge for our economic management over the next two years. However, it is a human, capital and environmental investment that is well worth making.

Mohammad Asghar: I am grateful for the opportunity to contribute to this special debate from the Liberal Democrats. The debate is not just about the future of our nation, as the future of the world is also dependent on green employment. However, we have missed a trick in Wales, because although we have the technology for producing aircraft wings for Airbus in north

adnewyddadwy. Mae hefyd yn cydnabod y cryfderau a'r arbenigedd sydd yng Nghymru o ran cynhyrchu a defnyddio hydrogen ar raddfa ddiwydiannol, yn ogystal â'i ran mewn datblygu mathau amgen o danwydd adnewyddadwy. Wrth gwrs, yng nghydestun cryfder ac arbenigedd ni allwn anwybyddu sgiliau, sy'n fater hollbwysig. Os ydym i greu economi werdd, rhaid inni fuddsoddi yn ein cyfalaf dynol drwy sicrhau bod gan ein gweithlu y sgiliau angenrheidiol i fod yn barod i addasu.

A sôn am yr adnoddau sydd gennym eisoes, ni allwn anwybyddu un o'n hadnoddau naturiol mwyaf helaeth, yn enwedig yng nghymoedd y de, sef glo. Yr wyf, wrth gwrs, yn cyfeirio at dechnoleg glo glân, ac yr wyf yn annog Llywodraeth y Cynulliad i o leiaf ystyried a ellid defnyddio'r dechnoleg arloesol hon yng Nghymru. Nid wyf yn bychanu maint posibl gwaith o'r fath, ac yr wyf yn sylweddoli bod angen ymchwilio llawer i'r costau a'r manteision amgylcheddol, heb sôn am hyfywedd economaidd glo glân. Credaf mai un orsaf pŵer glo glân yn unig sydd ar waith yn Ewrop ar hyn o bryd, a'r wladwriaeth sy'n berchen arni. Byddai'n golygu buddsoddiad enfawr, ond byddai'n gwneud synnwyr inni o leiaf edrych ar y dechnoleg hon, o gofio bod gennym lawer iawn o lo oddi tanom o hyd.

Yr wyf yn croesawu gwelliant y Llywodraeth i'r cynnig heddiw, gan ei fod yn dangos cysondeb yn null gweithredu'r tair strategaeth a'r fenter polisi yr wyf wedi sôn amdanynt. Creu'r swyddi hyn a'r sgiliau a fydd yn ofynnol ar eu cyfer fydd yr her strategol fawr inni mewn rheoli economaidd dros y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'n fuddsoddiad y mae'n werth ei wneud yn wirioneddol o safbwynt pobl, cyfalaf a'r amgylchedd.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl arbennig hon gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid sôn am ddyfodol ein cenedl yn unig y mae'r ddadl hon, oherwydd mae dyfodol y byd hefyd yn dibynnu ar gyflogaeth werdd. Fodd bynnag, yr ydym wedi colli cyfle yng Nghymru, oherwydd, er bod gennym y dechnoleg i gynhyrchu adenydd awyrennau ar gyfer

Wales, we are not using it to produce wind turbines. Some of the Scandinavian countries are miles ahead of us in the economic development of that field, and their economies are being boosted.

There can be no doubt that the recession has been devastating for Wales. Among the biggest problems currently facing our nation is unemployment, and that has been the case for a while. During Tuesday's questions to the First Minister, Carwyn Jones said that we were seeing an upturn in the Welsh economy. However, we should still be concerned because Wales's unemployment levels are worryingly high. As we have heard on many occasions, the figures show that unemployment in Wales is higher than it is in any other UK region. For that reason, any opportunity—whether green, yellow or blue in political colour—to create jobs by investing in the green economy should be welcomed. The green jobs strategy not only targets economic recovery, but also aims to strengthen Wales's commitment to combat the causes and impacts of climate change. Those are fantastic statements that I am sure everyone in the National Assembly wants to see become a reality. For that reason, parts of the document provide a promising read.

The strategy promises to provide support for the greening of existing jobs, to provide support towards stimulating new green jobs, and to pave the way towards strengthening the low-carbon sector in Wales. These are bold statements and, if put into practice, they would be highly beneficial to Wales and the Welsh economy. However, I give my full support to Alun Cairns's amendment to this motion, which highlights the report's lack of strategic direction. The report lacks outcomes that we can measure. For that reason, it should be redrafted so that clearer targets are set. It is too vague. It is imperative that we keep businesses and the people of Wales informed of the success of this strategy. That should be done by outlining clear targets and, later, by publishing figures showing whether these targets have been met.

Airbus yn y gogledd, nid ydym yn ei defnyddio i gynhyrchu tyrbinau gwynt. Mae rhai o wledydd Llychlyn ymhell ar y blaen inni o safbwynt datblygu economaidd yn y maes hwnnw, ac mae eu heconomïau'n cael eu hybu.

Nid oes amheuaeth nad yw'r dirwasgiad wedi bod yn ddinistriol i Gymru. Ymhlith y problemau mwyaf sy'n wynebu ein cenedl ar hyn o bryd y mae diweithdra, a bu'n broblem ers tro. Yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog ddydd Mawrth, dywedodd Carwyn Jones ein bod yn gweld gwelliant yn economi Cymru. Fodd bynnag, mae lle i ofidio o hyd, oherwydd mae lefelau diweithdra Cymru yn bryderus o uchel. Fel yr ydym wedi clywed droeon, mae'r ffigurau'n dangos bod diweithdra yng Nghymru yn uwch nag y mae mewn unrhyw ranbarth arall yn y DU. Am y rheswm hwnnw, dylid croesawu unrhyw gyfle—boed yn wyrdd, yn felyn neu'n las o ran lliw gwleidyddol—i greu swyddi drwy fuddsoddi yn yr economi werdd. Yn ogystal â thargeddu adferiad economaidd, mae'r strategaeth swyddi gwyrdd hefyd yn ceisio cryfhau ymrwymiad Cymru i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r rheini'n ddatganiadau gwych, ac yr wyf yn siŵr bod pawb yn y Cynulliad Cenedlaethol am eu gweld yn cael eu gwireddu. Am y rheswm hwnnw, mae rhannau o'r ddogfen yn addawol i'w darllen.

Mae'r strategaeth yn addo darparu cymorth i wneud swyddi presennol yn fwy gwyrdd, darparu cymorth i ysgogi swyddi gwyrdd newydd, a pharatoi'r ffordd ar gyfer cryfhau'r sector carbon isel yng Nghymru. Mae'r rhain yn ddatganiadau beiddgar, ac o'u gweithredu byddent o fudd mawr i Gymru a'i heconomi. Fodd bynnag, yr wyf yn cefnogi'n llwyr y gwelliant gan Alun Cairns i'r cynnig hwn, sy'n tynnu sylw at ddiffyg cyfeiriad strategol yr adroddiad. Nid oes yn y mesur ddigon o ganlyniadau y gallwn eu mesur. Am y rheswm hwnnw, dylid ei ailddrafftio fel y caiff targedau cliriach eu gosod. Mae'n rhy amwys. Mae o'r pwys mwyaf inni rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda busnesau a phobl Cymru am lwyddiant y strategaeth hon. Dylid gwneud hynny drwy amlinellu targedau clir, ac yn ddiweddarach, drwy gyhoeddi ffigurau sy'n dangos a yw'r targedau hynny wedi'u cyrraedd.

As I have said, unemployment in Wales remains a huge worry. A lack of job vacancies is one of the main worries that I hear from constituents across South Wales East. All Members are probably hearing the same. I call upon the Welsh Assembly Government to be bold and to redraft the green jobs strategy. We must be ambitious in our vision for the environment, and we must do all that we can to reduce the problems of unemployment. Let us see a green jobs strategy that reflects those aims and sets clear, rigid benchmarks for success.

Gareth Jones: Mae'r sefyllfa economaidd bresennol wedi gorfodi blaenoriaethau gwahanol ar Lywodraethau byd-eang, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Bellach, nid ymateb i oblygiadau y newid yn yr hinsawdd yw'r brif flaenoriaeth, ond adfer economi Cymru tra ydym yn chwarae ein rhan wrth ymateb i her cynhesu byd-eang. O ystyried mor ddibynnol yr ydym ar olew a glo yng Nghymru, mae'r her newydd yn anodd, ond mae hefyd yn cynnig cyfle euraidd inni ddelio â'r sialens economaidd gyfredol a hirdymor. Rhaid inni adfer yr economi Gymreig drwy chwarae ein rhan yn yr ymdrechion byd-eang i ddelio â'r newid yn yr hinsawdd. Mae sawl siaradwr y prynhawn yma wedi cyfeirio at y sefyllfa newydd hon. Yr ydym mewn sefyllfa newydd, a rhaid inni wynebu hynny.

A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, yr wyf wedi clywed a darllen tystiolaeth gan nifer o fudiadau ac unigolion ynghylch creu amodau ar gyfer ffyniant yn y sector gwyrdd. Mae'n bwysig pwysleisio mai creu swyddi gwyrdd yn y sector gwyrdd yw prif ffocws y pwyllgor yn hytrach na throi busnesau presennol yn fwy gwyrdd—hynny yw, creu sector newydd sbon i greu swyddi ar gyfer yr hirdymor. Er na allaf ymhelaethu ar argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor Menter a Dysgu, gan eu bod wrthi'n cael eu drafftio yn awr, yr wyf eisiau rhannu un darn o dystiolaeth lafar a roddwyd i'r pwyllgor gan y Dr Calvin Jones o Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, ac mae sawl Aelod eisoes wedi cyfeirio ato heddiw.

Fel yr wyf wedi'i ddweud, mae diweithdra yng Nghymru yn dal yn bryder enfawr. Diffyg swyddi gwag yw un o'r prif bryderon a glywaf gan etholwyr ar draws Dwyrain De Cymru. Mae'n sicr fod pob Aelod yn clywed yr un peth. Galwaf ar Lywodraeth y Cynulliad i fod yn feiddgar ac ailddrafftio'r strategaeth ar swyddi gwyrdd. Rhaid inni fod yn uchelgeisiol yn ein gweledigaeth ar gyfer yr amgylchedd, a rhaid inni wneud popeth a fedrwn i leihau problemau diweithdra. Gadewch inni weld strategaeth ar swyddi gwyrdd sy'n adlewyrchu'r nodau hynny ac sy'n gosod meincnodau clir a chaeth ar gyfer llwyddiant.

Gareth Jones: The current economic situation has forced Governments throughout the world, including the Government of Wales, to reprioritise. By now, responding to the implications of climate change is not the main priority, but reinstating the Welsh economy while we play our part in responding to the challenges of global warming. Bearing in mind how dependent on oil and coal we are in Wales, this new challenge will be very difficult, but it also presents us with a golden opportunity to get to grips with the current and long-term economic challenge. We must allow the Welsh economy to recover by playing our part in the global efforts to tackle the effects of climate change. Several speakers this afternoon have referred to that new situation. We are in a new situation, and we have to face it.

As Chair of the Enterprise and Learning Committee, I have heard and read evidence from many organisations and individuals about creating the conditions for prosperity in the green sector. It is important to emphasise that the committee's main focus is on the creation of green jobs in that sector rather than greening existing businesses—that is, creating a brand-new sector to create jobs for the long term. Although I cannot expand on the recommendations and conclusions of the Enterprise and Learning Committee, as they are being drafted as we speak, I want to share one piece of oral evidence that was given to the committee by Dr Calvin Jones of Cardiff University's Business School, and some Members have already referred to him today.

Dr Jones told us that it is probably been almost 200 years since Wales was at the forefront of any technological development.

‘Since then, I cannot think of an area where this small, peripheral regional economy has stolen a march on larger areas where agglomeration economies and economies of scale bring a critical mass of development, intellectual capital, patent applications and innovation to develop new technologies and approaches to tackle problems.’

In his representations, Dr Jones articulates that the creation of green jobs is not an end in itself, but that the ingenuity and the rise in patents and related spin-offs that occur in a nation or region at the forefront of modern economic development have far-reaching social and economic benefits.

I welcome the One Wales Government’s recent green jobs strategy, which sets the foundations and could create the climate, if you will pardon the pun, for a thriving green economy in Wales. However, to refer to something that, in fairness, Nick Ramsay mentioned, I was interested during the deliberations of the Enterprise and Learning Committee to hear the concerns of some in the field that more could be done to secure joined-up integrated working between Assembly Government departments. Strategies for the environment, sustainability, housing, children, education, lifelong learning, skills, the economy, and transport need to be aligned and co-ordinated.

6.40 p.m.

Therefore, I support Jane Hutt’s amendment to the motion, and I urge colleagues to oppose the amendments tabled by the Conservatives. In particular, amendment 3 would result in a needless process, and it misses the entire purpose of the green jobs strategy. It is there to provide an overarching strategy to transform Wales into a low-carbon economy. Overall strategic direction will be explored further through the economic renewal programme. If we grasp this chance and take full advantage of the opportunities

Dyweddod Dr Jones wrthym ei bod yn debyg bod bron i 200 mlynedd ers i Gymru arwain unrhyw ddatblygiad technolegol:

Ers hynny, ni allaf feddwl am faes lle mae’r economi ranbarthol, fach ac ymylol hon wedi achub y blaen ar ardaloedd mwy lle mae economïau clystyru ac arbedion maint yn dod â màs critigol o ddatblygiad, cyfalaf deallusol, ceisiadau am batentau ac arloesedd i ddatblygu technolegau a dulliau newydd o fynd i’r afael â phroblemau.

Yn ei sylwadau, mae Dr Jones yn dweud nad yw creu swyddi gwyrdd yn nod ynddo’i hun, ond bod manteision economaidd a chymdeithasol pellgyrhaeddol i’r dyfeisgarwch a’r cynnydd mewn patentau, a’r datblygiadau sy’n deillio o hynny, mewn cenedl neu ranbarth sy’n arwain gwaith datblygu economaidd modern.

Croesawaf strategaeth swyddi gwyrdd ddiweddar Llywodraeth Cymru’n Un, sy’n gosod y sylfeini ac a allai greu’r hinsawdd, os maddeuwch y gair mwys, ar gyfer economi werdd ffyniannus yng Nghymru. Fodd bynnag, i gyfeirio at rywbeth y soniodd Nick Ramsay amdano er tegwch, yr oedd gennyf ddi-ddordeb, yn ystod trafodaethau’r Pwyllgor Menter a Dysgu, mewn clywed pryderon rhai yn y maes a oedd yn dweud y gellid gwneud mwy i sicrhau gwaith integredig cydgysylltiedig rhwng adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Mae angen i strategaethau ar gyfer yr amgylchedd, cynaliadwyedd, tai, plant, addysg, dysgu gydol oes, sgiliau, yr economi, a thrafnidiaeth, gydredeg a chydgyssylltu â’i gilydd.

Felly, yr wyf yn cefnogi gwelliant Jane Hutt i’r cynnig, ac anogaf gydweithwyr i wrthwynebu’r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr. Yn benodol, byddai gwelliant 3 yn arwain at broses ddiangen, ac mae’n dangos diffyg dealltwriaeth o holl ddiben y strategaeth swyddi gwyrdd. Ei bwriad yw darparu strategaeth drosfwaol i weddnewid Cymru yn economi carbon isel. Bydd y cyfeiriad strategol cyffredinol yn cael ei archwilio ymhellach drwy’r rhaglen adnewyddu’r economi. Os achubwn ar y

that the green economy offers, we could see Wales, as Dr Calvin Jones put it, enjoying a critical mass of development, intellectual capital and innovation to develop new technologies.

